Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD MAWRTH<br>27 MEHEFIN 2023<br>10.00 o'r gloch** | **TUESDAY<br>27 JUNE 2023<br>10.00 am** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1 AC YN RHITHWIR** | **HYBRID MEETING – VIRTUAL AND IN COMMITTEE ROOM 1** |

| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Neville Evans, Carwyn E Jones, Llinos Medi, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Rhys Thomas, Sedd Wag/Vacant Seat

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 30 Mai 2023.

**4** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 7 - 20)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

**5** **CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL - CHWARTER 4, 2022/23** (Tudalennau 21 - 36)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Porffesiwn – AD a Thrawsnewid.

**6** **DOGFEN GYFLAWNI FLYNYDDOL 2023/24** (Tudalennau 37 - 50)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.

**7** **MONITRO CYLLIDEB REFENIW - ALLDRO 2022/23** (Tudalennau 51 - 76)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8** **ALLDRO CYFALAF, 2022/23** (Tudalennau 77 - 98)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151**.**

**9** **ALLDRO Y CYFRIF REFENIW TAI 2022/23** (Tudalennau 99 - 108)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**10** **ASESIAD DIGONOLRWYDD GOFAL PLANT** (Tudalennau 109 - 232)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

**11** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 233 - 234)

Ystyried mabwysiadau'r canlynol –

"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae modd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd eithriad ohoni."

**12** **DATBLYGIAD TAI CYNGOR NEWYDD - STAD PARC Y COED, LLANGEFNI (GWEDD 4)** (Tudalennau 235 - 240)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

This page is intentionally left blank

DRAFT

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 30 Mai, 2023

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Dirprwy Arweinydd) (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Neville Evans, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Democratiaeth<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ)<br>Rheolwr Gwasanaethau Plant Dros Dro (SA)<br>Swyddog Pwyllgorau (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Llinos Medi, Carwyn Jones, Dafydd Rhys Thomas<br>Mr Dylan Williams (Prif Weithredwr) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Geraint Bebb, Douglas Fowlie, Glyn Haynes, Aled M. Jones, R. Llewelyn Jones, Derek Owen |

---

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Fe wnaeth y canlynol ddatgan diddordeb personol yn unig mewn perthynas ag eitem rhif 5 ar yr agenda–

Y Cynghorydd Neville Evans fel Cadeirydd y Mannau Cynnes, a sefydlwyd gan Medrwn Môn, y cyfeirir atynt yn yr adroddiad.
Y Cynghorydd Ieuan Williams hefyd oherwydd ei fod yn Gadeirydd lleoliad Man Cynnes.
Y Cynghorydd Nicola Roberts gan ei bod yn aelod o CAB Ynys Môn y cyfeirir ato yn yr adroddiad.
Y Cynghorydd Robin Williams gan ei fod ef a'i wraig yn cael eu cyflogi gan Bwyd Da Môn y cyfeirir ato yn yr adroddiad.

### 2. MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG

Dim i'w hadrodd.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2023 i'w cadarnhau.

**Penderfynwyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2023 yn gofnod cywir.**

## 4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd, i'w gadarnhau, adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod Mehefin, 2023 i Ionawr, 2024.

Rhoddodd y Pennaeth Democratiaeth ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith a nodwyd y newidiadau canlynol mewn perthynas â'r Flaen Raglen Waith–

- Mae Eitem 7 (Ymateb i'r Her Dai Lleol – Datblygiadau tai dros 10 uned: Stad Parc y Coed, Llangefni, Cam 4) wedi'i hychwanegu fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 27 Mehefin, 2023.
- Mae Eitem 10 (Cynllun Deisebau) wedi'i hychwanegu fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 18 Gorffennaf, 2023.
- Mae Eitem 11 (Newid I'r Cyfansoddiad – Ehangu cylch gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd) wedi'i hychwanegu fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 18 Gorffennaf, 2023.
- Mae Eitem 12 (Dogfen Gyflawni Flynyddol 2023/24) wedi'i hychwanegu fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 18 Gorffennaf, 2023.
- Mae Eitem 16 (Adolygu Dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn) wedi'i hychwanegu fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 18 Gorffennaf, 2023.
- Mae Eitem 22 (Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2022/23) wedi'i hychwanegu fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 26 Medi, 2023.
- Mae Eitem 31 (Cynllun Bioamrywiaeth – Cynllun Cynnydd Blynyddol) wedi'i hychwanegu fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 12 Rhagfyr, 2023.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Mehefin, 2023 i Ionawr, 2024 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 5. CYNLLUN DEWISOL COSTAU BYW – ADRODDIAD TERFYNOL

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, er gwybodaeth i'r Pwyllgor Gwaith, a oedd yn nodi sut y cafodd y cyllid grant a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Cynllun Dewisol Costau Byw i helpu trigolion lleol gyda'r argyfwng costau byw ei wario ar Ynys Môn. Roedd yr adroddiad yn nodi'r gefnogaeth a ddarparwyd o dan y cynllun dau gam a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith (28 Mehefin, 2022 a 24 Ionawr, 2023) a'r arian a ddyrannwyd.

Adroddodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid bod Llywodraeth Cymru wedi darparu swm o £585,163 ac roedd modd ychwanegu unrhyw danwariant o'r cynllun Costau Byw cenedlaethol at y cyllid hwnnw yn ogystal. O dan y cynllun cenedlaethol, derbyniodd 21,906 o breswylwyr daliad o £150, ni wnaeth 999 gyfnewid y daleb a anfonwyd atynt am arian ac, oherwydd hynny, trosglwyddwyd £149,780 i'r cynllun dewisol. Roedd hyn yn golygu fod cyfanswm o £734,943 o gyllid ar gael ar gyfer y cynllun. Gan ei fod yn gynllun dewisol lleol, roedd modd i'r Cyngor ddewis sut i ddefnyddio'r grant a thra bod nifer o awdurdodau yng Nghymru wedi defnyddio'r arian i ddyrannu grantiau ychwanegol i grwpiau penodol o breswylwyr, penderfynodd y Cyngor fod yn fwy creadigol a defnyddio dull wedi'i dargedu a oedd yn cyfeirio'r cyllid at feysydd a oedd yn darparu'r budd mwyaf i bobl a oedd fwyaf angen cymorth yn ystod yr argyfwng costau byw yn cynnwys dosbarthu cyllid i sefydliadau trydydd parti (e.e. Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog, y Samariaid a Banciau Bwyd) sydd yn y sefyllfa orau i adnabod pwy sydd fwyaf angen cymorth. Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid ei fod yn falch o gadarnhau bod yr holl gyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei ddefnyddio yn unol â thelerau ac amodau'r grant ac er nad ydi pob sefydliad

wedi rhannu'r holl gyllid yr oeddent wedi'i dderbyn cyn 31 Mawrth, 2023, o dan amodau'r grant, bydd modd iddynt gadw unrhyw gyllid sydd heb ei ddefnyddio i roi help cyllidol i unrhyw ymgeisydd newydd a ddaw ymlaen ar yr amod eu bod yn bodloni'r gofynion sy'n ymwneud â'r cyllid a ddarperir. Manteisiodd y Cynghorydd Robin Williams ar y cyfle ddiolch i bawb o'r Gwasanaeth Cyllid a'r Gwasanaethau Tai a oedd wedi bod ynghlwm â'r gwaith o sefydlu a chyflawni'r cynllun.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ei fod yn gobeithio bod yr adroddiad yn dangos bod y Cyngor wedi bod yn greadigol wth ddefnyddio'r cyllid a oedd ar gael iddo er mwyn darparu'r budd mwyaf i'r rheiny sydd fwyaf angen cymorth a dywedodd bod rhaid diolch yn bennaf i Llinos Williams, Rheolwr Tai Cymunedol y Gwasanaeth Tai am weithio'n galed i gysylltu â'r sefydliadau er mwyn rhannu'r cyllid.

Mynegodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith eu diolch a'u gwerthfawrogiad i Llinos Williams a'r tîm yn y Gwasanaethau Tai yn ogystal â'r Gwasanaeth Cyllid am eu menter, ac am wneud eu gorau glas i sicrhau bod y cyllid grant yn cael ei ddefnyddio lle yr oedd yr angen mwyaf ar Ynys Môn.

**Penderfynwyd nodi cynnwys yr adroddiad sydd yn cadarnhau fod yr holl gyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei ddefnyddio yn unol â thelerau ac amodau'r grant.**

## 6. STRATEGAETH PLANT SY'N DERBYN GOFAL AC ÔL-OFAL 2023-2028

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, a oedd yn cynnwys Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal ac Ôl-ofal 2023-2028, i'w ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Gary Pritchard, Aelod Portffolio Plant, Ieuenctid a Gwasanaethau Tai ac fe amlygodd mai bod yn rhiant corfforaethol i'r plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod yw un o ddyletswyddau pwysicaf y cynghorydd; mae'n golygu gwneud ein gorau ar gyfer y plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod yn yr un modd ag y byddai unrhyw riant yn ei wneud ar gyfer ei blentyn ei hun. Fe ddylai pob plentyn a pherson ifanc ar Ynys Môn gael y dechrau gorau posib mewn bywyd a dylid rhoi pob cyfle iddynt ffynnu, ac fel rhiant corfforaethol gweledigaeth y Cyngor yw sicrhau nad yw plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn wahanol a'u bod yn derbyn yr un gefnogaeth. Dywedodd y Cynghorydd Gary Pritchard bod hon yn strategaeth gyntaf o'i math i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Ynys Môn a'i bod o ganlyniad i adolygiad archwilio mewnol a ddaeth i'r casgliad er bod y Panel Rhiant Corfforaethol yn gweithio'n dda bod angen strategaeth i roi cyfeiriad a ffocws i'r gwaith. Mae'r Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal ac Ôl-ofal wedi'i chynhyrchu i nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu mynd ati i herio'i hun fel rhiant corfforaethol dros y pum mlynedd nesaf a chafodd ei datblygu gyda chyfraniad y Panel Rhiantu Corfforaethol. Mae'n ddogfen weithredol a bydd y Panel yn derbyn adroddiad blynyddol arni ac yna'r Pwyllgor Gwaith. Pwysleisiodd y Cynghorydd Pritchard bod rhiantu corfforaethol yn gyfrifoldeb i bawb yn y Cyngor ac nid dim ond yr Aelod Portffolio, y Pwyllgor Gwaith a'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd ac felly mae'r strategaeth yn berthnasol i'r holl Gyngor a phob aelod etholedig.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i bawb a oedd wedi cyfannu at ddatblygu'r strategaeth. Cadarnhaodd bod gan y Cyngor 150 o blant sy'n derbyn gofal a 63 sy'n gadael gofal a'u bod wedi dod mewn i ofal nid drwy ddewis ond oherwydd amgylchiadau lle bu'n rhaid i'r Awdurdod ymyrryd. Mae'n briodol felly bod y Cyngor yn gwneud ei orau ar gyfer y plant a'r bobl ifanc yma a'u bod yn derbyn y gofal a sylw angenrheidiol ganddo. Mae cymeradwyo'r strategaeth yn nodi dechrau'r daith a bydd adroddiadau blynyddol yn cael eu cyhoeddi ar y modd y mae'r Cyngor yn cwrdd â blaenoriaethau'r strategaeth. Adroddodd y Cynghorydd Douglas Fowlie, Cadeirydd y



DRAFT

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol bod y Pwyllgor wedi craffu ar y Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal ac Ôl-ofal yn ei gyfarfod ar 19 Ebrill, 2023. Dywedodd y Cynghorydd Fowlie bod y materion a godwyd gan y Pwyllgor yn ystod y cyfarfod hwnnw yn cynnwys y cyswllt rhwng y Strategaeth a Chynllun newydd y Cyngor ar gyfer 2023-28, fforddiadwyedd y strategaeth yn yr hinsawdd bresennol a'r risgiau a'r mesurau i liniaru'r effaith ar y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal. Holwyd hefyd ynglŷn ag effaith ehangach y strategaeth ar bobl yr Ynys a chyrhaeddiad a chyflawniad y plant sy'n derbyn gofal. Ar ôl ystyried y materion hyn a'r ymatebion a roddwyd, cadarnhaodd y Pwyllgor Sgriwtini ei fod yn fodlon â chynnwys y strategaeth a'i argymell i'r Pwyllgor Gwaith.

Fe wnaeth y Pwyllgor Gwaith gydnabod pwysigrwydd y strategaeth a chyfrifoldeb pob aelod etholedig fel rhiant corfforaethol i sicrhau bod y Cyngor yn nodi a diwallu anghenion y plant a'r bobl ifanc sydd dan ei ofal. Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams bod y strategaeth wedi cael ei chreu oherwydd bod y Cyngor wedi penderfynu ar ei liwt ei hun i adolygu ei drefniadau rhiantu corfforaethol ac wrth wneud hynny ei fod wedi cydnabod ei fod angen strategaeth i nodi ei weledigaeth yn ffurfiol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc sydd dan ei ofal a sut y bydd yn cyflawni'r weledigaeth honno, sy'n dangos bod y Cyngor yn hunanymwybodol ac yn gallu herio'i hun i wella lle bo angen.

**Penderfynwyd derbyn a chymeradwyo Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal ac Ôl-Ofal Ynys Môn 2023-28.**

## 7. DEFNYDD O ARIAN PREMIWM AIL GARTREFI

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai ar y defnydd arfaethedig o arian Premiwm Ail Gartrefi ar gyfer 2023/24 i'w ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cynlluniau a fyddai'n elwa o'r £1.502m o gyllid sydd a'r gael a'r swm a ddyrannwyd ar gyfer pob cynllun.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Gary Pritchard, Aelod Portffolio Plant, Ieuenctid a Gwasanaethau Tai a ddywedodd bod y Cyngor eisoes wedi cymeradwyo cynyddu'r Premiwm Ail Gartrefi o 50% i 75%. Dywedodd bod y blaid sydd mewn grym wedi addo yn eu maniffesto wrth ymgyrchu yn ystod yr etholiadau'r llynedd y byddant yn sicrhau bod gan bawb rywle i'w alw'n gartref ac fel rhan o'r weledigaeth honno mae'r Weinyddiaeth yn bwriadu defnyddio arian y Premiwm Ail Gartrefi i helpu pobl leol gyda'u hanghenion tai yn cynnwys darparu grantiau i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd a darparu benthyciadau rhannu ecwiti i brynwyr tro cyntaf fel y gallant brynu eiddo ar y farchnad agored. Yn 2023/24 bydd y Cyngor hefyd yn cyflwyno cynllun cymhorthdal i helpu pobl leol fforddio rhenti marchnad agored. Dywedodd y Cynghorydd Pritchard bod y strategaeth hon yn hanfodol er mwyn sicrhau tai ar gyfer pobl Ynys Môn a'i bod yn galluogi'r rheiny sydd â digon o fodd i brynu ail gartref helpu'r rheiny sydd methu fforddio unrhyw gartref o gwbl.

Amlygodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai bod £170k o gyllid ar gael pan gyflwynwyd y Premiwm Ail Gartrefi yn 2017 tra bo'r Gwasanaeth wedi gwario £696k yn y flwyddyn a aeth heibio. Roedd y ffyddiog y byddai'r cynlluniau a oedd wedi'u rhestru yn yr adroddiad yn dwyn ffrwyth gyda'r cyllid ychwanegol sydd ar gael.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid at y £300k sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio ac roedd yn dymuno cael eglurder ynglŷn â sut y byddai'r arian yn cael ei wario. Cadarnhaodd y Cynghorydd Gary Pritchard bod yr arian ar gyfer gwaith angenrheidiol yn gysylltiedig â chyfarwyddiadau Erthygl 4 a dywedodd ei fod wedi ymgynghori â Swyddogion Cynllunio a'r Aelod Portffolio Cynllunio i gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut y bydd y £300k yn cael ei wario.

Felly cynigodd y Cadeirydd, ac roedd pawb yn gytûn, bod y cynlluniau sydd wedi'u rhestru yn adran 10 yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo ac eithrio'r £300k a ddyrannwyd i'r

Gwasanaeth Cynllunio a bod yr Aelodau Portffolio perthnasol yn cytuno i'r dyraniad ar ôl derbyn dadansoddiad manwl.

**Penderfynwyd -**

- **Cymeradwyo defnyddio arian Premiwm Ail Gartrefi ar gyfer y cynlluniau a amlygir ym mharagraff 10 yr adroddiad ar gyfer 2023/24 heblaw am y dyraniad o £300k ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio.**
- **Bod uchafswm y grant sydd ar gael i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd yn cael ei gynyddu i £25,000.**
- **Bod y dyraniad ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio yn cael ei gytuno ar y cyd gan y Deilydd Portffolio Plant, Ieuenctid a Gwasanaethau Tai a'r Deilydd Portffolio Cyllid unwaith y ceir dadansoddiad o'r £300k.**

**Cynghorydd Ieuan Williams**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 27 Mehefin 2023 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Dyfan Sion, Pennaeth Democratiaeth |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

| A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau |
|---|
| Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:<br><br>gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Gorffennaf 2023 – Chwefror 2024;**<br><br>adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;<br><br>nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith. |

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| - |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
| --- |
| Ydy’. |

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | |

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen). |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Gorffennaf 2023 – Chwefror 2024 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
**Cyfnod: Gorffennaf 2023 – Chwefror 2024**

Diweddarwyd 14 Mehefin 2023

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.



Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2023 – Chwefror 2024

Diweddarwyd 14 Mehefin 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Gorffennaf 2023** | | | | |
| 1 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Gorffennaf 2023 | |
| 2 | **Cyfrifon Drafft 2022/23 a defnydd o'r Balansau ac Arian Wrth Gefn** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Gorffennaf 2023 | |
| 3 | **Cynllun Deisebau** | | Busnes y Cyngor | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor a Swyddog Monitro<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Gorffennaf 2023 | Cyngor Llawn<br><br>12 Medi 2023 |
| 4 | **Newid i'r Cyfansoddiad – Ehangu cylch gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democataidd** | | Busnes y Cyngor | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor a Swyddog Monitro<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Gorffennaf 2023 | Cyngor Llawn<br><br>12 Medi 2023 |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

Tudalen 11

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2023 – Chwefror 2024

Diweddarwyd 14 Mehefin 2023

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Dogfen Gyflawni Blynyddol 2023/24** | | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Gorffennaf 2023 | Cyngor Llawn<br><br>12 Medi 2023 |
| 6 | **Cynllun Rheoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) – Drafft terfynol** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Nicola Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 20.06.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Gorffennaf 2023 | Cyngor Llawn<br><br>12 Medi 2023 |
| 7 | **Cynllun Rheoli Cyrchfan – Drafft terfynol** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Neville Evans | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 21.06.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Gorffennaf 2023 | |
| 8 | **Adroddiad Ymgynghori - Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg** | | Dysgu | Marc Berw Hughes Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br><br>Deilydd Portffolio Addysg a'r Gymraeg | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 20.06.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Gorffennaf 2023 | |



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Gorffennaf 2023 – Chwefror 2024

Diweddarwyd 14 Mehefin 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Adolygu Dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn** | | Dysgu | Marc Berw Hughes<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br><br>Deilydd Portffolio Addysg a'r Gymraeg | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Gorffennaf 2023 | |
| 10 | **Porthladd Rhydd Ynys Môn – Llywodraethiant, sefydlu a rhaglen waith** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Gorffennaf 2023 | |
| **Medi 2023** | | | | | | | |
| 11 | **Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd** | Deilydd Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | | Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Medi 2023 | |
| 12 | **Cynllun Trawsnewid Cerbydau Fflyd** | Deilydd Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | | Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Medi 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2023 – Chwefror 2024

Diweddarwyd 14 Mehefin 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 13 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | |
| 14 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2023/24 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>19.09.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | |
| 15 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>07.09.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | |
| 16 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2023/24 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>07.09.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2023 – Chwefror 2024

Diweddarwyd 14 Mehefin 2023

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>07.09.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | |
| 18 | **Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2022/23** | | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | Cyngor Llawn<br><br>26 Hydref 2023 |
| 19 | **Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus 2023-28** | | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | Cyngor Llawn<br><br>26 Hydref 2023 |
| 20 | **Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn – Drafft Terfynol** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>19.04.23<br>19.09.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | |



**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2023 – Chwefror 2024

Diweddarwyd 14 Mehefin 2023

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 | **Prynu Tir Gorfodol – Tir cyflogaeth yn Llangefni** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | |
| | | | | **Hydref 2023** | | | |
| 22 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Hydref 2023 | |
| | | | | **Tachwedd 2023** | | | |
| 23 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |
| 24 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2023/24 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 21.11.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2023 – Chwefror 2024

Diweddarwyd 14 Mehefin 2023

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>08.11.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |
| 26 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2023/24 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>08.11.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |
| 27 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>08.11.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |
| 28 | **Strategaeth Tai Gwag 2023-2028** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>21.11.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2023 – Chwefror 2024

Diweddarwyd 14 Mehefin 2023

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Rhagfyr 2023** | | | |
| 29 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Rhagfyr 2023 | |
| 30 | **Cynllun Bioamrywiaeth – Adroddiad Blynyddol ar Gynnydd** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Nicola Roberts | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Rhagfyr 2023 | |
| | | | | **Ionawr 2024** | | | |
| 31 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ionawr 2024 | |
| 32 | **Strategaeth Gyfalaf** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ionawr 2024 (dyddiad i'w gadarnhau) | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2023 – Chwefror 2024

Diweddarwyd 14 Mehefin 2023

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Chwefror 2024** | | | |
| 33 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 34 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 35 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2023/24 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 36 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2023 – Chwefror 2024

Diweddarwyd 14 Mehefin 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 37 | **Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.01.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 38 | **Strategaeth Rheoli Asedau (Gwasanaeth Tai)** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.01.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 39 | **Asesiad y Farchnad Dai Leol** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.01.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 27 Mehefin 2023 |
| Pwnc / Testun: | Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 4 (2022/23) |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Carwyn E Jones |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Carys Edwards |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Gethin Morgan<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

| A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau |
|---|

**1.1** Hwn yw'r pedwerydd cerdyn sgorio a'r olaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23. Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol.

**1.2** Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â'r perfformiadau ar gyfer y flwyddyn. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- **1.2.1** Canran yr aelwydydd (gyda phlant) a gafodd eu hatal rhag dod yn ddigartref
- **1.2.2** Mae pob un o ddangosyddion y Gwasanaethau Oedolion yn uwch na'r targed ar gyfer y flwyddyn
- **1.2.3** Ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlen
- **1.2.4** Nifer y tai gwag sy'n cael eu defnyddio eto
- **1.2.5** Canran y ffyrdd mewn cyflwr gwael wedi gwella ar draws A, B a C.
- **1.2.6** Nifer yr ymweliadau i ganolfannau hamdden wedi cynyddu i lefelau a welwyd ddiwethaf cyn y pandemig.
- **1.2.7** Canran y strydoedd sy'n lân.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd sydd wedi gwella, ynghyd â'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio i reoli a sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol.

Gellir nodi'r meysydd hyn fel a ganlyn:

- **1.3.1** Canran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen.
- **1.3.2** Y nifer cyfartalog o ddiwrnodau i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl (GCA)
- **1.3.3** Canran yr Apeliadau Cynllunio a Wrthodwyd

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Amherthnasol |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith? |
| --- |
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith |

| Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
| --- |
| Ydi |

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Ydi |

| Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae’r adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn rhoi cipolwg ar berfformiad DPA yn erbyn 3 amcan Cynllyn y Cyngor ar ddiwedd pob chwarter.<br><br>Mae’r 3 amcan, isod, yn ystyried anghenion tymor hir yr Ynys<br><br>1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir<br>2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw’n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl<br>3. Gweithio gyda’n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi’n effeithiol â newid a datblygiadau tra’n gwarchod ein hamgylchedd naturiol<br><br>Mae mesur y DPA yn erbyn pob amcan yn dangos sut mae penderfyniadau'n cael effaith ar ein perfformiad cyfredol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | Gallai perfformiad rhai DPAau o bosibl gael effaith ar gostau yn y dyfodol, ond mae mesurau lliniaru a gynigir yn ceisio lliniaru'r pwysau hyn. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Ymgymerir ag elfennau o'r gwaith sy'n cael ei fonitro yn y Cerdyn Sgorio mewn modd cydweithredol â sefydliadau eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Gyrfa Cymru, Chwaraeon Cymru, GWE, ymhlith eraill. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Amh. |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amh. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amh. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amh. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr Tîm Arweinyddiaeth ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 20/6. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn. |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad A - Cherdyn Sgorio Chwarter 4 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| • Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2022/23 – Chwarter 3 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth 2023 ac a dderbyniwyd ganddo.)<br>• Cynllun Trosiannol Ynys Môn 2022-23<br>• Cynllun y Cyngor 2017-2022 |

**ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 4 (2022/23)**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn drefniadau ar waith sy'n caniatáu i ni gael dealltwriaeth effeithiol o anghenion a blaenoriaethau lleol, ac i wneud y defnydd gorau posib o'r adnoddau a'r capasiti sydd gennym i'w cyflawni a gwerthuso effaith yr hyn a wnawn.

1.2 Roedd ein Cynllun Trawsnewid ar gyfer 2022/2023 yn adnabod anghenion a blaenoriaethau llesiant lleol, ac yn gosod yr amcanion ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd Mawrth 2023. Defnyddir yr adroddiad monitro cerdyn sgorio I fonitro perfformiad ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol dan y cyfnod hwnnw.

1.3 Mae'n amlygu sut rydym yn cyflawni gweithgareddau'r Cyngor o ddydd i ddydd. Mae'n cynnig y deallusrwydd sy'n cefnogi'r gwaith o fabwysiadu dull rhagweithiol mewn perthynas â rheoli perfformiad, ac felly, mae'r adroddiad yn adnabod unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth i yrru a sicrhau gwelliannau ar gyfer y dyfodol.

1.4 Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn rhoi darlun o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, a bydd (ynghyd â'r adroddiad hwn) yn cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod Mehefin 2023.

## 2. CYD-DESTUN

2.1 Mae'r adroddiad, ynghyd â'r cerdyn sgorio, yn rhoi darlun o'r sefyllfa erbyn diwedd y flwyddyn yn erbyn materion sy'n berthnasol i -

2.1.1 Gwasanaeth cwsmer,
2.1.2 Pobl a rheolaeth ariannol
2.1.3 Rheoli perfformiad.

2.2 Cafodd y targedau o fewn yr adroddiad eu hadolygu a'u cytuno gyda phob gwasanaeth, gan gynnwys targedau chwarterol gwahanol yn seiliedig ar berfformiad a thueddiadau hanesyddol.

2.3 Mae'r canlyniadau o fewn y cerdyn sgorio oll yn gronnus, ac oherwydd hyn, bydd y golofn tueddiadau'n llywio perfformiad tueddiadau o un chwarter i'r llall, drwy gydol y flwyddyn.

2.4 Gellir gweld y statws CAG ar gyfer bob adran o'r cerdyn sgorio, ac eithrio rheolaeth ariannol sy'n cael ei gwblhau o safbwynt barn broffesiynol, isod:


- Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
- Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen peth ymyrraeth
- Melyn – o fewn 5% i'r targed
- Gwyrdd – wedi cyrraedd y targed, neu wedi mynd y tu hwnt iddo.

## 3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL

3.1 Braf yw cael nodi bod y rhan fwyaf o'r dangosyddion (80%), y mae eu targedau wedi'u monitro, yn yr adran hon wedi perfformio'n dda yn erbyn targedau (Gwyrdd neu Felyn CAG). Mae rhai o'r uchafbwyntiau wedi'u nodi isod.

3.2 Ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r Cyngor wedi cyrraedd melyn yn erbyn ei ddangosydd perfformiad allweddol presenoldeb staff, gyda 9.15 diwrnod wedi'u colli oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (CALl), yn erbyn targed o 8.75 diwrnod wedi'u colli am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (CALl).

Roedd y perfformiad ar gyfer y flwyddyn hefyd yn cynnwys 0.49 diwrnod a gollwyd oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (CALl) a oedd yn gysylltiedig â choronafeirws ers Hydref 2022. Byddai cael gwared ar absenoldebau sy'n gysylltiedig â choronafeirws, fel y gwnaed ym mis Mawrth 2020, yn arwain at berfformiad o 8.66 diwrnod wedi'u colli am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (CALl). Mae hyn yn cymharu'n ffafriol yn erbyn y blynyddoedd blaenorol a gafodd eu monitro (ac eithrio 2020/21). Mae hyn yn galonogol ac yn dangos ymrwymiad staff.





3.3 Nid oedd y dangosyddion a gafodd eu monitro ar gyfer yr adran Gwasanaeth Cwsmer yn tynnu sylw at unrhyw bryder sylweddol, gyda'r dangosydd yn perfformio'n dda yn erbyn targedau ar y cyfan ac eithrio dangosyddion 04b a 09. Mae stori yn datblygu, a phan geir tystiolaeth i'w phrofi, bydd y galonogol nodi fod mwy o bobl wedi defnyddio swyddogaethau ar y we i dalu am wasanaethau, tra bo nifer y bobl sy'n talu drwy ddefnyddio taliadau tôn gyffwrdd wedi lleihau.

3.3.1 Mae'n hysbys, ac mae'n cael ei gydnabod, fod dangosydd 04b yn heriol oherwydd natur gymhleth y cwynion ac, yn aml, mae angen ymateb gan nifer o asiantaethau. Roedd cyfanswm % yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) yn Goch, gyda

pherfformiad o 70% yn erbyn targed o 80%. Trafodwyd 19 o’r 27 o gwynion a dderbyniwyd gyda’r achwynydd o fewn 5 diwrnod gwaith, ac roedd 6 o’r 8 ymateb ysgrifenedig hwyr wedi’u cytuno gyda’r achwynydd cyn iddynt gael eu nodi fel ymatebion hwyr, fel y nodir yn y protocol cwynion. Fodd bynnag, mae perfformiad o 70% yn gynnydd bychan ar y 66%, fel y gwelwyd ar ddiwedd 2021/22.

3.3.2 Cydnabyddir fod angen gwneud rhagor o waith mewn perthynas â dangosydd 09 – % yr ymatebion Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn yr amserlen – sy’n dangos fod 72% o’r ymatebion o fewn yr amserlen, yn erbyn targed o 80%. Mae’r perfformiad hwn yn debyg i’r perfformiad a welwyd yn yr adroddiad cerdyn sgorio ar gyfer Chwarter 3.

Yn gyfanswm, roedd 854 cais Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn, ac roedd angen ymateb i 843 o’r rheiny. Yr her o 2023/24 ymlaen yw bod y targed yn codi i o leiaf 90%, ac argymhellir fod angen gwneud gwaith pellach i adnabod y mathau o geisiadau sy’n hwyr, pam bod cynnydd yn y ceisiadau, yn enwedig yn ystod Ch4, a lle ellir gwella ymatebion fel bo’r Cyngor mewn sefyllfa well i gyrraedd y targed.




3.4 Ar hyn o bryd, mae’r adran rheolaeth ariannol yn rhagweld tanwariant o £1.212m ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023.

3.5 Croesewir y canlyniad hwn, ac mae’n gwella sefyllfa ariannol y Cyngor.

3.6 Mae tanwariant net wedi cyfrannu at gynnydd ym Malansau Cyffredinol y Cyngor, ac mae swm sylfaenol gwerth £10.2m ar gael, sydd £1.4m yn uwch na’r lleiafswm gwerth a argymhellwyd wrth symud ymlaen (5% o gyllideb refeniw net 2023/24).

3.7 Mae’r sefyllfa ariannol alldro yn dangos galw parhaus am wasanaethau yn enwedig ym meysydd Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd. O ystyried yr argyfwng costau byw presennol, rhagwelir y bydd y pwysau hyn yn parhau yn 2023/24.

3.8 Rhagwelir tanwariant o £13.477m ar y Rhaglen Gyfalaf yn 2022/23 a gallai’r swm lithro i Raglen Gyfalaf 2023/24. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn

hefyd yn llithro i 2023/24 ac mae hynny wedi'i gynnwys yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24.

3.9 Mae'r cyfrifon refeniw a chyfalaf yn cael eu hystyried gan y Panel Sgriwtini Cyllid, a bydd unrhyw danwariant yn destun craffu trylwyr cyn cyflwyno adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar sail chwarterol.

3.10 Mae rhagor o wybodaeth am reolaeth ariannol ar gael yn yr 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer Ch4', 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer Ch4' a'r 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer Ch4' a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 27 Mehefin.

3.11 Mae'r perfformiad cyffredinol o fewn yr adran hon yn dangos y gellir rhoi sicrwydd rhesymol fod gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor, o ran rheoli

- pobl
- cyllid, a
- gwasanaethu ei gwsmeriaid

yn cyflawni yn unol â'r disgwyliadau ac i safon briodol.

Mae hefyd yn darparu sail a thystiolaeth o ethos rheoli perfformiad da sy'n cael ei adlewyrchu yn y ffaith fod y dangosyddion o'r safbwynt hwnnw, yn portreadu perfformiad boddhaol hefyd.

## 4. RHEOLI PERFFORMIAD


4.1 Ar ddiwedd y flwyddyn, mae'n galonogol nodi fod mwyafrif (91%) o'r dangosyddion perfformiad yn yr adran hon perfformio'n well na'r targed neu o fewn 5% i'w targedau. Mae hyn yn cyd-fynd â'r perfformiad a welwyd ar ddiwedd 2021/22.

4.2 Mae'r dangosyddion sy'n gysylltiedig â'n hamcan llesiant, Amcan 1, lle'r ydym yn gweithio i sicrhau fod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir, yn perfformio'n dda ac mae pob dangosydd naill ai'n wyrdd neu'n felyn yn erbyn eu targedau.

4.3 Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd dan yr amcan hwn yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

4.3.1 Mae 100% o ddisgyblion wedi cael eu hasesu yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (dangosydd 4). Mae hyn yn galonogol ac mae'n bodloni disgwyliadau Cynllun Strategol y Cyngor ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg.

4.3.2 Mae 80 eiddo wedi dod yn ôl i ddefnydd yn erbyn targed o 50 (dangosydd 11). Unwaith eto, mae defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor wedi dwyn ffrwyth yn y maes hwn ac mae'n gadarnhaol bod 80 yn llai o dai gwag yn ein cymunedau.




Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd

4.3.3 Mae 72% o gleientiaid a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen NERS wedi cwblhau'r cwrs, ac roedd 78% yn credu fod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd (dangosyddion 9 a 10).

4.3.4 Cafwyd 514k ymweliad â Chanolfannau Hamdden yn ystod y flwyddyn, sy'n gynnydd o 151k yn 2021/22, a dyma'r swm uchaf ers 2018/19. Mae hyn yn dangos fod darparu cyfleusterau a gweithgareddau gwell i drigolion yn ffafriol mewn diwydiant sy'n dod yn fwyfwy cystadleuol.

4.4 Nid oedd gwybodaeth ar gael ar gyfer y dangosyddion canlynol -

4.4.1 Dangosydd 6 – canran y Dangosyddion Ansawdd (gyda thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgell – oherwydd bod yr asesiad wedi'i addasu ar gyfer y flwyddyn er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n adrodd ar yr hyn a oedd yn cael ei ddarparu yn hytrach na chael eu hasesu yn erbyn targedau. Ar adeg ysgrifennu, rydym yn dal i ddisgwyl adroddiad ar safonau'r llyfrgell ar gyfer 2022/23 gan Lywodraeth Cymru.

4.4.2 Dangosydd 14 – canran y tenantiaid oedd yn fodlon ag atgyweiriadau ymatebol (blynyddol) – ni adroddwyd ar hyn oherwydd y materion ynghylch gweithredu'r system Accuserve a'r heriau o ran casglu data arolygon. Mae'r gwasanaeth yn datblygu dull amgen ar gyfer casglu gwybodaeth am fodlonrwydd cwsmeriaid nes bod y problemau gyda'r system wedi'u datrys.


4.5 Mae'r perfformiad yn erbyn y dangosyddion Amcan Llesiant 2, lle'r ydym yn cynorthwyo oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogelu, yn iach ac mor annibynnol â phosib, yn perfformio'n dda unwaith eto. Mae 11 dangosydd yn Wyrdd (73%) ac mae 2 dangosydd (13%) yn Felyn yn erbyn targedau ar gyfer y flwyddyn.

4.6 Enghreifftiau o rai o'r perfformiadau da a welwyd yn ystod y flwyddyn:


4.6.1 Mae dangosyddion y Gwasanaethau Oedolion (Dangosyddion 16 i 19) i gyd yn Wyrdd yn erbyn eu targedau.

4.6.2 Mae pob dangosydd o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (dangosyddion 20 – 25), ac eithrio un, yn uwch, neu o fewn 5% o'r targedau ar gyfer y flwyddyn. Roedd nifer yr ymweliadau statudol ar gyfer

plant sy'n derbyn gofal yn berfformiad da o 93.83% o gymharu â blynyddoedd blaenorol -




4.6.3 Mae'r dangosyddion Digartrefedd (Dangosyddion 26 a 27) ar gyfer y Gwasanaethau Tai wedi perfformio'n dda hefyd gyda'r ddau yn Wyrdd yn erbyn eu targedau. Mae'r cyllid a dargedwyd ar gyfer digartrefedd wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol, gyda 98.45% o gartrefi gyda phlant yn cael eu harbed eleni, o gymharu â'r perfformiad blaenorol.




4.7 Nid oedd gwybodaeth ar gael ar gyfer dangosydd 15 – y gyfradd o bobl a gadwyd mewn Ysbyty tra'n disgwyl am ofal cymdeithasol fesul poblogaeth o 1000 o bobl 75 oed a hŷn. Yn anffodus, nid yw'r bwrdd iechyd lleol wedi darparu'r wybodaeth hon ers mis Mawrth 2020.

4.8 Fodd bynnag, rydym yn nodi bod dau o'r dangosyddion wedi tanberfformio yn ystod y flwyddyn yn erbyn amcan llesiant 2, gyda'r ddau yn Goch yn erbyn eu targedau. Mae'r dangosyddion dan sylw wedi cael eu trafod mewn adroddiadau chwarterol blaenorol drwy gydol y flwyddyn.


4.9 Dangosydd 23 – Mae'r amser cyfartalog a dreuliodd pob plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn, ac a gafodd eu dadgofrestru yn ystod y flwyddyn – yn Goch, gyda pherfformiad o 303 diwrnod yn erbyn targed o 270 diwrnod.

Mae'r perfformiad yn ddirywiad o'r 287 diwrnod a welwyd ar ddiwedd Ch3, er ei fod yn well na'r 318 diwrnod a adroddwyd ar ddiwedd 2021/22.

Mae'r dangosydd hwn yn cyfrifo'r plant hynny sydd wedi cael eu tynnu oddi ar y gofrestr diogelu plant o fewn y deuddeg mis diwethaf ar sail treigl. Mae dangosydd amgen i fesur yr amser cyfartalog mae'r holl blant yn treulio ar y gofrestr diogelu plant (CPR) yn dangos perfformiad iach o 166 diwrnod. Bydd y gwaith o fonitro'r dangosydd hwn yn gwella perfformiad yn erbyn dangosydd 23 yn y dyfodol, ac yn sicrhau bod y plant ar y CPR ar y gofrestr tra bo penderfyniad yn cael ei wneud yn unig.

4.10 Dangosydd 28 - Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – sydd yn Goch gyda pherfformiad o 193 diwrnod yn erbyn targed o 170 diwrnod.

Mae'r perfformiad hwn yn ostyngiad o'i gymharu â'r 182 diwrnod a welwyd ar ddiwedd Ch3, ac yn ostyngiad ar berfformiad blynyddoedd blaenorol.




Mae'r rhesymau dros y dirywiad mewn perfformiad ar gyfer y dangosydd hwn yn cynnwys:

- Anawsterau cael mynediad i rai eiddo oherwydd pryderon cleientiaid yn dilyn y pandemig coronafeirws.
- Anawsterau dod o hyd i gontractwyr i wneud y gwaith. Ar hyn o bryd dim ond 6 chontractwr o'r Ynys sy'n gosod yr addasiadau.

Mae'n debygol y bydd angen cynyddu'r diwrnodau targed yn 2023/24 o ganlyniad i'r anawsterau hyn. Bydd y Polisi GCA yn cael ei adolygu yn ystod Ch1 2023/24, fydd yn cynnwys llunio cytundeb lefel gwasanaeth a chytuno ar ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer darparu addasiadau i'r GCA.


4.11 Mae perfformiad dangosyddion i fonitro ein llesiant, Amcan 3, lle’r ydym yn gweithio gyda’n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi’n effeithiol â newid a datblygiadau tra’n gwarchod ein hamgylchedd naturiol, wedi bod yn dda hefyd, gyda 90% o’r dangosyddion yn uwch na’r targed, neu o fewn 5% iddynt ar gyfer y flwyddyn.

4.12 Mae’r dangosyddion sydd wedi perfformio’n dda yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

4.12.1 Mae nifer o ddangosyddion rheoli gwastraff (Dangosydd 31, 33 a 34) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau yn ystod y flwyddyn. Roedd 96% o’r strydoedd a arolygwyd yn ystod y flwyddyn yn lân rhag unrhyw wastraff, a dyma’r perfformiad gorau yn ystod y bedair mlynedd ddiwethaf (95.5% yn 2021/22, 92% yn 2020/21 a 93.79% yn 2019/20).

4.12.2 Mae nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd o fewn amser yn Wyrdd yn erbyn targed o 91%. Dyma’r perfformiad gorau yn ystod y bedair mlynedd ddiwethaf (79% yn 2021/22, 79% yn 2020/21 a 90% yn 2019/20).

4.12.3 Mae canran yr achosion gorfodaeth cynllunio a archwiliwyd o fewn 84 diwrnod hefyd wedi gwella (85%) o ran perfformiad, o gymharu â blynyddoedd blaenorol (84% yn 2021/22, 74% yn 2020/21 a 74% yn 2019/20). Mae hyn yn galonogol ac yn dangos fod y gwelliannau a weithredwyd gan staff y gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn gwneud gwahaniaeth i berfformiad.





canran yr achosion gorfodaeth cynllunio a archwiliwyd o fewn 84 diwrnod

4.12.4 Mae’r tri dangosydd priffyrdd, sy’n gysylltiedig ag arolygon cyflwr ffyrdd A, B a C yr Ynys (dangosyddion 38 – 40), yn Wyrdd yn erbyn targedau ac wedi gwella o gymharu â 2021/22. Gellir gweld y gwelliant mwyaf yng nghyflwr ffyrdd A lle mai dim ond 2.6% oedd mewn cyflwr gwael yn 2022/23 o gymharu â 3% yn 2020/21 a 4.6% yn 2019/20. Roedd y cyllid ychwanegol a dderbyniwyd, a oedd yn gyfuniad o gyllid cyfalaf a grantiau Llywodraeth Cymru, yn fanteisiol iawn i’r gwelliannau hyn.

4.13 Yr unig ddangosydd sy’n tanberfformio yn ystod y flwyddyn yw

4.13.1 Dangosydd 36 – canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd – gyda pherfformiad o 47% yn erbyn targed o 65%. Mae hyn yn ddirywiad ar y perfformiad a welwyd yn 2021/22 (50%).




Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â nifer fechan o apeliadau cynllunio, a gall y nifer amrywio'n fawr o un chwarter i'r llall. Gwrthodwyd tri o'r pump apêl yn ystod y Ch4 gan olygu fod naw allan o'r deunaw o apeliadau wedi'u gwrthod yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau fod penderfyniadau cynllunio yn 'gadarn' ac yn ddilys, fodd bynnag nid oes gan y Cyngor unrhyw ddylanwad ar benderfyniad apêl. Byddwn yn parhau i fonitro penderfyniadau apêl ar geisiadau tebyg i nodi a oes patrwm yn datblygu a fyddai'n golygu bod angen dehongli ein polisïau'n wahanol.

4.13.2 Mae ein perfformiad blwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer yr holl ddangosyddion tebyg (37 ar y cyfan) yn dangos fod 17 (46%) wedi gwella yn ystod y flwyddyn, fod 17 (46%) wedi dirywio a bod 3 (8%) wedi aros yr un fath o ran eu lefelau perfformio.

4.13.3 Ar y cyfan, mae'n galonogol cael adrodd fod 71% o'r dangosyddion a ddefnyddir i fonitro Amcanion Llesiant yn Wyrdd yn erbyn y targed ar gyfer y flwyddyn.

## 5. ARGYMHELLION

5.1 Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â'r perfformiadau ar gyfer y flwyddyn. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Canran yr aelwydydd (gyda phlant) a gafodd eu hatal rhag dod yn ddigartref
- Mae pob un o ddangosyddion y Gwasanaethau Oedolion yn uwch na'r targed ar gyfer y flwyddyn
- Ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlen
- Nifer y tai gwag sy'n cael eu defnyddio eto
- Canran y ffyrdd mewn cyflwr gwael wedi gwella ar draws A, B a C.
- Nifer yr ymweliadau i ganolfannau hamdden wedi cynyddu i lefelau a welwyd ddiwethaf cyn y pandemig.
- Canran y strydoedd sy'n lân.

5.2 Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd sydd wedi gwella, ynghyd â'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio i reoli a sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol.

Gellir nodi'r meysydd hyn fel a ganlyn:

5.2.1 Canran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen.
5.2.2 Y nifer cyfartalog o ddiwrnodau i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl (GCA)
5.2.3 Canran yr Apeliadau Cynllunio a Wrthodwyd

## 6. RHESTR TERMAU

6.1 Isod mae rhestr o'r byrfoddau a ddefnyddir yn yr adroddiad a'r Cerdyn Sgorio

6.1.1 DPA – Dangosydd Perfformiad Allweddol
6.1.2 Ch1 – Chwarter 1
6.1.3 Ch2 – Chwarter 2
6.1.4 Ch3 – Chwarter 3
6.1.5 Ch4 – Chwarter 4
6.1.6 Statws CAG – Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth
Melyn – o fewn 5% i'r targed
Gwyrdd – ar darged, neu'n uwch na'r targed
6.1.7 Tuedd – Mae'r saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad o gymharu â'r chwarter blaenorol
6.1.8 CALl – Cyfystyr ag Amser Llawn
6.1.9 RhG – Rhyddid Gwybodaeth
6.1.10 CRT – Cyfrif Refeniw Tai
6.1.11 NEET – Nid mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant
6.1.12 DTL – Anodd ei osod
6.1.13 NERS – Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff
6.1.14 CAP – Cofrestr Amddiffyn Plant
6.1.15 CSYM – Cyngor Sir Ynys Môn

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q4 2022/23

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Bl ar Fl / Yr on Yr Trend | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir** | | | | | | | |
| 1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (tymhorol) (Ch3) | | ↑ | 91.69% | | | - | - |
| 2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (tymhorol) (Ch3) | | ↓ | 85.22% | | | - | - |
| 3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol) (Ch4) | Melyn / Yellow | | 3.20% | 3% | ↓ | 2.60% | 4.2% |
| 4) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) (Ch3) | Gwyrdd / Green | | 100% | 100% | - | - | - |
| 5) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) (Ch3) | Gwyrdd / Green | | 68% | 67.5% | ↑ | 67.8% | 65% |
| (blynyddol) (Ch4) | | | - | - | - | - | - |
| 7) Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden | Melyn / Yellow | ↑ | 539k | 546k | ↑ | 388k | 189k |
| 8) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | ↑ | 98% | 98% | → | 98% | 98% |
| 9) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↓ | 72% | 50% | ↑ | 47.5% | - |
| 10) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff | Melyn / Yellow | ↓ | 78% | 80% | ↓ | 84% | - |
| 11) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↑ | 80 | 50 | ↓ | 91 | 94 |
| 12) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | Melyn / Yellow | → | 1 | 3 | → | 1 | 9 |
| 13) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Gwyrdd / Green | ↓ | 16.61 | 18 | ↓ | 13.89 | 8.1 |
| 14) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) (Ch4) | | | | | | - | - |
| **Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl** | | | | | | | |
| 15) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed (Ch4) | | | | | | - | - |
| 16) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↑ | 91.69% | 90% | ↓ | 94.78% | 92.31% |
| 17) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↑ | 64.71% | 62% | → | 64.85% | 60.36% |
| 18) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↑ | 16.74 | 19 | ↓ | 14.33 | 15.36 |
| 19) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↓ | 98.10% | 93% | ↑ | 96.10% | 98.20% |
| 20) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Melyn / Yellow | ↓ | 86.75% | 90% | ↓ | 87.15% | 86.87% |
| 21) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | ↑ | 6.15% | 10% | ↑ | 9.79% | 12.34% |
| 22) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↑ | 14.35% | 15% | ↓ | 5.74% | 32.00% |
| 23) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Coch / Red | ↓ | 306 | 270 | ↑ | 318 | 258 |
| 24) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | ↓ | 98.31% | 95% | ↓ | 99.10% | 99.56% |
| 25) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Gwyrdd / Green | ↑ | 93.83% | 90% | ↑ | 85.99% | 87.74% |
| 26) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↑ | 89.53% | 80% | ↑ | 80.95% | 74.74% |
| 27) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↑ | 98.45% | 85% | ↑ | 92.00% | 75.47% |
| 28) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Coch / Red | ↓ | 193 | 170 | ↓ | 172.3 | 169 |
| 29) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Gwyrdd / Green | ↓ | 35.8 | 40 | ↓ | 28.7 | 45.6 |
| 30) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | Melyn / Yellow | ↑ | 1.83% | 1.70% | ↓ | 1.66% | 1.98% |
| **Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol** | | | | | | | |
| 31) Canran y strydoedd sy'n lân | Gwyrdd / Green | ↓ | 96% | 95% | ↑ | 95.50% | 92.00% |
| 32) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Melyn / Yellow | ↓ | 63.47% | 64% | ↑ | 62.39% | 62.96% |
| 33) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | → | 1 | 1 | ↓ | 0.25 | 0.95 |
| 34) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Gwyrdd / Green | ↓ | 207kg | 220kg | ↑ | 223kg | 214kg |
| 35) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Gwyrdd / Green | ↑ | 91% | 90% | ↑ | 79% | 79% |
| 36) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Coch / Red | → | 47% | 65% | ↓ | 50% | 58% |
| 37) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | Gwyrdd / Green | ↑ | 87% | 80% | ↓ | 92% | 74% |
| 38) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | | 2.6% | 3% | ↑ | 3% | 4.60% |
| 39) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | | 2.6% | 4% | ↑ | 2.80% | 3.80% |
| 40) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | | 7.6% | 9% | ↑ | 8.20% | 8.50% |
| 41) Defnydd o danwydd ffosil bras gan fflyd y Cyngor (tCO2e) | | ↓ | 515.07 | | ↓ | 486.85 | 385 |
| 42) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd y Cyngor (milltiroedd) | | ↓ | 1,728,920 | | ↓ | 1,524,961 | 1,254,419 |
| 43) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd lwyd / gweithwyr y Cyngor (milltiroedd) | | | 790,899 | | ↓ | 786,247 | - |
| 44) Newid net mewn Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tCO2e) - Fflyd y Cyngor (Blynyddol) (%) | | | +6% | | ↑ | + 26% | - |

Coch - mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol  Ambr - rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth
Melyn - o fewn 5% o'r targed  Gwyrdd - ar darged neu'n uwch  Mae saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad chwarter ar chwarter

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q4 2022/23

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 40 | 67 | 55 | 43 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | | 4 | - | 9 | 6 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | | | 13 | - | 20 | 8 |
| 04) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | ↓ | 82% | 80% | 80% | 88% |
| 05) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Coch / Red | ↑ | 70% | 80% | 66% | 75% |
| 06) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | ↑ | 27 | - | 41 | 24 |
| 07) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | | ↓ | 321 | - | 189 | 104 |
| 08) Nifer o ganmoliaethau | | ↑ | 495 | - | 658 | 662 |
| 09) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Ambr / Amber | ↑ | 72% | 80% | 79% | 79.4% |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | | ↓ | 59.5k | - | 51k | 33.5k |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | | ↓ | 36k | - | 66k | 58k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | | ↑ | 26k | - | 21k | 18.5k |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | | ↑ | 9.5k | - | 11k | 7k |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | | ↑ | 100k | - | 92k | 42k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | | ↑ | 327k | - | 634k | 1.03M |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | | | 2288 | - | 2202 | 2180 |
| 02) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Melyn / Yellow | ↑ | 9.15 | 8.75 | 8.73 | 6.68 |
| 03) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | | | 4.54 | - | 3.70 | 1.94 |
| 04) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | | | 4.61 | - | 5.03 | 4.74 |
| 05) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynyddol) (Ch4) | | | 8% | - | 10% | 6% |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol (Llinellau Cyllideb Rheoladwy) | Gwyrdd / Green | ↑ | £158,120,000 | £156,017,000 | -1.33% | | |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn (Refeniw) | Gwyrdd / Green | ↑ | £158,367,000 | £156,813,000 | -0.98% | | |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn (Cyfalaf) | | ↑ | £39,530,000 | £29,510,000 | -25.35% | | |
| 04) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | ↑ | -£13,318,044 | -£15,978,167 | 19.97% | | |
| 05) Swm a fenthycwyd | | ↑ | £12,052,000 | £1,549,000 | -112.85% | | |
| 06) Chost benthyca | | ↑ | £4,151,734 | £4,048,339 | -2.49% | | |
| 07) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | | ↑ | | 98.50% | | | |
| 08) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | | → | | 99.20% | | | |
| 09) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | | 100.2% | | | |
| 10) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | | 100.5% | | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **27/6/2023** |
| **Pwnc / Testun:** | **DDOGFEN GYFLAWNI FLYNYDDOL 2023/24** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD CARWYN E JONES** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **CARYS EDWARDS** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

| **A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau** |
|---|
| Mae'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn amlinellu rhaglenni gwaith blynyddol y Cyngor sydd wedi'u cynllunio i gyflawni disgwyliadau Cynllun y Cyngor. Mae’n rhoi mwy o fanylion gweithredol yn erbyn agweddau penodol o’r ddarpariaeth flynyddol.<br><br>Mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dangos y prif feysydd i’w gyflawni o fewn amcanion strategol y Cyngor yn ystod 2023/24.<br><br>Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn mabwysiadu’r Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer ei chyflawni yn ystod 2023/24. |

| **B – Pa opsiynau eraill bu I chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Dim opsiwn arall wedi’i ystyried, mae hwn yn ddisgwyliad o dan gyfansoddiad y Cyngor |

| **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith |

| **CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson a’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi gan ei fod yn darparu’r manylder parthed sut bydd y Cyngor yn gwireddu disgwyliadau Cynllun y Cyngor a fabwysiadwyd gan y Cyngor llawn yn flaenorol. |

| **D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Mae'r DGB yn amlinellu'r gwaith y bydd y cyngor yn ei wneud i gyflawni amcanion Cynllun y Cyngor am y 12 mis nesaf, gan gynnwys penderfyniadau fydd yn effeithio ar anghenion tymor hir Ynys Môn. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Nodir y goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn y broses flynyddol o bennu'r gyllideb |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | Bydd amryw o elfennau sydd yn gysylltiedig a gwireddiad amserol y cynllun hwn angen cydweithrediad ag eraill. Caiff hyn ei amlygu wrth i'r cynllun gael ei wireddu dros y cyfnod sydd i ddod. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn cyn mabwysiadu Cynllun y Cyngor 2023-2028 a bydd amryw o'r ffrydiau gwaith yn cael eu ymgynghori arnynt ymhellach yn ystod y cyfnod gweithredu. |
| **5** | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | Amherthnasol - bydd Asesiadau Effaith yn cael eu cynnal ar ffrydiau gwaith cysylltiedig a'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol er mwyn asesu effaith unrhyw newidiadau ar gydraddoldeb a'r iaith Gymraeg. |

| **E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif-weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)** | Ystyriwyd y mater hwn gan yr UDA ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | Dim sylwadau |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Mnitro (gorfodol)** | Dim sylwadau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Sylwadau wedi'I adlewyrchu yn yr adroddiad |
| **5** | **Eiddo** | |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 20/6. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Dogfen Cyflawni Blynyddol 2023/24 |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| Cynllun y Cyngor 2023-2028 |

# Dogfen Gyflawni Flynyddol – 2023/2024

DRAFT

**Paratowyd gan –** Gwasanaeth Trawsnewid

**Dyddiad cyhoeddi –** Mehefin 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## Rhagair

Mae'n fraint cyflwyno ein Dogfen Gyflawni Flynyddol sy'n amlinellu'r gwaith fydd yn cael ei wneud gan y Cyngor i gyflawni'r dyheadau uchelgeisiol a amlinellir yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028 a fabwysiadwyd yn ddiweddar. Y cynllun hwn yw ein map trywydd sy'n ein harwain tuag at dargedau penodol y bydd y Cyngor yn ceisio'u cyflawni drwy gydol y flwyddyn o'n blaenau, sef 2023/24.

Wrth i ni edrych yn ôl ar y flwyddyn ddiwethaf, mae'n anodd credu pa mor gyflym y mae amser wedi mynd heibio ers i'r weinyddiaeth newydd gymryd yr awenau. Bu'n flwyddyn llawn heriau, buddugoliaethau ac ymroddiad diflino aelodau a staff y cyngor.

Hoffem ddiolch o galon i bawb a fu ynghlwm â sicrhau llwyddiant y Cyngor. Mae eich ymrwymiad a'ch ysbryd diwyro yn gwella ansawdd bywyd ein hynys annwyl ac yn cyfleu i'r dim ein hethos fel "gwlad y medra".

Ni fu'r flwyddyn ddiwethaf yn brin o galedi, heriau economaidd ac ansicrwydd. Yn ystod cyfnodau heriol fel hyn rydym yn gweld cryfder a gallu gwirioneddol cymuned ar ei gorau ac rydym yn hynod o ddiolchgar am yr ymroddiad a'r gwytnwch a ddangoswyd gan ein tîm.

Mae rhyddhau data'r Cyfrifiad wedi taflu goleuni ar newidiadau yn nemograffeg yr ynys, a'r cynnydd yn nifer yr oedolion hŷn yn arbennig. Mae'r newid hwn mewn demograffeg yn pwysleisio pwysigrwydd creu gwasanaethau oedolion o safon uchel a hyrwyddo annibyniaeth yn ein cymunedau.

Mae ein hymrwymiad i ofal cymdeithasol a llesiant yn parhau i fod yn gadarn, a byddwn yn ceisio darparu'r gwasanaethau cywir ar yr amser cywir. Byddwn yn ceisio cynyddu cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg ac yn sicrhau darpariaeth addysg effeithiol ar gyfer cenhedlaeth heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. Byddwn yn hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys ac yn sicrhau fod gan bawb rywle i'w alw'n gartref, yn ogystal ag ymateb i heriau'r hinsawdd trwy weithio i fod yn sero net erbyn 2030.

Cytunwyd ar gyllideb 2023/24, ond mae'n bwysig nodi nad oedd honno'n broses hawdd gan fod y pwysau ariannol ar y Cyngor yn fwy nag erioed eto eleni. Mae'r Dreth Gyngor yn parhau i fod ymysg yr isaf yng Nghymru ac mae'r gyllideb a gymeradwywyd yn caniatáu i'r Cyngor wireddu ei Ddogfen Gyflawni Flynyddol.

Yn olaf, hoffem ddiolch i'r holl breswylwyr a phartneriaid a fu'n cydweithio gyda'r Cyngor i sicrhau'r gwasanaethau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac rydym yn edrych ymlaen at dderbyn eich cefnogaeth barhaus yn 2023/24.



**Y Cynghorydd Llinos Medi**
Arweinydd y Cyngor



**Dylan Williams**
Prif Weithredwr

DRAFT

# Cynllun y Cyngor 2023-28

Cytunodd Cyngor Sir Ynys Môn ar Gynllun y Cyngor 2023-28 a'i fabwysiadu ym mis Mawrth 2023. Mae'n amlinellu ein gweledigaeth a'n hamcanion strategol ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.

## Gweledigaeth y Cyngor

Gweledigaeth y Cyngor yw –

"Creu Ynys Môn fydd yn
iach a llewyrchus
lle gall pobl ffynnu."

DRAFT

## Amcanion Strategol


Ein chwe amcan strategol yw –




**Yr Iaith Gymraeg**
Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith



**Gofal Cymdeithasol a Llesiant**
Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg gywir



**Addysg**
Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol



**Tai**
Sicrhau fod gan bawb yr haw li alw rhywle'n gartref



**Economi**
Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys



**Newid Hinsawdd**
Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030

Mae'r ddogfen hon yn manylu ar y gwaith fydd y Cyngor yn ei wneud yn ystod 2023/24 i gyflawni'r dyheadau uchelgeisiol a nodir yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028. Caiff hyn ei wneud a'i wireddu trwy gydweithio a chydnabyddir y bydd gweithgareddau o ddydd i ddydd y Cyngor yn cael eu cyflawni hefyd.

Bydd holl staff rheng flaen a staff cefnogi'r cyngor yn rhan annatod o'r gwaith o wireddu'r ddogfen hon yn llwyddiannus.

# Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith

## Diwylliant ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu

Bydd y Cyngor yn:

a) Gweithredu cynllun gwaith Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) mewn dull integredig gan adrodd ar ei gyflawniad
b) Cydweithio i hyrwyddo ap OgiOgi fel adnodd defnyddiol i rieni a gofalwyr gynyddu hyder a defnyddio mwy o Gymraeg gyda'u plant
c) Sicrhau cyfleoedd i staff gynyddu'r cyfleoedd i siarad Cymraeg yn ogystal â chydweithio gyda Phrifysgol Bangor i beilota rhaglen ARFer sy'n ceisio newid arferion iaith i alluogi cydweithwyr sydd yn gallu siarad Cymraeg (ond sydd wedi sefydlu'r arfer o ddefnyddio Saesneg) i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith
d) Sicrhau drwy hunanasesiad blynyddol ac arolygon siopwr cudd ein cydymffurfiaeth gyda'r safonau iaith Gymraeg
e) Cydweithio gyda Fforwm Iaith Ynys Môn i gynnal dosbarthiadau Cymraeg cymunedol ac adnabod ffynonellau i ariannu gweithgareddau cymunedol
f) Hyrwyddo gwersi Dysgu Cymraeg gyda rhieni, newydd ddyfodiaid a ffoaduriaid ac yn sicrhau bod deunyddiau dysgu Cymraeg ar gael ar ein gwefan
g) Adnoddau ar Caru Iaith ar gael i Ysgolion a Lleoliadau
h) Llyfrgelloedd yn gweithio gyda darparwyr dysgu a hyfforddi i gynnig cyfleoedd i drigolion ddysgu a datblygu sgiliau yn y Gymraeg yn eu cymunedau
i) Sefydlu a darparu grant Cymunedau Mentrus newydd Arfor ar gyfer Ynys Môn, a sicrhau capasiti digonol ar gyfer cyflawni effeithiol
j) Cymryd rhan yng nghynlluniau a rhaglenni rhanbarthol Arfor 2, a gwneud y mwyaf o'u buddion i Ynys Môn

DRAFT

## Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Darparu'r gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir

### Amddiffyn a chefnogi pobl fregus

Bydd y Cyngor yn:

a) Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ddyfodol Cyfleoedd Dydd ar yr ynys gyda'r nod o gryfhau cyfleoedd cymunedol trwy weithio ac integreiddio gyda'n hybiau cymunedol
b) Mapio'r holl weithgareddau a gwella gwybodaeth a data lleol i daclo tlodi ar yr ynys, gan ganolbwyntio ar dlodi bwyd a thanwydd, yn ogystal â lleihau digartrefedd a dyledion
c) Lansio a gweithredu Strategaeth y Drws Cywir trwy ddatblygu ac ehangu trefniadau hwb cynnar fel proses gyfeirio fyw, gan weithio o fewn fforwm amlddisgyblaethol
d) Datblygu cyfleoedd ar gyfer pobl sydd ag anghenion iechyd meddwl
e) Cynyddu cyfranogiad trwy wella'r gwasanaethau a gynigir yn yr Hybiau Cymunedol Integredig, yn cynnwys datblygu a darparu hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar integreiddio a hygyrchedd
f) Cynyddu cyfleoedd i'r cyhoedd ymgysylltu â'r Awdurdod Lleol trwy'r fforwm Pobl Hŷn a'r Fforymau Lleol fel bod unigolion yn gallu dylanwadu'n gadarnhaol ar bolisïau a chyflenwi gwasanaethau
g) Sefydlu a Datblygu Rhwydwaith Oed Gyfeillgar a dod yn aelodau o Rwydwaith Oed Gyfeillgar Byd Eang Sefydliad Iechyd y Byd (WHO)
h) Adolygu'r opsiynau sydd ar gael i foderneiddio gwasanaethau byw â chymorth allanol a gweithio gyda darparwyr tai i sicrhau opsiynau llety addas
i) Agor ein trydydd Cartref Clyd
j) Gweithio tuag at fod yn Ynys sy'n wybodus o Drawma trwy sicrhau fod 5 ysgol yn cael eu hachredu yn Ysgolion sy'n wybodus o Drawma
k) Buddsoddi £1m yn adeiladau ein canolfannau hamdden a rheoli'r gwaith o greu cae 3G newydd yn Ysgol Uwchradd Bodedern
l) Darparu cyfleoedd nofio am ddim i ofalwyr ifanc a gweithio tuag at gynyddu nifer y plant sy'n derbyn gwersi nofio, yn ogystal â chynnal y 500,000 o ymweliadau â'n canolfannau hamdden bob blwyddyn

DRAFT

# Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol

## Codi cyrhaeddiad a chyflawniad addysgol

Bydd y Cyngor yn:


a) Sicrhau bod Cwricwlwm i Gymru ar waith ym mhob ysgol a bod systemau wedi eu datblygu i fesur effaith gwaith llesiant, cynhwysiad a lles ar blant, phobol ifanc a'r gweithlu
b) Sicrhau bod pob ysgol yn gallu cynnig cinio am ddim i bob plentyn cynradd fel rhan o gynllun Llywodraeth Cymru i ddarparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd
c) Cryfhau systemau cydweithio integredig gyda gwasanaethau / asiantaethau allanol i gynnig cymorth ac arweiniad i blant, pobol ifanc ac ieuenctid Ynys Môn mewn ffordd gynhwysol ac arloesol
d) Darparu cyfleoedd i ddatblygu arweinyddiaeth ar draws yr Ynys mewn cydweithrediad â GwE
e) Gwireddu cynllun i ddenu cymorthyddion addysgu i'r proffesiwn, gan gynnwys cydweithio gyda'r coleg i ddarparu cyfleoedd hyfforddi lleol
f) Gweithredu ar y Cynllun Darparu Gwasanaeth Addysg Oedolion yn y Gymuned

## Darparu cymunedau dysgu cynaliadwy

Bydd y Cyngor yn:

a) Ymgynghori a mabwysiadu'r strategaeth newydd ar gyfer Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg a gweithredu'r rhaglen waith gysylltiedig
b) Ymchwilio i ffyrdd i foderneiddio a datblygu darpariaeth a chyfleoedd dysgu ôl-16 er budd gosod cyfeiriad a mabwysiadu strategaeth ôl-16
c) Cynyddu nifer o ysgolion sy'n gallu rhedeg Cynllun SHEP (Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf) dros wyliau'r haf
d) Mabwysiadu a dechrau gwireddu strategaeth newydd ar gyfer cynnig Gwasanaeth Llyfrgelloedd
    a. cefnogi teuluoedd drwy gynnal rhaglen o weithgareddau fydd yn ysgogi diddordeb mewn llenyddiaeth a darllen
    b. Hyrwyddo cariad at ddarllen drwy godi ymwybyddiaeth o'n llyfrgelloedd lleol ac amlygu'r math o ddeunyddiau ychwanegol sydd ar gael e.e. E-lyfrau, E-gylchgronau, E-gomics, llyfrau ar bresgripsiwn (Iechyd Meddwl)
e) Sicrhau cyfleon i'n plant a phobl ifanc fynegi barn pan fydd y Cyngor yn ymgysylltu ac ymgynghori ar wahanol bynciau yn ystod y flwyddyn yn ymwneud ag addysg
f) Strategaeth Archifau ac Oriel Môn wedi'i hadolygu a'i halinio i gefnogi cadw ein statws achrededig yn barhaus

DRAFT



# Tai

Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref

## Cartrefi o safon, fforddiadwy a hygyrch

Bydd y Cyngor yn:

a) Parhau i ddatblygu cynlluniau ar gyfer Datblygiad Tai Gofal Ychwanegol yn Nhyddyn Mostyn, Porthaethwy
b) Sicrhau fod unrhyw ddatblygiadau adeiladu tai newydd yn defnyddio Dulliau Adeiladu Modern ac yn cyflawni safon gradd A neu well y Dystysgrif Perfformiad Ynni
c) Cyfrannu at roi Strategaeth Tai Lleol y Cyngor ar waith trwy ddatblygu 30 o gartrefi newydd a phrynu 15 hen Dŷ Cyngor
d) Defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor i hwyluso'r gwaith o adnewyddu 70 o dai gwag, cynorthwyo hyd at 20 o brynwyr tro cyntaf i ddod i mewn i'r farchnad dai a darparu cymorth i aelwydydd lleol sy'n chwilio am dai ar renti fforddiadwy ar y farchnad agored yn eu cymunedau
e) Defnyddio data a gasglwyd yn yr Arolwg Cyflwr Stoc 2022 i nodi'r buddsoddiad fydd ei angen yn y dyfodol i sicrhau y gall Stoc Tai'r Cyngor gwrdd â'r Safonau Ansawdd Tai Cymru newydd
f) Lansio ein porth tenantiaid Digidol newydd er mwyn gwella dulliau cysylltu ar gyfer ein tenantiaid
g) Paratoi i drosglwyddo i ddigidol yn 2025 trwy asesu systemau drysau mynediad Stoc Tai'r Cyngor ac ailfodelu ein systemau teleofal gwifredig a'u newid am ddatrysiadau cludadwy sy'n seiliedig ar anghenion yr unigolyn
h) Paratoi, mabwysiadau a gweithredu Strategaeth Tai Gwag newydd ar gyfer 2023-2028
i) Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gefnogi pobl sy'n dod i fyw i Ynys Môn o ganlyniad i loches trwy roi Pecyn Gwasgaru Lloches CLlLC ar waith

DRAFT

# Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys

## Adfywio a Datblygu Economaidd

Bydd y Cyngor yn:

a) Cwblhau unedau busnes ychwanegol yn Llangefni a Chaergybi, yn ogystal â sicrhau caniatâd cynllunio llawn ar gynigion i adeiladu unedau yn Amlwch
b) Cynnal ymgynghoriad ar y Strategaeth Canol Trefi newydd a Chynlluniau Cynllunio Lle ar gyfer pum tref Ynys Môn a sicrhau cyllid i wella ein Canol Trefi
c) Darparu grantiau'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) i ogledd Môn, yn ogystal â gweithio ar y cyd â phartneriaid i ddatblygu Tir Parc Trefol
d) Gweithio gyda Stena, Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i sicrhau cyfleoedd buddsoddi ar gyfer Porthladd Caergybi
e) Cydweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i sefydlu parth tollau diogel yng Nghaergybi ac ar safleoedd eraill yn Ynys Môn
f) Cydweithio a dylanwadu ar Raglenni Twf Gogledd Cymru i sicrhau'r buddiannau lleol gorau posib
g) Gweithredu Cronfa Ffyniant Bro (LUF) Llywodraeth y DU yn llwyddiannus, yn ogystal â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF)
h) Sicrhau fod y rhwydwaith ffyrdd yn ddiogel i'w ddefnyddio a'i fod yn cael ei gynnal

## Yr Economi Ymwelwyr

Bydd y Cyngor yn:

a) Rheoli asedau morwrol a chefn gwlad y Cyngor yn ddiogel ac yn effeithiol, gan gynnwys rheoli Ynys Llanddwyn, Cronfa Natur Leol Nant y Pandy a Pharc Gwledig y Morglawdd yng Nghaergybi
b) Gosod pontynau glanio newydd ym Mhorth Amlwch a Phier San Siôr, yn ogystal â gwella llwybrau, cyfleusterau beicio, cyfleusterau ailgylchu, mannau gwefru cerbydau trydan a mynediad ac arwyddion ledled yr ynys
c) Mabwysiadu a gwireddu Cynllun Rheoli AHNE newydd, a Chynllun Cyrchfan, mewn ymgynghoriad â phartneriaid a thrigolion
d) Dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a newid parthau cyflymder 30mya i barthau cyflymder 20mya ac ymgynghori gyda chymunedau penodol (sy'n cael eu heithrio o'r rheol 20mya) ynghylch cyflwyno ardaloedd 20mya mewn ardaloedd poblog (adeiledig)
e) Gwella isadeiledd twristiaeth fel rhan o'r Rhaglen Gyllido, Y Pethau Pwysig 2
f) Croesawu 50 o longau mordaith i'r ynys a gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar weithgareddau ar y lan ar gyfer Llongau Mordaith
g) Monitro mwy ar feysydd parcio ym mherchnogaeth y cyngor a strydoedd i annog ymddygiad da gan ymwelwyr o ran parcio ceir
h) Rhoi Côd Ymddygiad y Fenai ar waith i sicrhau fod y Fenai'n cael ei rheoli'n ddigonol ac yn effeithiol

DRAFT

# Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030

## Isadeiledd Allweddol a Chynllunio ar gyfer Newid Hinsawdd

Bydd y Cyngor yn:

a) Buddsoddi yn ein hadeiladau i wella effeithiolrwydd ynni, lleihau'r defnydd o ynni a lleihau allyriadau carbon y Cyngor
b) Cyflawni ein cynllun trawsnewid fflyd trwy gynyddu nifer y cerbydau trydan yn ein fflyd a gwneud mwy o ddefnydd ohonynt wrth ddarparu ein gwasanaethau
c) Newid ein ffordd o weithio er mwyn defnyddio llai o ynni a lleihau allyriadau carbon e.e. trwy symud i ddatrysiadau TG yn y cwmwl
d) Gweithio tuag at gyflawni targed Llywodraeth Cymru i ailgylchu 70% o wastraff erbyn 2025
    - Trwy gydweithio gyda WRAP Cymru i adolygu'r opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor i gynorthwyo i gynyddu'r gyfradd ailgylchu ar yr Ynys
    - Gweithio gyda chontractwr gwastraff masnachol newydd i wella cyfraddau ailgylchu ym mhob un o adeiladau'r Cyngor
e) Ceisio sefydlu Strategaeth Economi Gylchol mewn partneriaeth â Menter Môn i gyfrannu at wella cyfraddau ailgylchu a lleihau gwastraff ledled Ynys Môn
f) Galluogi teithio cynaliadwy trwy roi cynlluniau teithio llesol ar waith rhwng Lôn Graig a Lôn Refail, Llanfairpwll, a gwelliannau llai eraill i'r rhwydwaith teithio llesol
g) Defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru a pharhau i roi'r Cynllun Mannau Gwefru ar waith trwy osod mannau gwefru cerbydau trydan yn -
    - Llanfairpwllgwyngyll
    - Rhosneigr
    - Cemaes
    - Benllech
    - Y Fali
    - Caergybi, Plas Arthur ac Amlwch (canolfannau hamdden)
h) Parhau â'r gwaith o gynnal y rhwydwaith llwybrau cyhoeddus a llwybr yr arfordir
i) Gwireddu prosiectau i wella bioamrywiaeth a gorchudd coed ledled Ynys Môn a mapio ardaloedd addas ar gyfer ailblannu coed
j) Datblygu strategaeth leol i reoli'r risg o lifogydd i nodi a blaenoriaethu ymyraethau hirdymor ledled Ynys Môn
k) Gwireddu cynlluniau rheoli llifogydd ar raddfa fechan ledled yr ynys a datblygu cynigion ariannu ar gyfer ymyraethau rheoli'r risg o lifogydd ar raddfa fawr yn
    - Porthaethwy
    - Brynsiencyn
    - Gwalchmai
    - Caergybi ac eraill
l) Sefydlu tîm polisi mewnol i gefnogi a pharatoi'r Cynllun Datblygu Lleol

## Rhaglen Ynys Ynni

a) Byddwn yn ymgysylltu â datblygwyr prosiectau ynni mawr a rhanddeiliaid eraill i hyrwyddo cyfleoedd am fuddion economaidd-gymdeithasol trawsnewidiol ar gyfer yr ynys, gan fabwysiadu'r egwyddor agosatrwydd a sicrhau buddion cymunedol a pherchnogaeth leol
b) Byddwn yn cyfranogi'n llawn yn y prosesau caniatáu statudol ar gyfer unrhyw brosiectau ynni carbon isel

DRAFT

# Gwybodaeth Bellach

Am ragor o wybodaeth ynghylch unrhyw elfen o'r ddogfen hon, neu os hoffech wneud unrhyw sylwadau, cysylltwch â:

Adnoddau Dynol a Thrawsnewid

Cyngor Sir Ynys Môn

Swyddfeydd y Cyngor

Llangefni

Ynys Môn

LL77 7TW

Ffôn - 01248 752111

E-bost:–

CarysEdwards@ynysmon.gov.uk

GethinMorgan@ynysmon.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg a gellir ei darparu mewn fformatau eraill hefyd, ac mae ar gael ar wefan y Cyngor, ynghyd â Chynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28:

Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 (llyw.cymru)

Gellir cael gwybodaeth bellach hefyd fel a ganlyn: gellir gweld Polisïau, cynlluniau a strategaethau a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn: http://www.ynysmon.llyw.cymu

Mae Adroddiadau Archwilio ac Arolygu a gynhyrchwyd gan Reoleiddwyr y Cyngor ar gael ar wefan y sefydliad perthnasol, fel a ganlyn:

- Swyddfa Archwilio Cymru: https://archwilio.cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru: https://www.arolygiaethgofal.cymru

Os nad oes gennych fynediad at y rhyngrwyd, neu os hoffech dderbyn dogfen nad yw'n cael ei rhestru uchod, cysylltwch â'r Cyngor gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir ar ben y dudalen hon.

DRAFT

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **PWYLLGOR GWAITH** |
| Dyddiad: | **27 MEHEFIN 2023** |
| Pwnc: | **MONITRO CYLLIDEB REFENIW, ALLDRO 2022/23** |
| Aelod Portffolio: | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn<br>E-bost: | **BETHAN HUGHES OWEN – RHEOLWR GWASANAETHAU CYFRIFEG**<br>**01248 752663**<br>**BethanOwen2@ynysmon.llyw.Cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Amherthnasol** |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

1. Ar 10 Mawrth 2022, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2022/23 gyda gwariant net y gwasanaethau o £158.365m, i gael ei gyllido o incwm y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o £3.110m ar gyfer eitemau cyffredinol ac eitemau na chynlluniwyd ar eu cyfer. Gosodwyd cyllideb o £1.950m ar gyfer Premiwm y Dreth Gyngor, sef cynnydd o £0.436m. Gosodwyd cyllideb gytbwys gyda'r cynnydd o 2.00% y cytunwyd arno yn y Dreth Gyngor.

2. Fel y flwyddyn flaenorol, nid yw'r gyllideb ar gyfer 2022/23 yn cynnwys unrhyw ofynion i wasanaethau wneud arbedion. Roedd y cynnydd o 9.2% yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru'n gynnydd i'w groesawu, ond roedd rhaid i'r Cyngor ymrwymo i gynyddu cyllidebau mewn nifer o feysydd, yn cynnwys gofal cymdeithasol a digartrefedd. Yn ogystal, mae cymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwariant yn gysylltiedig â Covid wedi dod i ben ac mae unrhyw gostau o'r fath yn cael eu cyllido o gyllidebau craidd y Cyngor.

3. Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 4, 31 Mawrth 2023. Cyflwynir adroddiad pellach i'r Pwyllgor Gwaith ar ôl cwblhau'r Datganiad Cyfrifon drafft.

4. Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer 2022/23, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw tanwariant o £1.212m. Mae hyn yn 0.76% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2022/23.

5. Argymhellir:-

   **(i)** Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B mewn perthynas ag alldro ariannol yr Awdurdod ar gyfer 2022/23;

   **(ii)** Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2022/23 y manylir arnynt yn Atodiad C;

   **(iii)** Nodi'r modd y caiff costau asiantaethau ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2022/23 yn Atodiadau CH, D a DD.

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol.

## C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

## Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

## D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

| | | |
|---|---|---|
| Ydi | | |
| **Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):** | | |
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae hwn yn adroddiad ar gyfer monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio, gydag adroddiadau eraill, i osod y strategaeth ariannol tymor canolig a'r gyllideb flynyddol. Bydd anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hasesu wrth osod y gyllideb flynyddol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?- | Amherthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Amherthnasol |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut:- | Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses gosod cyllideb 2022/23, ac ymgynghorir â nhw ynghylch cyllidebau yn y dyfodol. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |
| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| 1 | Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | Mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi ystyried yr adroddiad ac ymgorfforwyd eu sylwadau yn yr adroddiad. |
| 2 | Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro | Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Adolygodd y Panel Sgriwtini Cyllid y sefyllfa ariannol ar ddiwedd chwarter 3 yn ei gyfarfod ar 15 Chwefror 2023. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

**F – Atodiadau:**

- Atodiad A – Adroddiad Alldro Refeniw Dros Dro ar gyfer 2022/23
- Atodiad B – Alldro 2022/23
- Atodiad C – Crynodeb o Gyllidebau wrth Gefn ar gyfer 2022/23
- Atodiad CH – Gwybodaeth ynghylch monitro Staff Asiantaeth 2022/23
- Atodiad D – Gwybodaeth ynghylch monitro Ymgynghorwyr 2022/23
- Atodiad DD – Dadansoddiad manwl o gostau Ymgynghorwyr ar Alldro 2022/23

**Ff – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Cyllideb Refeniw 2022/23 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 3 Mawrth 2022 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 10 Mawrth 2022).

**ATODIAD A**

## MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 4

### 1. Balans Cyffredinol

Roedd gan Gronfa'r Cyngor gronfeydd wrth gefn clustnodedig o £23.181m a chronfeydd wrth gefn ysgolion gwerth £7.827m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Yn dilyn archwilio cyfrifon 2021/22, arweiniodd yr alldro at falans cyffredinol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol o £12.279m.

Mae sefyllfa'r balansau cyffredinol ar ddiwedd y chwarter fel a ganlyn:-

**Tabl 1**

| | Swm £'m | Pwrpas |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol Terfynol | (12.278) | Cronfa wrth gefn gyffredinol derfynol ar 31 Mawrth 2022, yn dilyn yr archwiliad. |
| Cyllid ychwanegol ar gyfer cynnal a chadw Priffyrdd | 0.500 | Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth 2022. |
| Trosglwyddo cyllid i gronfeydd gwasanaeth penodol | 0.260 | Yn unol â'r Polisi Cronfeydd wrth gefn Gwasanaethau a gymeradwywyd yn 2019/20. |
| Cyllido 50% o £69,732 i sefydlu a gweithredu tîm polisi cynllunio newydd ar gyfer Ynys Môn | - | Yn unol â'r adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar 27 Medi 2022 – nid oes ei angen mwyach yn y flwyddyn ariannol hon, ond mae wedi'i ymgorffori yng nghyllidebau 2023/24. |
| Cyllid ychwanegol i gwrdd â'r dyfarniad tâl ychwanegol i Athrawon 2022/23 | 1.074 | Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth 2023. |
| Dychwelyd cronfeydd clustnodedig i'r gronfa gyffredinol ar ddiwedd blwyddyn 2022/23 | (2.766) | Trosglwyddo Cronfeydd wrth gefn Clustnodedig yn ôl i'r Cronfeydd wrth gefn Cyffredinol gan nad oedd eu hangen mwyach. |
| Trosglwyddo cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf a gymeradwywyd fel rhan o raglen gyfalaf 2022/23 | 1.821 | Pwyllgor Gwaith 3 Mawrth 2023. |
| Dychwelyd Cronfeydd Gwasanaethau i'r gronfa gyffredinol | (1.365) | |
| **Balans Diwygiedig Cronfa Gyffredinol y Cyngor ar 31.12.2022** | **(12.754)** | |

Ar alldro, mae tanwariant o £1,212k ar gyllidebau y gellir eu rheoli a chyllidebau na ellir eu rheoli a bydd hyn yn cynyddu Cronfa wrth gefn Gyffredinol y Cyngor i £13.966m. Nid yw'r ffigwr hwn wedi cael ei archwilio a gall newid yn sgil addasiadau yn dilyn yr archwiliad. Gosodwyd cyllideb refeniw net ar gyfer 2022/23 o £147.420m, ac mae'r balans cyffredinol yn cyfateb i 9.47% o gyllideb refeniw net 2022/23. Y ffigwr targed yw 5% (£7.3m) ac mae'r ffigwr hwn yn uwch na'r ffigwr targed.

### 2. Perfformiad Ariannol fesul Gwasanaeth

Mae manylion y perfformiad ariannol fesul gwasanaeth wedi'i nodi yn Atodiad B. Y sefyllfa ar 31 Mawrth 2023, cyn archwilio'r cyfrifon, yw tanwariant o £0.799m. Rhagwelir tanwariant o £755k ar Gyllid Corfforaethol. Yn ogystal, rhagwelir y bydd incwm o gasglu'r Dreth Gyngor a Phremiwm y Dreth Gyngor £0.342m yn is na'r targed. Y rhagolwg refeniw presennol ar gyfer 2022/23 yw tanwariant o £1.212m, ac mae hyn yn cyfateb i 0.76% o gyfanswm cyllideb refeniw net y Cyngor.

**2.1** Mae Tabl 2 isod yn crynhoi'r gwahaniaethau sylweddol **(£100k neu fwy):** -

**Tabl 2**

| Gwasanaeth | Gor / (Tan) wariant £'000 | Alldro fel % o'r gyllideb £'000 |
|---|---|---|
| Addysg Ganolog | (236) | (5.56%) |
| Gwasanaethau Plant | 989 | 8.01% |
| Priffyrdd | (376) | (5.46%) |
| Eiddo | (546) | (31.64%) |
| Gwastraff | (1,047) | (11.50%) |
| TGCh | (117) | (3.10%) |
| Trawsnewid | (151) | (12.85%) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | (181) | (7.09%) |
| Adnoddau | (116) | (3.20%) |
| Corfforaethol a Democrataidd | 156 | 4.02% |
| Cysoni System Dreth Gyngor | 444 | 100% |
| Cysoni Budd-dal Tai | 519 | 100% |
| Arall (cyfanswm yr amrywiadau gwerth llai na £100k) | (137) | <0.01% |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **(799)** | **(0.56%)** |
| Cyllid Corfforaethol, yn cynnwys £477k o gostau nad oes cyllideb ar eu cyfer ac nad oes modd eu rheoli – (darpariaeth ar gyfer dyledion drwg/lwfans colled oherwydd amhariad, costau cyfalaf pensiynau, yswiriant, premiwm ar ail-gyllido hanesyddol) | (755) | (4.79%) |
| Cyllid | 342 | 0.22% |
| **Cyfanswm** | **(1,212)** | **(0.76%)** |

## 3. Esboniad o'r Amrywiadau Sylweddol

### 3.1 Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc

#### 3.1.1 Cyllidebau Datganoledig Ysgolion

Ar ôl i'r Cyngor osod y gyllideb ar gyfer ysgolion, mae cyfrifoldeb am y gyllideb yn cael ei datganoli i'r ysgolion ac mae unrhyw danwariant neu orwariant blynyddol yn cael ei ddal yng nghronfeydd wrth gefn yr ysgolion unigol. Erbyn hyn, mae balansau ysgolion yn £6.716m (Atodiad DD), o gymharu â £7.827m ar 31 Mawrth 2022. Nid oes unrhyw ysgol mewn diffyg ar hyn o bryd.

**Addysg Ganolog**

**3.1.2** Roedd tanwariant o £236k (5.56%) yn y gwasanaeth hwn ar alldro. Mae hyn yn uwch na'r tanwariant o £64k a amcangyfrifwyd ar gyfer 2022/23 yn yr adroddiad chwarter 3.

**3.1.3** Mae nifer o feysydd yn gor a thanwario ar draws y Gwasanaeth. Adroddwyd ar y rhai mwyaf sylweddol drwy gydol y flwyddyn ariannol, ac maent yn cynnwys gwasanaeth cludiant ysgol (gorwariant o £527k), staffio'r gwasanaeth addysg canolog, gan gynnwys Rheolwyr Busnes Ysgolion na chafodd eu penodi (tanwariant o £544k) a lleoliadau allsirol (tanwariant o £184k). Ni fu unrhyw newid yn y meysydd hyn o gymharu â'r rhagolwg. Gwelwyd ychydig o newid mewn nifer o adeiniau yn y gwasanaeth o gymharu â'r adroddiad chwarter 3, a nodir y newidiadau mwyaf sylweddol isod:-

- Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant Gwynedd a Môn – Yr alldro oedd tanwariant o £31k, fodd bynnag, y rhagolwg yn chwarter 3 oedd gorwariant o £48k. Derbyniwyd grantiau annisgwyl ar gyfer y ddarpariaeth yn ystod y chwarter olaf, ac roedd yn bosib dyrannu amser staff fel rhan o'r cais, gan leihau'r cyfraniad yr oedd ei angen gan yr Awdurdod.

- Blynyddoedd Cynnar - Y sefyllfa a ragwelwyd oedd tanwariant o £21k, ond yr alldro oedd tanwariant o £63k, sef cynnydd o £42k yn y tanwariant. Y rheswm am hyn oedd bod tri safle darpariaeth blynyddoedd cynnar wedi cau ac nid oedd angen arian a roddwyd o’r neilltu ar gyfer gwaith atgyweirio brys yn ystod y chwarter olaf.

- Yr alldro ar gyfer prydau ysgol yw gorwariant o £16k, ond yn yr adroddiad chwarter 3 roedd disgwyl gorwariant o £41k, felly, mae’r gorwariant £25k yn is na’r swm a ragwelwyd. Derbyniodd yr Awdurdod grant o £94k yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, gan olygu fod yr Awdurdod yn gallu cwrdd â’r cynnydd yng nghostau prydau’r contractwr arlwyo yn dilyn gwyliau hanner tymor mis Chwefror.

- Deddf ADY Newydd – ni ddefnyddiwyd y gyllideb yn llawn yn ystod y flwyddyn ariannol hon gan ei bod yn ddyddiau cynnar i’r ddeddf newydd, a chafwyd tanwariant o £92k. Yn chwarter 3, rhagwelwyd tanwariant o £40k, ond ni phenodwyd staff yn ystod y chwarter olaf yn ôl y disgwyl.

- Roedd y Ganolfan Iaith yn rhagweld gorwariant o £36k yn ystod chwarter 3, ond, yn ystod y chwarter olaf, roedd rhaid cyllido gwasanaeth bws ychwanegol i’r Ganolfan, ac roedd y gorwariant wedi codi i £66k erbyn alldro.

**3.1.4 Diwylliant**

**3.1.4.1** Roedd gorwariant o £30k (2.21%) yn y gwasanaeth hwn ar alldro. Yr alldro a ragwelwyd yn chwarter 3 oedd tanwariant o £15k. Mae’r holl gyllidebau wedi aros yn gyson â’r hyn a nodwyd mewn adroddiadau blaenorol heblaw am incwm yr Oriel. Roedd gwerthiant y siop a gwerthiant arddangosfeydd yn sylweddol is na’r hyn a ragwelwyd yn ystod y chwarter olaf.

**3.2 Gofal Cymdeithasol Oedolion**

**3.2.1** Roedd tanwariant o £53k (0.17%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd y flwyddyn. Serch hynny, mae’r alldro’n cuddio’r sefyllfa wirioneddol gan fod nifer o grantiau mawr a chyllid o’r gronfa wrth gefn Pwysau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi’u defnyddio, ac mae hynny wedi gostwng y gorwariant sylweddol. Isod, ceir manylion yr amrywiannau mwyaf a mwyaf sylweddol yn y gyllideb:-

**3.2.2** Mae’r elfennau yn yr amrywiad yn yr alldro fel a ganlyn: -

- Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed: Roedd tanwariant o £119k yn y gwasanaeth, ar ôl defnyddio £47k o’r Gronfa wrth gefn Pwysau Gofal Cymdeithasol. Roedd tanwariant o £83k yn y tîm Asesu a Rheoli Gofal oherwydd swyddi gweigion. Roedd tanwariant o £204k yn y tîm gofal preswyl ar gyfer pobl hŷn, yn dilyn defnyddio £44k o’r gronfa wrth gefn pwysau gofal cymdeithasol. Mae gofal nyrsio ar gyfer pobl hŷn yn cael ei arwain gan y galw ac roedd gorwariant o £63k, ar ôl dyrannu £91k o’r Gronfa wrth gefn Pwysau Gofal Cymdeithasol. Roedd pwysau ar y gyllideb Gofal Cartref yn parhau yn y chwarter olaf ac, felly, roedd yn arwain at orwariant o £103k yn y gyllideb ar gyfer yr adain hon. Mae’r gyllideb hon yn cael ei harwain gan y galw.

- Anableddau Corfforol: Roedd gorwariant o £101k yn y gwasanaeth hwn ar gyfer y flwyddyn, a hynny ar ôl dyrannu £332k o Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Roedd costau gofal preswyl yn unol â’r gyllideb; fodd bynnag, y rheswm am hyn unwaith eto oedd bod £266k o gyllid grant wedi’i ddefnyddio. Roedd gorwariant o £185k ar Gymorth Cartref oherwydd cynnydd yn y galw. Roedd tanwariant o £58k ar Asesu a Rheoli Gofal oherwydd cyfuniad o swyddi gweigion ac roedd yn bosib defnyddio grantiau amrywiol i gyllido rhai costau staffio.

- Anableddau Dysgu (AD): Roedd gorwariant o £365k yn yr adain hon. Mae nifer o feysydd yn tan a gorwario yn yr adain hon, gan gynnwys: Gofal Preswyl, sydd â gorwariant o £247k ar ôl defnyddio £75k o Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Roedd gorwariant o £120k yn y gwasanaeth gofal dydd ar gyfer y flwyddyn oherwydd cynnydd yn y galw, roedd tanwariant o £122k ar ofal cartref oherwydd bod £300k wedi’i ddyrannu o’r Gronfa wrth gefn Pwysau Gofal Cymdeithasol. Roedd gorwariant o £14k ar Lety â Chymorth a Llety Arall, ar ôl dyrannu £332k o gyllid grant a £410k o’r Gronfa wrth gefn Pwysau Gofal Cymdeithasol.

- Iechyd Meddwl (IM): Roedd gorwariant o £286k yn y gwasanaeth hwn ar alldro. Mae pwysau sylweddol ar wasanaethau Iechyd Meddwl yn parhau yn yr adain gofal preswyl, lle cafwyd gorwariant o £286k, a hynny ar ôl dyrannu £332k o Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a £135k o'r Gronfa wrth gefn Pwysau Gofal Cymdeithasol. Roedd tanwariant o £162k ar gymorth Cymunedol oherwydd bod swyddi'n parhau i fod yn wag. Ar y llaw arall, roedd gorwariant o £166k ar fyw â chymorth ar ddiwedd y flwyddyn. Mae swm o £127k yn ymwneud â chleient newydd sy'n derbyn gofal 24 awr y dydd mewn lleoliad byw â chymorth. Mae gweddill y gorwariant yn ymwneud yn bennaf â chost lleoliadau oedolion ac mae'n ategu nod y gwasanaeth i gefnogi cleientiaid yn eu cartrefi eu hunain yn y gymuned.

- Uned Ddarparu a Rheolaeth a Chefnogaeth: Roedd tanwariant o £633k ar ddiwedd y flwyddyn. I raddau helaeth, swyddi gweigion amrywiol sydd i gyfrif am hyn, yn arbennig yn yr unedau ardal gofal cartref (£459k) a Rheolaeth a Chefnogaeth (£191k). Roedd pwysau ar gostau yn yr uned ddarparu fewnol, gyda gorwariant o £129k ar gartrefi preswyl. Costau staff asiantaeth sydd i gyfrif am hyn, yn ogystal â gorwariant o £91k ar gostau gwresogi a thrydan. Fodd bynnag, roedd incwm £96k yn uwch na'r gyllideb. Roedd tanwariant o £92k ar y gyllideb Anableddau Dysgu hefyd, a'r rheswm, unwaith eto, oedd materion staffio.

  Roedd gwelliant sylweddol yn yr alldro ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, o gymharu â'r sefyllfa ar ddiwedd y trydydd chwarter, pan ragwelwyd gorwariant o £613k yn y Gwasanaeth. Y rheswm am y gwelliant oedd bod ffioedd cleientiaid ychwanegol wedi'u nodi a chodwyd tâl amdanynt, ac roedd gostyngiad yn nifer y lleoliadau costus iawn. Er bod y sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei groesawu, mae'n amlygu anawsterau wrth ragweld yn gywir y sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn, lle gall newidiadau'n ymwneud â nifer fechan o gleientiaid gael effaith sylweddol ar sefyllfa ariannol y Gwasanaeth.

**3.3 Gwasanaethau Plant**

**3.3.1** Mae gorwariant o £989k (8.01%) yn y gwasanaeth ar alldro a'r rhagolwg yn ystod chwarter 3 oedd gorwariant o £996k. Er bod hwn yn ymddangos yn wahaniaeth bychan o gymharu â'r ffigwr yn yr adroddiad blaenorol, gwelwyd newid sylweddol mewn nifer fechan o gyllidebau o gymharu â'r trydydd chwarter.

**3.3.2** Roedd gorwariant o £1,331k yn y gyllideb Plant sy'n Derbyn Gofal ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf oherwydd lleoliadau allsirol (£822k). Mae pob maes arall yn gorwario hefyd, heblaw am leoliadau ansafonol (tanwariant o £113k). Roedd gorwariant o £119k ar staffio a chostau asiantaeth Cartrefi Clyd. Mae gorwariant o £327k ar leoliadau gofal maeth hefyd.

**3.3.3** Rhagwelwyd tanwariant o £182k ar gomisiynu a gwaith cymdeithasol, ond yr alldro oedd tanwariant o £301k oherwydd fod costau staffio, ar gyfer staff y sefydliad a staff asiantaeth, wedi eu rhoi yn erbyn grant a dderbyniwyd yn ystod y chwarter olaf.

**3.3.4** Rhagwelwyd tanwariant o £32k ar Wasanaethau Plant a Theuluoedd Eraill yn ystod chwarter 3 ond yr alldro oedd gorwariant o £91k. Y rheswm am y newid sylweddol o un cyfnod i'r llall oedd fod llawer iawn o ffioedd cyfreithiol wedi dod i law yn ystod y chwarter olaf. Mae newidiadau eraill yn y gyllideb yn ystod y chwarter olaf sydd yn cydbwyso'r sefyllfa.

**3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)**

**3.4.1** Roedd y gwasanaeth hwn yn unol â'r gyllideb ar alldro, ond y rhagolwg yn chwarter 3 oedd gorwariant o £10k. Yn wreiddiol, roedd gan y gwasanaeth danwariant o £323k, ond, trosglwyddwyd £325k i gronfa wrth gefn glustnodedig er mwyn cyllido pwysau ariannol ym maes Digartrefedd mewn blynyddoedd i ddod.

**3.4.2** Wrth i'r niferoedd sy'n cyflwyno eu hunain fel rhai digartref barhau i gynyddu, mae'r gwariant wedi parhau i gynyddu, gyda gwariant net o £1.248m ar y gwasanaeth hwn yn 2022/23. Fodd bynnag, defnyddiwyd £901k mewn grantiau Llywodraeth Cymru a gostyngodd y gwariant net i £347k, o'i gymharu â chyllideb o £695k. Rhoddodd hyn danwariant net o £347k. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd cyllid grant yn aros ar y lefel hon yn ystod 2023/24, tra bydd nifer y bobl ddigartref yn parhau ar y lefel gynyddol hon. Er mwyn lliniaru'r risg, mae £325k wedi'i drosglwyddo i gronfa wrth gefn clustnodedig ac mae ar gael yn 2023/24. Felly, y tanwariant yr adroddwyd amdano yw £23k.

**3.4.3** Roedd gorwariant o £50k ar weinyddu Tai oherwydd arbedion i'w canfod fydd yn cael eu dyrannu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Roedd £33k o danwariant ar staffio yng nghyllidebau J E O'Toole. Roedd gorwariant o £25k yn y gyllideb Tai Cost Isel, yn dilyn penderfyniad cyfrifyddu i ddileu dyledion hanesyddol yn gysylltiedig ag ailgodi tâl am garthffosiaeth a dŵr.

## 3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

### 3.5.1 Economaidd a Chymuned (yn cynnwys Cyrchfan a Hamdden)

**3.5.1.1** Roedd gorwariant o £49k (2.05%) yn y gwasanaeth ar alldro.

**3.5.1.2** Roedd gorwariant o £16k yn elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn, o gymharu â'r rhagolwg o £32k yn ystod chwarter 3. Yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, gwelwyd gwelliant sylweddol mewn incwm o logi ystafelloedd yn y Ganolfan Fusnes, tra bod yr holl gyllidebau eraill yn cyd-fynd â'r rhagolygon.

**3.5.1.3** Yn chwarter 3, rhagwelwyd tanwariant o £90k yn yr adain Cyrchfan erbyn diwedd y flwyddyn, ond, yr alldro gwirioneddol oedd tanwariant o £162k. Ymddengys bod niferoedd ymwelwyr â'r Ynys wedi gostwng o gymharu â'r niferoedd eithriadol o uchel a welwyd yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Roedd y tanwariant ar staffio yn uwch na'r disgwyl oherwydd oedi annisgwyl wrth recriwtio, roedd modd hawlio elfennau o amser staff yn erbyn grantiau allanol a dderbyniwyd ac roedd rhai penawdau incwm wedi perfformio'n well na'u targedau, er mai'r rhagolwg oedd na fyddent, ar y gorau, ond yn adennill eu costau.

**3.5.1.4** Alldro'r gwasanaeth Hamdden yw gorwariant o £196k, ac mae hyn yn uwch na'r gorwariant o £152k a ragwelwyd yn chwarter 3. Er bod y gwasanaeth yn wynebu pwysau, mae targedau incwm wedi adfer i'r lefelau a welwyd cyn covid ac maent wedi perfformio'n well na'u targedau. Mae costau ynni wedi bod yn eithriadol o uchel, fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, ac mae'r sefyllfa honno'n parhau. Fodd bynnag, gellir priodoli'r gwahaniaeth o gymharu â'r arolwg yn chwarter 3 i'r gyllideb wresogi. Cyrhaeddodd y biliau ar gyfer gwresogi yn ystod y chwarter olaf ac roeddent yn uwch na'r swm a ganiatawyd yn y rhagolwg yn chwarter 3.

### 3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**3.5.2.1** Roedd tanwariant o £181k (7.09%) yn y gwasanaeth hwn ar alldro. Y rhagolwg yn chwarter 3 oedd tanwariant o £175k (6.93%).

**3.5.2.2** Roedd tanwariant o £132k yn yr adain Gwarchod y Cyhoedd, o gymharu â thanwariant o £100k a ragwelwyd yn chwarter 3. Yn ystod y chwarter, gwelwyd cynnydd ym mherfformiad incwm y cofrestryddion a chafwyd swyddi gweigion ychwanegol a dyna sydd i gyfrif am y gwahaniaeth o gymharu â'r ffigwr yn yr adroddiad chwarter 3.

**3.5.2.3** Roedd tanwariant o £49k yn y Gwasanaeth Cynllunio ar alldro. Y disgwyl yn chwarter 3 oedd tanwariant o £75k. Ac eithrio'r canlynol, a ddigwyddodd yn ystod y chwarter olaf, nid oes newid yn yr un o'r meysydd o gymharu â'r adroddiad blaenorol. Mae swydd Swyddog Rheoli Adeiladu yr oedd disgwyl iddi gael ei llenwi yn parhau i fod yn wag ac roedd swydd uwch swyddog ym maes Gweithredu a Chadwraeth yn parhau yn wag, fodd bynnag, roedd costau ymgynghorwyr uwch ym maes Rheoli Cynllunio, gan ostwng y tanwariant cyffredinol i £49k.

### 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

#### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Alldro'r gwasanaeth oedd tanwariant o £376k (5.46%) ond, yn ystod chwarter 3, rhagwelwyd tanwariant o £239k, sef £146k o wahaniaeth. Er bod rhai mân amrywiadau ym mhob rhan o'r gwasanaeth, o gymharu â'r ffigyrau a nodwyd yn flaenorol, gellir crynhoi'r prif resymau dros y gwahaniaeth rhwng y rhagolwg a'r alldro o dan dri maes gwahanol - Rheoli Gwaith Stryd, Gwaith a Chludiant Cyhoeddus. Roedd gorwariant o £549k yn y gyllideb waith ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd galwadau ar y gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd modd cwblhau'r gwaith dan sylw gan fod yr incwm a gynhyrchwyd o dan y pennawd Rheoli Gwaith Stryd £618k yn uwch na'r gyllideb. Cynhyrchwyd lefel sylweddol o incwm yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol. Roedd tanwariant o £114k ar Gludiant Cyhoeddus ar alldro, er mai £50k oedd y rhagolwg yn flaenorol, a'r rheswm am hyn yw bod costau contractau'n is nag a ragwelwyd.

#### 3.6.2 Gwastraff

**3.6.2.1** Roedd tanwariant o £1,047k (11.50%) ar alldro gan y Gwasanaeth Gwastraff, y rhagolwg oedd tanwariant o £1,030k ar alldro. Mae mân newidiadau yn y ffigwr a ragwelwyd, o gymharu â'r rhai a nodwyd mewn adroddiadau blaenorol ond, i grynhoi, y prif ffactor a gyfrannodd at y tanwariant sylweddol yw bod incwm tanysgrifiadau gwastraff gardd gwyrdd ac incwm o werthu deunyddiau ailgylchu yn uwch na thargedau incwm.

#### 3.6.3 Eiddo

**3.6.3.1** Sefyllfa'r gwasanaeth ar alldro yw tanwariant o £546k (31.64%) o gymharu â thanwariant o £222k (12.70%) a ragwelwyd ar gyfer diwedd y flwyddyn yn ystod chwarter 3. Mae hyn yn gynnydd o £335k yn y tanwariant.

**3.6.3.2** Roedd sefyllfa sawl pennawd yn y gyllideb wedi newid yn sylweddol o gymharu â'r trydydd chwarter. Y mwyaf nodedig yw incwm rhent, a'r gwahaniaeth rhwng yr hyn a nodwyd yn yr adroddiad chwarter 3 a'r alldro yw cynnydd o £268k mewn incwm. Canlyniad uniongyrchol cynnal adolygiadau rhent yw hyn, yn ogystal â mynd i'r afael â'r ôl-groniad mewn biliau oedd angen eu codi. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn ailstrwythuro staff a'r disgwyl oedd y byddai'r broses hon wedi'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, nid oedd hynny'n bosib ac mae wedi arwain at £120k yn fwy o danwariant ar gostau staffio nag a nodwyd yn chwarter 3.

**3.6.3.3** Mae gwaith cyfalaf hanfodol yr oedd angen ei wneud yn ystod y chwarter olaf wedi cynhyrchu cyfraniad refeniw ychwanegol o £91k i'r gyllideb gyfalaf. Fodd bynnag, oherwydd cynnydd yn y rhaglen waith gyfalaf, roedd cyflogau a gyfalafwyd £25k yn uwch na'r targed incwm ar alldro, gwahaniaeth o £73k o gymharu â'r ffigwr a nodwyd yn yr adroddiad chwarter 3.

**3.6.3.4** Oherwydd bod ansicrwydd ynghylch prisiau ynni, roedd gorwariant o £103k ar gostau cyfleustodau. Mae'r Cyngor yn parhau i fuddsoddi mewn uwchraddio systemau gwresogi yn adeiladau'r Cyngor er mwyn lleihau'r defnydd o ynni a lleihau effaith cynnydd mewn prisiau ynni yn y dyfodol.

**3.6.3.5** Newidiadau bychan eraill, megis dyrannu amser staff i brosiectau ac ad-daliadau trethi annomestig, sydd i gyfrif am y newidiadau o gymharu â'r swm o £68k a ragwelwyd ar ddiwedd chwarter 3.

### 3.7 Trawsnewid

**3.7.1** Roedd tanwariant o £340k (5.15%) yn y swyddogaeth Trawsnewid ar alldro.

**3.7.1.1** Roedd tanwariant o £73k (4.34%) yn y swyddogaeth Adnoddau Dynol (AD) ar alldro. Ar ddiwedd chwarter 3, rhagwelwyd tanwariant o £75k. Ni fu unrhyw newid sylweddol rhwng chwarter 3 ac alldro, o gymharu â'r hyn a nodwyd mewn adroddiadau blaenorol.

**3.7.1.2** Roedd tanwariant o £117k (3.10%) yn yr adain TGCh ar alldro, ond, yn ystod chwarter 3, yr alldro a ragwelwyd oedd tanwariant o £55k. Roedd y tanwariant sylweddol ar staffio yn parhau, gyda thanwariant o £473k ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd tanwariant o £105k ar gyllidebau y system ffôn a thanwariant o £188k ar y gyllideb caledwedd TGCh. Fodd bynnag, roedd y tanwariant yn y meysydd hyn yn cael eu gosod yn erbyn gorwariant o £351k ar y cyllidebau meddalwedd. Mae'r prif wahaniaeth o gymharu â'r rhagolwg yn chwarter 3 yn codi oherwydd bod cyfanswm o £41k wedi'i godi'n fewnol ar adrannau eraill am nwyddau.

**3.7.1.3** Roedd tanwariant o £150k (12.85%) yn yr Adain Trawsnewid Corfforaethol ar alldro, ond y rhagolwg yn chwarter 3 oedd tanwariant o £117k erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r holl gyllidebau'n unol â'r rhagolygon, heblaw am gyllideb Panel Perfformiad Cymru, gan na chafwyd unrhyw wariant yn ystod y chwarter olaf, yn groes i'r disgwyl.

## 3.8 Adnoddau (ac eithrio Budd-daliadau a Roddwyd)

**3.8.1** Roedd tanwariant o £116k (3.20%) yn y swyddogaeth Adnoddau ar alldro. Yr alldro a ragwelwyd yn chwarter 3 oedd tanwariant o £70k. Mae'r prif newidiadau a ddigwyddodd rhwng chwarter 3 ag alldro i'w gweld, yn bennaf, yn yr adain Refeniw a Budd-daliadau, lle bu'n bosib dyrannu amser staff yn erbyn grantiau gweinyddu amrywiol ar gyfer grantiau a weinyddwyd gan y gwasanaeth ar ran Llywodraeth Cymru. Derbyniodd yr adain Gyfrifeg ffi weinyddol untro gwerth £30k hefyd am weinyddu cynllun buddiannau staff *'Home Tech'*, ond mae gorwariant yn parhau ar gostau banc, sef swm o £50k.

## 3.9 Busnes y Cyngor

**3.9.1** Roedd tanwariant o £98k (4.92%) yn y swyddogaeth ar alldro. Yr alldro a ragwelwyd yn chwarter 3 oedd tanwariant o £56k. Yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol, derbyniwyd incwm ychwanegol yn ymwneud ag etholiadau, cynghorau cymuned a setliad terfynol yn gysylltiedig ag Etholiad Cyffredinol 2019. Cafodd y tanwariant ar staffio, ac yn arbennig yn y Tîm Gwasanaethau Pwyllgor, ei gynnal yn ystod y chwarter olaf oherwydd bod swyddi yn parhau i fod yn wag ac oherwydd newidiadau staffio eraill.

**3.9.2** Roedd disgwyl gorwariant o £26k ar Wasanaethau Cyfreithiol ar ddiwedd y flwyddyn, ond, roedd y gorwariant wedi gostwng i £7k erbyn alldro. Mae'r gorwariant wedi gwella yn ystod y chwarter olaf oherwydd newid bychan yn y staff asiantaeth cyfreithiol a gyflogwyd fel gweithwyr llanw ar gyfer swyddi gweigion ac absenoldebau staff, ac nid oes cyllideb ar gyfer y swydd undebau llafur.

## 3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd ac Addasiadau Cyfrifyddu Diwedd Blwyddyn Arall

**3.10.1** Roedd gorwariant o £157k (4.04%) yn y swyddogaeth ar alldro. Mae'r cyllidebau Corfforaethol a Democrataidd yn cael eu defnyddio ar gyfer addasiadau cyfrifo yn ogystal â gwariant dinesig. Ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, mae addasiadau cyfrifo yn cyfrif am £962k o'r gorwariant ac mae'n gysylltiedig â 2 o drafodion penodol.

**3.10.2** Ar ôl adolygu data hanesyddol a chynnal ymarfer glanhau data, ynghyd ag alinio'r datganiad o'r cyfrifon gyda'r system Dreth Gyngor, roedd angen symud £444k o refeniw i'r fantolen. Mae hyn yn golygu fod pob system yn awr yn adlewyrchu gwerth gwirioneddol symiau a oedd yn ddyledus i'r Cyngor ar 31 Mawrth 2023.

**3.10.3** Fel rhan o'r broses gysoni ar ddiwedd blwyddyn, roedd gan y cyfrif Dal Budd-daliadau Tai falans debyd o £189k, a byddai hyn yn awgrymu fod y swm hwn yn ddyledus i ni gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGP). Fodd bynnag, mae gwaith cysoni'n cadarnhau fod £329k yn ddyledus gan y Cyngor i'r AGP gan ein bod wedi hawlio £13,461k yn yr hawliad cymhorthdal olaf, ond derbyniom £13,790k yn ystod y flwyddyn ariannol, yn seiliedig ar y cais gwreiddiol am gymhorthdal a'r cais ganol blwyddyn. Rydym, felly, wedi dileu'r amrywiant o £518k.

**3.10.4** Roedd pwysau ar y gyllideb yn parhau yn y meysydd a ganlyn – roedd gorwariant o £88k ar ffioedd Crwner ac roedd gorwariant o £18k ar yr ardoll prentisiaid.

**3.11 Rheolaeth Gorfforaethol**

**3.11.1** Roedd gorwariant o £7k yn y swyddogaeth ar ddiwedd y flwyddyn (0.88%) ond y rhagolwg yn chwarter 3 oedd y byddai'r gyllideb yn cydbwyso. Mân addasiadau yn y gyllideb cyflogau sydd i gyfrif am hyn.

**4. Cyllid Corfforaethol (gan gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)**

**4.1** Roedd tanwariant o £755k ar Gyllid Corfforaethol, gan gynnwys Budd-daliadau a roddwyd, ar ddiwedd y flwyddyn (4.79%). Gan fod cyfraddau llog yn cynyddu'n raddol drwy gydol y flwyddyn ariannol, roedd yn rhoi cyfle i'r tîm Trysorlys adneuo arian mewn cyfrifon adneuo tymor penodedig oedd yn talu llog uwch, ac roedd hynny'n cynhyrchu mwy o incwm na'r cyfrif banc dyddiol cyffredinol. Pan ddaw'r buddsoddiadau tymor penodedig i ben, maent yn cael eu hail-fuddsoddi ar y cyfraddau llog uwch. Yr alldro ar gyfer y gyllideb Cyllid Cyfalaf oedd tanwariant o £466k, oherwydd y llog ychwanegol a enillwyd.

**4.2** Roedd y gyllideb ar gyfer 2022/23 yn cynnwys rhai eitemau a gadwyd yn ganolog fel cyllidebau wrth gefn, ac roedd cyfanswm y cyllidebau hyn yn £3,110k. Yn ystod y flwyddyn, mae cyllid yn cael ei drosglwyddo i mewn ac allan o'r cyllidebau hyn ac i mewn neu allan o gyllidebau gwasanaeth. Yn ystod 2022/23, trosglwyddwyd £163k i linellau gwasanaethau unigol a throsglwyddwyd £2,498k i gronfeydd wrth gefn clustnodedig, gan adael tanwariant o £775k ar gyllidebau wrth gefn.

**4.3** Roedd tanwariant o £76k ar y gyllideb i gwrdd â chyfraniadau'r Cyngor tuag at daliadau Budd-dal ar ddiwedd y flwyddyn. Mae Budd-daliadau a roddwyd yn cynnwys elfennau amrywiol ac, er mai mân amrywiadau ydyw'r rhain ar draws yr holl gyllidebau, mae'r prif amrywiadau'n ymwneud â thanwariant o £52k ar y Dreth Gyngor a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae'r gyllideb hon yn cael ei harwain gan y galw. Roedd tanwariant o £14k ar y Taliad Tai Dewisol, ond, roedd hyn o ganlyniad i £37k o incwm annisgwyl yn ystod y chwarter olaf. Roedd gorwariant o £23k ar Ryddhad ar Drethi Annomestig ac, unwaith eto, mae'r gyllideb hon yn cael ei harwain gan y galw.

**5. Casglu'r Dreth Gyngor**

**5.1** Mae cyllideb Cronfa'r Dreth Gyngor yn cael ei phenderfynu gan ddefnyddio amcangyfrif o'r ddyled y gellir ei chasglu ar gyfer y flwyddyn bresennol yn unig, yn seiliedig ar ffigwr sylfaen y dreth a bennwyd ym mis Tachwedd 2021. Nid yw'n caniatáu ar gyfer ôl-ddyledion o flynyddoedd blaenorol a gasglwyd, addasiadau i rwymedigaethau yn codi o flynyddoedd blaenorol a gasglwyd, addasiadau i rwymedigaethau yn codi o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau person sengl, trosglwyddo eiddo i drethi busnes ac ati), newidiadau yn sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol, nac ar gyfer y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol Cronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Mae'r argyfwng costau byw yn dechrau cael effaith ar gasglu'r Dreth Gyngor ac mae'r gyfradd gasglu'n disgyn a balans y dyledion yn codi. O'r herwydd, cynyddwyd y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg, er bod hyn wedi'i wrthbwyso'n rhannol trwy ddefnyddio grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2020/21 a oedd yn cael ei gadw mewn cronfa wrth gefn glustnodedig. Y sefyllfa gyffredinol mewn perthynas â'r Dreth Gyngor safonol (ar ôl caniatáu am ddarpariaeth net ar gyfer dyledion drwg o £247k) oedd bod yr incwm £974k yn is na'r disgwyl.

**5.2** Dyluniwyd premiwm y Dreth Gyngor i annog perchnogion eiddo gwag ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i ddefnydd cyffredinol ac, fel y cyfryw, mae risg y gallai nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm ostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Er mwyn lliniaru'r risg hwn, gosodwyd sylfaen y dreth ar gyfer eiddo sy'n talu'r premiwm ar 80% ac, os nad yw nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm yn gostwng yn sylweddol, yna bydd y gyllideb yn cynhyrchu gwarged. Unwaith eto, mae'r premiwm sy'n daladwy ar ail gartrefi wedi gostwng oherwydd bod eiddo wedi trosglwyddo o'r gofrestr ddomestig i'r gofrestr Trethi Busnes ond, serch hynny, roedd incwm y premiwm ar ail gartrefi a thai gwag £632k yn uwch na'r gyllideb.

**6. Arbedion Cyllidebol 2022/23**

**6.1** Nid oedd angen i'r gwasanaethau wneud unrhyw arbedion cyllidebol yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23.

## 7. Costau Asiantaeth ac Ymgynghorwyr

**7.1** Gwariwyd £1,523k ar staff Asiantaeth yn ystod y flwyddyn. Roeddent yn cael eu cyllido'n rhannol, yn bennaf, o gyllidebau staff oherwydd eu bod yn gysylltiedig â swyddi gweigion, tra bod £861k yn ymwneud â gweithwyr llanw ar gyfer swyddi gweigion. Gwariodd y Gwasanaethau Plant £280k ar staff asiantaeth a gwariodd y Gwasanaethau Oedolion £368k ar staff asiantaeth. Gwariodd y Gwasanaeth Gwastraff £339k ar weithwyr safle mewn canolfannau ailgylchu. Mae manylion llawn wedi'u cynnwys yn Atodiad CH.

**7.2** Gwariwyd cyfanswm o £1,426k ar Ymgynghorwyr yn ystod y flwyddyn ariannol, a chyllidwyd £672k o'r gwariant hwnnw gan grantiau neu o ffynonellau allanol. Mae Atodiad D yn cynnwys crynodeb o'r gwariant fesul gwasanaeth, ac mae Atodiad DD yn cynnwys manylion ychwanegol am y gwariant.

## 8. Cyllid Grant Covid-19 Llywodraeth Cymru hyd yma

**8.1** Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol sylweddol i awdurdodau lleol Cymru ar gyfer costau ychwanegol yn gysylltiedig â Coronafeirws, ond mae'r cyllid hwn wedi dod i ben yn awr. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau i wneud taliadau i unigolion ac mae'n adennill y costau gan Lywodraeth Cymru trwy drefniadau'r Gronfa Galedi. Dengys Tabl 3 isod fod y Cyngor wedi hawlio £2.282m ar gyfer costau ychwanegol yn deillio o'r pandemig yn ystod y flwyddyn ariannol hon:-

**Tabl 3 Gwariant cysylltiedig â Covid rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023 a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru**

| | Prydau Ysgol am Ddim £ | Hunan-ynysu £ | Tanwydd Gaeaf £ | Ychwanegiad at y Tâl Salwch Statudol £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **CRYNODEB** Hawliwyd | 653,297 | 181,210 | 1,326,124 | 121,589 | 2,282,220 |
| Gwrthodwyd | 35,478 | - | - | - | 35,478 |
| **Balans sy'n ddyledus** | **617,819** | **181,210** | **1,326,124** | **121,589** | **2,246,742** |
| Talwyd | 563,354 | 181,210 | 1,107,254 | 121,590 | 1,973,407 |
| **Balans sy'n weddill** | **54,465** | **-** | **218,871** | **- 1** | **273,334** |

## 9. Casgliad

**9.1** Y tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 oedd £1.212m. Croesewir y canlyniad hwn ac mae'n gwella sefyllfa ariannol y Cyngor. Fodd bynnag, mae nifer o eitemau unwaith ac am byth wedi cynorthwyo'r sefyllfa ariannol, gan gynnwys grantiau untro gan Lywodraeth Cymru, targedau incwm yn perfformio'n well na'r gyllideb (yn bennaf yn y gwasanaethau Priffyrdd a Gwastraff), defnyddio cronfeydd wrth gefn clustnodedig, yn ogystal â nifer fawr o swyddi gweigion. Mae mwyafrif y manteision ariannol hyn yn eitemau untro a ni fyddant yn cael eu hailadrodd i'r un graddau yn 2023/24, neu bydd cyllidebau yn cael eu haddasu i adlewyrchu unrhyw gynnydd parhaol. Roedd tua £1m o gostau'n gysylltiedig ag addasiadau cyfrifyddu untro ac ni ddylent gael eu hailadrodd yn 2023/24.

**9.2** Mae'r alldro'n dangos fod y galw am wasanaethau'n parhau, yn arbennig yng Ngwasanaethau Oedolion a Phlant a Digartrefedd. Oherwydd yr argyfwng costau byw presennol, rhagwelir y bydd y pwysau'n parhau yn 2023/24. Roedd y defnydd o gronfeydd wrth gefn clustnodedig a'r cyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wedi gwella sefyllfa alldro y gwasanaethau hyn yn sylweddol. Byddai absenoldeb y cyllid untro hwn wedi newid y sefyllfa alltro'n sylweddol, gyda gorwariant yn cael ei adrodd yn hytrach na thanwariant o £1.2m. Mae hyn yn tynnu sylw at y pwysau ariannol y mae'r Cyngor yn ei wynebu yn 2023/24 a thu hwnt.

**9.3** Mae'r tanwariant net wedi cyfrannu at gynnydd ym Malansau Cyffredinol y Cyngor ac mae'r lefel, sef £14m, yn parhau i fod yn iach. Serch hynny, dylid nodi fod £3.8m o'r swm hwn wedi'i ymrwymo fel cyllid ar gyfer cyllideb refeniw 2023/24. Felly, y swm gwirioneddol sydd ar gael yw £10.2m, ac mae hyn £1.4m yn uwch na'r swm isaf sy'n cael ei argymell (5% o gyllideb refeniw net 2023/24).

**9.4** Roedd cynnydd sylweddol yng nghyllideb 2023/24, ond mae nifer o ffactorau yn bodoli a allai roi pwysau ar y gyllideb. Maent yn cynnwys dyfarniad cyflog 2023/24, sydd eto i'w gytuno, p'un ai fydd chwyddiant yn disgyn yn gyflym a pha effaith a gaiff yr argyfwng costau byw parhaus ar y galw am wasanaethau ac ar allu pobl i dalu'r Dreth Gyngor. Bydd lefel y balansau cyffredinol yn lliniaru hyn i ryw raddau os bydd cyllideb 2023/24 yn dechrau gorwario.

**9.5** Wrth edrych ymlaen ymhellach i 2024/25 a thu hwnt, nid yw'r rhagolygon ariannol yn edrych yn dda ar hyn o bryd, ac mae disgwyl i'r galw am wasanaethau, yn ogystal â chostau, barhau i gynyddu. Serch hynny, codiad cyfyngedig yn unig a ragwelir yn lefel y cyllid grant gan Lywodraeth Cymru. Bydd gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25 yn hynod o anodd. Bydd diweddariad pellach ar y Cynllun Ariannol Tymor Canol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2023.

**ATODIAD B**

**Alldro Refeniw a Ragwelir ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddau i ben ar 31 Mawrth 2023 - Alldro**
**Projected Revenue Outturn for the Financial Year ending 31 March 2023 - Outturn**

| **Gwasanaeth/Swyddogaeth** ***Service/Function*** | **2022/23 Cyllideb Blynyddol Annual Budget** | **Alldro Dros Dro / Provisional Outturn** | **Cyfanswm Dros Dro Amrywiaeth Alldro / Provisional Total Outturn Variance** | **Gor / (Tan) Wariant dros dro fel % o'r Gyllideb Gyfan / Provisional Over/(Under)spend as a % of Total Budget** | **Gwahaniaeth i Ch3 ar gyllidebau a reolir gan y gwasanaethau / Difference to Qtr 3 on Service Controlled Budgets** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc** ***Education, Skills and Young People*** | | | | | |
| Cyllideb Datganoledig Ysgolion *Delegated Schools Budget* | 52,494 | 52,494 | 0 | 0.00% | 0 |
| Addysg Canolog *Central Education* | 4,244 | 4,008 | (236) | (5.56%) | (64) |
| Diwylliant *Culture* | 1,349 | 1,379 | 30 | 2.21% | (15) |
| | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** ***Adult Services*** | 30,583 | 30,530 | (53) | 0.17% | 613 |
| | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** ***Children's Services*** | 12,342 | 13,331 | 989 | 8.01% | 996 |
| | | | | | |
| **Tai** ***Housing*** | 1,970 | 1,970 | 0 | 0.00% | 10 |
| | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** ***Highways, Waste & Property*** | | | | | |
| Priffyrdd *Highways* | 6,897 | 6,521 | (376) | (5.46%) | (239) |
| Eiddo *Property* | 1,725 | 1,179 | (546) | (31.64%) | (222) |
| Gwastraff *Waste* | 9,104 | 8,057 | (1,047) | (11.50%) | (1,030) |
| | | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** ***Regulation & Economic Development*** | | | | | |
| Datblygu Economaidd *Economic Development* | 2,421 | 2,470 | 49 | 2.05% | 94 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd *Planning and Public Protection* | 2,551 | 2,370 | (181) | (7.09%) | (175) |
| | | | | | |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth<br>*Service/Function* | 2022/23<br>Cyllideb Blynyddol<br>Annual Budget | Alldro Dros Dro /<br>Provisional Outturn | Cyfanswm Dros Dro Amrywiaeth Alldro /<br>Provisional Total Outturn Variance | Gor / (Tan) Wariant dros dro fel % o'r Gyllideb Gyfan /<br>Provisional Over/(Under)spend as a % of Total Budget | Gwahaniaeth i Ch3 ar gyllidebau a reolir gan y gwasanaethau /<br>Difference to Qtr 3 on Service Controlled Budgets |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Trawsnewid**<br>***Transformation*** | | | | | |
| Adnoddau Dynol<br>*Human Resources* | 1,679 | 1,606 | (73) | (4.34%) | (75) |
| TGCh<br>*ICT* | 3,767 | 3,650 | (117) | (3.10%) | (55) |
| Trawsnewid Corfforaethol<br>*Corporate Transformation* | 1,175 | 1,024 | (151) | (12.85%) | (117) |
| | | | | | |
| **Adnoddau**<br>***Resources*** | 3,622 | 3,506 | (116) | (3.20%) | (70) |
| | | | | | |
| **Busnes y Cyngor**<br>***Council Business*** | 1,989 | 1,891 | (98) | (4.92%) | (56) |
| | | | | | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd**<br>***Corporate & Democratic Costs*** | 3,879 | 4,998 | 1,119 | 28.85% | 92 |
| | | | | | |
| **Rheolaeth Corfforaethol**<br>***Corporate Management*** | 820 | 827 | 7 | 0.88% | 0 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllideb Gwasanaethau**<br>**Total Service Budgets** | **142,611** | **141,812** | **(799)** | **(0.56%)** | **313** |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth<br>***Service/Function*** | **2022/23<br>Cyllideb Blynyddol<br>Annual Budget** | **Provisional Outturn** | **Provisional Total Outturn Variance** | **Provisional Over/(Under)spend as a % of Total Budget** | **Difference to Qtr 3 on Service Controlled Budgets** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ardollau<br>*Levies* | 3,957 | 3,959 | 2 | 0.05% | 0 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol<br>*Discretionary Rate Relief* | 72 | 96 | 24 | 32.63% | 0 |
| Cyllido Cyfalaf<br>*Capital Financing* | 5,338 | 4,872 | (466) | (8.73%) | (751) |
| Arian wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill<br>*General & Other Contingencies* | 775 | 0 | (775) | (100%) | (708) |
| Cyfraniad CRT y Gwasanaethau Cefnogol<br>*Support Services contribution HRA* | (800) | (741) | 59 | (7.33%) | 0 |
| Budd-daliadau a Roddwyd<br>*Benefits Granted* | 6,414 | 6,338 | (76) | (1.18%) | (209) |
| Dad-gydnabod ac Amhariad o Fân-Ddyledion<br>*De-recognition and Impairment of Sundry Debts* | 0 | 477 | 477 | | 0 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol**<br>***Total Corporate Finance*** | 15,756 | 15,001 | (755) | (4.80%) | (1,668) |
| | | | | | |
| **Cyfanswm 2022/23**<br>***Total 2022/23*** | **158,367** | **156,812** | **(1,554)** | **(1.32%)** | **(1,981)** |
| | | | | | |
| **<u>Cyllido</u>**<br>***<u>Funding</u>*** | | | | | |
| Trethi Annomestig<br>*NDR* | (25,493) | (25,493) | 0 | 0.00% | 0 |
| Y Dreth Gyngor<br>*Council Tax* | (41,866) | (40,892) | 974 | 2.32% | (122) |
| Premiwm y Dreth Gyngor<br>*Council Tax Premium* | (1,950) | (2,582) | (632) | (32.41)% | (266) |
| Grant Cynnal Refeniw<br>*Revenue Support Grant* | (89,058) | (89,058) | 0 | 0.00% | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid 2022/23**<br>***Total Funding 2022/23*** | **(158,367)** | **(158,025)** | **342** | **(0.06%)** | **(388)** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm yr alldro yn cynnwys effaith y cyllido**<br>***Total outturn including impact of funding*** | **0** | **(1,2012)** | **(1,212)** | **(0.76%)** | **(2,369)** |

**ATODIAD C**

**Crynodeb o Sefyllfa Alldro Cyllidebau Wrth Gefn 2022/23**

| | **Cyllideb Gwreiddiol** <br> **£** | **Trosglwyddiadau i linellau gwasanaeth** <br> **£** | **Trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn clustnodedig** <br> **£** | **Sefyllfa Alldro** <br> **£** |
|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol | 405,734 | 90,020 | - | 495,754 |
| Cyflog a Graddio | 100,000 | -153,310 | - | -53,310 |
| Etholiadau'r Sir | 200,000 | -152,265 | - | 47,735 |
| Gwasanaethau Plant - Gofynion Ychwanegol | 316,830 | -316,830 | - | - |
| Caledwedd TG Ysgolion | 300,000 | - | 300,000 | - |
| Costau Covid | 300,000 | -15,000 | - | 285,000 |
| Chwyddiant Cyflog | 1,000,000 | 1,065,000 | 2,065,000 | - |
| Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Cais Twf | 97,000 | -97,000 | - | - |
| Cynllun Hyfforddeion | 340,000 | -257,280 | 82,720 | - |
| Newid Hinsawdd | 50,000 | -150 | 49,850 | - |
| **Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn Cyffredinol ac Argyfyngau Eraill** | **3,109,564** | **163,185** | **2,497,570** | **775,179** |

**Costau Asiantaeth – Alldro 2022/23**

| Gwasanaeth | Swm £ | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas defnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol) | Parhaol / Dros Dro | Rheswm dros Gyflenwi |
|---|---|---|---|---|
| Economaidd ac Adfywio | 18,183 | Grant | Dros Dro | Adlenwi swyddogion sy'n delio gyda Covid |
| | 8,272 | Craidd | Dros Dro | Gorfodi Tai |
| | 6,002 | Grant | Dros Dro | Adlenwi swyddogion sy'n delio â thystysgrifau iechyd allforio |
| | 11,659 | Craidd | Dros Dro | Adlenwi swyddogion sy'n delio â thystysgrifau iechyd allforio |
| | **44,116** | | | |
| Ysgolion | 53,192 | Craidd | Dros Dro | Staff llanw mewn maes arbenigol |
| | **53,192** | | | |
| Gwastraff | 338,722 | Cyllideb Graidd Benodol | Dros Dro | Tasgau ychwanegol sydd eu hangen yn y tymor byr |
| | **338,722** | | | |
| Gwasanaethau Plant | 367,666 | Cyllideb Craidd / Cronfa Wrth Gefn Staff Asiantaeth | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | **367,666** | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 445,527 | Craidd | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | 39,010 | Grant | Dros Dro | Gwaith ychwanegol yn ymwneud â Covid a swyddi gwag |
| | **484,537** | | | |
| Adnoddau | 54,145 | Grant | Dros Dro | Gwaith cymhorthdal Budd-daliadau Tai |
| | 119,315 | Grant | Dros Dro | Gwaith ychwanegol o weinyddu Grantiau Cost Byw Llywodraeth Cymru |
| | 47,644 | Cyllideb Staffio nas Defnyddiwyd | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | 13,770 | Cyllideb Staffio nas Defnyddiwyd | Dros Dro | Cyfrol y gwaith |
| | **234,874** | | | |
| **Cyfanswm** | **1,523,107** | | | |

## Crynodeb o Wariant ar Ymgynghorwyr 2022/23 - Alldro

| Crynodeb o Wariant ar Ymgynghorwyr fesul Gwasanaeth | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Ch 1 £** | **Ch 2 £** | **Ch 3 £** | **Ch 4 £** | **Cyfanswm 2022/23 £** |
| Addysg Canolog | 834 | 12,469 | - | - | **13,303** |
| Diwylliant | 4,925 | 1,500 | 13,150 | 1,192 | **20,767** |
| Economaidd ac Adfywio | 39,147 | 204,352 | 74,577 | 461,216 | **779,292** |
| Eiddo | - | 4,832 | - | -1,551 | **3,281** |
| Priffyrdd | 11,376 | 72,418 | 54,344 | 161,924 | **300,062** |
| Ysgolion | - | - | - | - | **-** |
| Gwastraff | 4,431 | 13,347 | 7,856 | 19,227 | **44,861** |
| CRT | - | - | - | - | **-** |
| Tai | - | - | - | - | **-** |
| Corforaethol a Democrataidd | - | - | - | - | **-** |
| Gwasanaethau Oedolion | - | - | - | - | **-** |
| Gwasanaethau Plant | 200 | 6,093 | 10,000 | 15,127 | **31,420** |
| Corfforaethol | - | - | - | - | **-** |
| Trawsnewid | 9,157 | 20,026 | 11,698 | 4,745 | **45,626** |
| Busnes y Cyngor | 7,279 | 37,968 | 23,827 | 29,364 | **98,438** |
| Adnoddau | 20,278 | 24,770 | 19,803 | 24,050 | **88,901** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm** | **97,627** | **397,775** | **215,255** | **715,294** | **1,425,951** |
| Cyllidwyd gan: | | | | | |
| Cyllideb Craidd | 63,016 | 160,419 | 70,227 | 238,695 | **532,357** |
| Grant | 33,321 | 199,734 | 145,028 | 293,547 | **671,630** |
| Cyfraniad Allanol | - | 34,972 | - | 116,139 | **151,111** |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 1,290 | 2,650 | - | 66,913 | **70,853** |
| **Cyfanswm** | **97,627** | **397,775** | **215,255** | **715,294** | **1,425,951** |

| | Swm £ | Categori - Rheswm Penodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | I dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | | |
| **Cyfanswm Ch1 Ebrill - Mehefin** | **97,627** | | | | | |
| **Cyfanswm Ch2 Gorffennaf - Medi** | **397,774** | | | | | |
| **Cyfanswm Ch3 Hydref - Rhagfyr** | **215,254** | | | | | |
| Diwylliant | 1,033 | | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | Cynorthwyo CSYM i farchnata a sicrhau Consesiwn Caffi yn Oriel Môn, Llangefni |
| | 159 | | | ✓ | Grant | Taith gerdded dywysedig gyda chyflwyniad i weithio fel warden fel rhan o Ŵyl Dysgu |
| **Cyfanswm Diwylliant** | **1,192** | | | | | |
| Economaidd ac Adfywio | 9,205 | ✓ | | | Craidd | Contract STEM 2022/23 |
| | 62,893 | | | ✓ | Arian Wrth Gefn | Gwaith mewn perthynas â datblygu bid Porthladd Rhydd Ynys Môn |
| | 39,525 | | | ✓ | Cyfraniad Craidd ac Allanol | Adolygiad Tir Cyflogaeth Gogledd Orllewin Cymru |
| | 1,002 | ✓ | | | Craidd & PPA | Wylfa - cyngor ar ôl archwiliad |
| | 2,574 | ✓ | | | PPA | Cais Gorchymyn Gweithredoedd Gweithwyr Trafnidiaeth (TWAO) Morlais - cyngor i'r Cyngor fel awdurdod cynnal |
| | 102,580 | ✓ | | | PPA | Cyfrif Dadansoddi a Chyhoeddi Wylfa Newydd i: 31/01/23 |
| | 130 | ✓ | | | Craidd | Cyfnod cynllunio a pholisi solar |
| | 1,287 | ✓ | | | PPA | G2624 Ynys Ynni : Morlais |
| | 11,203 | | | ✓ | Grant | Prosiect Tirwedd Treftadaeth CSYM |
| | 1,646 | | | ✓ | Grant | Gwerthusiad partneriaeth tirwedd Ynys Cybi |

| Swm £ | Categori - Rheswm Penodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|
| | I dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | | |
| 1,100 | | | ✓ | Grant | Cynorthwyo Partneriaeth Tirwedd Ynys Cybi gyda diwrnodau gwirfoddoli ychwanegol yn 2022/23 |
| -26,705 | | | ✓ | Grant | Trosglwyddo Prosiect Tirwedd Treftadaeth CSYM i brosiectau cyfalaf |
| 5,072 | ✓ | | | Grant | Arolwg topograffi dronau Tir Y Gymdeithas Porth Amlwch |
| 1,180 | ✓ | | | Grant | Prosiect Parcdir Gwerthusiad Cynaliadwyedd Amgylcheddol (ESA) Porth Amlwch |
| 3,431 | ✓ | | | Grant | Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol o'r safle y tu ôl i Garej Môn Amlwch |
| 135,000 | ✓ | | | Grant | Unedau Amlwch - cymorth cais cynllunio |
| 3,500 | ✓ | | | Grant | Datblygu a chynhyrchu deunyddiau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer parcdir arfaethedig ym Mhorth Amlwch |
| 1,906 | ✓ | | | Grant | Porth Parc Amlwch - Caffael a chydlynu dyfynbrisiau cynnal a chadw tirwedd |
| 9,995 | ✓ | | | Grant | Cam 1 a 2 Adroddiad Ffeithiol a Dehongli Ymchwiliad Tir Geotechnegol |
| 5,500 | ✓ | | | Grant | Achos Strategol Unedau Diwydiannol Amlwch |
| 62,905 | | | ✓ | Grant | Cyngor Economeg Ynys Môn – Cronfa Codi'r Gwastad (Economeg Cymdeithasol) Ffioedd Proffesiynol |
| 1,690 | | | ✓ | Grant | Prosiectau Codi'r Gwastad |
| -128,717 | | | ✓ | Grant | Trosglwyddo costau Rheoli Rhaglen Cronfa Codi'r Gwastad i brosiectau cyfalaf |
| 1,250 | | | ✓ | Grant | Ymgyrch Hyrwyddo Porthaethwy |
| 34,680 | | | ✓ | Grant | Arolwg a Chysyniadau Tir Cyhoeddus Trefi Ynys Môn |
| 6,600 | | | ✓ | Grant | Trwydded Prosiect Adfywio Canol y Dref |
| 2,824 | | | ✓ | Grant | Gwelliannau Gweledol Pont Porth Caergybi |
| 5,325 | | | ✓ | Grant | Arolwg o 8 adeilad |
| 5,050 | | | ✓ | Grant | Darparu Gwasanaethau Hyrwyddo Canol Tref ar Ynys Môn |
| 4,200 | | | ✓ | Grant | Cronni ar gyfer anfoneb Ove Arup ar gyfer cyfieithu adroddiad |

| | Swm £ | Categori - Rheswm Penodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | I dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | | |
| | 12,321 | ✓ | | | Grant | Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd Cyngor Sir Ynys Môn |
| | 3,937 | | | ✓ | Cyfraniadau Allanol | Adolygu cais ac adroddiad cynllunio Glannau Caergybi |
| | 8,048 | | | ✓ | Craidd | Cymorth Rheoli Datblygu |
| | 440 | | | ✓ | Craidd | Ffioedd proffesiynol - Annedd Arfaethedig i Weithwyr Gwledig, Tŷ Mawr, Bodorgan |
| | 15,000 | ✓ | | | Craidd - Incwm cynllunio | Ffi flynyddol tuag at y Gwasanaeth Mwynau a Gwastraff a rennir ar gyfer 2022-23 |
| | 5,000 | ✓ | | | Craidd - Incwm cynllunio | Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth - Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd 2022-23 |
| | 36,559 | | | ✓ | Craidd - Incwm cynllunio | Cais Tir a Llynnoedd Penrhos, Caergybi - cyngor ar weithredu -3.322 - 22.3.23 |
| | 5,762 | | ✓ | ✓ | Cyfraniadau Allanol | Trwyddedu Amgylcheddol: Arolygu prosesau gan gynnwys adroddiad dilynol ac ysgrifennu llythyrau. |
| | 563 | ✓ | | | Craidd | Taliadau Cyfreithiol Operation Pinewood |
| | 3,443 | ✓ | ✓ | ✓ | Cyllideb Staffio nas ddefnyddir | Gwaith ymgynghori petroliwm |
| | 1,000 | ✓ | ✓ | ✓ | Craidd | Ymgynghoriaeth Porth ar gyfer Pwynt Rheoli Ffiniau Caergybi |
| | 325 | | | ✓ | Grant | Llyfryn ffitrwydd teulu - 8 Tudalen 1 milltir |
| | 990 | | | ✓ | Grant | Ffitrwydd |
| **Cyfanswm Economaidd ac Adfywio** | **461,216** | | | | | |
| Priffyrdd | 2,392 | | | ✓ | Craidd | Un astudiaeth dichonoldeb codi tâl stryd |
| | 209 | | | ✓ | Craidd | Tâl PCN |
| | 1,427 | | | ✓ | Craidd | Cyfraniad Ardoll i sylw Gwasanaethau Parcio |
| | 39,237 | | ✓ | | Craidd | Dyletswyddau Corff Cymeradwyo (Draenio) Cynaliadwy (SAB) Cyngor Sir Ynys Môn - Gwasanaethau Ceisiadau |
| | 6,746 | | | ✓ | Grant | Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol ac Erydu Arfordirol Ynys Môn |
| | 2,800 | | | ✓ | Grant | Gwasanaethau Peirianneg mewn perthynas â The Rise, Bae Trearddur |

| | Swm £ | Categori - Rheswm Penodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | I dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | | |
| | 28,477 | | | ✓ | Grant | Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol ac Erydu Arfordirol Ynys Môn |
| | 130 | | | ✓ | Craidd | Ymchwil yn yr Archifdai Cyhoeddus yn ymwneud â hawliau tramwy yng nghyffiniau Fferm Parys, Amlwch |
| | 130 | | | ✓ | Craidd | Ymchwil yn yr Archifdai Cyhoeddus yn ymwneud â hawliau tramwy yng nghyffiniau Fferm Parys, Amlwch |
| | 1,050 | | | ✓ | | Pont / strwyddur llwybr pren rhwng Llyn Cefni a Nant y Dilyw |
| | 11,100 | | | ✓ | | Digido'r prosiect 20 mya |
| | 18,557 | | | ✓ | | Cynnal arolwg llawn ar draws gweddill rhwydwaith priffyrdd Ynys Môn |
| | 3,000 | | | ✓ | | Digido gorchmynion terfyn cyflymder 40mya a 50mya Ynys Môn |
| | 30,925 | | | ✓ | | W-03-24812 Modelu Hydrolig Benllech |
| | 10,224 | | | ✓ | | W-02-24326 Achos Busnes Amlinellol Benllech |
| | 5,650 | | | ✓ | | Cynllun PFR Ynys Môn |
| **Cyfanswm Priffyrdd** | **161,924** | | | | | |
| Eiddo | | 2,593 | | ✓ | Craidd | Adolygiad Cyfleusterau Cyhoeddus |
| | | -4,832 | | ✓ | Craidd | Adolygiad Cyfleusterau Cyhoeddus yn cael ei drosglwyddo i brosiectau cyfalaf |
| | | 688 | | ✓ | Craidd | Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol – Bloc Toiledau Church St |
| **Cyfanswm Eiddo** | | **-1,551** | | | | |
| Gwastraff | 8,228 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Cymorth Technegol Nwy Tirlenwi Penhesgyn |
| | 230 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Mewnbwn gan Gyfarwyddwr y Prosiect yn adolygu penderfyniadau, trafodaethau a chyflawniadau |
| | 172 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Rheoli trosglwyddo tystysgrif ROC / REGO ac uwchlwytho allbwn |
| | 2,537 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Adolygiad Rhent Genset (NewEnco) (V03) |
| | 40 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Leachate profi Gorsaf TR |

| | Swm £ | Categori - Rheswm Penodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | I dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | | |
| | 2,020 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Adroddiad Monitro Amgylcheddol a Monitro Blynyddol |
| | 663 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllidir y Ganolfan Cost drwy Ddarpariaeth | Cynllun Rheoli Amgylcheddol y Safle |
| | 1,000 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllidir y Ganolfan Cost drwy Ddarpariaeth | Arolwg Topo Blynyddol o Dirlenwi Penhesgyn |
| | 809 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllidir y Ganolfan Cost drwy Ddarpariaeth | Gwasanaethau Ymgynghori Cronfa Datblygu Adfer Mawndir |
| | 860 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllidir y Ganolfan Cost drwy Ddarpariaeth | Cymorth Technegol Cyffredinol / Cydlynu / Rheoli Prosiectau |
| | 688 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllidir y Ganolfan Cost drwy Ddarpariaeth | Cyswllt a rheoli perfformiad – adolygu SEMP yn cynnwys cyfarfod |
| | 1,980 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Diweddariad Penhesgyn IVC Bioaerosol RA |
| **Cyfanswm Gwastraff** | **19,227** | | | | | |
| Gwasanaethau Plant | 622 | | | ✓ | Grant | Gwerthusiad allanol o Môn Ymlaen ar gyfer CRF |
| | 5,000 | | | ✓ | Grant | Gwaith Ymgynghori Comisiynu'r Gymuned |
| | 2,772 | | | ✓ | Grant | Swyddog Cymraeg i Blant 1-3/23 |
| | 2,953 | | | ✓ | Grant | Gwaith comisiynu Grŵp Tadau Homestart Cymru |
| | 800 | | | ✓ | Grant | Llythrennedd Corfforol Blynyddoedd Cynnar 0-2 3-5 |
| | 1,780 | | | ✓ | Grant | Gwaith comisiynu ymweliadau iechyd amenedigol |
| | 1,200 | | | ✓ | Grant | Staff Aquanatal Betsi, gwaith cydweithio |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Plant** | **15,127** | | | | | |

| | Swm £ | Categori - Rheswm Penodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | I dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | | |
| Trawsnewid | 36 | | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | Taliadau rheoli prosiect - ResourceLink yn mudo i'r cwmwl hybrid |
| | 3,196 | | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | C-Series Gwasanaethau Proffesiynol Menter |
| | 1,512 | ✓ | | | Grant | Asesydd - Gweithwyr Cymdeithasol dan Hyfforddiant |
| **Cyfanswm Trawsnewid** | **4,745** | | | | | |
| Busnes y Cyngor | 29,364 | | | ✓ | Cyllideb staffio nas defnyddir | Locwm |
| **Cyfanswm Busnes y Cyngor** | **29,364** | | | | | |
| Adnoddau | 13,350 | | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | Symud meddalwedd i'r cwmwl |
| | 10,700 | | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | System NEC Refeniw a Budd-daliadau |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **24,050** | | | | | |
| **Total Q4 January - March** | **715,293** | | | | | |
| **Cumulative Total April - March** | **1,425,951** | | | | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **27 MEHEFIN 2023** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD ALLDRO CYFALAF 2022/23** |
| **Aelodau Portffolio** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:** E-bost | **JEMMA ROBINSON JemmaRobinson@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

- Nodi sefyllfa alldro drafft Rhaglen Gyfalaf 2022/23 fydd yn destun Archwiliad; a
- Cymeradwyo dwyn ymlaen £13.477m i 2023/24 ar gyfer y tanwariant ar y rhaglen oherwydd llithriad. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cael ei ddwyn ymlaen i 2023/24 (Atodiad A – paragraff 4.3). Y gyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2023/24 yw £51.439m.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 fydd yn destun Archwiliad;
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth a ddirprwywyd i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| | **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Ystyriodd yr TA yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 6 Mehefin 2023 ac mae'r sylwadau ar yr adroddiad drafft wedi cael eu hymgorffori yn yr adroddiad terfynol. |
| 2 | **Cyllid / Swyddog Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Mae sylwadau'r Swyddog Monitro wedi'u cynnwys yn sylwadau'r TA. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Sgriwtini** | Amherthnasol |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yw'n berthnasol)** | | |
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?** | Mae'r gyllideb gyfalaf yn cyllido buddsoddiad mewn asedau ac isadeiledd y mae eu hangen i ganiatáu i'r Cyngor gwrdd â'i amcanion tymor hir a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol a Strategaeth Gyfalaf. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?-** | Bydd rhai o'r buddsoddiadau unigol, e.e. gwaith atal llifogydd, yn atal costau yn y dyfodol, tra bydd eraill, e.e. prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig, yn lleihau dibyniaeth ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau mwy costus. |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:** | Mae cyllido'r prosiectau wedi cael ei gytuno a'i gynllunio â sefydliadau eraill, a Llywodraeth Cymru'n neilltuol. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Bu Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'r Rhaglen Gyfalaf 2022/23 yn destun proses ymgynghori gyda dinasyddion Ynys Môn. |
| **5** | **Nodwch unrhyw effaith a gaiff y penderfyniad hwn ar yr agenda Cydraddoldeb a'r Gymraeg** | Mae rhai o'r prosiectau a gyllidir gan y Rhaglen Gyfalaf yn cael effaith ar yr agenda cydraddoldeb, e.e. grant mynediad i'r anabl mewn ysgolion, grant cyfleusterau i'r anabl. Dim effaith ar agenda'r Iaith Gymraeg. |

**F – Atodiadau:**

Atodiad A - Adroddiad Alldro Cyfalaf – 2022/23
Atodiad B - Crynodeb o Wariant Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a llithriad i 2023/24
Atodiad C – Newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol ers gosod y gyllideb

**FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Gyfalaf 2022/23 fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2022;
- Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2022/23 a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2022;
- Adroddiad Alldro Cyfalaf 2021/22 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 28 Mehefin 2022;
- Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf Chwarter 1, 2022/23 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 27 Medi 2022;
- Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf Chwarter 2, 2022/23 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 29 Tachwedd 2022; ac
- Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf Chwarter 3, 2022/23 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 2 Mawrth 2023.

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Dyma'r adroddiad Alldro Cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 ac mae'n caniatáu i Aelodau nodi'r cynnydd o ran Gwariant Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf. Bydd y ffigyrau yn yr adroddiad hwn yn destun Archwiliad.

**1.2** Ym mis Mawrth 2022, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai o £17.177m ar gyfer 2022/23, a Rhaglen Gyfalaf o £18.784m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ogystal, ym mis Mehefin 2022, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i Lithriad cyfalaf o £11.242m gael ei ddwyn ymlaen o 2021/22, a daw hyn â chyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai i £28.419m, a £18.784m ar gyfer y CRT. Ers cwblhau'r broses gosod cyllideb, ychwanegwyd cynlluniau at y rhaglen, gwerth cyfanswm o £11.111m, a bu gostyngiad o £3.750m yng nghyllideb y CRT. Daw hyn â chyfanswm y gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2022/23 i £54.564m. Dangosir hyn yn y tabl isod: -

| Cyllidwyd gan: | Cyllideb gwreiddiol 2022/23 fel y cytunwyd gan y Cyngor llawn £'000 | Llithriad fel y cytunwyd yn alldro Ch4 2021/22 £'000 | Gostyngiad CRT £'000 | Cynlluniau ychwanegol ers gosod y gyllideb £'000 | CYFANSWM £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Grant | 7,662 | 4,426 | | 9,920 | **22,008** |
| Benthyca â Chefnogaeth | 3,325 | 3,816 | | (75) | **7,066** |
| Benthyca Digefnogaeth | 11,399 | 200 | (3,750) | (1,107) | **6,742** |
| Cyfraniad Refeniw | 10,099 | - | | 226 | **10,325** |
| Derbyniadau Cyfalaf | 600 | 251 | | 415 | **1,266** |
| Cronfeydd wrth Gefn | 2,876 | 2,472 | | 737 | **6,085** |
| Benthyciad | - | 77 | | 995 | **1,072** |
| **CYFANSWM** | **35,961** | **11,242** | **(3,750)** | **11,111** | **54,564** |

Gweler Atodiad C am fanylion am newidiadau i gyllidebau a chynlluniau ychwanegol ers gosod y gyllideb.

## 2. GWARIANT CYFALAF 2022/233

**2.1** Isod mae Tabl yn crynhoi'r gwariant hyd at 31 Mawrth 2023: -

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | (Tan) / Gor wariant £'000 | Cyllideb flynyddol a wariwyd % |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol - Tai | 1,679 | 700 | (979) | 42 |
| Tai - CRT | 15,034 | 11,180 | (3,854) | 74 |
| Dysgu Gydol Oes | 16,703 | 12,799 | (3,904) | 77 |
| Economaidd ac Adfywio | 7,761 | 7,321 | (440) | 94 |
| Priffyrdd | 7,657 | 5,125 | (2,532) | 67 |
| Rheoli Gwastraff | 445 | 213 | (232) | 48 |
| Eiddo | 2,864 | 1,926 | (938) | 67 |
| Trawsnewid | 1,147 | 1,023 | (124) | 89 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,274 | 403 | (871) | 32 |
| **Cyfanswm** | **54,564** | **40,690** | **(13,874)** | **75** |
| **Cyllidwyd gan:** | | | | |
| Grant Cyfalaf | 22,008 | 22,656 | 648 | 103 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,266 | 822 | (444) | 65 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 7,066 | 2,757 | (4,309) | 39 |
| Benthyca Digefnogaeth | 6,742 | 4,009 | (2,733) | 59 |
| Cyfraniad Refeniw | 10,325 | 7,398 | (2,927) | 72 |
| Benthyciad | 1,072 | 995 | (77) | 93 |
| Cronfeydd wrth Gefn | 6,085 | 2,053 | (4,032) | 34 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **54,564** | **40,690** | **(13,874)** | **75** |

**2.2** Roedd y gyllideb ar gyfer y Gronfa Gyffredinol yn £39.530m ac, ar 31 Mawrth 2023, roedd £29.511m wedi'i wario. Mae hyn yn cyfateb i 75% o'r gyllideb. Mae rhesymau am y tanwariant yn cynnwys: -

| Cynllun | Tanwariant £'m | Sylwadau |
|---|---|---|
| Adnewyddu adeiladau ysgol | 1.186 | Yn ystod rhan olaf 2022/23, dyfarnwyd cyllid grant ychwanegol gwerth £1.189m i'r Awdurdod ar gyfer gwaith cynnal a chadw cyfalaf mewn ysgolion. Defnyddiwyd yr cyllid grant i gyllido gwariant cyfalaf ar adeiladau addysg yn 2022/23, yn hytrach na defnyddio adnoddau'r Awdurdod. Bydd y cyllid a arbedwyd gan yr Awdurdod oherwydd y grant hwn yn cael ei ddefnyddio'n awr i gyllido gwaith Cyfalaf mewn ysgolion yn 2023/24. |
| Prydau Ysgol am Ddim | 0.600 | Yn ystod rhan olaf 2022/23, dyfarnwyd grant ychwanegol gwerth £0.832m i'r Awdurdod er mwyn i ysgolion baratoi ar gyfer cyflwyno prydau ysgol am ddim. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf y penderfynwyd arnynt yn lleol yn 2022/23, yn hytrach na defnyddio cyllid o adnoddau'r Awdurdod. Yn ogystal, cafwyd £0.013m a oedd yn wariant refeniw yn nhyb yr Awdurdod, er ei fod yn gymwys yn unol â thelerau'r grant, felly, trosglwyddwyd £0.013m o'r cyllid refeniw gan adael cyllideb gyfalaf o £0.819m. Bydd y cyllid a arbedwyd gan yr Awdurdod oherwydd y grant hwn yn cael ei ddefnyddio'n awr i gyllido gwaith paratoi ar gyfer prydau ysgol am ddim yn 2023/24. |
| Grant Ysgolion Bro | 0.451 | Yn 2022/23, dyfarnwyd cyllid grant gwerth £0.476m i'r Awdurdod i gefnogi prosiectau ymarferol ar raddfa fach a chanolig i agor ysgolion tu allan i oriau traddodiadol, ac yn benodol i addasu ysgolion yn ddiogel a'u hagor tu allan i oriau traddodiadol i alluogi defnydd cymunedol o'r cyfleusterau cyfredol. Ni wariwyd fawr o'r cyllid yn 2022/23 ac, oherwydd amseriad y cyllid, roedd disgwyl i'r cynllun danwario, fel y nodwyd yn yr adroddiadau monitro blaenorol.<br><br>Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf y penderfynwyd arnynt yn lleol yn 2022/23, yn hytrach na defnyddio adnoddau'r Awdurdod. Yn ogystal, cafwyd £0.025m o wariant a oedd yn wariant refeniw yn nhyb yr Awdurdod, er ei fod yn gymwys yn unol â thelerau'r grant, felly, trosglwyddwyd £0.025m o'r cyllid hwn i'r gyllideb refeniw, gan adael cyllideb gyfalaf o £0.451m. Bydd y cyllid a arbedwyd gan yr Awdurdod oherwydd y grant hwn yn cael ei ddefnyddio'n awr i gyllido prosiectau Ysgolion Bro yn 2023/24. |
| Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | 0.436 | Yn 2022/23, dyfarnwyd cyllid grant gwerth £0.476m i'r Awdurdod i gefnogi disgyblion sydd ag ADY. Ni chafwyd fawr o wariant yn 2022/23 ac, oherwydd amseriad y cyllid, roedd disgwyl i'r cynllun danwario, fel y nodwyd yn yr adroddiadau monitro blaenorol. |

| Cynllun | Tanwariant £’m | Sylwadau |
|---|---|---|
| | | Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf y penderfynwyd arnynt yn lleol yn 2022/23, yn hytrach na defnyddio adnoddau’r Awdurdod. Bydd y cyllid a arbedwyd gan yr Awdurdod oherwydd y grant hwn yn cael ei ddefnyddio’n awr i gyllido prosiectau ADY yn 2023/24. |
| Mynediad i Adeiladau Addysg i’r Anabl | 0.145 | Y rheswm am hyn yw bod yr addasiadau ar gyfer yr anabl wedi’u cwblhau ym mhob ysgol uwchradd heblaw am un. Mae gwaith yn yr ysgol uwchradd sy’n weddill wedi’i ohirio wrth ddisgwyl am ganlyniad astudiaethau dichonolrwydd. Mae gwaith yn cael ei gwblhau mewn ysgolion cynradd pryd a phan fydd angen.<br><br>Er bod buddsoddiad sylweddol wedi’i wneud, efallai y bydd angen rhagor o waith yn y dyfodol i roi sylw i anghenion unigolion nad ydynt yn hysbys i ni eto, felly, mae angen i’r tanwariant lithro i 2023/24. |
| Cynlluniau Llifogydd amrywiol | 1.198 | Mae rhai cynlluniau’n rhai parhaus ac maent yn pontio gwahanol flynyddoedd ariannol. Gwelwyd oedi gyda chynlluniau eraill a chytunwyd ar estyniad amser er mwyn eu cwblhau gyda Llywodraeth Cymru er mwyn dwyn y cyllid ymlaen, tra bod cynlluniau eraill wedi’u cwblhau. |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol – Gwelliannau isadeiledd | 0.416 | Oherwydd natur y gwaith a’r amser arweiniol ar gyfer cwblhau isadeiledd, sicrhawyd estyniad amser hyd at fis Mehefin 2023. |
| Isadeiledd Morwrol | 0.178 | Mae gwaith yn Amlwch yn derbyn blaenoriaeth, ac, er bod gwaith cefndirol wedi cychwyn ac ymgynghorwyr wedi cael eu penodi, mae angen y gyllideb lawn o hyd a bydd y mwyafrif o’r gwaith yn digwydd yn 2023/24. |
| Isadeiledd Ymwelwyr | 0.199 | Yn unol ag adroddiadau monitro blaenorol, roedd disgwyl i’r cynllun hwn lithro a ragwelwyd y byddai’r mwyafrif o’r gwaith yn digwydd yn 2023/24. |
| Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Band B | 1.191 | Cafwyd oedi o 18 wythnos oherwydd bod y tir yn eithriadol o wlyb. Bu’n rhaid cwblhau gwaith draenio ychwanegol. Mae gwaith cloddio ffosydd a gosod sylfeini concrit wedi dechrau. Rydym yn disgwyl cadarnhad o’r cynnydd yn y costau oherwydd yr oedi, gwaith draenio, amodau tir gwael a gorfod creu sylfeini concrit dyfnach. |
| Grant Cyfleusterau i’r Anabl | 0.466 | Mae atgyfeiriadau gan y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi arafu oherwydd sgil-effaith y pandemig a phrinder contractwyr. Cymeradwywyd mwy o waith ond, oherwydd bod llai o gontractwyr yn cael eu defnyddio, nid oedd gwaith yn cael ei gwblhau mor gyflym. Bydd y mater hwn yn cael sylw yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. |

| Cynllun | Tanwariant £'m | Sylwadau |
|---|---:|---|
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 0.491 | Roedd y prisiau tendr gwreiddiol a dderbyniwyd yn uwch na'r cyllid oedd ar gael. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ail-ddylunio'r cynllun er mwyn gostwng y costau i'r un lefel â'r cyllid sydd ar gael. |
| Gwaith cyfalaf ar asedau presennol | 0.476 | Mae'r gyllideb sy'n weddill wedi'i hymrwymo ar gyfer gwaith sy'n pontio 2022/23 a 2023/24. Mae gwaith yn cynnwys buddsoddiad sylweddol yng Nghanolfannau Hamdden Caergybi ac Amlwch. |
| Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus | 0.361 | Mae'r gwasanaeth wrthi'n datblygu cynllun gwella toiledau cyhoeddus a fydd yn rhoi gwell syniad o'r gofynion cyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Rhagwelir hefyd y gallai cyllid grant ychwanegol ar gyfer gwaith cyfalaf ar doiledau cyhoeddus gael ei gynnig yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf a byddai modd defnyddio rhan o'r gyllideb hon unwaith eto fel cyllid cyfatebol os yw'r cyfle'n codi. |
| Cerbydau | 0.510 | Mae cynllun yn cael ei lunio i ddarparu mannau gwefru cerbydau trydan yn y compownd. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cael eu cwblhau, ac mae archebion ar gyfer cerbydau trydan wedi cael eu gohirio hyd nes caiff y gwaith ei gwblhau. Archebwyd cerbydau eraill cyn diwedd y flwyddyn ariannol ond, serch hynny, oherwydd yr amseroedd arweiniol, derbynnir y cerbydau ar ôl diwedd y flwyddyn ac, felly, bydd angen i'r gyllideb lithro i flwyddyn ariannol 2023/24. |
| Y Gronfa Gofal Integredig (CGI) | 0.694 | Hawliwyd £0.852m trwy'r CGI yn ystod y flwyddyn flaenorol, yn ogystal â chyllid a ddadleolwyd, er mwyn cwblhau'r prosiectau a lithrodd i 2022/23. Bydd rhai o'r prosiectau'n parhau yn 2023/24 ac mae'r tîm rhanbarthol wedi cytuno y caiff cyllid ei ddwyn ymlaen i gyllido'r gwaith o gwblhau'r prosiectau yn 2023/24. |

Mae Atodiad B yn yr adroddiad hwn yn cynnwys rhestr lawn o wariant cynlluniau cyfalaf yn erbyn y gyllideb.

**2.3** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai wedi gwario 74% o'i gyllideb, a rhagwelwyd tanwariant sylweddol drwy gydol 2022/23. Am ragor o wybodaeth am wariant cyfalaf y CRT yn 2022/23, gweler adroddiad monitro chwarter 4 y CRT, a gyflwynir i'r Pwyllgor hwn ar 27 Mehefin 2023.

**2.4** Fel y gwelir o Dabl 2.1 (uchod), mae gwahaniaeth sylweddol yn y cyllid ar gyfer Grantiau Cyfalaf, Benthyca â Chefnogaeth, Benthyca Digefnogaeth a Chyfraniadau Refeniw a chronfeydd wrth gefn Cyfalaf. Ac eithrio'r grant cyfalaf cyffredinol ychwanegol gwerth £1.701m a ddefnyddiwyd yn 2022/23, ac nad oedd wedi'i gynnwys yn y gyllideb wreiddiol ar gyfer 2022/23 (a gaiff ei esbonio ym mharagraff 4.1), roedd tanwariant ar grantiau mewn gwirionedd, o gymharu â'r gyllideb. Y rheswm pennaf am hyn yw na ddefnyddiwyd y dyraniad grant cyfalaf cyffredinol ar gyfer 2022/23 yn llawn, ond bydd yn cael ei ddwyn ymlaen i gyllido cynlluniau sydd wedi llithro yn 2023/24 (Grant Cyfleusterau i'r Anabl). Mae hyn, ynghyd â chynlluniau llifogydd amrywiol a oedd yn cael eu cyllido gan grantiau, lle bydd gwaith yn parhau arnynt yn y flwyddyn ariannol nesaf, wedi cyfrannu at y tanwariant hwn. Mae Atodiad B yn cynnwys manylion am y symiau sy'n llithro.

Y rheswm pennaf am yr amrywiant yn y Benthyca Digefnogaeth yw'r tanwariant sylweddol yn y CRT oherwydd bod y gwariant wedi'i gyllido'n llawn gan grantiau a chyfraniadau refeniw, dim angen benthyca digefnogaeth, ac roedd gwariant Band B y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'n cael ei gyllido'n llawn gan grantiau.

Mae'r tanwariant ar Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn cyfrannu at yr amrywiant mewn Benthyca â Chefnogaeth, ac roedd gwariant Band B y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'n cael ei gyllido'n gyfan gwbl gan grantiau ac nid oedd angen benthyca â chefnogaeth. Yn ogystal, nid oedd cynlluniau'r CGI a symudwyd o'r flwyddyn flaenorol wedi gwario'n llawn, felly, mae'r tanwariant yn cyfrannu at y tanwariant mewn benthyca â chefnogaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r gwariant ar ail-wynebu priffyrdd yn cael ei ariannu o grant gwerth £1.701m nad oedd wedi'i gynnwys yn y gyllideb (gweler paragraff 4.1) ac roedd hynny'n ychwanegu at y tanwariant mewn benthyca â chefnogaeth hefyd. Roedd hyn, ynghyd â'r tanwariant ar fynediad i adeiladau addysg i'r anabl, yn cyfrannu at yr amrywiant yn y benthyca â chefnogaeth, ac, fel y nodwyd ym mharagraff 3.1.24, roedd yr Awdurdod wedi derbyn cyllid grant ychwanegol a ddefnyddiwyd yn lle cyllid lleol yn 2022/23.

Y tanwariant yn y CRT sydd i gyfrif am yr amrywiant yn y Cyfraniadau Refeniw sy'n cael ei gyllido'n bennaf gan gyfraniadau refeniw.

Y rheswm am y tanwariant yn y cronfeydd wrth gefn yw fod cyllid grant wedi'i dderbyn yn 2022/23 a ddefnyddiwyd ar gyfer gwariant cyfalaf a benderfynwyd yn lleol, a bydd y cronfeydd wrth gefn a arbedwyd ar y cynlluniau hynny'n cael eu defnyddio i gyllido'r prosiectau cyfalaf arfaethedig yn 2023/24. Defnyddiwyd £1.701m o cyllid grant hefyd yn 2022/23 i gyllido'r cynllun ailwynebu Priffyrdd, a bydd £1.110m o gronfeydd wrth gefn yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf i gyllido'r cynllun ailwynebu Priffyrdd.

## 3. <u>CYLLID</u>

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

Mae nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23. Mae rhai cynlluniau blynyddol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, megis Grant Gwaith Llifogydd ar Raddfa Fach, Grant Ffyrdd Gwydn. Mae rhai cynlluniau'n parhau a byddant yn parhau yn 2023/24, megis Band B y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, cynlluniau Lliniaru Llifogydd amrywiol, Grant Cyfalaf Gofal Plant, Trawsnewid Treflun Caergybi, Cam 3 Penrhos a'r Gronfa Trafnidiaeth Leol – gwella isadeiledd. Dyfarnwyd cynlluniau Grantiau Cyfalaf newydd yn ystod y flwyddyn hefyd, yn cynnwys Prydau Ysgol am Ddim, Ysgolion Bro, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Uned Gofal Plant Llanfawr a grant Porth Arfordirol Môn.

- **Cymunedau Dysgu Cynaliadwy** - Mae adeilad yr Ysgol Corn Hir newydd wedi'i gwblhau a chwblhawyd y gwaith priffyrdd a thirlunio erbyn hyn hefyd. Uned Cyfnod Sylfaen Newydd yn Ysgol y Graig - mae gwaith wedi cychwyn ar y safle. Cafodd y gwaith ei ohirio am 18 wythnos oherwydd bod y tir yn eithriadol o wlyb. Cwblhawyd gwaith draenio ychwanegol. Mae gwaith cloddio ffosydd a gosod sylfeini concrit wedi cychwyn. Rydym yn disgwyl cadarnhad o'r cynnydd yn y costau yn sgil yr oedi, y gwaith draenio, yr amodau tir gwael a'r rheidrwydd i osod sylfeini concrit dyfnach.

- **Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg –** Mae'r uned gofal plant yn Ysgol Llanfawr wedi'i chwblhau yn awr. Mae angen cwblhau rhywfaint o'r gwaith allanol oherwydd problemau gydag argaeledd deunyddiau. Mae'r cyllid grant wedi'i hawlio'n llawn, yn unol ag amodau'r grant.

- **Trawsnewid Treflun Caergybi (Cam II Menter Treftadaeth Treflun (THI)) –** Mae gwaith adnewyddu toiledau cyhoeddus Sgwâr Swift wedi'i gwblhau a bydd gwaith ar y llwyfan gwylio ar gyfer Tŵr Gogledd Ddwyrain Caer Rufeinig Caergybi yn cael ei gwblhau'n fuan. Cyflawnwyd y prosiect o fewn 0.34% i werth gwreiddiol y contract ac oedi byr yn unig a gafwyd oherwydd problem strwythurol. Bydd y buddsoddiad yn gwella isadeiledd ymwelwyr yn sylweddol yng nghanol y dref wrth i'r tymor mordeithiau newydd gychwyn yng Nghaergybi. Bydd prosiectau THI eraill yn cychwyn unwaith y bydd cytundebau ffurfiol mewn lle gyda Llywodraeth y DU yn ystod y chwarter nesaf.

- **Partneriaeth Tirwedd Ynys Cybi –** Mae'r Bartneriaeth Tirwedd wedi sicrhau cyllid o Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol i wireddu ystod o brosiectau sy'n canolbwyntio ar amgylchedd naturiol Ynys Cybi. Sicrhawyd cyllid ychwanegol trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Codi'r Gwastad. Sicrhawyd symiau ychwanegol trwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, y Gronfa Adfywio Cymunedol, y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Codi'r Gwastad. Mae cynnydd ar brosiectau a gyllidir ar y cyd trwy'r ERDF yn cynnwys: -

  - Gwarchod ein Treftadaeth - Mae'r gwaith ar Ffynnon y Wrach, Tŵr Ellin a'r Wylfan uwchben Ynys Lawd wedi'i gwblhau yn awr. Mae'r tendr ar gyfer y strwythurau sy'n weddill wedi cau a phenodwyd contractwr i wneud y gwaith ar yr amddiffynfeydd rhyfel yn Nhrearddur a Chofeb Skinner, Ynys Peibio a'r Fagnelfa ym Mhenrhos. Dylai'r gwaith fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd 2023.

- **Cynllun Grant Hwb - Isadeiledd mewn Ysgolion** - Dyrannwyd sgriniau i ysgolion yn dilyn arfarnu canlyniadau'r arolwg o gyflwr ac mae'r rhan fwyaf wedi cael eu gosod gan isgontractwyr i'r cwmni ailwerthu a benodwyd i gynllun prynu ddeinamig HWB, neu gan weithwyr a drefnwyd gan yr ysgolion eu hunain.

- **Porth Twristiaeth –** Canolfan Ymwelwyr Parc Gwledig y Morglawdd: Mae'r gwaith wedi'i gwblhau yn awr, a disgwylir i'r ganolfan ymwelwyr agor erbyn diwedd mis Mai 2023. Mae nifer o fân broblemau angen eu datrys a bydd y gwaith hwnnw'n cael ei gwblhau yn ystod yr wythnosau nesaf.

- **Prosiect Cam 2 Penrhos** – Nod y cynllun hwn yw adeiladu saith uned fusnes newydd ar Stad Ddiwydiannol Penrhos. Cwblhawyd gwaith ar yr unedau a'r unig waith sy'n weddill yw gosod yr is-orsaf a chomisiynu'r unedau. Mae oedi allanol yn gysylltiedig â'r is-orsaf newydd wedi effeithio ar gomisiynu'r unedau hyn. Rhagwelir y bydd gwaith yn gysylltiedig â'r is-orsaf wedi'i gwblhau yn ystod chwarter 1 2023/24.

- **Prosiect Cam 3 Penrhos** – Sicrhawyd cyllid gwerth £3.1m o'r ERDF. Y bwriad yw adeiladu 6 uned fusnes ar y darn olaf o dir sydd ym mherchnogaeth y Cyngor. Mae'r gwaith o adeiladu'r chwe uned fusnes newydd wedi cychwyn ar y safle. Rhagwelir y bydd gwaith ar yr is-strwythur wedi'i gwblhau erbyn diwedd chwarter 4.

- **Prosiect Porth Llangefni -** Mae Safle Porth Llangefni (Parc Diwydiannol Tregarnedd) yn ardal o Langefni lle bydd saith o blotiau'n cael eu datblygu yn y pen draw.

  - **Unedau Porth (ERDF) –** Mae'r holl unedau wedi cael eu gosod, ac mae tenantiaid wedi symud i mewn i bump ohonynt. Mae'r uned olaf yn destun cytundeb cyfreithiol, a rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau yn ystod chwarter 1.

  - **Cyd-fenter Porth –** Nod y Cyd-fenter Porth yw cwblhau gwaith galluogi ar y plotiau sy'n weddill ar Barc Busnes Tregarnedd (Safle Porth). Cwblhawyd gwaith archeolegol ac ecolegol ac mae materion pellach wedi codi. Tri phlot fydd ar gael i'w gwerthu, yn hytrach na 6, oherwydd cyfyngiadau archeolegol. Mae'r holl waith galluogi wedi'i gwblhau erbyn hyn. Bydd gwaith marchnata'r plotiau sydd ar gael yn cychwyn yn ystod chwarter 1, ar y cyd â'r gwasanaethau eiddo.

- **Cynlluniau Draenio Caergybi ac Amlwch** – Mae’r astudiaethau hyn yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Yng Nghaergybi, mae gwaith yn mynd rhagddo i fireinio’r rhestr helaeth o opsiynau. Yn Amlwch, mae’r rhestr o opsiynau’n cael ei hystyried. Roedd y ddwy astudiaeth yn parhau yn chwarter 4 a byddant yn parhau yn 2023/24.

- **Gwaith Grant ar Raddfa Fach** – Cwblhawyd y cynlluniau a oedd yn weddill a hawliwyd y cyllid grant diwygiedig yn llawn.

- **Achos Busnes Llawn Llanfairpwll, Porthaethwy a’r Fali –** Llanfairpwll – mae gwaith asesu contract caffael priodol ar gyfer y cynllun cymhleth hwn yn mynd rhagddo. Mae’r cynllun adeiladu yn y Fali wedi’i gwblhau. Porthaethwy – mae gwaith datblygu cynllun hybrid yn mynd rhagddo.

- **Mill Lane – Strwythur a Rheoli Llifogydd yn Naturiol** – Strwythur – mae gwaith yn mynd rhagddo i asesu system sensor ddiwygiedig. Rheoli Llifogydd yn Naturiol – Mae’r trafodaethau’n parhau gyda’r perchennog tir ar yr agwedd hon, er eu bod yn datblygu’n araf. Nid oedd yn addas ar gyfer y rhaglen carlam Rheoli Llifogydd yn Naturiol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Felly, ar ôl cwblhau’r dyluniad a’r gwaith datblygu, bydd yn cael ei ystyried ar gyfer ei gyflwyno o dan brif raglen Llywodraeth Cymru.

- **Rheoli Llifogydd yn Naturiol ar Gwrs Dŵr Cyffredin Dwyran** – Mae data telemetreg yn cael ei gasglu a’i ddadansoddi ar hyn o bryd. Bydd hyn yn parhau am sawl blwyddyn.

- **Galluogi –** Hawliwyd y grant yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

- **Teithio Llesol –** Sicrhawyd grant gwerth £0.538m gan Lywodraeth Cymru (LlC) i hyrwyddo a chynyddu lefelau teithio llesol a gwella iechyd a llesiant, lleihau allyriadau carbon a gwella teithio llesol ar gyfer cyflogaeth, addysg a gwasanaethau allweddol, cyrchfannau a chludiant cyhoeddus. Mae £0.486m o’r cyllid ar gyfer gwaith craidd ar nifer o gynigion ar gyfer cynlluniau, a dyfarnwyd £0.052m ar gyfer cynlluniau yn Llanfairpwll a Phorthaethwy (gwelliannau i’r prif lwybrau). Hawliwyd y cyllid grant yn llawn ac mae cynnydd yn ystod chwarter 4 yn cynnwys:-

    - Ail-broffilio’r gyllideb a’r allbynnau - gwariwyd y gyllideb lawn a chwblhawyd yr holl allbynnau;
    - Cwblhawyd Gweithgareddau Datblygu Ymlaen Llaw ar nifer o gynlluniau, gan gynnwys: Lôn Graig - Lôn Refail Llanfairpwll, Benllech, Pont Marquis - Niwbwrch, Amlwch - Porth Amlwch, a Gorsaf Drenau Caergybi i Fae Trearddur ac, o ganlyniad, llwyddwyd i sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer 2023/24 er mwyn parhau â’r gwaith datblygu a / neu adeiladu.
    - Mewn perthynas â’r prif fid a ddyfarnwyd i Lanfairpwll a Phorthaethwy (gwella’r prif lwybrau), roedd hyn yn cynnwys cwblhau astudiaeth WelTAG Cam 3C yn Ffordd Pentraeth, Porthaethwy a’r A5025 i gysylltu â safle Parcio a Rhannu Llanfairpwll. Yn ogystal, cwblhawyd gwaith dylunio manwl i oresgyn methiant difrifol ar y rhwydwaith ar yr A5 / Ffordd Penmynydd a defnyddiwyd cyfran o’r gyllideb Gwaith Mân i gwblhau gwaith adeiladu ar y gyffordd benodol hon;
    - Cwblhawyd pecyn Gwaith Mân i oresgyn nifer o fethiannau difrifol yn Llangefni ac Amlwch;
    - Cwblhawyd gwaith asesu ar groesfan ffurfiol arfaethedig yn y Fali;
    - Cwblhawyd gweithgareddau monitro ac arfarnu, a oedd yn cynnwys: trefnu a chynnal ymgynghoriadau cyhoeddus, diweddaru gwefan y Cyngor a Map Data Cymru, cwblhau Astudiaeth Beiciau Trydan a gosod 2 offer parhaol cyfrif defnyddwyr.

- **Y Gronfa Ffyrdd Gwydn** - Llwyddodd y Cyngor i dderbyn cyllid o dan y grant hwn i gynnal astudiaeth Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) Cam 3 i edrych ar ba fesurau gwytnwch fydd yn cael eu rhoi ar waith ar y B5109 i Fiwmares. Bu'n rhaid cau'r ffordd hon yn y gorffennol oherwydd tywydd drwg a bydd mwy o dywydd stormus yn gysylltiedig â newid hinsawdd yn sicr o waethygu'r sefyllfa. Yn ddiweddar, cynhaliwyd ymchwiliadau pellach fel rhan o'r astudiaeth hon a gwariwyd y cyllid yn llawn, yn unol â'r dyraniad grant. Bydd fersiwn derfynol yr Adroddiad Cam 3 yn cael ei gyhoeddi'n fuan, a bydd yn sylfaen ar gyfer unrhyw gais yn y dyfodol am gyllid grant WelTAG Cam 4.

- **Cronfa Trawsnewid i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn –** Dyfarnwyd £0.114m ym mis Rhagfyr 2022 i wneud gwaith galluogi a gweithgareddau datblygu prosiect i hwyluso mannau gwefru cerbydau trydan ar yr Ynys, yn unol â Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar estyniad amser tan ddiwedd Mehefin 2023 (yn seiliedig ar yr holl archebion a oedd wedi cael eu codi erbyn diwedd Mawrth 2023). Roedd cynnydd yn ystod chwarter 4 yn cynnwys: cwblhau Astudiaeth Dichonoldeb i ddatblygu hwb Cerbydau Trydan bychan yn Llangefni, cynnal arolygon, adolygu cynlluniau, diwygio dogfennau caffael ar gyfer prosesau tendro yn y dyfodol, archebu cyfarpar Cerbydau Trydan a chabinetau a wnaed o blastig a atgyfnerthwyd â gwydr (GPR) a sicrhau cysylltiadau DNO (Gweithredwr Rhwydwaith Ddosbarthu).

- **Cronfa Trafnidiaeth Leol – Gwelliannau Isadeiledd** – Dyfarnwyd £0.750m yn 2021/22 i hwyluso Gwelliannau Isadeiledd ar Ynys Môn i gefnogi gwaith darparu rhwydwaith bysiau (Metro Gogledd Cymru) ar ran Trafnidiaeth Cymru. Sicrhawyd estyniad amser a derbyniwyd caniatâd gan LlC i hawlio'r grant yn llawn. Mae'r holl waith adeiladu wedi'i gwblhau, yn ogystal â'r mwyafrif o'r gwaith gosod. Mae cytundeb wedi'i wneud â LlC i drosglwyddo'r swm bychan o gyllid sy'n weddill i 2023/24 ar gyfer y gwaith gosod (gan fod yr isadeiledd yn ymwneud â lleoliadau 2022/23), ac mae'r gwaith wedi'i raglennu i'w gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2023, pan fydd y prosiect wedi'i gwblhau. Mae'r cyllid sy'n weddill fel rhan o'r prosiect hwn wedi'i drosglwyddo at ddibenion refeniw ar gyfer gwaith cynnal a chadw a gwasanaethu blynyddol parhaus.

- **Y Gronfa Drafnidiaeth Leol** – Dyfarnwyd £0.630m yn 2022/23 mewn perthynas â gwella isadeiledd bysiau sy'n ymwneud ag ailddatblygu safleoedd bysiau mewn safleoedd cyfnewid bysiau allweddol (h.y. cysgodfannau bysiau newydd / cyflwyno gwelliannau ar dir cyhoeddus ac ati). Mae llythyr cynnig diwygiedig wedi dod i law a'i dderbyn am £0.493m i wireddu'r gweithgareddau uchod ar 4 safle (yn hytrach na 6). Cytunwyd hefyd ar estyniad amser tan ddiwedd Mehefin 2023 (yn seiliedig ar archebion a oedd wedi cael eu codi erbyn diwedd Mawrth 2023). Mae gwaith adeiladu'n datblygu'n dda yn ystod chwarter 4, a rhagwelir y bydd yr holl waith a gynlluniwyd wedi'i gwblhau yn unol â'r amserlenni diwygiedig, ac amcangyfrifir y bydd y cyllid wedi'i wario'n llawn ar sail rhagolygon presennol (1 safle wedi'i gwblhau, gwaith yn parhau ar 2 safle a 1 safle wedi'i raglennu ar gyfer chwarter 1 2023/24).

- **Grantiau Gwres Carbon Isel** – Dyfarnwyd cyllid i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â grantiau Carbon Isel Sector Cyhoeddus (ar gyfer Ysgol Gynradd Moelfre (£0.091m) a Swyddfeydd y Cyngor (£1.033m)) er mwyn cynorthwyo i gyflenwi a gosod pympiau gwres. Gwariwyd 90% o'r ddau ddyfarniad grant erbyn diwedd 2021/22, a chytunodd LlC i drosglwyddo gweddill y grant i flwyddyn ariannol 2022/23 er mwyn cwblhau'r gwaith yn ystod chwarter 2 2022/23. Mae'r gwaith wedi'i gwblhau yn Ysgol Gynradd Moelfre. Derbyniwyd caniatâd cynllunio i barhau â'r gwaith yn Swyddfeydd y Cyngor. Er bod yr amserlen wreiddiol yn tybio y byddai'r gwaith yn Swyddfeydd y Cyngor wedi cael ei gwblhau erbyn chwarter 2, cafwyd oedi sylweddol gyda'r gwaith ar ôl derbyn caniatâd cynllunio oherwydd bod prif gontractwr peirianneg wedi mynd i'r wal. Datblygodd y gwaith yn dda ar y safle a derbyniwyd caniatâd gan LlC i drosglwyddo unrhyw gyllid dros ben er mwyn cwblhau'r gwaith yn ystod chwarter 1 2023/24.

- **Cae 3G Amlwch** – Sicrhawyd cyllid grant gwerth £0.075m tuag at ddarparu cae 3G yn Amlwch, ac mae gweddill y gyllideb yn cael ei gyllido o'r gronfa wrth gefn gyfalaf ar gyfer gwelliannau hamdden. Mae'r prosiect wedi'i gwblhau yn awr.

- **Porth Arfordirol Môn** – Roedd pris y tendr yn uwch na'r cyllid gwreiddiol ac, oherwydd hynny, cymeradwywyd symud £50k o gyllideb gyfalaf y Cyngor Sir ar gyfer gwella toiledau i gwrdd â'r costau ychwanegol. Gwariwyd y gyllideb yn llawn yn 2022/23, yn unol ag amodau'r grant. Mae'r cyfleusterau toiled yn y pedwar lleoliad ar agor i'r cyhoedd.

    - Bae Trearddur – Roedd y toiledau ar agor i'r cyhoedd ar 27/03/23. Mae angen cwblhau rhywfaint o waith ar fân ddiffygion, ond mae'r toiledau'n gweithio.
    - Porthdafarch – Roedd y toiledau ar agor i'r cyhoedd ar 27/03/23. Mae angen cwblhau rhywfaint o waith ar fân ddiffygion, ond mae'r toiledau'n gweithio.
    - Porth Swtan – Roedd y toiledau ar agor i'r cyhoedd ar 01/04/23. Mae angen cwblhau rhywfaint o waith ar fân ddiffygion, ond mae'r toiledau'n gweithio.
    - Benllech - Roedd y toiledau ar agor i'r cyhoedd ar 25/03/23. Mae angen cwblhau rhywfaint o waith ar fân ddiffygion, ond mae'r toiledau'n gweithio.

- **Grant Ysgolion Bro –** Dyfarnwyd grant o £0.476m gan Lywodraeth Cymru i gefnogi prosiectau ymarferol ar raddfa fach a chanolig i agor ysgolion tu allan i oriau traddodiadol, yn benodol i addasu ysgolion yn ddiogel a'u hagor tu allan i oriau traddodiadol, i alluogi'r gymuned i ddefnyddio'r cyfleusterau cyfredol. Ychydig iawn o wariant a gafwyd yn 2022/23 ac, oherwydd amseriad y cyllid, roedd disgwyl i'r cynllun danwario, fel y nodwyd yn yr adroddiadau monitro blaenorol. Cafodd y cytundeb blaenorol gyda LlC i drosglwyddo unrhyw gyllid a oedd yn weddill i'r flwyddyn ariannol nesaf ei newid a derbyniwyd caniatâd i ddefnyddio'r cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf y penderfynwyd arnynt yn lleol yn ystod 2022/23, yn hytrach na defnyddio cyllid o adnoddau'r Awdurdod. Bydd y cyllid a arbedwyd gan yr Awdurdod trwy ddefnyddio'r grant hwn yn cael ei ddefnyddio yn awr i gyllido prosiectau Ysgolion Bro yn 2023/24.

- **Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) – D**dyfarnwyd cyllid grant gwerth £0.476m gan LlC i gefnogi dysgwyr sydd ag ADY. Nod y grant yw gwneud y mwyaf o amgylcheddau dysgu o dan 16 oed ar gyfer disgyblion sydd ag ADY a gwella hygyrchedd er mwyn hyrwyddo arferion cynhwysol, cefnogi dysgu a llesiant disgyblion. Bydd hyn yn cynorthwyo i roi Deddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg Cymru 2018 a'r Cwricwlwm i Gymru ar waith. Ychydig iawn o wariant a gafwyd yn 2022/23 ac, oherwydd amseriad y cyllid, roedd disgwyl i'r cynllun danwario, fel y nodwyd yn yr adroddiadau monitro blaenorol. Yn dilyn hynny, newidiwyd y cytundeb blaenorol gyda LlC i drosglwyddo unrhyw gyllid oedd yn weddill i'r flwyddyn ariannol nesaf a derbyniwyd caniatâd i ddefnyddio'r cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf y penderfynwyd arnynt yn lleol yn 2022/23, yn hytrach na defnyddio cyllid o adnoddau'r Awdurdod. Bydd y cyllid a arbedwyd gan yr Awdurdod trwy ddefnyddio'r grant hwn yn cael ei ddefnyddio'n awr i gyllido prosiectau ADY yn 2023/24.

- **Codi'r Gwastad –** Cymeradwywyd y bid 'Caergybi – trawsnewidiad wedi'i yrru gan ddiwylliant a threftadaeth' ym mis Ionawr 2023, a bydd yn darparu cyllid cyfalaf gwerth £17.47m hyd at fis Mawrth 2025. Mae'r rhaglen yn cynnwys nifer o wahanol brosiectau a fydd buddsoddi yng Nghanolfan Ucheldre, Eglwys Cybi Sant a'r cyffiniau, Canolfan yr Empire ac adeiladau gwag allweddol yng nghanol y dref. Bydd hefyd yn gwella ardaloedd cyhoeddus ac yn darparu gwell cyfleusterau i ymwelwyr. Er mai'r Awdurdod yw'r Corff Arweiniol ar gyfer y cyllid, mae'r rhaglen yn dibynnu ar Cymunedau'n Gyntaf Môn, Canolfan Ucheldre, Cyngor Tref Caergybi ac Esgobaeth Bangor fel partneriaid cyflawni. Sefydlwyd cytundebau cyllido gyda'r holl bartneriaid cyflawni ac mae'r gwaith cyflawni'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae'n rhaid gwario'r holl gyllid erbyn mis Mawrth 2025 a bydd hynny'n heriol. Mae'r adran Datblygu Economaidd wedi penodi Rheolwr Rhaglen a Swyddog Prosiect i oruchwylio'r rhaglen gyflawni. Mae disgwyl y taliad cyntaf, gwerth £2.9m, gan yr Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau yn ystod chwarter 1 2023/24.

- **Strydoedd Saffach –** nod y cyllid a ddarparwyd gan y Swyddfa Gartref trwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yw gostwng troseddau cymdogaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghaergybi. Darparwyd cyllid i'r gwasanaeth Priffyrdd er mwyn gwella goleuadau stryd, darparu camerâu cylch cyfyng ychwanegol ar gyfer Cyngor Tref Caergybi a gwella'r Bont Geltaidd. Gwariwyd £0.293m yn ystod chwarter 4. Bydd y cyllid yn parhau tan fis Medi 2023 a bydd gwaith ychwanegol yn cael ei wneud i wella goleuadau stryd yn ystod chwarter 1 a 2 2023/24.

- Dyfarnwyd cyllid gofal cymdeithasol gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o nifer o ffrydiau cyllido gwahanol, fel a ganlyn:-

  - **Y Gronfa Gofal Integredig** – Hawliwyd £0.852m drwy'r Gronfa Gofal Integredig yn y flwyddyn flaenorol a thrwy cyllid a ddadleolwyd, er mwyn caniatáu i brosiectau lithro i'w cwblhau yn 2022/23. Mae'r cyllid sy'n cael ei reoli fel rhan o'r rhaglen yn cynnwys y 4 prosiect canlynol:-

    - Cartrefi Clyd arbenigol – Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i fuddsoddi yn ein cartrefi preswyl ar gyfer plant ac allgymorth mewn ysgolion i gefnogi llesiant a thechnoleg;
    - Gofal Ychwanegol yn ne'r Ynys – Bydd y cyllid hwn yn cyllido costau cychwynnol yn gysylltiedig â pharatoi'r safle, costau pensaer a chostau cynllunio;
    - Buddsoddiad Cyfeillgar i'r Anabl – Defnyddiwyd y cyllid yn 2022/23 i gwblhau buddsoddiadau Cyfeillgar i'r Anabl yng nghanolfannau hamdden Plas Arthur a Chaergybi;
    - Anableddau Dysgu: Galluogi Mynediad – Bydd y prosiect hwn yn cyllido buddsoddiad mewn byw â chymorth a chyfleoedd cymunedol ar gyfer unigolion sydd ag anableddau dysgu.

  Bydd rhai o'r prosiectau'n parhau yn 2023/24, a chytunwyd gyda'r tîm rhanbarthol y gellir trosglwyddo'r cyllid i 2023/24 er mwyn cwblhau'r gwaith.

  - **Prosiectau Cyfalaf Dewisol** – Mae cyllid cyfalaf gwerth £0.147m wedi cael ei sicrhau drwy brosiectau cyfalaf dewisol a bydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r ddau brosiect canlynol:-

    - Cartrefi Clyd – Defnyddiwyd y cyllid i gefnogi costau adeiladu i adnewyddu canolfan seibiant dydd i blant;
    - Byw â Chymorth ar gyfer unigolion ag Anableddau Dysgu – Gwariwyd yr holl gyllid ar dechnolegau uwch i hyrwyddo cynhwysiant a datblygu sgiliau.

  - **Y Gronfa Gymunedol Integreiddio ac Ail-gydbwyso –** Dyfarnwyd £0.244m o gyllid gyfalaf drwy'r Gronfa Gymunedol Integreiddio ac Ail-gydbwyso i gyllido:-

  - HWB llesiant Amlwch – Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi hygyrchedd ar gyfer unigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau. Bydd rhywfaint o'r cyllid hefyd yn cael ei fuddsoddi mewn ardal lesiant a gweithfan i staff yr awdurdod lleol a'r trydydd sector er mwyn cynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau gydag unigolion, teuluoedd a gofalwyr. Bydd y prosiect wedi'i gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2023.

  - Cartrefi Gofal Dementia Gyfeillgar – Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i greu trydedd uned ddiogel yng nghartref gofal Garreglwyd i gefnogi cynnydd mewn cymorth dementia arbenigol yn lleol. Bydd y prosiect yn cychwyn ym mis Mehefin a'r gobaith yw y bydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd yr haf.

- **Y Gronfa Tai â Gofal (CTG)** – Dyfarnwyd cyllid gwerth £1.1m o'r CTG ar gyfer 2022/23 a 2023/24 i gefnogi'r prosiect Cartrefi Clyd ac ariannu'r gwaith o adnewyddu dau gartref a buddsoddi o bosib, mewn uned seibiant dros nos ar un safle. Hawliwyd £0.445m yn 2022/23, a bydd y swm sy'n weddill, sef £0.655m, yn cael ei hawlio yn 2023/24. Mae un eiddo wedi cael ei adnewyddu'n llawn ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar yr ail eiddo, gyda'r nod o gwblhau'r gwaith erbyn diwedd Awst 2023.

- **Grant Cynnal a Chadw Ysgolion Ychwanegol a Grant Prydau Ysgol am Ddim** – Yn 2022/23, dyfarnwyd cyllid grant ychwanegol gwerth £1.189m a £0.832m i'r Awdurdod, yn y drefn honno, i gyllido gwaith cynnal a chadw mewn ysgolion. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf y penderfynwyd arnynt yn lleol yn 2022/23, yn hytrach na defnyddio cyllid o adnoddau'r Awdurdod. Bydd y cyllid a arbedwyd gan yr Awdurdod trwy ddefnyddio'r grant hwn yn cael ei ddefnyddio'n awr i gyllido gwaith cynnal a chadw cyfalaf mewn ysgolion yn 2023/24.

### 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Dyma'r Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23:-

| | Cyllideb 2022/23 £'000 | Derbyniwyd hyd at 31-Mawrth-2023 £'000 | Amrywiant (O dan) / Uwchben y Gyllideb £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 0 | 0 | 0 |
| Cyffredinol | 0 | 228 | 228 |
| Diwydiannol | 0 | 0 | 0 |
| Ysgolion | 672 | 146 | (526) |
| **Total** | **672** | **374** | **(298)** |

**3.2.2** Y Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy ar gyfer 2022/23 oedd £0.374m, yn erbyn cyllideb o £0.672m, ac mae hyn yn is na'r gyllideb. Y rheswm pennaf am y gwahaniaeth yw na chafodd asedau, gwerth £0.568m, a gynhwyswyd yn y ffigwr yn y gyllideb eu gwerthu yn ystod y flwyddyn. Nid oes bwriad i werthu un ohonynt yn 2023/24 yn awr, a rhagwelir y bydd yr asedau eraill yn cael eu gwerthu yn 2023/24. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan dderbyniadau cyfalaf a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn nad oeddent wedi'u cynnwys yn y gyllideb (£0.228m), yn ogystal â derbyn pris uwch am yr asedau a werthwyd na'r amcangyfrif yn y gyllideb (£0.042m).

Fel y gwelir yn Atodiad B, bydd rhai cynlluniau cyfalaf yn cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, ac mae'r cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn hefyd yn cael ei ddwyn ymlaen i 2023/24, a bydd y llithriad mewn Derbyniadau Cyfalaf yn rhannol gyllido llithriad yn y rhaglen gyfalaf. Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf sy'n weddill, ar ôl cyllido unrhyw orwariant a gwaith pellach, yn cael eu trosglwyddo i Dderbyniadau Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol. Fodd bynnag, ni fydd y cyfan o'r ffigwr hwn ar gael i gyllido rhaglen gyfalaf y gronfa gyffredinol gan y bydd cyllid yn cael ei glustnodi i gyllido'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy fel rhan o gyllid cyfatebol Cyngor Sir Ynys Môn, yn ogystal â chronfa wrth gefn glustnodedig Hamdden i gyllido gwelliannau ym maes hamdden.

## 4. BLYNYDDOEDD Y DYFODOL

**4.1** Cafodd Adroddiad y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2023/24 ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023. Cyfanswm y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2023/24 (yn cynnwys y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a'r Cyfrif Refeniw Tai) yw £37.962m. Gellir rhannu hyn yn ôl:-

- **Cronfa Gyffredinol**
    - Ymrwymiadau 2022/23 wedi eu dwyn ymlaen - £12.373m
    - Adnewyddu / Amnewid Asedau Presennol - £5.682m
    - Prosiectau Cyfalaf Newydd 2022/23 - £0.386m
    - Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - £5.964m

- **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)**
    - Dyraniad ar gyfer cynlluniau 2023/24 - £13.557m

Y cyllid arfaethedig oedd £22.367m (59%) o ffynonellau cyllido allanol (Grantiau Cyfalaf), a £15.595m (41%) o ffynonellau mewnol. Mae hyn yn cynnwys £3.077m o fenthyca â chefnogaeth, £2.797m o fenthyca digefnogaeth, gyda'r £9.721m sy'n weddill yn cael ei gyllido o gronfeydd wrth gefn a derbyniadau'r Cyngor.

Serch hynny, cymeradwywyd £1.701m fel rhan o raglen gyfalaf 2023/24 i gyllido cynlluniau cyfalaf o'r Grant Cyfalaf Cyffredinol ychwanegol a ddygwyd ymlaen o 2021/22. Ar ddiwedd 2022/23, penderfynwyd y dylid defnyddio'r cyllid hwn yn 2022/23, yn unol ag amodau'r grant, ac, felly bydd y cyllid a arbedwyd gan yr Awdurdod trwy ddefnyddio'r grant hwn yn 2022/23 yn cael ei ddefnyddio'n awr i gyllido rhaglen gyfalaf 2023/24. Roedd £0.500m wedi cael ei glustnodi hefyd i gyllido cynlluniau cyfalaf gyda derbyniadau cyfalaf. Wrth gyllido rhaglen 2022/23, penderfynwyd cadw'r derbyniadau cyfalaf a defnyddio dyraniad grant cyfalaf cyffredinol 2023/24 yn llawn yn 2023/24.

Y cynnig yn awr yw bod rhaglen gyfalaf 2023/24 yn cael ei gyllido fel a ganlyn - £21.166m (56%) o ffynonellau cyllido allanol (Grantiau Cyfalaf), a £16.796m (44%) o ffynonellau mewnol. Mae hyn yn cynnwys £3.668m o fenthyca â chefnogaeth, £2.797m o fenthyca digefnogaeth, gyda'r gweddill, £9.221m, yn cael ei gyllido o gronfeydd wrth gefn y Cyngor.

**4.3** Fel y gwelir yn Atodiad B, y cynnig yw bod £13.477m yn cael ei ddwyn ymlaen i 2023/24 fel llithriad ar gyfer cynlluniau cyfalaf nad oeddent wedi cael eu cwblhau erbyn diwedd Mawrth 2023. Mae'r llithriad yn gysylltiedig â £9.127m o'r Gronfa Gyffredinol a £4.350m o'r CRT. Bydd y cyllid ar gyfer y cynlluniau sy'n llithro hefyd yn llithro i 2023/24, ac mae hyn yn cynnwys £0.443m o Dderbyniadau Cyfalaf, £2.909m o Grantiau Cyfalaf, £3.294m o Fenthyca â Chefnogaeth, £0.038m o Fenthyca Digefnogaeth, £2.780m o Gronfeydd Wrth Gefn, £3.936m o gyfraniadau refeniw a £0.077m mewn perthynas â benthyciad. Mae digon o danwariant yn erbyn y ffrydiau cyllido hyn y gellir ei ddwyn ymlaen i 2023/24.

**4.4** Os bydd y llithriad yn Atodiad B yn yr adroddiad hwn yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor hwn, cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24 fydd £51.439m a bydd £33.532m o'r ffigwr hwnnw yn ymwneud â'r Gronfa Gyffredinol a £17.907m yn ymwneud â'r CRT. Efallai y bydd cynlluniau ychwanegol yn cael eu hychwanegu i'r Rhaglen Gyfalaf yn ystod 2023/24 os daw cyllid grant ychwanegol ar gael.

## 5. EFFAITH AR Y STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS

**5.1** Y Gofyniad Cyllid Cyfalaf ar 31 Mawrth 2023 yw £144.109m, sef yr angen sylfaenol i'r Awdurdod fenthyca er mwyn cyllido ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd, cyfanswm y benthyciadau allanol yw £123.800m.

Mae'r Awdurdod o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig, yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2022/23 (Atodiad 11 o'r datganiad hwnnw). Cyflwynir adolygiad llawn ar Reoli Trysorlys i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Gwaith maes o law.

## 6. CASGLIAD

**6.1** Er bod y tanwariant yn sylweddol (25% o'r cyllid sydd ar gael), nid yw'r lefel yn annisgwyl wrth ddelio gyda nifer o brosiectau mawr cymhleth lle mae'n rhaid sicrhau cymeradwyaeth wleidyddol, dilyn rheoliadau caffael, derbyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru neu gyrff cyllido eraill, a gallai problemau annisgwyl godi ar ôl i waith gychwyn ar y safle hefyd. Mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant yn gysylltiedig â phrosiectau mawr, lle nad yw amseriad y gwaith wedi dilyn yr amserlen a gynlluniwyd (Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, safle Sipsiwn a Theithwyr, prosiectau Isadeiledd a chynlluniau llifogydd, yn ogystal â gwariant y CRT). Mae oedi annisgwyl yn arferol gyda phrosiectau cyfalaf mawr ac nid yw'n anghyffredin gweld gwariant ar y math yma o brosiectau'n llithro. Ym mhob achos, mae'r cyllid ar gyfer y prosiectau hyn wedi cael ei sicrhau a bydd yn cael ei ddwyn ymlaen i 2023/24, ac ni fydd y Cyngor yn colli unrhyw adnoddau.

**6.2** Mae'r adroddiad yn amlygu pwysigrwydd cyllid grant i raglen gyfalaf y Cyngor, gyda 40% o'r gyllideb a 56% o'r gwariant gwirioneddol yn cael ei gyllido gan grantiau cyfalaf. Er derbynnir rhai grantiau gan y Cyngor fel rhan o ddyraniad Cymru gyfan, dyfernir nifer o grantiau ond ar ôl proses gystadleuol, lle mae staff y Cyngor wedi gorfod bidio am y grantiau. Heb lwyddiant yn y prosesau bidio, byddai rhaglen gyfalaf y Cyngor yn sylweddol llai.

## ATODIAD B

## Crynodeb o Wariant Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a’r llithriad i 2023/24

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario % | Amrywiad % | Tanwariant i'w gario ymlaen i 2023/24 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Gyffredinol Tai** | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 845,226 | 379,278 | (465,948) | 45 | 55 | 465,948 | Angen llithriad i sicrhau cyllid digonol i gyllido cynlliniau sylweddol Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl. Cyllidir y llithriant gan lithriad Grant Cyfalaf Cyffredinol a benthyca â chefnogaeth. |
| Grant Galluogi | 139,786 | 147,533 | 7,747 | 106 | (6) | 0 | Dyfarniad grant am 2022/23 yn unig – dim llithriad. |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 490,841 | 0 | (490,841) | 0 | 100 | 490,841 | Cyllidir y llithriad gan fenthyca â chefnogaeth. |
| Cynllun Prynu Gorfodol | 172,901 | 172,901 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Tai fforddiadwy | 30,650 | 0 | (30,650) | 0 | 100 | 30,650 | Cyllidir y llithiad gan dderbyniadau cyfalaf. |
| **Cyfanswm** | **1,679,404** | **699,711** | **(979,693)** | **42** | **58** | **987,439** | |
| | | | | | | | |
| **CRT Tai** | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 800,000 | 805,927 | 5,927 | 101 | (1) | 0 | |
| Cerbydau'r Uned Cynnal a Chadw Tai | 27,383 | 27,383 | (0) | 100 | 0 | 0 | |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 3,955,000 | 2,189,869 | (1,765,131) | 55 | 45 | 1,765,131 | |
| Gwella Perfformiad Ynni | 1,000,000 | 98,682 | (901,318) | 10 | 90 | 901,318 | |
| Gwaith Amgylcheddol | 870,667 | 245,920 | (624,747) | 28 | 72 | 624,747 | Ag eithrio’r gorwariant ar Gaffael a Datblygu eiddo, gofynnir am lithriant o £4.35m yn unol â’r amcangyfrifon blaenorol o danwariant. Cyllidir y llithriad gan grant a chyfraniad refeniw. |
| Prynu Eiddo Presennol a datblygu eiddo newydd | 5,479,000 | 6,099,484 | 620,484 | 111 | (11) | 0 | |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 400,000 | 343,600 | (56,400) | 86 | 14 | 56,400 | |
| Risg Tân | 600,000 | 260,230 | (339,770) | 43 | 57 | 339,770 | |
| Tir Halogedig | 1,950 | 975 | (975) | 50 | 50 | 0 | |
| SATC | 1,900,000 | 1,107,530 | (792,470) | 58 | 42 | 662,633 | |
| **Cyfanswm** | **15,034,000** | **11,179,599** | **(3,854,401)** | **74** | **26** | **4,350,000** | |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario % | Amrywiad % | Tanwariant i'w gario ymlaen i 2023/24 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol | 144,512 | 0 | (144,512) | 0 | 100 | 144,512 | Er bod buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud, gall fod angen rhagor o waith yn y dyfodol i fynd ar afael â gofynion unigolion ni wyddom amdanynt eto, felly, mae angen llithro'r tanwariant i 2023/24. Cyllidir y llithriad gan fenthyca â chefnogaeth. |
| Adnewyddu Adeiliadau Addysg | 4,036,042 | 2,849,834 | (1,186,208) | 71 | 29 | 1,186,208 | Yn rhan olaf 2022/23, dyfarnwyd cyllid grant ychwanegol o £1.189m i'r Awdurdod ar gyfer gwaith cynnal a chadw cyfalaf ysgolion. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido gwariant cyfalaf ar adeiladau addysg yn 2022/23, yn hytrach na defnyddio adnoddau'r Awudrodd. Defnyddir y cyllid arbedwyd gan yr Awdurdod drwy ddefnyddio'r grant yma, i gyllido gwaith cyfalaf ysgolion yn 2023/24. Cyllidir y llithriad gan fenthyca â chefnogaeth. |
| Diogelwch Ysgolion | 136,792 | 29,144 | (107,648) | 21 | 79 | 107,648 | Cyllid i gynnal adolygiad o asesiadau risg safle ysgolion – rhagwelir bydd yn cael ei gynnal yn 2023/24. Cyllidir y llithriad gan fenthyca â chefnogaeth. |
| Canolfan Addysg y Bont - To | 1,708,684 | 1,708,683 | (1) | 100 | 0 | 0 | |
| Canolfan Addysg y Bont - Dosbarth | 90,000 | 90,000 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Ailwynebu Ardal Chwarae | 18,756 | 18,060 | (696) | 96 | 4 | 0 | |
| Grant Cyfalaf Dechra'n Deg | 50,000 | 38,986 | (11,014) | 78 | 22 | 0 | |
| Grant Prydau Ysgol am Ddim | 818,609 | 218,404 | (600,205) | 27 | 73 | 600,205 | Yn rhan olaf 2022/23, dyfarnwyd cyllid grant ychwanegol o £0.832m i ysgolion ar gyfer darpariaethau rolio allan prydau ysgol am ddim. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf y penderfynwyd arnynt yn lleol yn 2022/23, yn hytrach na defnyddio adnoddau'r Awdurdod. Defnyddir y cyllid arbedwyd gan yr Awdurdod drwy ddefnyddio'r grant yma, i gyllido gwaith darparu prydau ysgol am ddim yn 2023/24. Cyllidir y llithriad gan gronfeydd wrth gefn. |
| Canopïau Allanol | 371,000 | 348,580 | (22,420) | 94 | 6 | 22,420 | Gwaith sy'n weddill i'w gwblhau. Cyllidir y llithriad gan gronfeydd wrth gefn. |
| Grant Ysgolion Bro | 450,993 | 0 | (450,993) | 0 | 100 | 450,993 | Yn 2022/23, dyfarnwyd cyllid grant o £0.476m i'r Awdurdod er mwyn cefnogi prosiectau bach a chanolig i agor ysgolion y tu allan i oriau traddodiadol. Yn bennaf, i addasu'n ddiogel ac agor ysgolion yn effeithlon y tu allan i oriau traddodiadol, er mwyn galluogi defnydd cymunedol o gyfleusterau cyfredol. Dim ond ychydig o wariant fu yn 2022/23 ac, oherwydd amseru'r cyllido, disgwyliwyd i'r cynllun danwario, yn unol â'r adroddiadau monitor blaenorol. Defyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf y penderfynwyd arnynt yn lleol yn 2022/23, yn hytrach na defnyddio adnoddau'r Awdurdod. Defnyddir y cyllid arbedwyd gan yr Awdurdod drwy ddefnyddio'r grant yma, i gyllido prosiectau Ysgolion Bro yn 2023/24. Cyllidir y llithriat gan gronfeydd wrth gefn. |
| Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol | 475,530 | 39,853 | (435,677) | 8 | 92 | 435,677 | Yn 2022/23, dyfarnwyd cyllid grant o £0.476m i'r Awdurdod er mwyn cefnogi dysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Dim ond ychydig o wariant fu yn 2022/23 ac, oherwydd amseru'r cyllido, disgwyliwyd i'r cynllun danwario, yn unol â'r adroddiadau monitor blaenorol. Defyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf y penderfynwyd arnynt yn lleol yn 2022/23, yn hytrach na defnyddio adnoddau'r Awdurdod. Defnyddir y cyllid arbedwyd gan yr Awdurdod drwy ddefnyddio'r grant yma, i gyllido prosiectau Anghenion Dysgu Ychwanegol yn 2023/24. Cyllidir y llithriad gan gronfeydd wrth gefn. |
| Grant Cynyddu Capasiti ar gyfer Gofal Plant (costau rheoli prosiect a cynllun grant) | 320,000 | 297,843 | (22,158) | 93 | 7 | 22,158 | Cynllun yn parhau. Cyllidir y llithriad gan grant. |
| Grant Cynyddu Capasiti ar gyfer Gofal Plant (costau rheoli prosiect a cynllun grant) | 105,000 | 77,677 | (27,323) | 74 | 26 | 27,323 | Cynllun yn parhau. Cyllidir y llithriad gan grant. |
| Uned Gofal Plant – Llanfawr | 784,350 | 765,337 | (19,013) | 98 | 2 | 0 | Dyfarnwyd grant am 2022/23 yn unig – dim llithriad. |
| Cwblhau Rhaglen Band A | 4,973,892 | 5,290,157 | 316,265 | 106 | (6) | 0 | |
| Cychwyn Rhaglen Band B | 2,218,342 | 1,027,168 | (1,191,174) | 46 | 54 | 0 | Yn dilyn ail broffilio'r cynllun a dyraniad Newydd, nid oes angen llithriad. Bydd y dyraniad Newydd yn unol â'r Matrics diwygiedig dderbyniwyd. |
| **Cyfanswm** | **16,702,501** | **12,799,725** | **(3,902,776)** | **77** | **23** | **2,997,143** | |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario % | Amrywiad % | Tanwariant i'w gario ymlaen i 2023/24 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | |
| Gwelliannau Hamdden | 62,088 | 0 | (62,088) | 0 | 100 | 62,088 | Cynlluniau ar gyfer y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesa, felly, bydd angen llithro gweddill y gyllideb – i'w gyllido gan gronfeydd wrth gefn. |
| Ystafell Ffitrwydd Amlwch | 13,845 | 12,377 | (1,468) | 89 | 11 | 1,468 | Cynlluniau ar gyfer y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesa, felly, bydd angen llithro gweddill y gyllideb – i'w gyllido gan gronfeydd wrth gefn. |
| Ystafell Ffitrwydd David Hughes | 120,830 | 120,830 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Cae Chwarare 3G Amlwch | 141,404 | 141,404 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Lloriau Amlwch | 135,000 | 61,295 | (73,705) | 45 | 55 | 73,705 | Cynllun yn parhau – cyllidir gan grant a chronfeydd wrth gefn. |
| Porth Twristiaeth | 50,000 | 31,934 | (18,066) | 64 | 36 | 50,000 | Cyllid cyfatebol i lithro ac heb ei ddefnyddio eto – cyllidir gan fenthyca â chefnogaeth. |
| Parc y Morglawdd | 525,000 | 428,873 | (96,127) | 82 | 18 | 0 | |
| Penrhos - Cam 2 | 2,556,838 | 2,611,845 | 55,007 | 102 | (2) | 0 | |
| Penrhos - Cam 3 | 325,000 | 678,843 | 353,843 | 209 | (109) | 0 | Yn dilyn ail broffilio'r cynllun a dyraniad newydd, nid oes angen llithriad. |
| Datblygu Economaidd a Lles Amgylcheddol | 45,888 | 0 | (45,888) | 0 | 100 | 45,888 | Cais am lithriad er mwyn defnyddio'r cyllid yn y dyfodol – cyllidir gan fenthtyca â chefnogaeth. |
| Llithfra Porth y Wrach - Camerau Gorfodi | 30,000 | 0 | (30,000) | 0 | 100 | 30,000 | Cais am lithriad er mwyn defnyddio'r cyllid yn y dyfodol – cyllidir gan fenthtyca â chefnogaeth. |
| Canolfan Gymuned Newry | 200,000 | 147,711 | (52,289) | 74 | 26 | 52,289 | Cais am lithriad er mwyn defnyddio'r cyllid yn y dyfodol – i'w gyllido gan gronfeydd wrth gefn. |
| Unedau Porth (ERDF) | 1,067,908 | 949,035 | (118,873) | 89 | 11 | 0 | Yn dilyn ail broffilio'r cynllun a dyraniad newydd, nid oes angen llithriad. |
| Cyd-fenter Safle Porth | 261,069 | 239,555 | (21,514) | 92 | 8 | 0 | Yn dilyn ail broffilio'r cynllun a dyraniad newydd, nid oes angen llithriad. |
| Isadeiledd Morwrol | 200,000 | 22,486 | (177,514) | 11 | 89 | 177,514 | Cais am lithriad er mwyn defnyddio'r cyllid yn y dyfodol – i'w gyllido gan gronfeydd wrth gefn. |
| Isadeiledd Ymwelwyr | 200,000 | 1,070 | (198,930) | 1 | 99 | 198,930 | Cais am lithriad er mwyn defnyddio'r cyllid yn y dyfodol – i'w gyllido gan gronfeydd wrth gefn. |
| Melin Llynnon | 203,000 | 132,603 | (70,397) | 65 | 35 | 70,397 | Cais am lithriad er mwyn defnyddio'r cyllid yn y dyfodol – cyllidir gan fenthyca digefnogaeth a chronfeydd wrth gefn. |
| Grant Covid Trawsnewid Trefi | 10,064 | 0 | (10,064) | 0 | 100 | 10,064 | |
| Porth Arfordirol Môn | 366,561 | 366,561 | 0 | 100 | 0 | 0 | Dyfarniad grant am 2022/23 yn unig – dim llithriad. |
| Cronfa Codi'r Gwastad | 128,692 | 128,692 | 0 | 100 | 0 | 0 | Dyfarniad grant am 2022/23 yn unig – dim llithriad. |
| Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear Môn - Cyfalaf | 63,712 | 63,712 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Grant Porth Amlwch | 3,836 | 7,850 | 4,014 | 205 | (105) | 0 | |
| Partneriaeth Tirwedd Caergybi | 100,000 | 217,399 | 117,399 | 217 | (117) | 0 | Yn dilyn ail broffilio'r cynllun a dyraniad newydd, nid oes angen llithriad. |
| Adfywio Caergybi (Menter Treftadaeth Treflun Cam II) | 950,000 | 956,479 | 6,479 | 101 | (1) | 75,000 | Cyllid cyfatebol i lithro ac heb ei ddefnyddio eto – cyllidir gan gronfeydd wrth gefn a derbyniadau cyfalaf. |
| **Cyfanswm** | **7,760,735** | **7,320,555** | **(440,180)** | **94** | **6** | **847,343** | |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario % | Amrywiad % | Tanwariant i'w gario ymlaen i 2023/24 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | |
| Uwchraddio Peiriannau Talu ac Arddangos Mewn Meysydd Parcio | 4,533 | 0 | (4,533) | 0 | 100 | 4,533 | Cynlluniau ar gyfer y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesa, felly, bydd angen llithro gweddill y gyllideb – i'w gyllido gan fenthyca â chefnogaeth. |
| Cerbydau | 573,745 | 63,338 | (510,408) | 11 | 89 | 510,408 | Gwariant wedi'i ymrwymo – cyllidir gan grant, benthyca â chefnogaeth a chronfeydd wrth gefn. |
| Ailwynebu Priffyrdd | 2,000,000 | 2,006,451 | 6,451 | 100 | (0) | 0 | |
| Astudiaethau Traenio Amlwch a Chaergybi | 65,420 | 106,390 | 40,970 | 163 | (63) | 0 | |
| Cynllun Lliniaru Llifogydd Traeth Coch | 23,933 | 5,997 | (17,936) | 25 | 75 | 0 | Cynllun wedi gorffen – dim llithriad. |
| Cynllun Lliniaru Llifogydd Llanfair | 397,649 | 6,003 | (391,646) | 2 | 98 | 391,646 | Gwaith yn parhau – cyllidir gan grant. |
| Achos Busnes Llawn Cynllun Lliniaru Llifogydd Menai | 210,529 | 59,759 | (150,771) | 28 | 72 | 150,771 | Gwaith yn parhau – cyllidir gan grant. |
| Achos Busnes Llawn Cynllun Lliniaru Llifogydd Y Fali | 41,349 | 0 | (41,349) | 0 | 100 | 0 | Achos Busnes Llawn wedi'i gwblhau. |
| Cynllun Llifogydd Y Fali - adeiladu | 477,956 | 464,708 | (13,248) | 97 | 3 | 13,248 | Gwaith yn parhau – cyllidir gan grant a chronfeydd wrth gefn. |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd (Cyllid Cyfatebol) | 135,800 | 0 | (135,800) | 0 | 100 | 135,800 | Gwaith yn parhau – cyllidir gan fenthyca â chefnogaeth. |
| Traeth Coch (Cyllid Cyfatebol) | 235,000 | 0 | (235,000) | 0 | 100 | 0 | Ar hyn o bryd, nid yw'r cynllun yn mynd yn ei flaen i'w adeiladu. Gall fynd ymlaen yn y dyfodol ar raddfa llawer llai a, petai hyn yn digwydd, ceisir unrhyw gyllid cyfatebol pan fo ei angen. |
| Strwythur Mill Lane | 102,258 | 101,571 | (687) | 99 | 1 | 0 | Cynllun wedi gorffen – dim llithriad. |
| Dwyran - cwrs dŵr cyffredinol - NFM | 74,528 | 63,356 | (11,172) | 85 | 15 | 0 | Cynllun wedi gorffen – dim llithriad. |
| Mill Lane - NFM | 241,640 | 0 | (241,640) | 0 | 100 | 241,640 | Gwaith yn parhau – cyllidir gan grant. |
| Buddsoddi i Arbed - Cerbydau | 5,068 | 0 | (5,068) | 0 | 100 | 5,068 | |
| Strydoedd Mwy Diogel | 293,176 | 293,176 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Gwaith Grant Graddfa Fechan | 539,288 | 381,529 | (157,759) | 71 | 29 | 0 | Dyfarniad grant am 2022/23 yn unig – dim llithriad. |
| Teithio Llesol | 543,292 | 543,292 | 0 | 100 | 0 | 0 | Dyfarniad grant am 2022/23 yn unig – dim llithriad. |
| Cronfa Ffyrdd Gwydn | 230,000 | 230,000 | (0) | 100 | 0 | 0 | Dyfarniad grant am 2022/23 yn unig – dim llithriad. |
| Isadeledd Bysiau 2021/22 | 451,902 | 423,888 | (28,014) | 94 | 6 | 28,014 | Estyniad amser hyd at Mehefin 2023 – cyllidir y llithriad gan grant. |
| Isadeledd Bysiau 2022/23 | 492,648 | 104,796 | (387,852) | 21 | 79 | 387,852 | Estyniad amser hyd at Mehefin 2023 – cyllidir y llithriad gan grant. |
| Pwyntiau gwefru cerbydau trydan | 127,797 | 128,010 | 213 | 100 | (0) | 0 | Cynllun wedi'i gwblhau. |
| Cerbyd Allyriadau Isel Iawn | 114,108 | 56,774 | (57,334) | 50 | 50 | 57,334 | Estyniad amser hyd at Mehefin 2023 – cyllidir y llithriad gan grant. |
| Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan | 275,527 | 86,375 | (189,152) | 31 | 69 | 189,152 | Cynllun parhaus – cyllidir gan grant. |
| **Cyfanswm** | **7,657,146** | **5,125,412** | **(2,531,734)** | **67** | **33** | **2,115,466** | |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario % | Amrywiad % | Tanwariant i'w gario ymlaen i 2023/24 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | |
| Paciwr Rholio | 28,750 | 28,750 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Gwaith IVC | 36,620 | 23,025 | (13,595) | 63 | 37 | 13,595 | Gwaith parhaus – cyllidir gan dderbyniadau cyfalaf. |
| Offer Ailgylchu | 380,000 | 161,319 | (218,681) | 42 | 58 | 218,681 | Gwaith parhaus – cyllidir gan gronfeydd wrth gefn. |
| **Cyfanswm** | **445,370** | **213,094** | **(232,276)** | **48** | **52** | **232,276** | |
| | | | | | | | |
| **Eiddo** | | | | | | | |
| Adnewyddu Asedau Cyfredol | 1,058,926 | 583,380 | (475,546) | 55 | 45 | 475,546 | Mae'r gyllideb sydd ar ôl wedi'i ymrwymo i waith sy'n pontio 2023/24. Mae'r Gwaith yn cynnwys buddsoddiad sylweddol yng Nghanolfannau Hamdden Caergybi ac Amlwch – cyllidir y llithriad gan fenthyca â chefnogaeth a chronfeydd wrth gefn. |
| Eiddo - Buddsoddi i Arbed | 77,068 | 0 | (77,068) | 0 | 100 | 77,068 | Y Gwaith sy'n weddill i'w gwblhau – cyllidir gan fenthyciad. |
| Salix Cam 2 | 994,632 | 994,632 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Grant Gwresogi Carbon Isel - Swyddfeydd y Cyngor | 120,563 | 96,663 | (23,900) | 80 | 20 | 23,900 | Proisiect yn parhau – cyllidir gan grant. |
| Grant Gwresogi Carbon Isel - Ysgol Gynradd Moelfre | 9,125 | 9,125 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Adnewyddu Mân-ddaliadau | 241,932 | 241,932 | (0) | 100 | 0 | 0 | |
| Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus | 361,439 | 0 | (361,439) | 0 | 100 | 361,439 | Cynnydd parhaus a'r posibilrwydd i'w ddefnyddio eto fel cyllid cyfatebol pellach – cyllidir y llithriad gan dderbyniadau cyfalaf a chronfeydd wrth gefn. |
| **Cyfanswm** | **2,863,685** | **1,925,732** | **(937,953)** | **67** | **33** | **937,953** | |
| | | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | | |
| TGCh - Isadeiledd Craidd | 295,121 | 229,132 | (65,989) | 78 | 22 | 0 | |
| TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron | 250,000 | 430,779 | 180,779 | 172 | (72) | 0 | |
| TGCh - Trosglwyddo Cysylltu Môn i PSBA | 72,708 | 8,673 | (64,035) | 12 | 88 | 0 | |
| TGCh - Uwchraddio Ystafelloedd Gyfarfod | 50,000 | 14,050 | (35,950) | 28 | 72 | 0 | |
| Isadeiledd Hwb TGCh | 138,514 | 0 | (138,514) | 0 | 100 | 138,514 | Llithriad cyllid grant Hwb – caniatawyd estyniad hyd at flwyddyn ariannol 2023/24 – cyllidir y llithriad gan grant. |
| Amnewid Hwb | 135,297 | 135,297 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Offer Technegol Addysg Hwb | 205,347 | 205,347 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| **CYFANSWM** | **1,146,988** | **1,023,278** | **(123,710)** | **89** | **11** | **138,514** | |
| | | | | | | | |
| **Adult Services** | | | | | | | |
| Y Gronfa Gofal Integredig | 809,363 | 115,398 | (693,966) | 14 | 86 | 693,966 | Cwblheir y cynlluniau sy'n weddill o fewn blwyddyn ariannol 2023/24 – cyllidir y llithriad gan fenthyca â chefnogaeth a chyfraniadau refeniw. |
| Prosiectau Cyfalaf Dewisol (DCP) | 78,586 | 78,586 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Cronfa Cymunedol Integredig ac Ailfalansio (IRCF) | 244,125 | 104,059 | (140,066) | 43 | 57 | 140,066 | Cwblheir y cynlluniau sy'n weddill o fewn blwyddyn ariannol 2023/24 – cyllidir y llithriad gan grant |
| Hwb Cymunedol Bryn Hwfa | 13,155 | 0 | (13,155) | 0 | 100 | 13,155 | Cyllidir y llithriad gan grant |
| Adnewyddu Plas Crigyll | 45,535 | 45,535 | (0) | 100 | 0 | 0 | |
| Adnewyddu Plas Mona | 83,371 | 59,267 | (24,104) | 71 | 29 | 24,104 | Gwaith parhaus – cyllidir y llithriad gan fenthyca â chefnogaeth a derbyniadau cyfalaf. |
| **Cyfanswm** | **1,274,135** | **402,844** | **(871,291)** | **32** | **68** | **871,291** | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **54,563,965** | **40,689,950** | **(13,874,014)** | **75** | **25** | **13,477,424** | |

# ATODIAD C

## Newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol wedi'u hychwanegu ers gosod cyllideb
## Changes to budgets / additional schemes added since budget setting

| Cynllun | Cyllideb £ | CYLLIDO<br>Grant £ | Cyfraniad Refeniw £ | Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £ | Cronfeydd wrth Gefn Cyfalaf £ | Benthyca â Chefnogaeth £ | Benthyca Digefnogaeth £ | Benthyciad £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dechra'n Deg | 50,000 | 50,000 | | | | | | |
| Teithio Llesol | 543,292 | 509,214 | | | 34,078 | | | |
| Ffyrdd Gwydn | 230,000 | 230,000 | | | | | | |
| Gwaith Graddfa Fechan | 399,287 | 353,959 | | | | 45,328 | | |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd (Cyllid Cyfatebol) | (49,500) | | | | | (49,500) | | |
| Paciwr Rholio | 28,750 | | | | 28,750 | | | |
| Gwaith Cyfalaf IVC | 36,620 | | | 36,620 | | | | |
| Cae Chwarare 3G Amlwch | 75,000 | 75,000 | | | | | | |
| Canolfan Addysg y Bont - To | 717,832 | | | | 717,832 | | | |
| David Hughes - gorwariant ffitrwydd | 5,600 | | | | 5,600 | | | |
| Penrhos - Cam 3 | 600,000 | 600,000 | | | | | | |
| Prynu Gorfodol | 172,901 | | | 172,901 | | | | |
| Parc y Morglawdd | 525,000 | 525,000 | | | | | | |
| Penrhos - Cam 2 | 582,948 | 582,948 | | | | | | |
| Porth Arfordirol Môn | 248,000 | 248,000 | | | | | | |
| Hwb TG | 138,514 | 138,514 | | | | | | |
| Canolfan Gymuned Newry | 200,000 | | | | 200,000 | | | |
| Partneriaeth Tirwedd | (90,000) | (90,000) | | | | | | |
| Strwythur Mill Lane | 75,000 | 63,750 | | | 11,250 | | | |
| Llifogydd Amlwch a Chaergybi | 50,542 | 50,542 | | | | | | |
| Isadeledd Bysiau 2021/22 | (220,976) | (220,976) | | | | | | |
| Isadeledd Bysiau 2022/23 | 492,648 | 492,648 | | | | | | |
| Ysgolion Bro | 450,993 | 450,993 | | | | | | |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol | 475,530 | 475,530 | | | | | | |
| Achos Busnes Llawn Porthaethwy | 88,634 | 88,634 | | | | | | |
| Prydau Ysgol am Ddim | 818,609 | 818,609 | | | | | | |
| Prydau Ysgol am Ddim | (547,203) | | | | (547,203) | | | |
| Canolfan Addysg y Bont - Dosbarth | 90,000 | | | 90,000 | | | | |
| Melin Llynnon | 100,000 | 100,000 | | | | | | |
| Y Fali - adeiladu | 104,000 | 88,400 | | | 15,600 | | | |
| AHNE - Adferiad Gwyrdd | (237,774) | (237,774) | | | | | | |
| Cynllun Cyfalaf Gofal Plant | (88,238) | (88,238) | | | | | | |
| Gwaith Cyfalaf Gofal Plant | 105,000 | 105,000 | | | | | | |
| Menter Treftadaeth Treflun Cam II | 525,000 | 525,000 | | | | | | |
| Porth Twristiaeth | (170,000) | (170,000) | | | | | | |
| Unedau Porth ERDF | 196,073 | 196,073 | | | | | | |
| Band B Graig | (2,611,658) | (1,214,578) | | | | (654,080) | (743,000) | |
| Band A Corn Hir | 1,205,892 | 1,569,495 | | | | | (363,603) | |
| ICF/DCP/HCF/IRCF | 1,132,074 | 322,711 | 226,021 | | | 583,342 | | |
| Grant cyfalaf Addysg | 1,188,824 | 1,188,824 | | | | | | |
| Cerbyd Allyriadau Isel Iawn - Cyllid Trawsnewid | 114,108 | 114,108 | | | | | | |
| Cynllun grantiau cyfalaf Gofal Plant | 320,000 | 320,000 | | | | | | |
| Uned Llanfawr | 784,350 | 784,350 | | | | | | |
| Grant Galluogi | 139,786 | 139,786 | | | | | | |
| Lloriau Amlwch | 90,000 | 90,000 | | | | | | |
| Lliniaru Llifogydd Llansadwrn | (32,291) | (27,447) | | | (4,844) | | | |
| Cronfa Codi'r Gwastad | 128,692 | 128,692 | | | | | | |
| Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear Môn - Cyfalaf | 63,712 | 24,000 | | | | 39,712 | | |
| Strydoedd Mwy Diogel | 293,176 | 293,176 | | | | | | |
| Cyllid Cyfatebol Economaidd | (63,712) | (24,000) | | | | (39,712) | | |
| Amnewid Hwb | 136,297 | | | | 136,297 | | | |
| Salix Cam 2 | 994,632 | | | | | | | 994,632 |
| Offer Technegol Addysg Hwb | 204,347 | 204,347 | | | | | | |
| TG | 95,116 | | | | 95,116 | | | |
| Mân-ddaliadau | 158,255 | | | 114,323 | 43,932 | | | |
| Economi Cylchol | (5,836) | (5,836) | | | | | | |
| Dwyran | 53,000 | 53,000 | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **11,110,847** | **9,921,454** | **226,021** | **413,844** | **736,408** | **(74,910)** | **(1,106,603)** | **994,632** |

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **PWYLLGOR GWAITH** |
| Dyddiad: | **27 MEHEFIN 2023** |
| Pwnc: | **ADRODDIAD ALLDRO Y CYFRIF REFENIW TAI 2022/23** |
| Deilydd Portffolio: | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO – CYLLID** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **MARC JONES** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn<br>E-bost: | **CARWYN EDWARDS**<br>**01248 752699**<br>**CarwynEdwards@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol | **Amherthnasol** |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol: -

**(i)** Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer 2022/23.

**2. Cefndir**

**(i)** Mae'r adroddiad hwn yn dangos cyllideb refeniw sydd â gwarged a gynlluniwyd o £6,218k.

**(ii)** Y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2022/23 oedd £15,034k. Yn wreiddiol, roedd hyn i'w gyllido'n rhannol gan grantiau (£2,688k).

**(iii)** Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu'n rhoi diffyg a gynlluniwyd o £6,128k, a fyddai'n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT.

**(iv)** Mae'r CRT wedi'i glustnodi i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo ei gronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol ac ni ellir defnyddio'r Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT am y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023.

**4. Trosolwg**

**4.1** Mae gwarged / diffyg refeniw'r CRT ar alldro yn dangos tanwariant o £955k o gymharu â'r gyllideb. Mae hyn yn cymharu â gorwariant o £951k a ragwelwyd yn chwarter 3. Mae £2,288k o'r gwahaniaeth yn gysylltiedig â thanwariant ar gostau cyllido cyfalaf ac ailgodi tâl am gostau staff o gyllideb Dai Cronfa'r Cyngor ac ailgodi tâl am wasanaethau canolog (Cyllid, AD, TG ac ati). Cododd y tanwariant sylweddol ar gostau cyllido cyfalaf o ganlyniad i newidiadau yn y polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) (a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth 2023), derbyn lefelau llog uwch na'r disgwyl, oherwydd cynnydd mewn cyfraddau llog, a chostau benthyca is. Mae £300k yn gysylltiedig â chostau gwaith trwsio a chynnal a chadw ychwanegol, ac mae hyn yn rhannol oherwydd cynnydd mewn costau deunyddiau, ond hefyd cynnydd yn y galw. Mae Atodiad A yn cynnwys mwy o fanylion.

**4.2** Mae gwariant Cyfalaf £3,854k yn is na'r gyllideb ar alldro. Mae hyn yn cymharu â thanwariant o £4,891k a ragwelwyd yn chwarter 3. Caffael mwy na'r disgwyl o eiddo yn chwarter 4 sydd bennaf i gyfrif am hyn, yn ogystal ag ymrwymo i wariant ar safleoedd newydd yn gynharach nag a gynlluniwyd. Derbyniwyd £1,094k o gyllid grant cyfalaf ychwanegol yn ystod y flwyddyn, gan arwain at danwariant diwygiedig o £4,948k ar alldro. Mae Atodiad B yn cynnwys mwy o fanylion.

**4.3** Roedd diffyg o £225k ar alldro (gan gyfuno refeniw a chyfalaf), ac mae hyn yn cymharu â diffyg o £2,187k a ragwelwyd yn chwarter 3. Mae'r rhesymau am y newid wedi'u nodi uchod.

## 5. Incwm

**5.1** Ar ddiwedd chwarter 4, roedd yr incwm a dderbyniwyd £259k yn uwch na'r gyllideb. Fodd bynnag, mae £217k wedi'i godi yn erbyn incwm o ganlyniad i glirio anghydbwysedd hanesyddol yn y cyfrifon sy'n dal rhenti. Ar ôl codi am yr uchod yn erbyn incwm, y sefyllfa ddiwygiedig ar alldro yw bod yr incwm £42k yn uwch na'r gyllideb.

**5.2** Ar alldro, roedd incwm rhent £27k yn uwch na'r gyllideb, ac mae hyn yn cymharu â rhagolwg yn ystod chwarter 3 y byddai'r incwm £52k yn uwch na'r gyllideb. Roedd y gwahaniaeth rhwng ein rhagolwg yn chwarter 3 a'r ffigwr alldro yn deillio'n uniongyrchol o'r ffaith fod trafodaethau i brydlesu 8 fflat mewn datblygiad yng Nghaergybi wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Mae'r swm o £217k y cyfeiriwyd ato uchod wedi'i godi yn erbyn incwm tai, gan olygu fod y pennawd cyllideb hwn £190k yn is na'r gyllideb ar alldro.

**5.3** Roedd incwm modurdai £7k yn well na'r gyllideb ar alldro ac mae'n cyd-fynd â'r rhagolwg yn chwarter 3.

**5.4** Ar alldro, roedd incwm taliadau gwasanaeth £22k yn is na'r gyllideb, o gymharu â rhagolwg o £8k yn chwarter 3. Camgymeriad wrth gyfrifo'r rhagolwg ar ddiwedd chwarter 3 sydd i gyfrif am y gwahaniaeth.

**5.5** Roedd incwm arall £74k yn well na'r gyllideb ar alldro. Mae hyn yn cymharu â rhagolwg yn chwarter 3 y byddai incwm a gwariant yn cydbwyso. Mae £115k yn gysylltiedig ag incwm Grant Tai Fforddiadwy, sydd yn grant refeniw yn unig, er iddo gael ei drin fel grant cyfalaf yn wreiddiol. Roedd hyn yn cael ei wrthbwyso gan ddiffyg o £41k mewn incwm, gan gynnwys incwm Tariff Cyflenwi Trydan a chyfraniadau cyffredinol.

**5.6** Roedd tanwariant o £173k ar ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ar alldro. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch yr argyfwng costau byw, roedd ein rhagolygon yn ystod y flwyddyn yn rhagdybio y byddai'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn cael ei defnyddio'n llawn. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r gwaith helaeth a'r gefnogaeth a roddwyd i denantiaid, cofnodwyd dyledion drwg fel 0.625% o'r incwm rhent, o gymharu â tharged o 1.5%, gan olygu fod y ddarpariaeth wirioneddol ar gyfer dyledion drwg yn is.

## 6. Gwariant nad yw'n ymwneud â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

**6.1** Yn wreiddiol, ar alldro, roedd gwariant ar waith heblaw am waith trwsio a chynnal a chadw £52k yn is na'r gyllideb. Fodd bynnag, mae £114k wedi'i godi yn erbyn gwariant refeniw arall o ganlyniad i glirio'r anghydbwysedd hanesyddol yn y cyfrifon sy'n dal taliadau rhent ymlaen llaw. Ar ôl caniatáu am y gost uchod, y sefyllfa ddiwygiedig ar alldro ar gyfer gwariant nad yw'n ymwneud â gwaith trwsio a chynnal a chadw yw gorwariant o £62k.

**6.2** Mae'r pennawd Cyfranogiad Tenantiaid yn dangos tanwariant o £57k ar alldro, yn bennaf oherwydd swyddi gweigion. Mae hyn yn cymharu â thanwariant o £70k a ragwelwyd yn chwarter 3, a'r rheswm am y gwahaniaeth yw bod swydd wag wedi'i llenwi'n gynt na'r disgwyl.

**6.3** Roedd gorwariant o £47k ar weinyddu Rhenti a Rheoli Ystadau ar alldro, oherwydd costau staffio. Mae'r sefyllfa ar alldro yn debyg i'r rhagolwg yn chwarter 3.

**6.4** Mae tanwariant o £42k ar wariant refeniw arall ar alldro. Mae hyn yn cymharu â gorwariant o £15k a ragwelwyd yn chwarter 3. Mae'r mwyafrif o'r amrywiant hwn yn ymwneud â thanwariant ar wariant y Dreth Gyngor (£31k). Fel y nodwyd uchod, codwyd £114k ar y pennawd refeniw hwn oherwydd yr anghydbwysedd hanesyddol yn y cyfrifon dal taliadau

rhent ymlaen llaw. Y sefyllfa ddiwygiedig ar alldro ar gyfer y pennawd hwn, felly, yw gorwariant o £72k.

**7. Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw**

**7.1** Ar alldro, roedd gorwariant o £1,251k ar Waith Trwsio a Chynnal a Chadw, o gymharu â gorwariant o £950k a ragwelwyd yn chwarter 3.

**7.2** Dengys yr Uned Cynnal a Chadw Tai orwariant o £1,300k ar alldro, o gymharu â gorwariant o £1,000k a ragwelwyd ar ddiwedd chwarter 3. Gellir priodoli'r cynnydd mewn gwariant yn rhannol i gynnydd mewn costau deunyddiau, yn ogystal â chynnydd yn y galw.

**7.3** Roedd tanwariant o £49k ar Waith Trwsio a Chynnal a Chadw Arall a Staff yr Uned Cynnal a Chadw Adeiladau ar alldro gan nad oedd angen gwario arian ychwanegol ar atgyweirio gwaith trin carthffosiaeth. Mae'r sefyllfa ar alldro yn debyg i'n rhagolygon yn chwarter 3.

**8. Addasiadau ar Ddiwedd y Flwyddyn**

**8.1** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ailgodi tâl o'r Gronfa Gyffredinol) ac incwm sy'n cael ei dderbyn o log sy'n ffurfio rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn.

**8.2** Oherwydd bod polisi DRI yr Awdurdod wedi newid o 2% o Ofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) y CRT i'r dull blwydd-dal oed ased, ac oherwydd gostyngiad yng ngofynion benthyca'r Awdurdod, mae tanwariant o £1,995k ar gostau cyllido cyfalaf. Gan fod y newid yn y polisi wedi'i gyflwyno ar ddiwedd chwarter 4, ni wnaed darpariaeth ar gyfer tanwariant mor sylweddol.

**8.3** Roedd incwm llog a dderbyniwyd £241k yn uwch na'r gyllideb. Mae hyn yn gysylltiedig â llog a dderbynnir ar falans cronfa wrth gefn y CRT yn ystod y flwyddyn. Nid oedd y cynnydd cyflym a sylweddol yn y cyfraddau llog wedi'i ystyried pan osodwyd y gyllideb.

**8.4** Roedd gorwariant o £81k ar y costau a hawliwyd gan y gwasanaethau tai, ac mae hyn yn cymharu â rhagolwg yn chwarter 3 y byddai'r gorwariant yn £32k. Mae'r costau yr ailgodwyd tâl amdanynt yn ymwneud yn bennaf â chostau staff. Gall staff gyflawni gwaith ar ran y CRT a gwasanaethau Tai y Gronfa Gyffredinol ac mae'r gost ychwanegol yn adlewyrchu'r ffaith fod rhywfaint o staff wedi treulio mwy o amser na'r disgwyl ar waith y CRT.

**8.5** Mae tanwariant o £72k ar ailgodi tâl o'r gwasanaethau canolog ar alldro, ac mae hyn yn cymharu â rhagolwg yn chwarter tri o £30k o orwariant. Llai o ddefnydd o rai gwasanaethau canolog sydd i gyfrif am y tanwariant ar alldro, yn ogystal â chostau is y gwasanaethau canolog hynny, yn bennaf oherwydd swyddi gweigion.

**9. Gwariant Cyfalaf**

**9.1** Cyfanswm y gyllideb gyfalaf oedd £15,034k ac, yn wreiddiol, roedd i gael ei gyllido o'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr (£2,688k) a chyfraniad o gronfa wrth gefn y CRT (£12,346k). Y gwariant cyfalaf ar alldro oedd £11,180k, o gymharu â gwariant o £10,143k a ragwelwyd yn chwarter 3. Mae'r costau ychwanegol hyn yn cael eu gwrthbwyso gan gynnydd mewn cyllid grant a dderbyniwyd yn chwarter 4, pan dderbyniwyd £1,094k o gyllid ychwanegol. Mae £587k o'r incwm yn gysylltiedig â chyllid Cronfa Tai â Gofal a'r Gronfa Gofal Integredig sy'n cyfrannu at gostau adnewyddu Cartref Clyd Rhosybol a gwaith helaeth ar Haulfryn, sef y ddarpariaeth gwasanaeth dydd newydd ar gyfer plant. Mae £378k yn gysylltiedig â chyllid y Rhaglen ôl-osod ar gyfer Optimeiddio a ddyfarnwyd yn chwarter 4. Derbyniwyd grant cyfalaf gwerth £124k gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Rheoli Risg Tân.

**9.2** Mae Atodiad C yn cynnwys y gyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer pob un o'r cynlluniau adeiladu tai newydd neu brynu tai, gan gynnwys nifer yr unedau newydd fesul cynllun, a'r gwariant ar alldro o gymharu â'r gyllideb flynyddol. Mae gwaith dylunio cychwynnol wedi

cychwyn ar y safleoedd isod hefyd, a hynny o flaen amser, ac mae hyn wedi cyfrannu at y gwariant ychwanegol yn chwarter 4. Mae manylion y safleoedd wedi'u nodi isod ac mae mwy o wybodaeth wedi'i chynnwys yn Atodiad C.

Maes William Williams yn Amlwch, Bryn Glas ym Mrynsiencyn, Plas Penlan yn Llangefni, Maes Mona yn Amlwch, Lôn y Brenin yng Nghaergybi, hen ysgol gynradd Thomas Ellis yng Nghaergybi, hen ysgol gynradd Niwbwrch a Maes yr Ysgol yng Nghaergybi.

Mae gwaith ar safle Clwb Cymdeithasol Biwmares ychydig tu ôl i'r amserlen. Er bod tanwariant o £487k yn cael ei ragweld yn chwarter 3, gwnaethom gynnydd ardderchog yn chwarter 4 a chafwyd tanwariant o £271k ar alldro. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn haf 2023.

Mae prosiect Ysgol Llanfachraeth wedi gwario £76k yn fwy na'r gyllideb, yn bennaf oherwydd gwaith draenio annisgwyl a ddaeth i'r amlwg yn ystod y contract. Mae'r contract hwn wedi'i gwblhau erbyn hyn.

Dechreuodd y prosiect ym Mhlas Alltran yn ystod rhan olaf chwarter 4, ac mae prosiect Cae Braenar yn cael ei ailasesu ar hyn o bryd i sicrhau ei fod yn ariannol hyfyw.

Roedd gorwariant o £440k ar brosiect Parc y Coed yn Llangefni. Y rheswm am hyn yw bod gwaith wedi datblygu yn gynt nag a gynlluniwyd.

Mae gwariant ar y Cyfleuster Gofal Ychwanegol yn is na'r hyn a ragwelwyd yn chwarter 3. Llithriad yn y rhaglen oherwydd bod trafodaethau'n parhau ynghylch yr union ofynion llety sydd i gyfrif am hyn.

Mae gwaith yn Ysgol Llaingoch wedi'i orffen yn awr.

**9.3** Roedd gwariant yn gysylltiedig â Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn is na'r disgwyl oherwydd bod y cyfnod paratoi ar gyfer y contract adnewyddu ceginau yn hirach na'r disgwyl ac roedd gwariant cyfalaf wrth newid tenantiaid yn is na'r disgwyl.

**9.4** Nid oedd gwariant yn gysylltiedig â Risg Tân, ac yn benodol ôl-osod systemau chwistrellu dŵr mewn dau floc o fflatiau cymharol uchel, yn unol â'r disgwyliadau gan y bu'n rhaid ail-ddylunio cynigion y contractwr er mwyn goresgyn problemau technegol y daethpwyd ar eu traws ar y safle. Mae'r contractau ar waith a denwyd £394k o gyllid grant gan Lywodraeth Cymru, a defnyddiwyd £124k o'r cyllid hwnnw yn 2022/23. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau yn gynnar yn 2023/24.

**9.5** Roedd gwariant ar Addasiadau Sector Cyhoeddus yn is na'r disgwyl. Mae'r galw am addasiadau'n parhau'n uchel ond, serch hynny, mae'n anodd penodi contractwyr i gyflawni'r gwaith gan olygu fod yr amseroedd aros yn hirach nag y dymunir.

**9.6** Mae'r gyllideb Perfformiad Ynni'n dibynnu ar ymgynghori â'r Gweithredwr Rhwydwaith Ardal (DNO) cyn gosod paneli Solar Ffotofoltaig i gynhyrchu trydan adnewyddadwy. Yn anffodus, mae sicrhau cymeradwyaeth y DNO i gyflawni gwaith Solar Ffotofoltaig ar raddfa fawr wedi profi'n anodd, ac mae hynny'n parhau i fod yn wir, a hynny oherwydd y gofyn i atgyfnerthu'r rhwydwaith cyn gosod y paneli Solar Ffotofoltaig.

**9.7** Mae tanwariant sylweddol ar waith cynnal a chadw traddodiadol a gynlluniwyd. Y prif reswm am hyn yw bod bwriad, pan osodwyd y gyllideb wreiddiol ar gyfer 2022/23, i gyflawni'r gwaith yng Nghemaes o dan un cynllun a fyddai'n cael ei osod ar dendr a'i ddyfarnu yn ystod chwarter 1. Yn dilyn hynny, penderfynwyd cyflawni'r gwaith mewn dau gam. Mae gwaith ar Gam 1 yn mynd rhagddo ar y safle ar hyn o bryd ac mae'n datblygu'n dda, a dyfarnwyd y contract ar gyfer Cam 2 yn ystod chwarter 4, a disgwylir i'r gwaith gychwyn yn 2023/24. Yn

ogystal, gosodwyd tendr ychwanegol ar gwerthwychigymru yn ystod chwarter 3, ar gyfer cynllun yn cynnwys 10 eiddo ym Mhorthaethwy, Llandegfan a Brynteg, a dechreuodd y gwaith yn ystod chwarter 4.

**9.8** Roedd y gyllideb amgylcheddol yn caniatáu ar gyfer buddsoddiad sylweddol mewn perthynas ag uwchraddio trefniadau gwaredu carthffosiaeth yng Ngharreglefn er mwyn cydymffurfio â gofynion a bennwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae’r datrysiad arfaethedig yn cynnwys cynnal trafodaethau gyda pherchennog tir preifat a sicrhau trwydded ar gyfer y cynllun gan CNC. Er bod y drwydded wedi’i chymeradwyo, mae trafodaethau’n parhau gyda’r tirfeddiannwr a’r contractwr.

**9.9** Mae’r tanwariant ar wariant cyfalaf yn golygu bod gostyngiad tebyg yn y swm a gyllidir o gyfrif refeniw'r CRT. Mae’r balans ar gael wedyn i gyllido prosiectau sydd wedi eu gohirio tan y flwyddyn nesaf.

**10. Balans y CRT**

**10.1** Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £12,333k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu ar gyfer defnyddio £6,128k o’r balans hwn. Fodd bynnag, dengys y sefyllfa uchod ar alldro mai £225k yn unig sydd ei angen o Gronfa wrth gefn y CRT yn 2022/23. Rhydd hyn falans o £12,108k ar 31 Mawrth 2023. Mae’r balans hwn wedi’i glustnodi ar gyfer dibenion penodol ac, felly, nid yw ond ar gael i gyllido gwariant y CRT yn y dyfodol.

**10.2** Defnyddir y balans yn 2023/24 i gyllido gwariant cyfalaf, gan gynnwys parhau i ddatblygu eiddo newydd. Bydd balans y CRT yn cael ei ostwng i’r isafswm, fel y nodir yng Nghynllun Busnes y CRT. Ar ôl cyrraedd yr isafswm, bydd buddsoddiad cyfalaf ychwanegol yn cael ei gyllido o’r gwarged refeniw a gynhyrchir a chan fenthyciadau allanol.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?**

Mae’r mater hwn wedi’i ddirprwyo i’r Pwyllgor Gwaith.

**Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

**Dd – Asesu’r effaith bosib (os yw’n berthnasol):**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae’r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae’r adroddiad hwn at ddibenion monitro yn unig ac mae’n cael ei ddefnyddio, gydag adroddiadau eraill, i lunio cynllun busnes a chyllideb flynyddol y CRT. Wrth osod y gyllideb flynyddol, bydd anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hasesu. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol |
| **3** | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i’r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut:- | Mae'r Gwasanaethau Tai yn ymgynghori'n rheolaidd â'i denantiaid ac mae canlyniadau'r ymgynghoriadau hynny'n cael eu bwydo i'r broses gynllunio busnes ac yna i'r broses o osod y gyllideb flynyddol. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |
| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | |
| **2** | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth. |
| **4** | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| **5** | Eiddo | Amherthnasol |
| **6** | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Amherthnasol |
| **7** | Caffael | Amherthnasol |
| **8** | Sgriwtini | Mae canlyniadau adroddiadau monitro chwarterol y CRT yn cael eu hadrodd i'r Panel Sgriwtini Cyllid. |
| **9** | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

**F – Atodiadau:**

- Atodiad A – Gwariant Refeniw ar gyfer 2022/23
- Atodiad B – Gwariant cyfalaf ar gyfer 2022/23
- Atodiad C – Cynlluniau cyfalaf Adeiladu Tai Newydd 2022/23

**Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT 2022/52 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mai 2022).

| *CYFRIF REFENIW TAI 2022/23* | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb Flynyddol 2022/23** | **Alldro** | **Amrywiant hyd Mis 12** | **Rhagolwg Alldro Ch3** | **Newid o amcan Ch3** |
| **CYFRIF REFENIW**<br><br>**Incwm** | **£** | **£** | **£** | | |
| Aneddau | (19,420,000) | (19,229,990) | 190,010 | (19,472,000) | 242,010 |
| Garejys | (223,000) | (230,330) | (7,330) | (230,000) | (330) |
| Taliadau Gwasanaeth | (201,000) | (178,899) | 22,101 | (193,000) | 14,101 |
| Arall | (207,060) | (280,872) | (73,812) | (207,860) | (73,012) |
| Darpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg | 296,000 | 122,703 | (173,297) | 296,000 | (173,297) |
| **CYFANSWM INCWM** | **(19,755,060)** | **(19,797,388)** | **(42,328)** | **(19,806,860)** | **9,472** |
| **Gwariant heblaw am Waith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | |
| Cyfranogiad Tenantiaid | 260,653 | 203,661 | (56,992) | 190,653 | 13,008 |
| Gweinyddu Rhenti | 500,013 | 477,659 | (22,354) | 530,013 | (52,354) |
| Rheoli Stadau | 180,788 | 250,412 | 69,624 | 195,788 | 54,624 |
| Gwariant Refeniw Arall | 1,770,934 | 1,842,857 | 71,923 | 1,785,934 | 56,923 |
| **Cyfanswm Gwariant heblaw ar Waith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **2,712,388** | **2,774,589** | **62,201** | **2,702,388** | **72,201** |
| **Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | |
| Uned Cynnal a Chadw Tai (UCChT) | 3,795,464 | 5,094,991 | 1,299,527 | 4,795,464 | 299,527 |
| Staff Cynnal a Chadw Adeiladau (dim UCChT) | 958,583 | 968,106 | 9,523 | 958,583 | 9,523 |
| Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Arall | 793,655 | 735,317 | (58,338) | 743,655 | (8,338) |
| **Cyfanswm Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **5,547,702** | **6,798,414** | **1,250,712** | **6,497,702** | **300,712** |
| **Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | | | | |
| Taliadau Cyllido Cyfalaf | 3,674,000 | 1,679,327 | (1,994,673) | 3,674,000 | (1,994,673) |
| Llog a dderbynnir | 0 | (240,643) | (240,643) | 0 | (240,643) |
| Ailgodi Tâl o'r Gwasanaethau Tai | 790,630 | 871,906 | 81,276 | 822,630 | 49,276 |
| Ailgodi Tâl o'r Gwasanaethau Canolog | 812,831 | 740,939 | (71,892) | 842,831 | (101,892) |
| **Cyfanswm Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | **5,277,461** | **3,051,529** | **(2,225,932)** | **5,339,461** | **(2,287,932)** |
| | | | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT REFENIW** | **13,537,551** | **12,624,532** | **(913,019)** | **14,539,551** | **(1,915,019)** |
| | | | | | |
| **CYFANSWM REFENIW (GWARGED) / DIFFYG** | **(6,217,509)** | **(7,172,856)** | **(955,347)** | **(5,267,309)** | **(1,905,547)** |

| | Cyllideb Flynyddol 2022/23 | Alldro | Amrywiant hyd Mis 12 | Rhagolwg Alldro Ch3 | Newid o amcan Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|
| **CYFRIF GWARIANT CYFALAF** | | | | | |
| Gwariant 2022/23 | 15,034,000 | 11,179,599 | (3,854,401) | 10,142,691 | 1,036,908 |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | (2,688,000) | (3,782,011) | (1,094,011) | (2,688,000) | (1,094,011) |
| Grantiau / Benthyciadau Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM CYFALAF (GWARGED) / DIFFYG** | **12,346,000** | **7,397,588** | **(4,948,412)** | **7,454,691** | **(57,103)** |
| | | | | | |
| **(CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YNG NGHRONFA WRTH GEFN Y CRT** | **6,128,491** | **224,732** | **(5,903,759)** | **2,187,382** | **(1,962,650)** |
| | | | | | |
| **Balans Agoriadol y CRT** | (12,333,000) | (12,333,000) | 0 | (12,333,000) | 0 |
| | | | | | |
| **(Cynnydd) / Gostyngiad Net yng Nghronfa Wrth Gefn y CRT** | 6,128,491 | 224,732 | (5,903,759) | 2,187,382 | (1,962,650) |
| | | | | | |
| **Balans Cau'r CRT** | **(6,204,509)** | **(12,108,268)** | **(5,903,759)** | **(10,145,618)** | **(1,962,650)** |

**Atodiad B**

| Gwasanaeth | Cyllideb Blynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Gwahaniaeth i Ch4 (£) | Rhagolwg Ch3 (£) | Gwahaniaeth (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| **TAI** | | | | | |
| Contract Gwresogi Canolog | 800,000 | 805,927 | 5,927 | 800,000 | 5,927 |
| Contract Cynnal a Chadw a gynllinwyd | 3,955,000 | 2,190,844 | (1,764,156) | 2,000,000 | 190,844 |
| SATC | 1,901,950 | 1,107,530 | (794,420) | 1,300,975 | (193,445) |
| Cerbydau | 27,383 | 27,383 | 0 | 27,383 | 0 |
| Gwaith Amgylcheddol | 870,667 | 245,920 | (624,747) | 200,000 | 45,920 |
| Risg Tân | 600,000 | 260,230 | (339,770) | 400,000 | (139,770) |
| Caffael Eiddo Cyfredol a Datblygiadau Eiddo Newydd | 5,479,000 | 6,099,484 | 620,484 | 4,936,888 | 1,162,596 |
| Addasiadau Sector Gyhoeddus | 400,000 | 343,600 | (56,400) | 400,000 | (56,400) |
| Gwella Perfformiad Ynni | 1,000,000 | 98,682 | (901,318) | 77,445 | 21,237 |
| **Cyfanswm** | **15,034,000** | **11,179,599** | **(3,854,401)** | **10,142,691** | **1,036,908** |

## Cyllideb datblygiadau newydd 2022/23

**Atodiad C**

| Cynllun | Nifer o unedau ychwanegol | Cyllideb 2022-23 | Gwariant hyd at C12 | Gwahaniaeth | Rhagolwg Ch3 | Gwahaniaeth rhwng rhagolwg Ch3 ac alldro Ch4 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Armenia St, Caergybi | 5 | £8,000 | £1,690 | (£6,310) | £8,000 | (£6,310) |
| Cyfnodau cadw 2021/22 | 1 | £16,000 | £26,248 | £10,248 | £16,000 | £10,248 |
| Marquis, Rhosybol | 15 | £34,000 | £45,954 | £11,954 | £45,989 | (£35) |
| Ysgol Llanfachraeth | 8 | £100,000 | £176,326 | £76,326 | £158,789 | £17,537 |
| Gofal Ychwanegol | 55 | £100,000 | £30,939 | (£69,061) | £191,812 | (£160,873) |
| Plas Alltran, Caergybi | 4 | £250,000 | £39,898 | (£210,102) | £0 | £39,898 |
| Ysgol Llaingoch, Caergybi | 26 | £300,000 | £363,657 | £63,657 | £288,681 | £74,976 |
| Cae Braenar, Caergybi | 23 | £460,000 | £3,828 | (£456,172) | £3,828 | £0 |
| Parc y Coed, Llangefni | 12 | £500,000 | £939,827 | £439,827 | £770,970 | £168,857 |
| Clwb Cymdeithasol Biwmares | 6 | £1,000,000 | £728,910 | (£271,090) | £513,500 | £215,410 |
| Adnewyddu unedau | 0 | £1,318,955 | £1,341,355 | £22,400 | £1,198,334 | £143,021 |
| Prynnu 18 Uned yn ôl | 18 | £1,392,045 | £2,140,135 | £748,090 | £1,740,985 | £399,150 |
| Safle Hen Ysgol, Niwbwrch | 14 | £0 | £5,928 | £5,928 | £0 | £5,928 |
| Ysgol Thomas Ellis, Caergybi | 43 | £0 | £37,462 | £37,462 | £0 | £37,462 |
| Byngalos, Kings Road, Caergybi | 4 | £0 | £6,882 | £6,882 | £0 | £6,882 |
| Maes Mona, Amlwch | 40 | £0 | £29,879 | £29,879 | £0 | £29,879 |
| Plas Penlan, Llangefni | 11 | £0 | £26,029 | £26,029 | £0 | £26,029 |
| Bryn Glas, Brynsiencyn | 0 | £0 | £1,853 | £1,853 | £0 | £1,853 |
| Maes William Williams, Amlwch | 4 | £0 | £8,808 | £8,808 | £0 | £8,808 |
| Maes Yr Ysgol Caergybi | 4 | £0 | £143,879 | £143,879 | £0 | £143,879 |
| **Cyfanswm Dyraniad 2022-23** | **293** | **£5,479,000** | **£6,099,484** | **£620,484** | **£4,936,888** | **£1,162,596** |

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | 27.06.2023 |
| Pwnc / Testun: | Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Gary Pritchard |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Fon Roberts |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Danielle Thomas<br>01407 767785 / 07971 578100<br>daniellethomas@anglesey.gov.wales |
| Aelodau Lleol: | **Pawb - cyfrifoldeb statudol gan y Cyngor Sir** |

| A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau |
|---|
| Ma e Adran 22 o Ddeddf Gofal Plant 2006 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru, mewn partneriaeth â rhan ddeiliaid eraill lleol (statudol, cymunedol a sector preifat), gweithwyr proffesiynol, a darparwyr: i sicrhau gofal plant digonol, hygyrch ac o safon uchel ar gyfer plant 0-14 oed yn eu hardal leol, cyn belled ag y bo'n ymarferol i rieni sy'n gweithio, rhieni/gofalwyr sy'n astudio neu'n hyfforddi ar gyfer cyflogaeth.<br><br>Mae Canllaw Asesu Digonolrwydd Gofal Plant Deddfol 2016 yn nodi bod gofyn i awdurdodau lleol yng Nghymru gwblhau a chyflwyno copi o ddwy ddogfen i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2022, sef: i. Dogfen Asesu Digonolrwydd Gofal Plant; ii. Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Gofal Plant, sydd angen ‘nodi'r camau gweithredu, blaenoriaethau a prif nodau i gynnal cryfderau a mynd i'r afael â diffygion a nodir yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant' ynghyd â'r adroddiad cynnydd blynyddol yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn y camau gweithredu, blaenoriaethau a’r prif nodau yn y Cynllun Gweithredu (2022).<br><br>Yn ogystal, mae'r Cynllun Digonolrwydd Gofal Plant yn cael ei gynnwys yn Gyfansoddiad (dan y Fframwaith Polisi) y Cyngor fel mater a gadwyd i gael ei gymeradwyo gan y Cyngor yn llawn. |

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Rhan o Gyfansoddiad y Cyngor dan Fframwaith Polisi i gyflwyno adroddiad ar gyfer cymeradwyaeth llawn gan y Cyngor. |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Nid yw chwiliad ar-lein wedi yn datgelu unrhyw drafodaeth hanesyddol ynglŷn â'r Cynlluniau blaenorol gan y Cyngor llawn; ond mae rhai adroddiadau wedi'u cyflwyno ym mis Ebrill 2014, mis Mawrth 2015, mis Ebrill 2017, mis Ionawr 2019 - y Cynllun a/neu adroddiadau diweddaru. Fel awdurdod lleol, rydym yn gweithio mewn partneriaeth ar draws holl wasanaethau, o ran yr adroddiad hwn, rydym wedi cael barn gan y Gwasanaethau Dysgu, y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd ac mae wedi cael ei drafod yn y cyfarfod Uwch Arweinyddiaeth hefyd. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydan rydym yn ystyried bod yr adroddiad hwn yn cysylltu â'r Cynllun Cyngor sydd newydd gael ei gyhoeddi. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Wedi'i nodi yn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022 a'r Adolygiad a'r Cynllun 2023, nodwyd y prif amcanion a fydd yn helpu i gefnogi twf a chadw darparwyr Gofal Plant ar Ynys Môn. Yn eu tro, bydd hyn yn sicrhau sector Gofal Plant cynaliadwy sy'n cynnig cyfleoedd datblygu sylfaenol i blant gan gefnogi rhieni/gofalwyr i weithio.<br><br>Wrth benderfynu os yw darpariaeth gofal plant yn ddigonol i ddiwallu gofynion Deddf Gofal Plant 2006, sydd yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau gofal plant digonol yn eu hardal er mwyn galluogi rhieni i weithio neu aros yn y gwaith neu i gynnal addysg a hyfforddiant er mwyn cael gwaith. Trwy gefnogi rhieni/gofalwyr i weithio, mae hyn yn cefnogi Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi, er bod tlodi yn dal i fodoli. Yn ogystal, mae rhaglen Llywodraeth Cymru - Cynnig Gofal Plant ar gyfer plant 2 oed, yn cynnig cymorth pellach i rieni/gofalwyr i ddychwelyd i'r gwaith yn gynt, gan frwydro yn erbyn argyfwng cost byw. Trwy gynnal yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hwn, darperir gwybodaeth hanfodol a nodir anghenion datblygu penodol Gofal Plant ar draws Ynys Môn. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Ceisiadau am gymeradwyaeth ar gyfer yr Asesiad. Nid oes unrhyw asesiad o gostau i'r awdurdod. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Ydi mae'r holl sectorau sy'n ymwneud â darpariaeth a datblygiad gofal plant ynghlwm ac mae ymgynghoriad wedi'i gynnal gyda rhieni a gofalwyr yn 2022. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Ydyn cafodd ymgynghoriad llawn a thorfol ei gwblhau gyda adborth a chanlyniadau a nodwyd yn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar | Mae ystyriaethau penodol sy'n asesu'r effaith ar blant ag anableddau i sicrhau |

| | | |
|---|---|---|
| | y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | mynediad at ofal plant a chynnal ymgynghoriad gyda grwpiau penodol a allai gael eu heffeithio gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd gymdeithasol. | Ceisir cymeradwyaeth ar gyfer yr Asesiad a'r cynllun ac effaith bosibl ar y garfan economaidd gymdeithasol yn deillio o ddiffyg gofal plant sy'n rhwystr i'r gwaith. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Fel rhan o'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, un o'r prif amcanion yw cadw, tyfu a defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal plant. Fel rhan o Ddeddf Gofal Plant 2006, rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru ystyried: darparu gofal plant sy'n cynnwys defnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn naturiol yn gofyn i awdurdodau lleol gael rhan ganolog yn datblygu darpariaeth gofal plant dwyieithog a chyfrwng Cymraeg yn eu hardaloedd, mewn partneriaeth â sefydliadau perthnasol. Darperir cymorth i'r sector gofal plant i ddefnyddio'r Gymraeg ac yn cyfeirio at fusnesau sy'n darparu'r adnodd ychwanegol hwn. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Yn y broses |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol a nodwyd y tu hwnt i'r cynlyn presennol. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Nid yw'n berthnasol, ac eithrio am adlewyrchu'r cyfrifoldeb statudol i gynhyrchu'r Asesiad, cymeradwyo a chyhoeddi'r fersiwn derfynol. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Nid yw'n berthnasol. |
| 5 | Eiddo | Nid yw'n berthnasol. |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Nid yw'n berthnasol, eithrio beth sydd wedi ei gyhoeddi ar dudalen we'r Cyngor. |
| 7 | Caffael | Nid yw'n berthnasol. |
| 8 | Sgriwtini | Yn aros ar ôl ystyriaeth gan y tîm Arweinyddiaeth Uwch. |
| 9 | Aelodau Lleol | Nid yw'n berthnasol oherwydd bod hwn ar draws y sir. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Gweler yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022 a'r Adolygiad / Cynllun CSA 2023 a atodwyd |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| Fel yr uchod |

# Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Adroddiad ar Gynnydd

# 2023

**Argymhelliad 1**: **Mynediad at Ofal Plant, fforddiadwyedd a hyblygrwydd darpariaeth gofal plant**



| Gweithred | Canlyniadau Targed | Cynnydd yn ystod 2022/23 | Cynllun Gweithredu 2023/24 |
|---|---|---|---|
| Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio gyda phartneriaid yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant i gefnogi nifer y lleoedd cofrestredig sydd ar gael, gan gynnwys ymgysylltu â'r sector ar ymarferoldeb darpariaeth gofal plant hyblyg a'r rhwystrau. | Bod gan rieni/gofalwyr fynediad at ofal plant sydd ar gael y tu allan i'r oriau cyfredol | **Mae pob gwarchodwr plant a meithrinfa yn rhoi gofal plant i blant dwyflwydd a thair oed. Mae pob sefydliad cyn-ysgol (Mudiad Meithrin a Blynyddoedd Cynnar Cymru) yn darparu lleoedd ar gyfer plant 21/2 oed gyda 10 lleoliad yn darparu lleoedd i blant dwyflwydd oed.**<br><br>**Nifer y rhieni sy'n defnyddio'r Cynnig Gofal Plant gyda 596 o gytundebau gweithredol.**<br><br>**Mae angen ymgynghori â rhieni ar hyn i gael eu barn.** | **Parhau i weithio gyda phartneriaid i drafod ymarferoldeb cynnig ymestyn oriau agor i roi mwy o hyblygrwydd i rieni. Trafodaethau'n mynd rhagddynt mewn grwpiau llywio ond hefyd i'w codi i'w trafod yn y Gynhadledd Gofal Plant a Chwarae nesaf gyda darparwyr ym mis Chwefror 2024.** |
| Mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i weithio gyda phartneriaid yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant i sicrhau bod y sector yn hyderus i ddatblygu ei gwasanaethau i roi gofal plant i blant dwyflwydd oed a pharhau i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant | Cedwir nifer bresennol y darparwyr heb symud a chaiff darparwyr ychwanegol eu cefnogi i ddatblygu eu busnes, darparwyr newydd, megis gwarchodwyr plant, yn cael eu hannog i roi dewis o ofal plant i rieni. | **Mae gan rieni/gofalwyr rywfaint o fynediad at ofal plant trwy gydol y** | **Parhau i gefnogi Pacey Cymru i gyfrannu at gostau cofrestru Gwarchodwyr Plant a hyfforddiant i hyfforddi hyd at bedwar Gwarchodwr Plant** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| wrth iddo gael ei ailgynllunio i fformat cais ar-lein.<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol a phob sefydliad ymbarél a darparwr gofal plant yn rhoi cymorth a gwybodaeth gyson i rieni / gofalwyr i gael mynediad at ofal plant sy'n cael cymorth grant neu sy'n derbyn | Mae nifer y darparwyr sy'n darparu lleoliadau gofal plant dwyflwydd a thair oed yn 80% o'r sector.<br><br>Cynnydd yn nifer y rhieni/gofalwyr sy'n gwneud cais am ofal plant â chymhorthdal.<br><br>Mwy o rieni/gofalwyr yn dweud bod gofal plant yn fwy | **flwyddyn trwy ddarpariaeth mewn pum adeilad modiwlaidd ar draws yr ynys, gyda dwy ddarpariaeth newydd yn cael eu hychwanegu (Henblas / Santes Dwynwen).**<br>**Mae'r darpariaethau gofal plant hyn ar safleoedd ysgol.**<br><br>**Wedi cofrestru un gwarchodwr plant newydd.** | **newydd bob blwyddyn trwy gydol 23/24.**<br>**Parhau i ddarparu cymorth i ddarparwyr sydd eto i gofrestru ar gyfer y platfform ar-lein.**<br>**Parhau i hyrwyddo Cynnig Gofal Plant Cymru i ddarparwyr a rhieni drwy gydol 23/24.**<br><br>**Parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Pacey i ariannu cofrestriad gwarchodwyr plant newydd yn rhannol trwy gydol 23/24.**<br><br>**Cydnabod y meysydd lle mae angen gofal plant ar ôl ysgol a gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu darpariaeth, sy'n parhau trwy gydol 23/24.**<br><br>**Ehangu Gofal Plant ar gyfer plant dwyflwydd oed - drwy ehangu Dechrau'n Deg – gwaith sy'n dechrau ym mis Medi 2023.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| cymhorthdal trwy gynlluniau fel Gofal Plant Di-dreth<br><br>Bydd yr awdurdod lleol a chyrff ymbarél yn cwmpasu bylchau mewn darpariaeth gofal plant yn enwedig gyda darpariaeth ar ôl ysgol a darpariaeth gwyliau a datblygu darpariaethau o'r fath ochr yn ochr â darparwyr newydd neu'r darparwyr presennol.<br>Bydd yr awdurdod lleol yn **ystyried lleoliad gofal plant sy'n hanfodol fel rhan o'i Raglen Moderneiddio Ysgolion.** | fforddiadwy/ ddim yn rhwystr i waith/hyfforddiant.<br><br>Mae gan rieni/gofalwyr fynediad at ofal plant trwy gydol y flwyddyn o fewn pellter rhesymol i'r cartref neu'r gwaith.<br><br>Cynnydd yn y ddarpariaeth gofal plant ar safleoedd ysgol.<br><br>Cynnydd yn nifer y lleoedd gofal plant yng Nghanolbarth Môn.<br><br>Cynnydd yn nifer y gwarchodwyr plant ar draws y sir. | | **Ehangu rhagor ar Adeiladau Modiwlaidd trwy Gyllid Cyfalaf. Darparu gofal dydd llawn a darpariaeth gwyliau gyda dau ychwanegol (Corn Hir a Llanfawr) yn agor ym mis Medi 2023.**<br><br>**Angen ymgynghori gyda rhieni i gael eu barn ar fforddiadwyedd gofal plant ac a yw hyn yn rhwystr i waith neu hyfforddiant, Ionawr 2024 ymlaen.**<br><br>**Angen hyrwyddo Gofal Plant Di-dreth i ddarparwyr yn ogystal â gyda rhieni, yn parhau trwy gydol 23/24.**<br><br>**Datblygu rhagor o adeiladau Modiwlaidd trwy gyllid Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant ar ôl Medi 2024.**<br><br>**Parhau i hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant, sy'n parhau trwy gydol 23/24.**<br><br>**Parhau i gefnogi Gwarchodwyr Plant newydd trwy weithio mewn partneriaeth yn ystod y broses gofrestru, yn barhaus trwy gydol 23/24.** |

**Argymhelliad 2: Mae'r awdurdod lleol a chyrff ambarél yn parhau i gefnogi darparwyr gofal plant i fod o ansawdd uchel**

| Gweithred | Canlyniadau Targed | Cynnydd yn ystod 2022/23 | Cynllun Gweithredu 2023/24 |
|---|---|---|---|
| Bydd yr Awdurdod Lleol a chyrff ymbarél yn parhau i gefnogi gwaith darparu hyfforddiant i sicrhau lleoliadau gofal plant o ansawdd uchel.<br><br>Bydd yr awdurdod lleol a chyrff ymbarél yn sicrhau bod darparwyr gofal plant yn cael gwybod am safonau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Estyn. | Cynnydd mewn presenoldeb mewn cyfleoedd hyfforddi ar draws y sector gofal plant.<br><br>Lleoliadau gofal plant sydd wedi'u graddio'n dda gan AGC ac Estyn neu'n dangos arfer sy'n arwain y sector. | **Wedi darparu hyfforddiant statudol sy'n ofynnol gan y gweithlu a ystyriwyd Roedd 62 o ddarparwyr wedi derbyn hyfforddiant Diogelu, 67 o ddarparwyr wedi cael Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig.**<br><br>**Nid yw darparwyr wedi cael arolygiad gan AGC na chan Estyn oherwydd cyfyngiadau Covid. Mae'r arolygiadau hyn bellach wedi ailddechrau.** | **Parhau i ddarparu hyfforddiant statudol ar gyfer y sector gofal plant.**<br><br>**Gan gynnwys unrhyw rai sy'n ofynnol yng ngwaith adolygu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol - megis Diogelu Uwch, sy'n parhau drwy gydol 23/24.**<br><br>**Tracio arolygiadau a graddfeydd, gweithio mewn partneriaeth â chyrff ambarél i sicrhau safonau darpariaeth drwy gydol 23/24.**<br><br>**Adolygu clybiau ar ôl ysgol a gweithio gyda lleoliadau nad ydynt wedi'u cofrestru ag AGC i gwblhau'r cofrestriad, gwaith parhaus o 2022 i 23/24.** |

**Argymhelliad 3: Bydd yr Awdurdod Lleol a phartneriaid yn parhau i gefnogi darpariaeth gofal plant i blant ag anghenion dysgu ychwanegol.**

| Gweithred | Canlyniadau Targed | Cynnydd yn ystod 2022/23 | Cynllun Gweithredu 2023/24 |
|---|---|---|---|
| Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i sicrhau bod ei sector gofal plant blynyddoedd cynnar yn cael ei gefnogi a'i fod wedi'i ymrwymo i'r rhaglen drawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Bydd y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yn gynhwysol ac yn hygyrch i bob plentyn.<br><br>Bydd darparwyr gofal plant yn hyderus i gwrdd ag anghenion plentyn | **Hyfforddiant ADY Modiwl 1 a 2 yn cael ei gynnig i'r sector cyfan.** | **Parhau i ddarparu'r hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer ADY a rhoi cefnogaeth yn ôl yr angen, trefniadau blynyddol a hyfforddiant wedi'u harchebu a'u cynnig i ddarparwyr ar gyfer 23/24.** |

**Argymhelliad 4: Bydd yr Awdurdod Lleol a phartneriaid yn parhau i ddatblygu a chefnogi gofal plant cyfrwng Cymraeg.**

| Gweithred | Canlyniadau Targed | Cynnydd yn ystod 2022/23 | Cynllun Gweithredu 2023/24 |
|---|---|---|---|
| Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'i bartneriaid yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant i sicrhau bod pob rhiant/gofalwr a phlentyn yn cael mynediad at ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg. Bydd yr awdurdod lleol a phartneriaid yn Cwlwm a Menter Iaith yn cyfeirio staff a rhieni at Ddosbarthiadau Cymraeg i gefnogi hyder y gweithlu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg . | Cynnydd yn nifer y darparwyr gofal plant sy'n darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Mae'r gweithlu yn hyderus wrth ddarparu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Dywed rhieni/gofalwyr fod gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael yn rhwydd. | **Mae lleoliadau cyn ysgol o dan y Mudiad Meithrin neu gorff ymbarél EYW a'u nod yw cynyddu nifer y darparwyr Cymraeg.**<br><br>**Cyfeirio at - Ap Ogi Ogi**<br><br>**Arwyddbost at Gwrs Cymraeg**<br><br>**Mae 15 darparwr wedi cwblhau llwybr efydd 'Taith i Iaith' gyda 10 arall yn cychwyn ar y lefel efydd a 13 yn cychwyn ar y lefel arian.**<br><br>**Angen ymgynghori â rhieni/gofalwyr mewn perthynas â gofal plant cyfrwng Cymraeg sydd ar gael.** | **Holiadur/adolygiad o lefel y Gymraeg mewn lleoliadau gofal plant Staff a Rheolwyr, iaith y ddarpariaeth (Cynnig Rhagweithiol) – Medi 24 ymlaen.**<br><br>**Cylchoedd i gofrestru ar wefan Dewis yn nodi iaith y ddarpariaeth - Medi 24 ymlaen.**<br><br>**Cylchlythyr - ychwanegu geiriau allweddol/terminoleg - Dechreuwyd Mawrth 2024 a'i anfon allan bob chwarter**<br><br>**Grwpiau anffurfiol i ddarparwyr ymarfer eu Cymraeg trwy gydol 23/24.**<br><br>**Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg drwy gydol 23/24.**<br>**Parhau i ehangu darparwyr ar lwybr 'Taith i Iaith'. Yn dechrau Ebrill 2023 ac yn parhau trwy gydol 23/24.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Ymgynghori â rhieni /gofalwyr/ darparwyr, Ionawr 2024. |

**Argymhelliad 5: Bydd yr Awdurdod Lleol, partneriaid Cwlwm ac eraill yn cefnogi gofal plant fel gyrfa sy'n talu'n dda ac yn cael ei pharchu.**

| Gweithred | Canlyniadau Targed | Cynnydd yn ystod 2022/23 | Cynllun Gweithredu 2023/24 |
|---|---|---|---|
| Adolygu'r ffioedd a godir ar draws y sector fel bod modd adolygu'r cyflogau a delir ar draws y sector<br><br>Gweithio'n rhanbarthol gyda'r sector gofal plant i adolygu polisïau a gweithdrefnau recriwtio a chadw.<br><br>Adolygu llwybrau gyrfa sydd ar gael o bobl ifanc i oedolion sydd eisoes mewn cyflogaeth yn y sector.<br><br>Hyrwyddo gwarchod plant a gweithio yn y sector fel gyrfa foddhaus sy'n adlewyrchu ymrwymiad a chymwysterau gyda chyflog teg. | Mae ffioedd gofal plant yn adlewyrchu'r anghenion busnes ac yn cynnal y sector a'i staff i gefnogi cyflogau ar yr un lefel â phroffesiynau eraill yn y blynyddoedd cynnar.<br><br>Creu llwybrau gyrfa, cynnydd yn y nifer sy'n dewis gweithio yn y sector, darpariaeth gofal plant gynaliadwy.<br><br>Mae staff yn y sector yn hyderus yn eu llwybrau gyrfa a'u cyfleoedd ac yn adrodd am well cyflog ac amodau. | **Mae hyn yn rhywbeth y mae angen i bob darparwr fynd i'r afael ag ef o ran ei strwythur busnes ei hun.**<br><br>**Mae gan Ofal Cymdeithasol Cymru Fframwaith cymwysterau i'w dilyn ar gyfer gofal plant.**<br><br>**Nid ymgynghorwyd ar hyn.** | **Cymorth busnes i ddarparwyr fel bod modd iddynt gael system taliadau strwythuredig i dalu am gostau sesiynau, drwy gydol 23/24 ond sydd eisoes wedi'i sefydlu mewn lleoliadau Dechrau'n Deg.**<br><br>**Gweithio mewn partneriaeth gyda ffeiriau swyddi colegau / ysgolion i hyrwyddo gofal plant fel llwybr gyrfa, yn barhaus trwy gydol 23/24, ond cynyddu presenoldeb mewn ffeiriau swyddi o fis Medi 2024.**<br><br>**Angen ymgynghori ag ymarferwyr yn y sector gofal plant – Ionawr 2024.** |

**Ffurflen Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2022**

**Enw'r Awdurdod Lleol: Cyngor Sir Ynys Môn**

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

**Enw'r Swyddog Cyfrifol: Danielle Thomas**

**Dyddiad Cwblhau:** Mehefin 2022

DRAFFT

**Cynnwys**


| | Tudalennau |
|---|---|
| Cyflwyniad, Cyd-destun a Chefndir | 1 - 7 |
| Gweithio Mewn Partneriaeth ac Ymgynghori | 8 |
| Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg | 9 - 12 |
| Trosolwg – Mathau o Ofal Plant, Gwasanaethau a Lleoedd | 13 - 22 |
| Anghenion Rhieni/Gofalwyr – y galw am ofal plant | 23 - 35 |
| Canlyniadau Ymgynghori â Rhanddeiliaid a Chyflogwyr | 36 - 38 |
| Canlyniadau Ymgynghori â Phobl Ifanc | 39 - 44 |
| Canlyniadau Ymgynghori ag Ysgolion | 45 - 49 |
| Dosbarthiad Daearyddol | 50 - 53 |
| Cynaliadwyedd | 54 - 64 |
| Dadansoddiad Trawsffiniol | 65 |
| Effeithiau COVID-19 | 66 - 68 |
| Poblogaeth a Demograffeg Allweddol | 69 - 83 |
| Yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a Chynlluniau Lles Lleol | 84 |
| Dadansoddiad o'r Bylchau | 85 - 91 |
| Crynodeb o Anghenion Nas Diwallwyd | 92 - 93 |
| Rhwystrau i Ddarpariaeth Gofal Plant | 94 - 99 |
| Datblygu a Hyfforddi'r Gweithlu | 100 - 104 |
| Cynllun Gweithredu'r ADGP | 105 - 111 |


DRAFFT

## 1 Cyflwyniad, Cyd-destun a Chefndir

Mae Adran 22 o Ddeddf Gofal Plant 2006 yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, gweithwyr proffesiynol a darparwyr (yn y sectorau statudol, cymunedol a phreifat): i sicrhau gofal plant digonol, hygyrch ac o safon uchel i blant 0-14 oed yn eu hardal leol, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol ar gyfer rhieni sy'n gweithio, rhieni/gofalwyr sy'n astudio ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth.

Yn ogystal, mae rheoliadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru o dan adran 26 o'r Ddeddf, yn gofyn i awdurdodau lleol ymgymryd ag Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant (ADGP) ar gyfer eu hardal. Mae'r rheoliadau hyn yn pennu'r broses a'r cylch cynllunio, y gofynion o ran ymgynghori a chyhoeddi, gan gynnwys manylion y wybodaeth y mae'n rhaid ei chipio mewn asesiad cylchol (o 2017 ymlaen, bob pum mlynedd).

Yn unol â hynny, mae gan Gyngor Sir Ynys Môn ddyletswydd statudol i weithio gyda darparwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant o fewn ei sectorau preifat, gwirfoddol, annibynnol a'r sector a gynhelir i greu gofal plant hygyrch, cynaliadwy, fforddiadwy, o ansawdd uchel, i ddiwallu anghenion pob rhiant a gofalwr. Bydd y Cyngor Sir yn cymharu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant hwn yn 2022, o'r galw ymhlith rieni am ofal plant, gyda gwybodaeth am argaeledd lleoedd gofal plant o'r fath (sef y cyflenwad). Felly, mae'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant (ADGP) hwn yn 2022 yn dilyn ymlaen o'r asesiad blaenorol, sef Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017, y gellir gweld ei Gynllun Gweithredu yn: https://democracy.anglesey.gov.uk/documents/s11389/Binder1.pdf?LLL=0.

Mae Canllawiau ADGP Statudol 2016 yn amlinellu bod gofyn i Awdurdodau Lleol gwblhau a chyflwyno copi o dair dogfen i Lywodraeth Cymru ym Mehefin 2022, h.y.: dogfen Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant; ii. Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Gofal Plant, y mae'n *'rhaid i hyn roi manylion y camau gweithredu, y blaenoriaethau a'r cerrig milltir i gynnal y cryfderau a datrys y diffygion a nodwyd yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.';* a iii. (wedyn yn 2023) adroddiad cynnydd blynyddol sy'n nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn y camau gweithredu, y blaenoriaethau a'r cerrig milltir yn y Cynllun Gweithredu (2022), gan gynnwys unrhyw faterion pwysig neu newidiadau sydd wedi digwydd dros y flwyddyn honno, sydd wedi effeithio neu ddylanwadu ar y farchnad ofal plant mewn unrhyw fodd - er enghraifft, datblygiad tai newydd. Mae'r Canllawiau'n ymhelaethu: *'Yn benodol, bydd angen i Awdurdodau Lleol gydgysylltu â Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i sicrhau bod ganddynt ddarlun diweddar o'r galw am ofal plant a'r ddarpariaeth sydd ar gael'.*
Mae'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant hwn yn 2022 yn mynegi barn am ddigonolrwydd gan ddefnyddio data ar y galw am ofal plant (yn dilyn effeithiau gwaethaf pandemig 2020 COVID-19) a faint o ofal plant sydd ar gael ar yr ynys yng ngwanwyn 2022 (h.y. y cyflenwad o fathau o ofal plant ffurfiol).

DRAFFT

Hefyd, mae Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru yn 2016, i awdurdodau lleol, yn nodi'r modd y dylai'r Awdurdod Lleol (a'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae hwn) barhau i ystyried:

(a) anghenion gofal plant rhieni yn ei ardal
(b y ddarpariaeth gofal plant y mae'r elfen gofal plant o'r credyd treth gwaith neu gredyd cynhwysol yn daladwy ar ei chyfer
(c) y ddarpariaeth gofal plant yng nghyswllt cymorth cyflogwr neu ofal plant di-dreth
(d) y ddarpariaeth gofal plant sy'n addas ar gyfer plant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd
(e) y ddarpariaeth gofal plant sy'n defnyddio'r iaith Gymraeg
(f) y ddarpariaeth gofal plant sy'n eu galluogi i gael mynediad at y ddarpariaeth addysg gynnar cyfnod sylfaen y mae ganddynt hawl iddi, ynghyd ag
(g) y ddarpariaeth gofal plant sy'n eu galluogi i gael mynediad at y gofal plant am ddim y mae ganddynt hawl iddi.

Yn ychwanegol i Ganllawiau Statudol Llywodraeth Cymru, ym Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau atodol i awdurdodau lleol ar gyfer eu proses o ran Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant (ADGP) 2022. Roedd hyn yn cyfarwyddo, yn eu hasesiad llawn yn 2022, y byddai angen i awdurdodau lleol yng Nghymru adrodd ar sut mae COVID-19 wedi effeithio ar gyflenwi gofal plant, y galw am ofal plant a chynaliadwyedd darparwyr gofal plant sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â sut y byddant yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn.
Mae'r ddogfen atodol yn nodi hefyd: *"O ystyried amseriad yr Asesiad llawn yn 2022, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd rhieni o bosibl yn dal i fod yn ansicr ynghylch eu gofynion gofal plant yn y dyfodol. Efallai y bydd angen i awdurdodau lleol ddod i rai casgliadau ar sail tueddiadau yn y galw ac ar sail yr wybodaeth orau sydd ar gael iddynt ar y pryd. Mae gan awdurdodau lleol y cyfle i adolygu eu Cynllun Gweithredu bob blwyddyn fel rhan o'r adroddiad blynyddol ar gynnydd, a chydnabyddir efallai y bydd angen ailymweld â rhai o'r amcanion a nodir yng Nghynllun Gweithredu 2022 yng ngoleuni rhagor o wybodaeth a datblygiadau mewn cysylltiad â'r feirws".*

Yn bwysig iawn, darparodd yr ADGP hwn gyfle i bennu'r graddau yr oedd COVID-19 yn wir yn ffactor (ar lefel leol) ym mhob un o 11 ward Ynys Môn - gan gynnwys o safbwynt llai o alw am fusnesau gofal plant ffurfiol. Cwestiwn allweddol i bob awdurdod lleol yng Nghymru fu: *Os yw'r newid hwn yn arferion rhieni am barhau, a fydd marchnad blynyddoedd cynnar a gofal plant Ynys Môn yn gallu addasu i'r newid hwn o ran galw, a pharhau i fod yn gynaliadwy?*

DRAFFT

Yn y bôn, bu'r ADGP hwn yn 2022 yn gyfle ar gyfer:

- Pennu'r graddau y mae pandemig COVID-19 yn wir wedi effeithio: (a) y *cyflenwad* o ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant (o safbwynt ardaloedd lleol penodol); (b) y galw am ofal plant ar safleoedd (ac felly); (c) cynaliadwyedd darparwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n bodoli eisoes
- Canfod barnau rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid lleol am ddarpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant, yn enwedig o ran y galw yn y dyfodol (o'u safbwynt hwy) ynghyd ag angen/anghenion penodol. Mae'r uchelgais hwn yn ymgorffori: (a) ardal gyfan Ynys Môn, gan ystyried tueddiadau (lleol) o ran y galw am ddarpariaeth a'r cyflenwad sydd ar gael; ynghyd â (b) chanfod bylchau penodol o ran grwpiau/teuluoedd a chanddynt amgylchiadau penodol, i sicrhau bod darpariaeth ddigonol o ofal plant - i bob teulu - ledled ardal yr awdurdod lleol
- Canfod y galw am ddarpariaeth yn y dyfodol, a'r cyflenwad sydd ar gael, o ran rhaglen Dechrau'n Deg Ynys Môn - ac felly **llywio trefniadau perthnasol at y dyfodol o ran comisiynu gofal plant**
- Helpu i sicrhau bod teuluoedd lleol yn gallu cael mynediad i ofal plant yn yr ardal leol sy'n diwallu eu hanghenion, ac yn eu galluogi i wneud dewisiadau go iawn o ran gwaith a'u **cyflogadwyedd**
- O ran y galw am ofal plant o safbwynt rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, canfod *faint sydd ei angen, o ba fath, ar ba adegau, ac ym mha ardaloedd ym Môn,* ynghyd â phennu unrhyw ofynion penodol eraill sydd gan y rhieni hynny, gan gynnwys mynediad i'r tri math o leoedd addysg blynyddoedd cynnar a ariennir
- Darparu arweiniad pellach i Gyngor Sir Ynys Môn fod yn *rhagweithiol* ac yn *arloesol* o ran archwilio a diogelu cyllid i gefnogi mentrau lleol a chenedlaethol, ac o ran sicrhau yr anogir teuluoedd i hawlio'r cymorth ariannol sydd ar gael
- Nodi cynllun gweithredu a rhoi hwnnw ar waith i gryfhau, gwella a chynyddu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg
- Canfod y graddau y mae nanis a darparwyr gofal plant amgen yn y cartref yn cael eu cyflogi o fewn yr ardal leol

Mae Cynllun Gweithredu'r ADGP (gweler tudalen 105) yn ymgorffori cydnabyddiaeth hanfodol y bydd:

- **Gwaith partneriaeth parhaus rhwng partneriaid a rhanddeiliaid lleol perthnasol yn parhau i fod yn ffordd ymlaen sy'n galluogi diwallu anghenion gofal plant ar yr ynys**
- **Efallai y bydd COVID-19 yn parhau i effeithio'r sector gofal plant a blynyddoedd cynnar lleol, yn enwedig o safbwynt cynaliadwyedd**
- **Bydd mynediad parhaus i gyllid grant yn dal i fod yn ffactor o fewn yr uchelgais i gynnal darparwyr gofal plant sy'n bodoli eisoes**

DRAFFT

Mae'r Cynllun Gweithredu hefyd yn cydnabod bod darpariaeth ar gyfer plant dwyflwydd oed yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ei datblygu yn dilyn adduned Llywodraeth Cymru yn Nhachwedd 2021 i gynnig gofal plant am ddim i bob plentyn dwyflwydd oed, ynghyd â chynlluniau i hybu gofal plant cyfrwng Cymraeg[1]. Ar hyn o bryd, dim ond plant dwyflwydd oed yng Nghymru, â'r rheiny o gefndiroedd difreintiedig, sy'n gallu hawlio 12.5 awr yr wythnos o ofal plant am ddim o dan raglen Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru a Plaid Cymru wedi cyhoeddi cynllun i ehangu ei gynnig o 'ofal plant am ddim' i bob plentyn dwyflwydd oed. Caiff y cynllun i ddarparu gofal plant a ariennir ei gyflwyno'n raddol o fis Medi 2022.

Yn olaf, ac fel cyd-destun hanfodol, yn Ionawr 2022, cyhoeddodd Senedd Cymru yr adroddiad: *Gwarchod y dyfodol: Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio*[2]. Argymhellion allweddol o'r adroddiad hwn oedd:

- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi ei chynllun i gynnig gofal cofleidiol i bawb, gan gynnwys clybiau ar ôl ysgol a all gynnig cyfleoedd i bawb sydd am fanteisio arnynt
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r meini prawf cymhwysedd yn y Cynnig Gofal Plant i'w gwneud yn haws i rieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol, megis gwaith ansicr, gwaith shifftiau neu waith ar gontractau dim oriau, i gael mynediad at ddarpariaeth
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y mae'n bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r cymorth gofal plant sydd ar gael i rieni newydd. Gallai dulliau posibl gynnwys: ysgrifennu at rieni newydd neu hybu'r cymorth sydd ar gael pan fydd rhieni'n cofrestru genedigaeth eu plentyn; a darparu gwybodaeth i rieni mewn digon o amser cyn diwedd absenoldeb mamolaeth i'w helpu i wneud penderfyniadau doeth ynghylch gofal plant
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi cynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â'r bwlch gofal plant rhwng diwedd absenoldeb mamolaeth a chymhwystra ar gyfer y Cynnig Gofal Plant. Dylai hyn gynnwys amserlenni enghreifftiol, a gwerthusiad o'r ffactorau ariannol ac ymarferol y byddai angen eu hystyried wrth fynd i'r afael â'r bwlch hwn
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi cynlluniau i sicrhau mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg ar safleoedd ysgolion, o ystyried bod y dilyniant o ofal plant cyfrwng Cymraeg i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn uwch pan fydd hyn yn digwydd
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu adnoddau mewn ieithoedd cymunedol heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn ychwanegol atynt

DRAFT



[1] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-11/cooperation-agreement-2021.pdf - page 5.
[2] https://business.senedd.wales/documents/s122062/Report.pdf

- Er mwyn mynd i'r afael â *phryderon cyffredin* ynghylch diffyg amrywiaeth ethnig yn y sector, bod Llywodraeth Cymru yn nodi ei chynlluniau ar gyfer ei huned gwahaniaethau ar sail hil i gronni sylfaen dystiolaeth ynghylch lefel y gynrychiolaeth o leiafrifoedd ethnig yn y gweithlu gofal plant
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi cynllun sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr gofal plant ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth, fel yr hyn y mae CWLWM yn ei ddatblygu, a sicrhau y daw'n rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn y sector
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi cynllun i ddatblygu a chryfhau'r ddarpariaeth gofal plant i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys cynyddu faint o arian sydd ar gael drwy Grant Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant Cymru i wella'r ddarpariaeth i blant ag anableddau a/neu anghenion ychwanegol neu gymhleth
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd yn sicrhau bod cyllid digonol ar gael i ehangu'r cynnig gofal plant dan y Cytundeb Cydweithio i alluogi plant dwyflwydd oed ag anghenion ychwanegol neu gymhleth i gael mynediad llawn at ddarpariaeth.
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynllun i sicrhau cynnydd digonol yn y tâl fesul awr i ddarparwyr dan y Cynnig Gofal Plant i alluogi cynnydd yng nghyflogau'r staff, ac amserlen ar gyfer talu'r cyflog byw gwirioneddol i bob gweithiwr gofal plant, gan ddysgu o'r ffordd yr ymgorfforodd Llywodraeth yr Alban hyn yn ei chynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth gofal plant.
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi cynllun i sicrhau bod ymgyrch recriwtio gofal plant arfaethedig Gofal Cymdeithasol Cymru yn cyrraedd ac yn denu grwpiau megis lleiafrifoedd ethnig a siaradwyr Cymraeg sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gweithlu gofal plant.

DRAFFT

## 2 Gweithio Mewn Partneriaeth ac Ymgynghori

Fel rhan o gynhyrchu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Ynys Môn 2022, ymgymerwyd â gwaith ymgynghori ansoddol a meintiol strwythuredig gyda sbectrwm eang o bartneriaid, rhanddeiliaid, gweithwyr proffesiynol ac addysgwyr. Ymgynghorwyd hefyd â phlant a phobl ifanc[3], rhieni/gofalwyr, darparwyr gofal plant, unigolion â diddordeb mewn gofal plant, ynghyd â'u cynrychiolwyr, cyflogwyr lleol, ac unigolion sy'n eu cynrychioli, a sefydliadau cyflogwyr, awdurdodau lleol a sefydliadau addysgol cyfagos, gan gynnwys yr ysgolion a leolir ar yr ynys.

Yn Adran A o'r ddogfen ADGP hon, gellir darllen rhagor o fanylion am bartneriaid penodol yr ymgynghorwyd â hwy er mwyn llunio ADGP cadarn a chynhwysfawr, a oedd yn dwyn ynghyd sbectrwm eang o adborth a safbwyntiau. Yn nhermau adborth gan yr awdurdod lleol a'i swyddogion a'i weithwyr proffesiynol perthnasol, ymgynghorwyd â'r:

- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd: Teulu Môn
- Partneriaid yr Awdurdod Lleol
- Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru
- Cynrychiolwyr y Gwasanaethau Ieuenctid
- Partneriaid CWLWM sy'n cynnwys Clybiau Plant Cymru Kids Club's, Blynyddoedd Cynnar Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, PACEY Cymru a'r Mudiad Meithrin
- Cynrychiolwyr Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg (WESP)
- Y rheiny sy'n gweithio ag oedolion ar thema cyflogadwyedd a hyfforddiant
- Ysgolion
- Y rheiny sy'n gweithio gyda theuluoedd difreintiedig, yn enwedig yn ardaloedd Caergybi, a gan gynnwys ar themâu fel rhaglen Dechrau'n Deg, rhianta a'r gwasanaethau cymdeithasol

Yn ei hanfod, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn hyderus ei fod wedi ymgynghori i raddau sy'n sicrhau bod Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2022 yn gadarn - a fydd yn helpu i lywio'r gwaith parhaus i adfer presenoldeb a safle'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant ar ôl yr heriau a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19 2020-2022.

DRAFFT

---

[3] Yn 2022, roedd Cyngor Sir Ynys Môn hefyd yn ymgymryd ag Asesiad Digonolrwydd Chwarae ac roedd y prosiect hwn wedi cyd-gynhyrchu'r rhan fwyaf o'r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys ar thema gofal plant a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol.

## 3 Cynlluniau Strategol Cymraeg Mewn Addysg

Cyflwynodd Deddf Gofal Plant 2006 ddyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau digon o ofal plant yn eu hardal i alluogi rhieni i fanteisio ar gyfleoedd i weithio, neu i barhau i weithio neu i ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant er mwyn cael gwaith. Wrth benderfynu a yw'r ddarpariaeth o ofal plant yn ddigonol i gyflawni'r gofynion hyn, rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru ystyried: y ddarpariaeth o ofal plant sy'n cynnwys defnydd o'r Gymraeg.
Roedd hyn yn naturiol yn gofyn i awdurdodau lleol gyflawni rôl ganolog yn natblygiad darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn eu hardaloedd, mewn partneriaeth â sefydliadau perthnasol.

Felly mae'r asesiad hwn yn ystyriol o'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar Gynlluniau Strategol Cymraeg Mewn Addysg (WESPs) ar 27 Ionawr 2021[4]. Mae'r canllawiau hynny'n nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru yn nhermau sut y bydd awdurdodau lleol, gan weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, yn cynllunio ar gyfer dilyniant addysg cyfrwng Cymraeg i gefnogi gwireddu'r weledigaeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Disgwylir i awdurdodau lleol osod targed deng mlynedd trosfwaol a fydd yn amlinellu'r cynnydd disgwyliedig yn y plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol.

Wrth wneud hynny, dylai awdurdodau lleol nodi a chynllunio camau i gryfhau ac ehangu'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg sydd yn yr ardal er mwyn sicrhau llwybr di-dor at addysg cyfrwng Cymraeg, ynghyd â sicrhau bod Gwasanaeth Teulu Môn (ymhlith fforymau a sefydliadau eraill) yn darparu gwybodaeth am fanteision magu plant yn ddwyieithog a defnyddio'r Gymraeg yng nghartref y teulu. I gefnogi'r broses gynllunio, mae Llywodraeth Cymru'n darparu data perthnasol i awdurdodau lleol.

Roedd ffigurau a gyhoeddwyd gan StatsCymru ym Medi 2021 yn dangos bod gan ardal Ynys Môn un o'r canrannau uchaf o ran ei phoblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg (63.3%). Hyd yn oed o ystyried maint cymharol y ganran honno, mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i sicrhau bod y defnydd o'r Gymraeg yn uchelgais ag iddi broffil uchel ar gyfer ei hardal leol.

---

[4] Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 (O.S. 2020/1194 (Cy. 271)) ("Rheoliadau 2020") a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2020 yn gwneud newidiadau i ddyddiad dechrau'r cylch CSCA nesaf. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi a chyflwyno'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg deng mlynedd cyntaf i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo erbyn 31 Ionawr 2022 fan bellaf a bydd y Cynllun deng mlynedd cyntaf yn dechrau ar 1 Medi 2022 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2032. Bydd arweinwyr Gofal Plant a Chwarae o fewn awdurdodau lleol am gymryd sylw o'r newidiadau hyn; sicrhau bod ymgysylltu ag arweinwyr CSCA awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol yn digwydd ar adeg amserol yn y cylch cynllunio ac yn cynnwys amcanion yn eu ADGP 2022 sydd wedi'u cysylltu'n glir â chynlluniau'r awdurdod lleol ar gyfer twf a pharhad mewn addysg Gymraeg a'r targed 10 mlynedd o ran plant Blwyddyn 1. Mae hefyd yn ofynnol i'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ystyried ADGP yr awdurdod lleol. Bydd cyfleoedd i awdurdodau lleol ddiweddaru ac ailgyflwyno eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg i Lywodraeth Cymru pe bai unrhyw faterion neu gyfleoedd yn cael eu nodi fel rhan o'u hadolygiadau blynyddol a gellir nodi newidiadau cysylltiedig yn y diweddariadau ADGP blynyddol.

DRAFFT

Ceir cyfeiriad at y bwriad hwn yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol (WESP) – sydd i'w weld yn:
https://www.anglesey.gov.wales/en/Residents/Schools-and-learning/Strategic-Plan-for-Welsh-in-Anglesey-Education-2017-2020.aspx

Mae WESP Cyngor Sir Ynys Môn yn amlinellu gweledigaeth: bod holl blant a phobl ifanc Môn yn hyfedr ddwyieithog ac yn meddu ar y gallu i ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfartal ar ddiwedd eu gyrfa addysgol gan sicrhau nad oes yr un disgybl yn cael ei amddifadu o'r gallu na'r haeddiant hwnnw.

Mae ganddo nod ychwanegol i sicrhau: bod pob disgybl sy'n mynd drwy gyfundrefn addysg Ynys Môn yn gwbl ddwyieithog erbyn cyrraedd 16 oed, ac yn hyderus i gyfathrebu yn y ddwy iaith yn gyfartal yn y byd gwaith, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol. Ategir y nod hwn gan set o amcanion sy'n cydweddu â phob carfan, ac ar gyfer y blynyddoedd cynnar, mae hyn yn cynnwys uchelgais i sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin pwrpasol a phriodol (gan gynnwys dulliau trochi), y rhoddir i bob plentyn (beth bynnag yw ei gefndir ieithyddol) sylfaen gadarn yn y Gymraeg cyn gynted â phosibl.

Ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, mae'r WESP yn amlinellu amcan i *"adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin a derbyn drwy barhau i ddatblygu gafael pob disgybl ar y Gymraeg"* ac ar gyfer Cyfnod Allweddol 2: *"parhau i ddatblygu gafael y plant ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu hyder yn eu sgiliau ieithyddol".*

Mae'r WESP ar gyfer Ynys Môn hefyd yn ymgorffori ac yn cydymffurfio â pholisïau a strategaethau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- Strategaeth Iaith Gymraeg 2016 – 2021 Cyngor Sir Ynys Môn
- Polisi Iaith Adran Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn
- Strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru 'Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050'

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn ddyhead y dylai bob disgybl fod yn hyfedr ddwyieithog i allu cyfathrebu, gweithio a chwarae rhan lawn yn niwylliant yr ynys. Yn ei hanfod, mae pob un o ganlyniadau WESP yr ynys yn cyfrannu at y nod o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.
Maent yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, cynyddu nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, sicrhau bod mwy o blant yn defnyddio'r iaith wrth symud o'r cyfnod meithrin i'r ysgol gynradd, bod mwy o ddisgyblion yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg, ynghyd â chreu rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau.

DRAFFT

Y ogystal, mae Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026[5] Cyngor Sir Ynys Môn yn nodi, o ran plant a phobl ifanc, y dylid datblygu hyfedredd yn y Gymraeg yn gynnar trwy:

- Drosglwyddo'r iaith o fewn y teulu
- Y blynyddoedd cynnar hyd at bum mlwydd oed
- Addysg orfodol
- Addysg ôl-orfodol a pharatoi ar gyfer y byd gwaith

Mae'r Strategaeth yn nodi *"rhaid i ni sianelu ein hymdrechion at feithrin patrymau iaith cadarnhaol yn gynnar ym mywyd plant. Mae angen i ni estyn allan i ddarpar rieni yn ystod cyfnodau beichiogrwydd, mamolaeth a thadolaeth er mwyn rhannu negeseuon cadarnhaol am fanteision cyflwyno a throsglwyddo'r Gymraeg i'w babanod".*



Mae'n egluro ymhellach bod gan ymarferwyr blynyddoedd cynnar rôl ddylanwadol ym mywydau llawer o rieni newydd, ac y bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda Menter Iaith Môn fel rhan o Bartneriaeth Cymraeg i Deuluoedd Môn i'w harfogi gyda gwybodaeth ac adnoddau priodol. Hefyd, mae ein swyddogion Dechrau'n Deg yn cynnig cymorth wedi'i dargedu ar gyfer plant o dan dair oed a'u teuluoedd, fel rhan o raglen blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru. Prif ganolbwynt y rhaglen honno yw hyrwyddo sgiliau cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol ac iaith, datblygiad corfforol ac adnabod anghenion ychwanegol yn gynnar - ac mae'n anelu at sicrhau bod negeseuon cadarnhaol am fanteision defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant yn cael eu rhannu â rhieni sy'n dod i gysylltiad â'r gwasanaeth.

Yn ogystal â Dechrau'n Deg, mae'r Fenter Iaith, Mudiad Meithrin ac ysgolion yn gweithio i sicrhau bod darparwyr blynyddoedd cynnar yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i ddylanwadu'n gadarnhaol ar batrymau iaith y plant ifanc yn eu gofal. Caiff yr uchelgais hon ei hybu gan y ffaith bod gan Mudiad Meithrin (sef prif ddarparwr cyfleoedd trochi iaith) bresenoldeb cryf ar yr ynys. Er enghraifft, yn ogystal â'r nifer o Gylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi sy'n gweithredu ar yr ynys, mae un o feithrinfeydd dydd y mudiad wedi ei lleoli yn Llangefni.

Gellir nodi hefyd bod pob un o ysgolion cynradd Ynys Môn, ac eithrio dwy, yn ysgolion cymunedol dan awdurdodaeth y Cyngor. Mae hyn yn golygu mai'r Gymraeg yw'r prif gyfrwng addysgu ar gyfer 87% o ddisgyblion cynradd.

DRAFFT

[5] https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Council/Democracy/Welsh-Standards/Welsh-Language-Promotion-Strategy-2021-2026.pdf

Yn olaf, gellir nodi y bydd polisi iaith dwyieithog holl ysgolion a lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar Ynys Môn yn cael ei hatgyfnerthu gyda chyflwyniad Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg newydd yn 2022, sydd wedi'i ddiweddaru.

Fel rhan o'r ymchwil a wnaed er mwyn llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae hwn, yn hydref 2021, estynnwyd gwahoddiad gan Gyngor Sir Ynys Môn i gynrychiolwyr darparwyr sy'n darparu trwy *leoliadau* gofal plant blynyddoedd cynnar i ddatgan p'un a oedd ganddynt unrhyw gynlluniau i ehangu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg a gynigiwyd ganddynt. Roedd yn galonogol gweld bod 41% yn datgan bod ganddynt naill ai gynlluniau pendant ar waith i wneud hyn, neu ei fod yn rhywbeth y byddent efallai'n ei ystyried.
Dywedodd 100% o'r holl leoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar (h.y. darparwyr gofal dydd llawn, ynghyd â darparwyr gofal sesiynol) eu bod yn hapus bod ganddynt ddigon o staff ar y pryd a oedd yn hyfedr yn y Gymraeg.

Roedd arolwg rhieni Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymatebion ar thema gofal plant cyfrwng Cymraeg: roedd 63% (bron i ddwy ran o dair) o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd yn datgan eu bod ar y pryd yn defnyddio gofal plant sy'n darparu trwy gyfrwng y Gymraeg, a nododd 5%, yn ddelfrydol, y byddai hyn yn rhywbeth y byddent yn hoffi ei wneud – er enghraifft:

*"Pan fydda i'n gorffen absenoldeb mamolaeth, dwi am ddefnyddio clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol cyfrwng Cymraeg".*

*"Pan fydd fy mab yn mynd i'r Cylch, bydd yn un cyfrwng Cymraeg wrth gwrs… bydd yn defnyddio 10 awr yno ac 20 awr mewn meithrinfa breifat".*

*"Rydw i am ddefnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg ar ôl i mi orffen absenoldeb mamolaeth" - ac yn yr un modd:*

*"Rydw i'n fwy na thebyg am ddefnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg ar ôl gorffen absenoldeb mamolaeth".*

DRAFFT

# 4 Trosolwg – Mathau o Ofal Plant, Gwasanaethau a Lleoedd

## 4.1 Y Cyflenwad Sylfaenol o Ofal Plant Cofrestredig ar Ynys Môn

Mae'r adran sy'n dilyn yn amlinellu metreg sylfaenol sy'n cyfateb i'r cyflenwad o ofal plant o fewn ardal leol Ynys Môn - gan gynnwys manylion sy'n canolbwyntio ar nifer y lleoedd sydd ar gael/fesul math a nifer y darparwyr gofal plant sydd ar gael ar draws yr ardal leol.

Tabl 1 – Yn haf 2022, roedd y nifer a ganlyn o ddarparwyr gofal plant a oedd **wedi cofrestru ag AGC** ar gael ar Ynys Môn.
Ffynhonnell: CSYM

| Math o ofal plant | Nifer y darparwyr gofal plant | Nifer o leoedd gofal plant cofrestredig |
|---|---|---|
| Gofal dydd llawn/Meithrinfa Ddydd Breifat | 35 | 1,115 |
| Gofal sesiynol | 20 | 417 |
| Gwarchodwyr plant | 40 | 352 |
| Gofal y tu allan i'r ysgol | 15 | 386 |
| Crèche | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 110 | 2,270 |

Gellir nodi ei bod yn hysbys bod 0 nanis ac *au-pairs* yn weithredol ar Ynys Môn.
Mae 0 o crèches cofrestredig yn gweithredu ar yr ynys. Yn olaf, lleolir 0 o gynlluniau chwarae mynediad agored ar yr ynys.

4.2 Wedyn mae Tabl 2 isod yn dangos nifer y lleoedd hygyrch ym mhob un o'r 11 ward yn yr ardal leol - yn ôl y pedwar prif fath o ofal plant cofrestredig, h.y.: 1. gofal dydd llawn/meithrinfa ddydd breifat; 2. gofal sesiynol, e.e. grwpiau chwarae a Chylch[oedd] Meithrin; 3. gwarchodwyr plant cofrestredig; a 4. darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol.

DRAFT

Tabl 2 - Y cyflenwad sylfaenol o leoedd gofal plant cofrestredig (ag AGC) ar draws ardal leol Ynys Môn yn haf 2021
Ffynhonnell: CSYM SASS

| Enw'r ward | Nifer y darparwyr gofal dydd llawn/ meithrinfeydd dydd preifat | Nifer y lleoedd gofal dydd llawn/ meithrinfeydd dydd preifat yn y ward | Nifer y darparwyr gofal sesiynol | Nifer y darparwyr gofal sesiynol a leolir yn y ward | Nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig a leolir yn y ward | Nifer y lleoedd gyda gwarchodwyr plant cofrestredig yn y ward | Nifer o darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol a leolir yn y ward | Nifer y lleoedd gofal plant y tu allan i'r ysgol yn y ward | Cyfanswm y Lleoedd Gofal Plant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aethwy | 3 | 137 | 0 | 0 | 4 | 35 | 2 | 70 | 242 |
| Bro Aberffraw | 0 | 0 | 1 | 16 | 2 | 14 | 0 | 0 | 30 |
| Bro Rhosyr | 3 | 109 | 5 | 106 | 1 | 10 | 2 | 43 | 268 |
| Caergybi | 2 | 56 | 1 | 26 | 2 | 18 | 1 | 30 | 130 |
| Canolbarth Môn | 5 | 216 | 4 | 86 | 5 | 41 | 4 | 107 | 450 |
| Llifon | 6 | 201 | 1 | 20 | 3 | 24 | 3 | 76 | 321 |
| Lligwy | 1 | 17 | 1 | 16 | 5 | 45 | 0 | 0 | 78 |
| Seiriol | 4 | 122 | 4 | 73 | 3 | 30 | 2 | 44 | 269 |
| Talybolion | 4 | 75 | 0 | 0 | 2 | 18 | 0 | 0 | 93 |
| Twrcelyn | 2 | 47 | 0 | 0 | 13 | 117 | 1 | 16 | 180 |
| Ynys Gybi | 5 | 135 | 3 | 74 | 0 | 0 | 0 | 0 | 209 |
| **Cyfanswm Ynys Môn** | **35** | **1,115** | **20** | **417** | **40** | **352** | **15** | **386** | **2,270** |

4.3 **Gofal Plant Anffurfiol**

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Ynys Môn - Teulu Môn - yn dal gwybodaeth am ddarparwyr gofal anffurfiol sy'n gweithredu ar yr ynys, yn enwedig grwpiau mam a'i phlentyn/grwpiau rhiant a phlentyn ar gyfer teuluoedd sydd â phlant 0-4 oed. Enghraifft yw grŵp rhiant a phlentyn Mini Rockers a leolir yng Nghaergybi, lle anogir plant i chwarae a chanu.

DRAFT

4.4 **Presenoldeb amcangyfrifedig yn hydref 2021**

Mae Tabl 3 isod yn dangos union nifer y plant a oedd yn cyrchu/mynychu lle gofal plant wedi hynny, o ran y math(au) o ofal plant yn ôl yr ymatebion a dderbyniwyd i SASS Gorffennaf 2021.

Tabl 3 - Nifer y plant a oedd yn mynychu darpariaeth(au) gofal plant ffurfiol ar draws Ynys Môn yn hydref 2021

Ffynhonnell: SASS Gorffennaf 2021

| Ardal | Nifer y plant sy'n amlwg yn mynychu gofal dydd llawn a gofal sesiynol | Nifer y plant sy'n mynychu lleoedd gyda Gwarchodwyr Plant[6] | Nifer y plant sy'n mynychu lleoedd Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol | Nifer y plant sy'n mynychu lleoedd mewn Crèche |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Ynys Môn | 1,462 | 336 | 380 | Amherthnasol |



4.5 Mae Teulu Môn (y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd) yn wasanaeth cynhwysol, rhad ac am ddim, i deuluoedd ym Môn. Dyma'r pwynt cyswllt cyntaf i'r holl blant, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol gael gwybodaeth, cyngor a chymorth mewn perthynas â phlant neu deuluoedd plant, 0-25 oed.

Mae'r GGiD yn helpu i ganfod gofal plant i rieni a gofalwyr, gan addasu eu chwiliad yn ôl eu hanghenion unigol.

Mae'r GGiD hefyd yn darparu gwybodaeth reolaidd i ddarparwyr gofal plant ynghylch hyfforddiant, grantiau, cynlluniau, yn ogystal ag unrhyw ganllawiau gan Lywodraeth Cymru.

[6] Ym Mehefin 2021, roedd gwarchodwyr yn gweithredu sydd bellach wedi dadgofrestru.

DRAFT

DRAFT

4.6 **Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Roedd data SASS Gorffennaf 2021 yn dangos, ar draws holl ddarparwyr gofal plant Ynys Môn **- a ymatebodd i'r arolwg -** bod cyfanswm o 120 o blant ag **anghenion dysgu ychwanegol** yn mynychu darpariaeth gofal plant.

- Dywedodd 44 o'r darparwyr (o'r 94 a ymatebodd) fod ganddynt o leiaf un plentyn yn mynychu eu lleoliad oedd ag anabledd gwybyddol a dysgu
- Dywedodd 48 o ddarparwyr fod ganddynt o leiaf un plentyn yn mynychu eu lleoliad oedd ag anhawster ymddygiad, emosiynol a datblygiad cymdeithasol
- Dywedodd 54 o ddarparwyr fod ganddynt o leiaf un plentyn yn mynychu eu lleoliad oed ag anhawster cyfathrebu a rhyngweithio
- Dywedodd 38 o ddarparwyr fod ganddynt o leiaf un plentyn yn mynychu eu lleoliad oedd ag anabledd synhwyraidd a/neu gorfforol.

4.7 **Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg**

Roedd Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth SASS Gorffennaf 2021 hefyd yn dangos bod 29 o ddarparwyr gofal plant (o'r 94 a ymatebodd) yn cyflwyno gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg, fel *prif* iaith.

Yr unig ddwy iaith amlwg yr oedd gofal plant yn cael ei ddarparu trwyddynt oedd Cymraeg a/neu Saesneg, gyda 41 o leoliadau/darparwyr yn amlinellu bod eu lleoliad yn darparu ar gyfer y ddwy iaith.

Fodd bynnag, o safbwynt y thema berthnasol a phwysig o ofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg, roedd yr arolwg yr ymgymerwyd ag ef â darparwyr gofal plant a leolir ym Môn yn hydref 2021 yn amlygu, dros y 18 mis nesaf (h.y. hyd at wanwyn 2023), roedd gan 24% o'r ymatebwyr o ddarpariaeth gofal plant mewn lleoliadau/grwpiau gynlluniau ar waith i ehangu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg a gynigiwyd ganddynt. Roedd canran is o warchodwyr plant cofrestredig, 15%, yn dweud bod ganddynt fwriad o'r fath.

4.8 Mae **rhaglen gofal plant Dechrau'n Deg** ar gyfer Ynys Môn yn darparu o fewn yr ardaloedd a restrir isod - sydd hefyd yn ymgorffori'r lleoedd 2.5 awr/12.5 awr yr wythnos a gomisiynir.

- Ardal leol Gwalchmai = 12 o leoedd a gomisiynir
- Ardal leol Niwbwrch = 24 o leoedd a gomisiynir

- Ardal Leol Llangefni = 48 o leoedd a gomisiynir
- Ardal Leol Caergybi = 100 o leoedd a gomisiynir, a ddarperir gan 3 lleoliad ar draws y dref honno

## 4.9 Gofal Plant Di-dreth

O safbwynt ffynhonnell cymorth dybiedig arall tuag at gael mynediad i ofal plant o ansawdd dda, mewn ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd â darparwyr gofal plant yn hydref 2021, dywedodd 58% o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar, h.y. darparwyr gofal dydd llawn a darparwyr sesiynol, eu bod wedi cofrestru i roi cymorth i rieni/gofalwyr gael mynediad i Ofal Plant Di-dreth. O ran y rheiny nad oeddynt wedi cofrestru, nodwyd dro ar ôl tro bod y rhesymau am hynny yn cynnwys:

… ran amlaf: *"Dydw i ddim ond yn cynnig lleoedd a ariennir gan Dechrau'n Deg".*

*"Dydw i ddim yn gwybod beth ydi o"* (fel y nodwyd gan gynrychiolydd o ddau leoliad).
Hefyd, yn hydref 2021, nododd 81% o warchodwyr plant cofrestredig eu bod wedi cofrestru ar gyfer rhoi cymorth i rieni/gofalwyr gael mynediad i Ofal Plant Di-dreth. O ran y rheiny nad oeddynt wedi cofrestru, roedd y rhesymau am hynny, a nodwyd dro ar ôl tro, *yn cynnwys*:

*"Rydw i yn y broses o gofrestru"*

*"Dydw i ddim yn gwybod beth ydi o".*

Yn nhermau *hyrwyddo* Gofal Plant Di-dreth, dywedodd 78% o warchodwyr plant cofrestredig (hefyd) eu bod yn mynd ati i wneud hynny.

Yn olaf, yn hydref 2021, roedd 92% o ddarparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol yn dweud eu bod wedi'u cofrestru i roi cymorth i rieni/gofalwyr gael mynediad i Ofal Plant Di-dreth. Roedd un cynrychiolydd a ran darparwr nad oedd wedi cofrestru yn dweud *"dydan ni ddim wedi cofrestru oherwydd dydan ni ddim yn cynnig digon o oriau".*

Yn nhermau *hyrwyddo* Gofal Plant Di-dreth, yr oedd pob un ond un o'r darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol yn dweud (hefyd) eu bod yn mynd ati i wneud hynny.

DRAFFT

Gan fynd i'r adborth o ymatebion SASS Gorffennaf 2021, dywedodd 59% (iach) o'r darparwyr gofal dydd llawn a'r darparwyr sesiynol a ymatebodd (hyd y gwyddent) bod rhieni'r plant yr oeddynt yn gofalu amdanynt (yng Ngorffennaf 2021) yn derbyn gofal plant di-dreth neu'n defnyddio talebau gofal plant.

4.10 **Addysg Blynyddoedd Cynnar Rhan Amser**

Fel rhan o'r ymateb i broses SASS Gorffennaf 2021 SASS, roedd 58% o ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar (h.y. darparwyr gofal dydd llawn a darparwyr gofal sesiynol) yn nodi eu bod yn derbyn cyllid i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar rhan amser.

4.11 Mae Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru 2016 yn rhoi cyfarwyddyd y dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant grynhoi ystod oed y plant sy'n gallu mynychu'r ystod o fathau o ofal plant – a chyflwynir y fetreg hon yn Nhabl 4 isod.

Tabl 4 - Nifer y darparwyr gofal plant **a ymatebodd** a leolir yn ardal leol Ynys Môn y mae grwpiau oed penodol o blant yn cael mynediad iddynt yng Ngorffennaf 2021

Ffynhonnell: SASS Gorffennaf 2021

| Y math o ddarparwr gofal plant a oedd ***wedi ymateb*** | Nifer y lleoliadau sy'n gallu darparu gofal plant ffurfiol i blant 0- 12 mis ac 1 oed | Nifer y lleoliadau sy'n gallu darparu gofal plant ffurfiol i blant 2 oed | Nifer y lleoliadau sy'n gallu darparu gofal plant ffurfiol i blant 3-4 oed | Nifer y lleoliadau sy'n gallu darparu gofal plant ffurfiol i blant 5-11 oed | Nifer y lleoliadau sy'n gallu darparu gofal plant ffurfiol i blant 12-14 oed |
|---|---|---|---|---|---|
| Darparwyr Gofal Dydd Llawn (32 o ymatebwyr) | 12 | 31 | 32 | 0 | 0 |
| Gofal Sesiynol (20 o ymatebwyr) | 0 | 16 | 17 | 0 | 0 |
| Gwarchodwyr Plant (37 o ymatebwyr) | 22 | 25 | 31 | 24 | 1 |
| Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol (4 o ymatebwyr) | 0 | 0 | 4 | 4 | 4 |

DRAFT

Tudalen 140

4.12 **Defnydd o Ofal Plant**

O ran yr arolwg a gynhaliwyd yn hydref 2021, gwahoddodd Cyngor Sir Ynys Môn ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar i nodi a oedd ganddynt restr aros. (O safbwynt y galw am leoedd yn unig) dywedodd 10% o ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar, h.y. darparwyr gofal dydd llawn a darparwyr sesiynol, bod ganddynt restr aros (yr ardal y lleolir darparwr perthnasol ynddi amlaf oedd Caergybi), a dywedodd 33% o warchodwyr plant cofrestredig bod ganddynt restr aros (yr ardal y lleolir darparwr perthnasol ynddi amlaf oedd Canolbarth Môn).

Mae Tabl 5 yn dangos y graddau yr oedd y ddau fath o ddarparwr gofal plant *perthnasol* yn dweud bod eu rhestr aros wedi newid yn ystod y cyfnod rhwng Mawrth 2021 – Hydref 2021.

Tabl 5 – Y graddau yr oedd rhestrau aros wedi newid yn ystod y cyfnod rhwng Mawrth 2021 – Hydref 2021

Ffynhonnell: ADGP Ynys Môn 2021-2022 – cyfweliadau strwythuredig gyda darparwyr gofal plant

| Dosbarthiad | Canran y darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar a nododd hyn | Canran y gwarchodwyr plant cofrestredig a nododd hyn |
|---|---|---|
| Ydy – mae wedi lleihau | 0 | 11% |
| Ydy – mae wedi cynyddu | 50% | 33% |
| Nac ydy – mae wedi aros fwy neu lai yr un maint | 50% | 56% |

DRAFT

4.13 Yn hydref 2021, gwahoddodd Cyngor Sir Ynys Môn bob darparwr gofal plant i nodi a oedd ganddynt leoedd gwag.

- Dywedodd 50% o ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar fod ganddynt leoedd gwag – ran amlaf yn ward Canolbarth Môn
- Dywedodd (canran gymharol is, sef) 33% o warchodwyr plant cofrestredig fod ganddynt leoedd gwag – ran amlaf yn ward Twrcelyn
- Dywedodd 67% o glybiau ar ôl ysgol bod ganddynt leoedd gwag (na chafodd eu nifer eu pennu yn ôl metreg) – ran amlaf yn ward Llifon
- Dywedodd 60% o glybiau brecwast nad ydynt wedi'u lleoli mewn ysgol, bod ganddynt leoedd gwag

O ran y darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar a chanddynt leoedd gwag, y nifer gyfartalog oedd 4.2 o leoedd. O ran y gwarchodwyr plant cofrestredig hynny a chanddynt leoedd gwag, y nifer gyfartalog oedd 1 lle.[7]

Yn y bôn, mae Tabl 6 yn dangos yr adborth y darparodd y tri math o ddarparwyr gofal plant yn unol â lefelau defnydd:

| Math y darparwr gofal plant | Nodwyd: Mae ein lefelau defnydd wedi cynyddu yn nhymor yr hydref 2021 | Nodwyd: Mae ein lefelau defnydd wedi lleihau yn nhymor yr hydref 2021 | Nodwyd: Mae ein lefelau defnydd wedi dychwelyd i lefelau arferol cyn COVID-19 | Nodwyd: Mae'n anodd dosbarthu ein sefyllfa o ran ein lefelau defnydd | Heb ddweud |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar | 15% | 48% | 30% | 7% | 0 |
| Gwarchodwr Plant | 22% | 48% | 30% | 0 | 0 |
| Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol | 31% | 23% | 46% | 0 | 0 |

Tudalen 141

[7] Nid oedd Darparwyr Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol yn dueddol o roi adborth am eu metreg o ran lleoedd gwag.

DRAFT

4.14 **Ffioedd o ran gofal plant am dâl**

Cafwyd darlun cliriach o gyfraddau safonol fesul diwrnod o ganlyniad i arolwg hydref 2021 Cyngor Sir Ynys Môn o ddarparwyr gofal plant.

Ar gyfer y darparwyr/lleoliadau darparwyr gofal plant a ymatebodd – o ran lleoedd *y telir ffi* ar eu cyfer:

- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 0-12 mis ac 1 oed oedd £48.00 a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin oedd £48.00 hefyd
- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 2 oed oedd £17.40 (oherwydd y 'ffactor' gofal sesiynol) a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin oedd (ffi sesiynol o) £8.00
- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 3 a 4 oed oedd £17.40 (oherwydd y 'ffactor' gofal sesiynol) a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin oedd, unwaith eto, (ffi sesiynol o) £8.00

Ar gyfer y gwarchodwyr plant cofrestredig a ymatebodd – am leoedd y telir ffi ar eu cyfer:

- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 0-12 mis oedd £32.30 a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin oedd £35.00
- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 1 oed oedd £30.70 a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin oedd, unwaith eto, £30.00
- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 2 oed oedd £30.40 a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin oedd £35.00
- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 3 a 4 oed oedd £35.00 a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin oedd £35.00
- o ran y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 5-8 oed, y *ffi sesiynol* mwyaf cyffredin oedd £12.00

Ar gyfer darparwyr/lleoliadau gofal plant y tu allan i'r ysgol a ymatebodd – am leoedd y telir ffi ar eu cyfer:

- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer clwb ar ôl ysgol oedd £10.10
- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer clwb brecwast oedd £3.70
- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer cynllun chwarae yn ystod y gwyliau oedd £32.40

DRAFFT

4.15 **Amseroedd Agor a Hygyrchedd**

Trwy arolwg Cyngor Sir Ynys Môn o ddarparwyr gofal plant yn hydref 2021, cafwyd cadarnhad o amseroedd agor.
O ran y darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a ymatebodd, yr amser agor mwyaf cyffredin oedd 9.00yb, a'r amser agor cyfartalog oedd 8.48am.
Yr amser gorffen mwyaf cyffredin oedd 3:00yp, a'r amser gorffen cyfartalog oedd 14:48pm.

Ar gyfer y gwarchodwyr plant cofrestredig a ymatebodd, yr amser agor mwyaf cyffredin oedd 8.00yb, a'r amser agor cyfartalog oedd 7.22am.
Yr amser gorffen mwyaf cyffredin oedd 18:00yh, a'r amser gorffen cyfartalog oedd 17:36pm.

O ran nifer y clybiau ar ôl ysgol ar Ynys Môn, yr amser agor mwyaf cyffredin oedd 15:00yp. Yr amser gorffen mwyaf cyffredin oedd 18:00 pm.

4.16 Yn hydref 2021, gwahoddwyd pob darparwr gofal plant i nodi a oeddent wedi gweld neu brofi unrhyw dueddiadau nodedig (newydd) o ran y galw am: (a) y mathau o leoedd yr oeddent yn eu cynnig; neu'r (b) mathau o oriau yn eu lleoliad.

Dywedodd 45% o'r holl ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar eu bod wedi profi hynny, ac yn nhrefn amlder, y rhai a ailadroddwyd oedd:

- Rhieni yn gofyn am fwy o hyblygrwydd
- Cynnydd yn y galw am leoedd rhan amser i blant 2 oed
- Cynnydd yn y galw am ofal cofleidiol

Dywedodd 44% o'r holl warchodwyr plant cofrestredig eu bod wedi profi hynny, ac yn nhrefn amlder, y rhai a ailadroddwyd oedd:

- Llai o alw am leoedd amser llawn a…
- Cynnydd yn y galw am leoedd rhan amser
- Llai o alw am godi plant ar ôl ysgol

Dywedodd 46% o'r holl ddarparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol eu bod wedi profi hynny, ac yn nhrefn amlder, y rhai a ailadroddwyd oedd:

- Gostyngiad cyffredinol yn y galw am leoedd
- Rhieni'n gofyn am ehangu oriau agor ac amseroedd cau

DRAFFT

## 5 Anghenion Rhieni/Gofalwyr – y galw am ofal plant

Mae'r naratif isod yn amlinellu canlyniadau'r dadansoddiad o arolwg rhieni Llywodraeth Cymru a gafodd gyfnod ymateb o 5 wythnos ym mis Hydref 2021 a dechrau mis Tachwedd 2021. Cynlluniwyd yr arolwg hwn gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y gallu i sicrhau sylw i rai o'r ffactorau sy'n seiliedig ar alw y dylid mynd i'r afael â hwy yn ôl cyfarwyddyd Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru 2016 mewn unrhyw Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.

5.1 Cafwyd **286 o ymatebion** i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru, sy'n cyd-fynd â wardiau Ynys Môn fel a ganlyn.

Tabl 7 - Ardal breswyl rhieni/gofalwyr sy'n ymateb

| Enw'r ward | Nifer y rhieni/gofalwyr a ymatebodd | Canran o'r Cyfanswm |
|---|---|---|
| Aethwy [EH] | 15 | 5% |
| Bro Aberffraw | 14 | 5% |
| Bro Rhosyr | 22 | 7.5% |
| Caergybi | 20 | 7% |
| Canolbarth Môn | 41 | 14.5% |
| Llifon | 16 | 5.5% |
| Lligwy | 14 | 5% |
| Seiriol Talybolion | 16 | 5.5% |
| Twrcelyn | 13 | 4.5% |
| Ynys Gybi | 16 | 5.5% |
| Nid oedd y cod post wedi'i gynnwys[8] | 99 | 35% |

[8] Er y nodwyd gan yr ymatebwyr hyn eu bod yn byw ym Môn.



DRAFT

5.2 O ran y math o aelwyd(ydd), yr ymateb mwyaf cyffredin a roddwyd gan rieni/gofalwyr a ymatebodd oedd eu bod: yn rhannu'r cyfrifoldeb am fy mhlentyn/mhlant gyda rhywun yr wyf yn byw gydag ef (72% o ymatebwyr), yna fesul amlder gan riant/gofalwyr yn dweud mai fi oedd yn llwyr gyfrifol am fy mhlentyn/mhlant - roedd 21% mewn gwirionedd yn rhieni sengl.

5.3 Roedd yn amlwg mai 1.8 oedd nifer gyfartalog y plant a oedd yn cael eu magu gan yr holl ymatebwyr (0.1) *uwchlaw* cyfartaledd y Deyrnas Gyfunol sy'n 1.7).

5.4 Roedd yn amlwg mai'r garfan oedran a oedd yn cael ei magu fynychaf, o'r rhieni a ymatebodd, oedd 5-8 oed (dywedodd 38% o rieni eu bod yn magu plentyn o'r oedran hwn), ac yna plant 2 oed (28%).

5.5 Dywedodd 5.5% o'r gofalwyr a ymatebodd eu bod yn gofalu am/magu o leiaf un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu salwch hirdymor.



5.6 Dywedodd yr holl rieni/gofalwyr a ymatebodd i Lywodraeth Cymru beth oedd eu statws cyflogaeth ar hyn o bryd.

Tabl 8 – Statws cyflogaeth rhieni/gofalwyr a ymatebodd

| Statws | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd |
|---|---|
| Yn chwilio am swydd – ond ddim yn gweithio eto | 2.5% |
| Cyflogedig | 76% |
| Hunangyflogedig | 5% |
| Mewn addysg neu hyfforddiant | 4.5% |
| Ddim yn gweithio a ddim yn chwilio am swydd | 9.5% |
| Yn methu gweithio | 2.5% |

Noder: roedd y rhieni'n gallu darparu nifer o ymatebion.

Roedd yn amlwg bod gan 79% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd bartner, a disgrifiwyd eu statws cyflogaeth gan yr ymatebydd fel a ganlyn:

DRAFT

Tabl 9 – Statws cyflogaeth partneriaid

| Statws | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd |
|---|---|
| Yn chwilio am swydd – ond ddim yn gweithio eto | 0 |
| Cyflogedig | 67% |
| Hunangyflogedig | 8.5% |
| Mewn addysg neu hyfforddiant | 8.5% |
| Ddim yn gweithio a ddim yn chwilio am swydd | 1% |
| Yn methu gweithio | 0 |
| Ddim yn berthnasol (gan nad oes ganddynt bartner) | 15% |



5.7 Mae tabl 10 yn nodi nifer yr achosion o rieni/gofalwyr a ymatebodd yn nodi eu hincwm cartref gros yr wythnos (cyn didyniadau/treth).

Tabl 10 - Incwm gros aelwydydd yr wythnos (cyn didyniadau/treth)

| Incwm wythnosol aelwydydd | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd | Y math o ofal plant ffurfiol a nodir amlaf a ddefnyddir yn ystod y tymor |
|---|---|---|
| Hyd at £100 | 2% | Cylch Meithrin |
| £100 i £149 | 20% | Cylch Meithrin |
| £150 i £249 | 10% | Cylch Meithrin |
| £250 i £349 | 7% | Cylch Meithrin |
| £350 i £500 | 9% | Meithrinfa Ddydd Breifat |
| £500 i £580 | 9% | Meithrinfa Ddydd Breifat |
| £581 i £750 | 10% | Meithrinfa Ddydd Breifat |
| £750 i £999 | 10% | Meithrinfa Ddydd Breifat |
| Mwy na £1,000 | 15% | Cylch Meithrin |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | 8% | Meithrinfa Ddydd Breifat |

DRAFFT

5.8 <u>Mae Tabl 11 yn nodi nifer yr achosion o rieni/gofalwyr a ymatebodd yn nodi cefndiroedd ethnig penodol.</u>

| Ethnigrwydd Datganedig | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd |
|---|---|
| Gwyn | 98.5% |
| Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig | 1.5% |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig | 0 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 |
| Grŵp ethnig arall | 0 |
| Heb ddweud | 0 |

Roedd yn amlwg mai'r math mwyaf cyffredin o ymatebydd 'Cymysg' oedd: Cymysg Gwyn a Du Caribïaidd (tri rhiant/gofalwr a ymatebodd).



5.9 Dywedodd 73% o'r holl rieni/gofalwyr a ymatebodd (a chanddynt o leiaf un plentyn 3 a/neu 4 oed) eu bod yn defnyddio lle addysg gynnar wedi'i ariannu mewn ysgol neu feithrinfa neu mewn cylch chwarae sesiynol.

Dywedodd 21% o'r holl rieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn defnyddio lle o dan y Cynnig Gofal Plant, a dywedodd 4% o'r rhieni a ymatebodd eu bod yn bwriadu manteisio ar y Cynnig Gofal Plant yn y blynyddoedd i ddod.

5.10 Dywedodd 10% o'r rhieni a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn defnyddio lle gofal plant y rhaglen Dechrau'n Deg. Roedd rhieni a gofalwyr oedd â phlentyn 2 a/neu 3 oed, yr oedd y ddau'n gymwys – neu ddim yn gymwys – i ddefnyddio lle gofal plant Dechrau'n Deg, wedi darparu adborth, a oedd yn cynnwys (fesul amlder):

*"Oherwydd fy mod i'n defnyddio'r Cynnig Gofal Plant yn lle hynny".*

*"Mae'n amlwg nad ydi o ar gael yn y feithrinfa yr ydw i'n ei defnyddio".*

*"Dwi **ychydig** y tu allan i ardal 'gymwys'".*

DRAFT

5.11 Mae Tabl 12 isod yn dangos pa mor aml y dywedodd rhieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn defnyddio mathau penodol o ofal plant **yn ystod y tymor**.

Tabl 12 - Amlder y dywedodd rhieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn defnyddio mathau penodol o ofal plant yn ystod y tymor

| Math o ofal plant wedi'i gofrestru neu heb ei gofrestru | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd |
|---|---|
| Gwarchodwr Plant | 4.5% |
| Clwb Cyn Ysgol neu Glwb Brecwast | 20% |
| Clwb ar ôl Ysgol | 18% |
| Meithrinfa Ddydd Breifat | 34% |
| Meithrinfa Mewn Ysgol | 8.5% |
| Cylch Chwarae Sesiynol | 4% |
| Cylch Meithrin | 27% |
| Crèche â Gwasanaeth Gollwng | 3% |
| Nani | 0 |
| Au-pair | 0 |
| Teulu/Ffrindiau (â thâl) | 0 |
| Teulu/Ffrindiau (di-dâl) | 45% |
| Rhai a ddywedodd *dim yn ystod y tymor* | 9% |



DRAFFT

5.12 Yn gyfatebol, mae Tabl 13 isod yn nodi pa mor aml y dywedodd rhieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn defnyddio mathau penodol o ofal plant **yn ystod amseroedd gwyliau**.

Tabl 13 - Pa mor aml y dywedodd rhieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn defnyddio mathau penodol o ofal plant yn ystod y gwyliau

| Math o ofal plant wedi'i gofrestru neu heb ei gofrestru | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd | % y gwahaniaeth gydag amser tymor ysgol |
|---|---|---|
| Gwarchodwr Plant | 4.5% | Dim newid |
| Clwb Gwyliau neu Gynllun Chwarae | 7% | Amherthnasol |
| Meithrinfa Ddydd Breifat | 29% | -5% |
| Ysgol Breifat paratoi cyn ysgol | 0 | Amherthnasol |
| Cylch Chwarae Sesiynol | 0 | -4% |
| Cylch Meithrin | 6% | -21% |
| Crèche â Gwasanaeth Gollwng | 3% | Dim newid |
| Nani/Au-pair | 0 | Dim newid |
| Cynllun Chwarae | 0 | Dim newid |
| Teulu/Ffrindiau (â thâl) | 0.5% | +0.5% |
| Teulu/Ffrindiau (di-dâl) | 20% | -25% |
| Rhai a ddywedodd *dim yn ystod gwyliau'r ysgol* | 22% | +13% |

DRAFT

5.13 Gwahoddwyd pob rhiant/gofalwr a ymatebodd i nodi faint yr oeddent yn ei wario mewn wythnos gyfartalog ar ofal plant (â thâl, di-dâl). Mae Tabl 14 yn dangos mai'r swm a nodwyd amlaf (o ychydig) oedd £100.00 - £199.99 yr wythnos, a nodwyd gan bron i 20% o'r holl rieni a ymatebodd.

Tabl 14 – Maint y gwariant wythnosol ar ofal plant

| Swm a wariwyd ar gyfartaledd/wythnos[diwrnodau] | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd |
|---|---|
| £0 | 28% |
| Hyd at £10 | 2% |
| £10-£49 | 16% |
| £50-£99 | 14.5% |
| £100-£199 | 19% |
| £200-£299 | 6% |
| £300 neu fwy | 2% |
| Heb ddweud | 12.5% |

Y wardiau a oedd yn cyfrif am yr amlder uchaf o rieni yn dweud: £300.00 neu fwy/wythnos oedd ward Bro Rhosyr, ac yna o ran amlder, ward Bro Aberffraw.

Gellir nodi y gofynnwyd i bob rhiant/gofalwr nodi a oeddent yn derbyn unrhyw gymorth tuag at dalu cost eu gofal plant a…

- Dywedodd 8.5% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd: (oeddent) elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol
- Dywedodd 22% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd: (oeddent) Talebau Gofal Plant[9]/Gofal Plant Di-dreth
- Dywedodd 0 o rieni/gofalwyr a ymatebodd: (oeddent, y) Grant Gofal Plant i Fyfyrwyr a
- Dywedodd 0 o rieni/gofalwyr a ymatebodd: ((oeddent) cyfraniad Cyflogwr

DRAFFT

[9] Yn wahanol i'r Cynnig Gofal Plant – h.y. NID yr un rhaglen yw'r rhain.

DRAFT

5.14 Gwahoddwyd pob rhiant/gofalwr a ymatebodd i nodi nifer yr oriau o ofal plant yr oeddent yn eu defnyddio, ar gyfartaledd, mewn wythnos arferol.
O'r rhieni hynny a ymatebodd i'r cwestiwn:

Ar gyfer y tymor ysgol:
Cyfartaledd yr oriau a nodwyd gan rieni/gofalwyr preswyl Ynys Môn oedd 18 awr a 45 munud/wythnos.
Y swm a nodwyd amlaf o ran oriau oedd 30 awr/wythnos, ac yna o ran amlder, 10 awr/wythnos.

Ar gyfer y cyfnod gwyliau:
Cyfartaledd yr oriau a nodwyd gan rieni/gofalwyr preswyl Ynys Môn oedd 18 awr a 20 munud/wythnos.
Y swm a nodwyd amlaf o ran oriau oedd 10 awr/wythnos, a gydag amlder cyfartal: 20 awr/wythnos.

5.15 Gwahoddwyd rhieni/gofalwyr i nodi pa mor fodlon yr oeddent ar hyn o bryd gyda'u sefyllfa ofal plant bresennol.


Tabl 15 – Lefelau Boddhad

| Pa mor fodlon oedd rhiant/gofalwr: | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd |
|---|---|
| Bodlon Iawn | 64% |
| Eithaf Bodlon | 17% |
| Eithaf Anfodlon | 2% |
| Anfodlon Iawn | 1% |
| (Dywedodd) Amherthnasol | 9% |
| Heb ddweud | 7% |

Roedd rhieni/gofalwyr a ddywedodd eu bod yn Eithaf Anfodlon neu'n Anfodlon Iawn (o ran cyfran), yn preswylio amlaf yn ardal Orllewinol yr ynys, ac yng Nghaergybi.

5.16 Gwahoddwyd yr holl rieni/gofalwyr a ymatebodd i ddweud a allent siarad, darllen a/neu ysgrifennu'r Gymraeg.

<u>Diagram 1 - Mynychder hyfedredd yn y Gymraeg</u>




Yn y pen draw, dywedodd 62% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn defnyddio gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Dywedodd 5% fod hyn yn rhywbeth yr hoffent ei wneud yn ddelfrydol, ond roedd yn amlwg bod nifer fechan o rai ffactorau'n cael eu profi gan gyfran o'r ymatebwyr, gyda:

- 0.5% yn nodi bod pellter i leoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg wedi bod yn rhwystr rhag manteisio arno
- 2% yn nodi bod diffyg lle(oedd) cyfrwng Cymraeg wedi gweithredu fel rhwystr i allu manteisio
- 0 yn datgan bod gallu Cymraeg y staff wedi gweithredu fel rhwystr rhag manteisio
- 0 yn datgan bod cost gofal plant cyfrwng Cymraeg wedi bod yn rhwystr i fanteisio arno a
- Dywedodd 1% nad oeddent wedi gallu dod o hyd i ddigon o oriau gan ddarparwr gofal plant Cymraeg.

5.17 Gwahoddwyd yr holl rieni/gofalwyr a ddywedodd nad oeddent – yn hydref 2021 – yn defnyddio unrhyw ofal plant i nodi pam, gan gynnwys yr achosion o rwystrau. Gellir darllen rhagor o fanylion - gan gynnwys adborth ansoddol - am y ddeinameg a'r ffactor allweddol hwn yn Adran 15 o'r ADGP hwn.

Tabl 16 - Y rhesymau a nodwyd ynghylch pam nad oedd rhiant/gofalwr yn cyrchu/derbyn cymorth gyda gofal plant

| Rhesymau/Rhwystrau | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd |
|---|---|
| Mae fy mhlentyn ar restr aros ar gyfer darparwr ac rydym yn aros i le ddod ar gael | <0.5% |
| Rwy'n defnyddio gofal plant anffurfiol fel aelod o'r teulu neu ffrind | 8% |
| Rwy'n dewis peidio â defnyddio unrhyw ofal plant | <0.5% |
| Rwy'n rhiant sy'n aros gartref ac felly nid oes angen gofal plant arnom | 4% |
| Mae fy mhlant yn ddigon hen i ofalu amdanynt eu hunain | 1.5% |
| Nid oes gofal plant o ansawdd digonol | <0.5% |
| Nid oes darpariaeth Gymraeg addas | 1% |
| Dim darpariaeth addas yn ein hiaith, nad yw'n Gymraeg nac yn Saesneg | <0.5% |
| Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg ar gyfer fy anghenion | 3% |
| Mae cost gofal plant yn rhy ddrud | 7.5% |
| Mae amseroedd gofal plant yn anaddas | 3% |
| Nid oes gofal plant ar gael sy'n addas ar gyfer oedran fy mhlentyn | 2% |
| Mae problem gyda thrafnidiaeth | 1% |
| Nid oes gofal plant yn lle mae ei angen arnaf | 1% |
| Nid oes gofal plant a all ddarparu ar gyfer anghenion penodol fy mhlentyn | 0.5% |
| Dim ond ar sail ad hoc rydw i'n defnyddio gofal plant ac mae'n amhosibl cynllunio | 2% |
| Arall | 1.5% |

O ran yr ymatebion 'Arall':

*"Dwi ar absenoldeb mamolaeth, ond y tymor nesaf mi fydda i'n defnyddio gwarchodwr plant neu ofal plant teuluol di-dâl".*

DRAFT

*"Does dim digon o ofal plant ar gael yn ystod y gwyliau".*

5.18 Ar thema debyg, gwahoddwyd rhieni/gofalwyr i nodi a oedd materion yn ymwneud â gofal plant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi effeithio arnynt hwy eu hunain neu unrhyw bartner[iaid]:

Dywedodd 26% fod gofal plant wedi: achosi problemau yn y gwaith
Dywedodd 5.5% fod mater gofal plant wedi: atal parhad gwaith
Dywedodd 9% bod mater gofal plant wedi: eu hatal rhag gweithio/cael swydd
Dywedodd 7% bod mater gofal plant wedi: eu hatal rhag cyrchu hyfforddiant

DRAFT

5.19 Gwahoddwyd yr holl rieni/gofalwyr a ymatebodd i nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno â neu (yn lle hynny) yn anghytuno â detholiad o ddatganiadau am ddarpariaeth gofal plant.

Tabl 17 - Meddyliau cyffredinol rhieni ar agweddau ar ofal plant yn ardal leol Ynys Môn


| Datganiad | Cytuno'n Gryf | Tueddu i Gytuno | Tueddu i Anghytuno | Anghytuno'n Gryf | Ddim yn berthnasol i mi |
|---|---|---|---|---|---|
| Rwy'n fodlon â'm gofal plant yn ystod y tymor ysgol | 60% | 19.5% | 2.5% | 0 | 18% |
| Rwy'n fodlon â'm gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol | 47% | 16.5% | 4.5% | 5% | 27% |
| Mae ansawdd gofal plant yn uchel | 61% | 18% | 2% | 0 | 19% |
| Mae dewis da o ofal plant yn fy ardal i | 26% | 33% | 15% | 9.5% | 16.5% |
| Mae gofal plant wedi'i leoli'n dda | 41% | 31% | 10% | 3.5% | 14.5% |
| Mae gofal plant yn darparu ar gyfer anghenion fy mhlant i | 48% | 26.5% | 3% | 1.5% | 21% |
| Hoffwn i'm plentyn fynychu mwy o ofal plant cofrestredig | 16.5% | 18% | 15% | 16% | 34.5% |
| Mae gofal plant yn rhy ddrud | 48% | 26% | 7.5% | 3% | 14.5% |
| Byddai'n well gennyf ddefnyddio teulu/ffrindiau ar gyfer gofal plant | 14% | 21% | 25% | 17% | 23% |
| Mae gennyf broblem gyda threfniadau gofal plant sy'n annibynadwy | 4% | 5.5% | 19% | 38.5% | 33% |
| Mae gofal plant yn rhwystr i mi gael gwaith neu hyfforddiant | 12% | 14.5% | 19% | 26% | 28.5% |
| Rwy'n gwybod lle i gael gwybodaeth am ofal plant | 24% | 44% | 9.5% | 7% | 15.5% |
| Rwy'n gwybod lle i gael gwybodaeth am gymorth ariannol ar gyfer gofal plant | 16.5% | 38% | 18% | 11% | 16.5% |

Nodwyd yr ymateb 'cytuno'n *gryf:* mae gofal plant yn rhy ddrud', amlaf gan rieni/gofalwyr a oedd yn byw yn ward Canolbarth Môn.
Nodwyd yr ymateb 'cytuno: mae gofal plant yn rhwystr i mi gael gwaith neu hyfforddiant', amlaf gan rieni/gofalwyr a oedd yn byw yn ward Bro Aberffraw.
Nodwyd yr ymateb yn 'anghytuno'n gryf' a 'thueddu i anghytuno' o ran: 'mae dewis da o ofal plant yn fy ardal i', amlaf unwaith eto gan rieni sy'n byw yn ward Canolbarth Môn, ac yna, o ran amlder, gan ward Llifon.

DRAFT

5.20 Yn y pen draw, cafwyd ymateb allweddol gan rieni/gofalwyr i'r cwestiwn: Ydych chi'n rhagweld y bydd angen mwy neu lai o ofal plant arnoch yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf?

Diagram 2 - Ystyriaeth o b'un a ddefnyddir mwy neu lai o ofal plant yn ystod y 2 flynedd nesaf




Roedd y rhieni/gofalwyr hynny a ddywedodd 'Mwy', yn preswylio amlaf yn ward Canolbarth Môn.

Gofynnwyd hefyd i'r rhieni hynny a ddwedodd 'Mwy' ddatgan y mathau o ofal plant y byddent yn ceisio ei gyrchu o ddilyn y bwriad hwnnw, a'r tri math mwyaf cyffredin oedd:

- Clwb ar ôl Ysgol – 20% o'r rhieni perthnasol
- Clwb Cyn Ysgol/Brecwast – 17% o'r rhieni perthnasol
- Cylch Meithrin – 16.5% o'r rhieni perthnasol

DRAFT

## 6 Canlyniadau Ymgynghori â Rhanddeiliaid

Mae Canllawiau Asesu Digonolrwydd Gofal Plant Llywodraeth Cymru 2016 yn cyfarwyddo y dylai Awdurdodau Lleol ymgynghori â rhanddeiliaid lleol a sefydliadau partner i sefydlu eu safbwynt ar flaenoriaethau sy'n cyd-fynd â sicrhau bod digon o ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal. Dylai'r rhanddeiliaid hyn gynnwys sefydliadau ymbarél cenedlaethol sy'n gwneud cyfraniad allweddol i gynorthwyo'r awdurdod lleol, h.y.: Cyngor Sir Ynys Môn.

Felly mae Adran A Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Ynys Môn 2022 yn amlinellu'r adborth a gafwyd drwy gyfres o e-gyfweliadau rhithwir gyda rhanddeiliaid allweddol, partneriaid a gweithwyr proffesiynol yn ystod diwedd 2021 a dechrau 2022, gan gynnwys cynrychiolwyr o:

- Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru
- Cynrychiolwyr cyflogadwyedd Cyngor Sir Ynys Môn
- Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles Cyngor Sir Ynys Môn
- Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid Cyngor Sir Ynys Môn
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Teulu Môn



### 6.1 Cryfderau canfyddedig: gofal plant yn ardal leol Ynys Môn

6.1.1 Disgrifiodd dau a gyfwelwyd eu cred bod gwaith a rôl y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd: Teulu Môn yn gryfder arbennig ar gyfer Ynys Môn, yn enwedig o ran ffiniau esblygol ei gymorth a'i allu i gysylltu teuluoedd â darparwyr a mathau penodol o gymorth.

6.1.2 Ystyriwyd mai ail gryfder oedd bod y Cynnig Gofal Plant wedi cael effaith fuddiol nodedig, yn nhermau'r cymorth a ddarparwyd ganddo i deuluoedd yr ynys sy'n gweithio – er bod dau a gyfwelwyd wedi amlygu y caiff y modd y bydd y cynnydd sydd i ddod o ran ei gwmpas (yn nhermau teuluoedd cymwys) ei groesawu, yn enwedig o ran rhieni/gofalwyr sy'n oedolion sy'n dysgu.

6.1.3 Trydydd cryfder a amlygwyd gan ddau a gyfwelwyd oedd eu bod yn ystyried bod (gan ddefnyddio geiriau i'r perwyl) *"ymdeimlad o bositifrwydd a brwdfrydedd parhaus ymhlith y rheiny a oedd yn aros o fewn gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant Ynys Mon".*

DRAFFT

DRAFFT

## 6.2 **Meysydd canfyddedig i'w gwella: gofal plant yn ardal leol Ynys Môn**

6.2.1 Dywedodd dau a gyfwelwyd eu bod yn ymwybodol bod rhai rhieni/gofalwyr wedi adrodd materion a phroblemau yn nhermau lleoli a chyrchu gofal plant addas trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd yn amlwg hefyd bod hon yn thema arbennig (rhwystr rhag cyrchu gofal plant o ddewis rhiant/gofalwr) yr oedd Teulu Môn yn derbyn ymholiadau yn ei chylch yn rheolaidd. Roedd un a gyfwelwyd yn credu bod y mater hwn yn ymwneud yn arbennig â'r sector gwarchodwyr plant, ac y gallai hyn fod yn destun sylw gwaith cychwynnol gan yr awdurdod lleol i wella gallu teuluoedd i gyrchu darpariaeth gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg.

6.2.2 Amlinellodd dau a gyfwelwyd eu dealltwriaeth bod y galw am gymorth gan warchodwyr plant wedi bod yn cynyddu hefyd, gan gynnwys y canfyddiad bod rhieni/gofalwyr yn gofyn am fwy o hyblygrwydd o ran amseroedd a diwrnodau. Yn ogystal, roedd y rhai hyn a gyfwelwyd yn amlygu eu canfyddiad bod y galw hwn yn canolbwyntio ar gefnogaeth i blant 2-3 oed – sef yr oedran sy'n berthnasol i raglen Dechrau'n Deg.

6.2.3 Roedd tri o'r rhai a gyfwelwyd yn amlygu'r mater nad oedd nifer o ysgolion ar yr ynys yn rhedeg clwb ar ôl ysgol, a bod hwn yn fwlch posibl, o ran bod teuluoedd (sy'n gweithio) sy'n byw mewn ardaloedd gwledig lle'r oedd yr ysgol yn *"gwbl allweddol iddynt o safbwynt gofal plant"* yn profi heriau yn nhermau eu harferion gweithio a'u cyflogadwyedd. Roedd un a gyfwelwyd yn credu, os nad oedd modd i ysgolion perthnasol sefydlu darpariaeth gofal plant y tu allan i'r ysgol, yna efallai y bydd rhaid i'r awdurdod lleol archwilio datrysiad arall, sef cynyddu'r cymorth sydd ar gael o ran darparu cludiant – mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol/cymunedol – i alluogi disgyblion perthnasol i gyrraedd ysgol arall, sydd yn darparu clwb ar ôl ysgol, erbyn 3.00yp – 3.30yp.

6.2.4 Amlinellodd dau a gyfwelwyd bod y mater o recriwtio a chadw staff, sef problem a oedd yn esblygu ar draws y wlad, yn dod yn fater allweddol ar yr ynys. Dywedodd un a gyfwelwyd *"does dim ciw yn union o bobl yn chwilio am swydd yn fy sector i, ac mae hyn yn dechrau creu anhawster go iawn".* Roedd y ddau a gyfwelwyd (yr oedd y ddau ohonynt yn cynrychioli'r sector gofal plant cyfrwng Cymraeg) yn amlygu'r modd yr oedd y sefydliad a gynrychiolwyd ganddynt hefyd yn wynebu heriau o ran recriwtio gwirfoddolwyr a phobl i fod ar bwyllgorau. Cynigiodd un a gyfwelwyd, o fewn strategaeth wedi'i hadfywio, y dylai'r awdurdod lleol barhau i weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor a'r sector Addysg Bellach lleol, gan gynnwys yng nghyswllt yr angen allweddol i bobl ifanc sydd â diddordeb yn y proffesiwn gael cymwysterau Lefel 2 a Lefel 3.

## 6.3 **Camau gweithredu/blaenoriaethau strategol canfyddedig: gofal plant yn ardal leol Ynys Môn**

6.3.1 Darparodd y mwyafrif o'r rhai a gyfwelwyd adborth y gellid ei grynhoi orau gan ddatganiad bod *"gweithio adref wedi newid popeth"* a bod rhaid i sector gofal plant a blynyddoedd cynnar Ynys Môn fabwysiadu meddylfryd a oedd yn tueddu mwy tuag at yr angen am fwy o hyblygrwydd o fewn eu modelau cyflenwi.

6.3.2 Roedd dau a gyfwelwyd yn cynnig y dylai swyddogion perthnasol o fewn yr awdurdod lleol barhau â'u rolau yn nhermau *"sganio'r gorwel",* gan gynnwys hynny o safbwynt y modd y mae demograffeg Ynys Môn yn esblygu, ynghyd â'r ffaith bod nifer y perchnogion ail gartrefi yn cynyddu, ac unwaith eto, y modd y gall hyn ddylanwadu ar themâu fel hyblygrwydd a phrisiau opsiynau o ran gofal plant.

6.3.3 O ran adborth gan gyflogwyr – yn genedlaethol, ledled Cymru, bu cynnydd yn nifer y gweithwyr sy'n gweithio adref a ddim yn gweithio mewn gofod neu amgylchedd swyddfa. Mae'r cynnydd hwn yn nifer yr achosion o weithio'n 'hyblyg' o adref wedi golygu bod rhai rhieni/gofalwyr (hefyd) wedi bod yn darparu eu gofal plant (eu hunain) yn eu cartref, yn enwedig ar gyfer plant cyn oed ysgol, yn hytrach na'u bod yn defnyddio darparwyr gofal plant ffurfiol, megis meithrinfa gofal dydd lawn neu warchodwr plant.

Ym mis Tachwedd 2021, canolbwyntiodd Cyngor Sir Ynys Môn ar gael adborth o'i sector cyflogaeth amrywiol, a rhoddodd gyhoeddusrwydd eang i arolwg ar-lein, ac aeth ati i'w hyrwyddo. Amlinellodd y cyflogwyr a ymatebodd, gan gynnwys Safle Maes Awyr RAF - RAF y Fali (sy'n cyflogi 1,800 o bobl), nifer o ffactorau a phwyntiau, *gan gynnwys*:

- Roedd nifer y gweithwyr sy'n gweithio patrymau shifftiau yn cynyddu
- Gweithio cyfunol, adref neu yn y gweithle – roedd canran gyfartalog o 50% o weithwyr yn gwneud hyn
- Cynlluniau amlwg bod gweithwyr yn meddwl am yr hyn a elwid ganddynt yn "gymorth cofleidiol"
- Bod ganddynt ddealltwriaeth dda o waith a rôl Teulu Môn

## 6.4 Canlyniadau Ymgynghori â Phobl Ifanc

Ar ddechrau 2022, cynhaliodd Cyngor Sir Ynys Môn ymgynghoriad meintiol ac ansoddol â phlant a phobl ifanc sy'n preswylio ledled y sir ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ac ar gyfer prosiect cysylltiedig: cynhyrchu Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, yn yr un modd â'r ADGP, y cyfarwyddir pob awdurdod lleol yng Nghymru i'w cynhyrchu. Roedd yr ymgynghoriad meintiol yn cynnwys cwestiynau penodol sy'n cyd-fynd â'r thema gofal plant y tu allan i'r ysgol.

Ymatebodd 805 o ddisgyblion, o blith carfanau cynradd ac uwchradd, i arolwg ar-lein, a rhoddodd adborth gwerthfawr ar thema gofal plant y tu allan i'r ysgol.
Ceir crynodeb o'u hadborth *perthnasol* isod:

6.4.1 Gwahoddwyd plant a phobl ifanc i ymateb i gwestiwn allweddol: *Pan nad ydych yn yr ysgol, pa leoedd fyddwch chi'n mynd iddynt i chwarae neu i dreulio amser?*

<u>Tabl 18 – Lleoedd y mae plant a phobl ifanc yn hoffi mynd iddynt i dreulio amser: 5-11 oed</u>

| Lleoedd a Gweithgareddau | Canran y plant a phobl ifanc a ymatebodd |
|---|---|
| Clwb Ieuenctid | 4% |
| **Clwb Brecwast** | **21%** |
| **Clwb ar ôl Ysgol** | **14%** |
| **Clwb Gwyliau** | **1.5%** |
| Fy nhŷ i neu dŷ ffrind | 58% |
| Fy ngardd i neu gardd ffrind | 39% |
| Yn y strydoedd wrth ymyl fy nhŷ | 2% |
| Ar lecyn gwyrdd lleol â glaswellt | 28% |
| Mewn man chwarae gyda siglenni, sleidiau ac offer i chwarae arno | 39% |
| Yn y coed wrth ymyl fy nhŷ | 13% |

DRAFT

| Lleoedd a Gweithgareddau | Canran y plant a phobl ifanc a ymatebodd |
|---|---|
| Ar gae pêl-droed neu gae chwaraeon | 2% |
| Ym maes chwarae fy ysgol | 16.5% |
| Rhywle gyda dŵr neu dywod ynddo | 20% |
| Yn y parc beics neu sglefrio | 22.5% |
| Mewn neuadd neu ganolfan hamdden | 10.5% |
| Mewn maes chwarae antur neu gynllun chwarae | 10% |
| Yn nhŷ gwarchodwr plant | 3.5% |
| Canolfan chwarae neu ganolfan chwarae meddal o dan do | 20% |
| Yn rhywle arall | 21% |



O'r rhai 5-11 oed a nododd 'clwb ar ôl ysgol': dywedodd 62% y cynhaliwyd hwn yn eu hysgol
O'r rhai 5-11 oed a ddywedodd 'clwb brecwast': dywedodd 80% y cynhaliwyd hwn yn eu hysgol
O'r rhai 5-11 oed a ddywedodd 'clwb gwyliau': dywedodd 70% y cynhaliwyd hwn yn eu hysgol

Tabl 19 - Lleoedd y mae plant a phobl ifanc yn hoffi mynd iddynt i dreulio amser: 12-16 oed

| Lleoedd a Gweithgareddau | Canran y plant a phobl ifanc a ymatebodd |
|---|---|
| Clwb Ieuenctid | 13.5% |
| **Clwb Brecwast** | **0** |
| **Clwb ar ôl Ysgol** | **14%** |
| **Clwb Gwyliau** | **1%** |
| Fy nhŷ i neu dŷ ffrind | 58% |
| Fy ngardd i neu gardd ffrind | 10% |

DRAFFT

| Lleoedd a Gweithgareddau | Canran y plant a phobl ifanc a ymatebodd |
|---|---|
| Yn y strydoedd wrth ymyl fy nhŷ | 32% |
| Ar lecyn gwyrdd lleol â glaswellt | 25% |
| Mewn man chwarae gyda siglenni, sleidiau ac offer i chwarae arno | 19% |
| Ar gae pêl-droed neu gae chwaraeon | 7% |
| Ym maes chwarae fy ysgol | 21% |
| Rhywle gyda dŵr neu dywod ynddo | 5% |
| Yn y parc beics neu sglefrio | 10% |
| Mewn neuadd neu ganolfan hamdden | 15% |
| Mewn maes chwarae antur neu gynllun chwarae | 1% |
| Yn nhŷ gwarchodwr plant | 5% |
| Canolfan chwarae neu ganolfan chwarae meddal o dan do | 0 |
| Yn rhywle arall | 0 |
| Ar gae pêl-droed neu gae chwaraeon | 22% |

O'r rhai 12-16 oed a nododd 'clwb ar ôl ysgol': dywedodd 38% y cynhaliwyd hwn yn eu hysgol
O'r rhai 12-16 oed a ddywedodd 'clwb brecwast': dywedodd 0% y cynhaliwyd hwn yn eu hysgol
O'r rhai 12-16 oed a ddywedodd 'clwb gwyliau': dywedodd 0% y cynhaliwyd hwn yn eu hysgol

DRAFFT

6.4.2 Gwahoddwyd plant a phobl ifanc i ymateb i'r cwestiwn: *A fydd unrhyw un o'r mathau o bobl a ganlyn yn gofalu amdanoch pan nad ydych yn yr ysgol?*

Tabl 20 – Mathau o bobl a oedd yn gofalu am blant a phobl ifanc pan nad oeddynt yn yr ysgol: 5-11 oed

| Mathau o bobl | Canran y plant a phobl ifanc a ymatebodd |
|---|---|
| Teidiau a neiniau | 53% |
| Brawd/chwaer hŷn | 21% |
| Rhywun arall yn fy nheulu | 30% |
| Ffrindiau mam/dad | 18% |
| Cymdogion mam/dad | 6% |
| Dim un o'r uchod | 10% |

Tabl 21 - Mathau o bobl a oedd yn gofalu am blant a phobl ifanc pan nad oeddynt yn yr ysgol: 12-16 oed

| Mathau o bobl | Canran y plant a phobl ifanc a ymatebodd |
|---|---|
| Teidiau a neiniau | 33% |
| Brawd/chwaer hŷn | 15.5% |
| Rhywun arall yn fy nheulu | 26% |
| Ffrindiau mam/dad | 7% |
| Cymdogion mam/dad | 0 |
| Dim un o'r uchod | 15% |

DRAFFT

6.4.3 Gwahoddwyd plant a phobl ifanc i ymateb i gwestiwn penagored: *oes yna unrhyw beth yr hoffech ei wneud yn ystod gwyliau'r haf nad oedd ar gael i chi ei wneud yr haf hwn?*

Yn nhrefn eu hamlder, yr ymatebion a chanddynt thema a oedd yn cyd-fynd â'r hyn a ystyrir yn weithgareddau traddodiadol y byddid yn eu gwneud ar adeg gwyliau oedd:

*"Parc dŵr, gyda sleidiau dŵr"*

*"Mynd i nofio"*

*"Mynd i wersyll haf"*

*"Chwarae mewn twrnameintiau pêl-droed"*

*"Mynd i badlfyrddio"*

*"Mynd i'r traeth"*

DRAFFT

6.4.2 Yn olaf, mewn perthynas â'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant hwn: Gofynnwyd i blant a phobl ifanc: *Gan feddwl am COVID-19, pa un, os o gwbl, sy'n cyfleu beth yr ydych yn ei feddwl?*

Tabl 22 – Beth mae plant a phobl ifanc 5-11 oed yn ei feddwl am COVID-19

| Ymateb | Canran y plant a'r bobl ifanc a ymatebodd |
|---|---|
| Dwi'n teimlo rhywbeth arall sy'n wahanol i'r isod | 5% |
| Dwi ddim wir yn meddwl am y peth! | 28% |
| Dwi yn meddwl am y peth – ond wneith o ddim fy stopio rhag mynd i glybiau a gweithgareddau | 32% |
| Dwi'n poeni amdano – efallai y bydd yn gwneud i mi feddwl ddwywaith am fynd i glybiau | 17% |
| Dim ymateb | 18% |

Tabl 23 – Beth mae plant a phobl ifanc 12-16 oed yn ei feddwl am COVID-19

| Ymateb | Canran y plant a'r bobl ifanc a ymatebodd |
|---|---|
| Dwi'n teimlo rhywbeth arall sy'n wahanol i'r isod | 9% |
| Dwi ddim wir yn meddwl am y peth! | 18% |
| Dwi yn meddwl am y peth – ond wneith o ddim fy stopio rhag mynd i glybiau a gweithgareddau | 25% |
| Dwi'n poeni amdano – efallai y bydd yn gwneud i mi feddwl ddwywaith am fynd i glybiau | 14% |
| Dim ymateb | 36% |

DRAFT

## 6.5 Canlyniadau Ymgynghori ag Ysgolion

Mae Canllaw Asesu Digonolrwydd Gofal Plant Llywodraeth Cymru 2016 yn cyfarwyddo y dylai Awdurdodau Lleol ymgynghori â'u rhanddeiliaid lleol ac y dylai hyn gynnwys ysgolion lleol.

Ar Ynys Môn, mae yna 40 ysgol gynradd, 5 ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig, y'u rhestrir fel a ganlyn:

- 1 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg
- 38 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg
- 1 ysgol gynradd dwy ffrwd
- 1 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg
- 3 ysgol uwchradd dwy ffrwd
- 1 ysgol arbennig: Ysgol Y Bont

Ym mis Ionawr 2021, gwahoddwyd pob un o'r ysgolion a leolir ar Ynys Môn i gwblhau arolwg ar-lein a oedd yn canolbwyntio ar thema gofal plant a barnau ar themâu penodol yn gysylltiedig â'r pwnc. Cyflwynodd cyfanswm o 16 o ysgolion (35%) ymateb i'r arolwg ar-lein a cheir crynodeb o'u hadborth cyfunol isod.

<u>Tabl 24 – Yr ysgolion a ymatebodd oedd:</u>

| Ysgol | Ward |
|---|---|
| Ysgol Gymuned Bryngwran | Ward Canolbarth Môn |
| Ysgol Gynradd Kingsland | Ynys Gybi |
| Ysgol Uwchradd Caergybi | Caergybi |
| Ysgol Gynradd Santes Gwenfaen - Rhoscolyn | Ynys Gybi |
| Ysgol Gynradd Llanbedrgoch | Lligwy |
| Ysgol y Graig | Canolbarth Môn |
| Ysgol Gymuned Y Ffridd | Canolbarth Môn |
| Ysgol Gynradd Llangoed | Seiriol |

DRAFFT

| Ysgol | Ward |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Cemaes | Twrcelyn |
| Ysgol Gymuned Bodffordd | Canolbarth Môn |
| Ysgol y Tywyn | Llifon |
| Ysgol Gynradd Amlwch | Twrcelyn |
| Ysgol Corn Hir | Canolbarth Môn |
| Ysgol Santes Dwynwen | Bro Aberffraw |
| Ysgol Esceifiog | Bro Rhosyr |
| Ysgol Gynradd Llandegfan | Seiriol |

6.5.1 Gwahoddwyd (cynrychiolwyr) pob ysgol i ddatgan a oedd ganddynt ofal plant ar eu safle. Dywedodd 94% bod ganddynt, ac mae Tabl 25 yn cyflwyno pa mor aml y nodwyd mathau penodol o ofal plant.

Tabl 25 - Pa mor aml y lleolwyd mathau penodol o ofal plant ffurfiol mewn ysgolion

| Math o ofal plant | Canran yr ysgolion sydd â'r gofal plant hwn ar y safle |
|---|---|
| Clwb ar ôl Ysgol (cynnal gan yr ysgol) | 25% |
| Ar ôl Ysgol (preifat) | 25% |
| Gofal Cofleidiol Meithrinfa | 25% |
| Cylch Chwarae / Cylch Meithrin | 56% |
| Gofal Plant Gwyliau | 19% |
| Clwb Brecwast Am Ddim | 94% |
| Clwb Brecwast â Ffioedd Taladwy | 81% |
| Lleoedd Gofal Plant Dechrau'n Deg | 19% |
| Arall [10] | 19% |

[10] Ymatebion eraill oedd – Clwb *chwarter awr* i blant Cyfnod Sylfaen; clwb gofal Medra ar ôl ysgol; *clwb hwyluso.*

DRAFFT

Mae Tabl 25 yn amlinellu mai clwb brecwast am ddim (di-dâl) yw'r math mwyaf cyffredin o ofal plant ffurfiol sydd wedi'i leoli *mewn ysgol* ar Ynys Môn. Dilynir hwn o ran amlder gan glwb brecwast y telir ffi ar ei gyfer.

6.5.2 Gwahoddwyd pob cynrychiolydd ysgol *perthnasol* i ddatgan a oeddent yn credu ei bod yn fuddiol (i'w hysgol) gael gofal plant ar y safle: dwedodd 81% o ysgolion ei fod o fudd[11], gyda dim ond un yn dweud *nad oedd* yn fuddiol, ac mai hwnnw oedd y rheswm pam eu bod wedi gweithio gyda darparwyr gofal plant lleol i ddefnyddio eu gwasanaethau oddi ar y safle. Roedd adborth penodol arall ar bwnc gofal plant ar y safle *yn cynnwys*:

*"Rydym yn gweld bod plant yn dod yn gynefin â'r lleoliad ac yn arfer â phethau'n haws".*

*"Mae cael popeth ar yr un safle'n gwneud pethau'n llawer haws. Mae staff ein hysgol yn gweithio yn y clwb, felly ceir gwasanaeth parhaus ar ôl i'r ysgol gau."*

*"Mae cael darpariaeth gofal yn caniatáu i rieni fynd i weithio. Rydym yn gweld fod neiniau a theidiau'n gweithio erbyn hyn hefyd - felly tydi'r opsiwn hwn ddim ar gael."*

*"Rydym yn gweld ei fod yn ymwneud â hwylustod i rieni – ac mi fyddant yn dewis ysgol oherwydd hyn."*

6.5.3 Dywedodd hanner y cynrychiolwyr ysgol a holwyd bod COVID-19, i raddau sylweddol, wedi effeithio gallu eu darpariaeth gofal plant i weithredu, a'r rheswm a nodwyd amlaf dros hyn oedd bod rhaid i glybiau gau yn ystod y cyfnodau clo.

6.5.4 Gan ddychwelyd i'r thema o ollwng a chasglu mewn ysgolion, mae Tabl 26 yn nodi pa mor aml y bu darparwyr penodol yn gweithio gydag ysgolion i roi hyn ar waith.

DRAFFT

[11] Nid oedd dwy ysgol wedi ateb y cwestiwn hwn

Tabl 26 – Pa mor aml yr oedd mathau penodol o ddarparwyr gofal plant ffurfiol yn dynodi eu bod yn gweithio gydag ysgolion i ollwng ac wedyn casglu o'r ysgol

| Math y gofal plant | Canran yr ysgolion a ymatebodd a oedd yn dynodi eu bod yn gweithio gyda darparwr o'r fath i weithredu gwasanaeth gollwng a chasglu o'r ysgol |
|---|---|
| Gwarchodwr/Gwarchodwyr Plant | 50% |
| Meithrinfa/Meithrinfeydd Dydd | 38% |
| Cylch Chwarae / Cylch Meithrin | 31% |

6.5.5 Gwahoddwyd yr holl gynrychiolwyr ysgolion i nodi - yn eu barn/profiad nhw - a oedd angen mwy o fathau penodol o leoedd gofal plant yn eu hardal leol/agos. Mae Tabl 27 yn cyflwyno eu hymatebion cyfunol.

Tabl 27 - Amlder cred bersonol cynrychiolwyr bod 'angen' am fwy o fathau o ofal plant yn ardal leol eu hysgol

| Math y gofal plant | Canran y cynrychiolwyr ysgol a ddywedodd: Oes | Canran y cynrychiolwyr ysgol a ddywedodd: Nac oes | Canran y cynrychiolwyr ysgol a ddywedodd: Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Clwb ar ôl Ysgol | 38% | 31% | 6% |
| Gofal Cofleidiol Meithrinfa | 44% | 13% | 13% |
| Cylch Chwarae / Cylch Meithrin | 19% | 38% | 6% |
| Gofal Plant yn ystod y Gwyliau (Dim Cynllun Chwarae) | 69% | 13% | 0 |
| Clwb Brecwast Am Ddim | 6% | 56% | 0 |
| Lleoedd Gofal Plant Dechrau'n Deg | 25% | 13% | 25% |

Mae Tabl 27 yn dangos mai rhagor o ofal plant yn ystod y gwyliau yw'r hyn y credai cynrychiolwyr ysgol oedd ei angen (yn eu barn bersonol nhw).

DRAFFT

6.5.6 Gwahoddwyd yr holl gynrychiolwyr ysgol i ddatgan - hyd eithaf eu gwybodaeth - a allai fod (unrhyw) lle ar gael ar eu safle ysgol – lle y gellid o bosib sefydlu darpariaeth gofal plant newydd: Atebodd 44% fod yna le (gyda dwy o'r ysgolion hyn hefyd wedi eu lleoli yn ward Seiriol Talybolion) ac roedd yr hyn oedd yn cymhwyso'r ymateb hwn *yn cynnwys*:

*"Cafodd y dosbarth meithrin ei foderneiddio a'i ymestyn yn ddiweddar. Mae'n lle braf, gyda thoiled a chyfleusterau coginio, yn ogystal â man awyr agored diogel i blant gael chwarae a threulio amser ynddo."*

*"Mae gennym ddosbarthiadau a allai ddarparu cyfleusterau gofal plant ar ôl ysgol, gan gynnwys clybiau a mannau chwarae..."*

*"Mae gennym ddwy ystafell gymunedol sydd ar gael am dri diwrnod yr wythnos. Mae gennym ystafell Dechrau'n Deg (sy'n darparu ar gyfer plant Niwbwrch) sy'n wag o 11:30 bob dydd."*

Roedd chwech o'r saith ymatebwr a atebodd yn gadarnhaol, yn cadarnhau y byddent yn falch cael derbyn cyngor a chymorth ar gyfer datblygiad posibl o'r fath.

6.5.7 Gwahoddwyd yr holl gynrychiolwyr ysgol i ddatgan a oeddent yn ymwybodol o fodolaeth y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Dywedodd 44% eu bod yn ymwybodol o Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Ynys Môn - ac mae'n amlwg felly nad oedd 56% yn ymwybodol.[12]

[12] Nid oedd dwy ysgol wedi ymateb i'r cwestiwn hwn.





DRAFFT

## 7 Dosbarthiad Daearyddol

### 7.1 Delwedd 1 - **Lleoliad Darparwyr Gofal Dydd Llawn ar Ynys Môn**




7.2 Delwedd 2 - **Lleoliad Darparwyr Gofal Sesiynol ar Ynys Môn**



Tudalen 173

7.3 Delwedd 3 - **Lleoliad Gwarchodwyr Plant Cofrestredig ar Ynys Môn**



7.4 Delwedd 4 - **Lleoliad Darparwyr Gofal Plant y Tu Allan i’r Ysgol ar Ynys Môn**




# 8 Cynaliadwyedd

Mae'r naratif a'r dadansoddiad isod yn cyflwyno canlyniadau arolwg strwythuredig hydref 2021 gyda nifer y darparwyr gofal plant ar draws ardal leol Ynys Môn sy'n canolbwyntio ar thema cynaliadwyedd, gan gynnwys adolygiad o sut mae cyllid cynaliadwyedd yn amlwg yn cefnogi'r sector.


8.1 Fel rhan o arolwg y Cyngor Sir gyda darparwyr/lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar yn hydref 2021, gwahoddwyd pob lleoliad i ddatgan p’un a oedd eu busnes wedi profi (neu os yw’n parhau i brofi) unrhyw un o'r problemau canlynol o ganlyniad i COVID-19.

<u>Diagram 3 - Amlder y problemau a brofwyd gan ddarparwyr/lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar o ganlyniad i COVID-19</u>



Y lleoliad a oedd â’r achosion uchaf o ddarparwr yn nodi 'gostyngiad/colli refeniw' oedd: Canolbarth Môn
Y lleoliad a oedd â’r achosion uchaf o ddarparwr yn nodi 'effeithio ar niferoedd y plant' oedd ardal Canolbarth Môn hefyd

<u>Diagram 4 - Amlder y problemau a brofwyd gan warchodwyr plant cofrestredig o ganlyniad i COVID-19</u>




Mae Diagram 4 yn dangos mai gwarchodwyr plant cofrestredig oedd wedi amlinellu amlaf sut yr oeddent wedi 'gweld gostyngiad/colli refeniw' o ganlyniad i bandemig COVID-19 – ac roedd yn effeithio ar nifer y plant oedd yn mynychu i’r un graddau.

8.2 Dim ond 25% o’r darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar a nododd yn hydref 2021 fod yn rhaid iddynt newid eu model busnes o ganlyniad i bandemig COVID-19 – yr hyn a ddywedwyd amlaf oedd eu bod wedi *“penderfynu bod ar agor am lai o oriau”*, a’r hyn a nodwyd amlaf wedyn oedd penderfyniad i beidio ag agor ar rai boreau.

Yn olaf, nododd 15% o’r gwarchodwyr plant cofrestredig yn hydref 2021 fod yn rhaid iddynt newid eu model busnes o ganlyniad i bandemig COVID-19, gydag addasiadau mynych fel a ganlyn:

- Dechreuodd gwarchodwyr plant gymryd llai o blant
- Cyflwynodd gwarchodwyr plant fwy o hyblygrwydd yn unol â'u horiau a gostyngwyd eu horiau ar rai adegau
- Penderfynodd gwarchodwyr plant i gynyddu lefelau eu ffioedd

Gwahoddwyd holl ddarparwyr gofal plant Ynys Môn wedyn i ddatgan a fyddent hwy/eu lleoliad yn elwa o gyngor, cymorth a/neu hyfforddiant gyda model busnes tymor byr a/neu ganolig. Nododd 20% y byddent a:

- Dywedodd 7.5% (o'r holl ddarparwyr gofal plant a ymatebodd) y byddent yn croesawu cymorth, hyfforddiant a chyngor gyda strategaethau modelu busnes a chynaliadwyedd
- Dywedodd 7.5% hefyd y byddent yn croesawu cymorth, hyfforddiant a chyngor gyda marchnata traddodiadol
- Dywedodd 9% y byddent yn croesawu cymorth, hyfforddiant a chyngor gyda marchnata rhithwir

8.3 Dywedodd 15% o ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar Ynys Môn fod ganddynt ryw fath o gynllun(iau) i barhau i ysgogi cynhyrchu incwm - ac eithrio drwy ddychwelyd i lefelau defnydd cyn COVID-19. Cynlluniau a *ailadroddwyd* oedd:

- Ymgymryd ag ymgyrchoedd codi arian fel *“disgos”* a *“chodi arian”*
- Ymgymryd ag ymgyrch i ddosbarthu taflenni
- Ymestyn hyd amser sesiynau

8.4 Gofynnwyd hefyd i bob un o ddarparwyr gofal plant ffurfiol ardal leol Ynys Môn - h.y. darparwyr gofal dydd llawn a darparwyr gofal sesiynol - yn ystod hydref 2021, a oedd ganddynt unrhyw gynlluniau/bwriadau i gynyddu eu capasiti/datblygu darpariaeth newydd dros y ddwy flynedd nesaf. Dywedodd chwe darparwr gofal plant blynyddoedd cynnar fod ganddynt.

DRAFT

- Lleolwyd pedwar o’r darparwyr hyn yn ward Canolbarth Môn, a rhyngddynt roedd ganddynt uchelgais i ddatblygu 90 o leoedd newydd
- Lleolwyd un darparwr yn ward Llifon, ac roedd ganddo uchelgais i ddatblygu 5 o leoedd newydd a
- Lleolwyd un darparwr yn ward Ynys Gybi, ac roedd ganddo uchelgais i ddatblygu 12 o leoedd newydd


8.5 Yn hydref 2021, dywedodd 7.5% o: (a) ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar a (b) darparwyr gofal plant y tu allan i’r ysgol ffurfiol Ynys Môn eu bod wedi manteisio ar y Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws (COVID-19). Dywedodd (canran ychydig yn uwch o) 13% o (a) ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar a (b) darparwyr gofal plant y tu allan i’r ysgol ffurfiol Ynys Môn hefyd eu bod wedi defnyddio Cynllun Benthyciadau Adfer yn sgil y Coronafeirws.

8.6 Fodd bynnag, dywedodd (llawer mwy) 79% o: (a) ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a (b) darparwyr gofal plant y tu allan i’r ysgol ffurfiol Ynys Môn eu bod wedi manteisio ar Gynllun Cadw Swyddi (CJRS) (canolog) cyfnod y Coronafeirws.

8.7 … Gofynnwyd i bob: a) darparwr gofal plant y blynyddoedd cynnar a (b) darparwr gofal plant y tu allan i’r ysgol *perthnasol* (gweler 8.6 uchod) nodi pa mor hyderus oeddent yn hydref 2021 y byddent yn gallu cadw eu tîm staff presennol yn sgil terfynu’r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws.


DRAFFT

Diagram 5 - Lefelau hyder cadw staff




8.8 Yn dilyn hynny, mae Diagram 6 isod yn nodi ymatebion a gafwyd gan: (a) darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a (b) darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol ynghylch (eu dealltwriaeth o) gymhwysedd ar gyfer y Rhyddhad/Gwyliau Ardrethi Busnes oherwydd COVID-19.


Diagram 6 - Ymatebion gan leoliadau a grwpiau Ynys Môn ynghylch cymhwysedd ar gyfer y Rhyddhad Ardrethi Busnes



Gellir nodi hefyd mai (dim ond) 9.5% o ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar a darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol (perthnasol) a ymatebodd a ddywedodd eu bod yn ymwybodol bod y cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes wedi'i ymestyn am 3 blynedd tan fis Mawrth 2025. Dwedodd y 90.5% arall nad oeddent yn ymwybodol o'r ffaith hon.

8.9 Gofynnwyd i ddarparwyr gofal plant mewn lleoliad a oeddent wedi derbyn grant cynaliadwyedd.

Diagram 7 - Adborth ar grantiau cynaliadwyedd




Yn nhrefn amlder, tarddiad y grantiau a gyrchwyd oedd:

- Cyngor Sir Ynys Môn - Grant Cynaliadwyedd Gofal Plant
- Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant
- https://moondancefoundation.org.uk/

DRAFT

Roedd yr adborth am grantiau gan leoliadau/grwpiau yn gadarnhaol ac yn cynnwys:


*"Defnyddiais y taliad ar gyfer PPE a chostau glanhau ychwanegol."*

*"Fydden ni ddim wedi goroesi heb y grant hwnnw gan yr Awdurdod Lleol – roedd yn hanfodol."*

*"Roedd y taliad yn help i gynnal ein busnes."*


8.10 Yn hydref 2021, gwahoddwyd pob darparwr gofal plant i gadarnhau cyfnod o amser yn cyfateb â pha mor hir yr oeddent yn disgwyl parhau i ddarparu gofal plant:

Diagram 8 - Ymatebion gan: (a) darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a (b) darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol o ran y cyfnod o amser yr oeddent yn disgwyl parhau mewn busnes




DRAFFT

Diagram 9 - Ymatebion gan warchodwyr plant cofrestredig o ran y cyfnod o amser yr oeddent yn disgwyl parhau mewn busnes




DRAFT

8.11 Gwahoddwyd darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol i grynhoi manylion am gynlluniau sy'n cyd-fynd â chynaliadwyedd dros y 18 mis nesaf (hyd at wanwyn 2023).

Tabl 30 - Nifer yr achosion o gynlluniau sy'n cyd-fynd â thema cynaliadwyedd a chymorth parhaus i deuluoedd, hyd at wanwyn 2023 (darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol)

| Cynyddu eich ffioedd am leoedd / darpariaeth lle codir tâl? | | |
|---|---|---|
| Oes, mae cynlluniau ar waith = 41% | Dim cynlluniau, ond efallai = 36% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb =23% |
| Gwella darpariaeth ymhellach ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol? | | |
| Oes, mae cynlluniau ar waith = 49% | Dim cynlluniau, ond efallai = 43% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb = 8% |
| Ymestyn eich oriau agor? | | |
| Oes, mae cynlluniau ar waith = 19% | Dim cynlluniau, ond efallai = 11% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb = 70% |
| Ehangu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cynnig? | | |
| Oes, mae cynlluniau ar waith = 24% | Dim cynlluniau, ond efallai = 17% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb = 59% |
| Helpu i ddiwallu anghenion gweithwyr shifft / y rhai sy'n gweithio y tu allan i oriau swyddfa nodweddiadol, yn well? | | |
| Oes, mae cynlluniau ar waith = 7.5% | Dim cynlluniau, ond efallai = 7.5% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb = 85% |

DRAFT

Tabl 31 - Nifer yr achosion o gynlluniau sy'n cyd-fynd â thema cynaliadwyedd a chymorth parhaus i deuluoedd, hyd at wanwyn 2023 (gwarchodwyr plant)

| | | |
|---|---|---|
| Cynyddu eich ffioedd am leoedd / darpariaeth lle codir tâl? | | |
| Oes, mae cynlluniau ar waith = 33% | Dim cynlluniau, ond efallai = 48% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb = 19% |
| Gwella darpariaeth ymhellach ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol? | | |
| Oes, mae cynlluniau ar waith = 15% | Dim cynlluniau, ond efallai = 63% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb = 22% |
| Ymestyn eich oriau agor? | | |
| Oes, mae cynlluniau ar waith = 4% | Dim cynlluniau, ond efallai = 15% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb = 81% |
| Ehangu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cynnig? | | |
| Oes, mae cynlluniau ar waith = 19% | Dim cynlluniau, ond efallai = 19% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb = 62% |
| Helpu i ddiwallu anghenion gweithwyr shifft / y rhai sy'n gweithio y tu allan i oriau swyddfa nodweddiadol, yn well? | | |
| Oes, mae cynlluniau ar waith = 22% | Dim cynlluniau, ond efallai = 15% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb = 63% |

8.12 Yn y bôn, gwahoddwyd holl (gynrychiolwyr) lleoliadau / darparwyr gofal plant Ynys Môn i nodi'r hyn y byddai eu lleoliad yn ei groesawu fwyaf fel cymorth ***parhaus***, cyngor ac arweiniad gan y Cyngor yn ystod 2022. Y ddau fath o adborth a nodwyd sawl gwaith oedd (yn nhrefn amlder):

1. Parhau i gadw darparwyr yn ymwybodol o *gymorth ariannol* a *grantiau cynaliadwyedd*
2. Help gyda recriwtio staff

Yn ychwanegol, gwahoddwyd yr holl warchodwyr plant i nodi'r hyn y byddai eu lleoliad yn ei groesawu fwyaf fel cymorth ***parhaus***, cyngor ac arweiniad gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn 2022. Y tri math o adborth a nodwyd sawl gwaith oedd (yn nhrefn amlder):

DRAFT

1. Cadw gwarchodwyr plant yn ymwybodol o *gymorth ariannol* a *grantiau cynaliadwyedd*
2. Help a chyngor ynghylch gwella eu darpariaeth o gyfleoedd chwarae yn yr awyr agored
3. Cyngor parhaus am argaeledd cyrsiau hyfforddi - ar themâu sy'n cynnwys

   *"Cefnogi plant ag ADY."*

   *"Cefnogi'r cyfnod pontio i'r ysgol gynradd".*

8.13 Yn olaf, o ran thema cynaliadwyedd, gellir nodi yn ystod y cyfnod Mawrth 2020 – Mawrth 2022:

- O ran **darpariaethau gofal plant y blynyddoedd cynnar**, roedd insert cofrestriad AGC newydd a insert dadgofrestriad AGC o fewn ardal leol Ynys Môn
- O ran **gwarchodwyr plant cofrestredig**, roedd insert cofrestriad AGC newydd a insert dadgofrestriadau AGC o fewn ardal leol Ynys Môn ac
- O ran **darpariaethau gofal plant y tu allan i'r ysgol**, roedd insert cofrestriad AGC newydd a insert dadgofrestriad AGC o fewn ardal leol Ynys Môn.

DRAFFT

## 9 Dadansoddiad trawsffiniol

9.1 Dylid nodi nad yw Ynys Môn ond yn rhannu ffin ag un awdurdod lleol arall - sef Gwynedd wrth gwrs. Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn cysylltu'n agos â'i gilydd, gan gynnwys o safbwynt datblygu cynlluniau strategol ar y cyd.

9.2 Mewn ymateb i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2021: dywedodd (dim ond) dau o rieni a ymatebodd, a oedd yn amlwg yn byw ar Ynys Môn, eu bod wedi cyrchu lle mewn addysg blynyddoedd cynnar y telir amdano mewn ardal awdurdod lleol wahanol: sef Gwynedd.

9.3 Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Ynys Môn (Teulu Môn) yn parhau i ddal manylion darparwyr gofal plant a darparwyr gwasanaeth o fewn ei ardal Awdurdod Lleol, ynghyd â gweithio'n agos iawn â Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd cyfagos, ac mae o wedi cyfeirio teuluoedd ymlaen i'w gwasanaethau cyfatebol mewn ardaloedd eraill.

DRAFFT

# 10 COVID-19

Gwelodd Ynys Môn y modd yr oedd COVID-19 yn cyflwyno heriau enfawr i'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yn yr ardal.

Yn berthnasol iawn, roedd yr adroddiad Sgyrsiau Cenedlaethol gyda'r Sector Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021, yn amlinellu'r modd y teimlai gweithwyr gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar nad oeddynt yn cael eu gwerthfawrogi digon yn ystod y pandemig COVID-19.
Roedd yr adroddiad - a oedd yn canolbwyntio ar nifer o themâu a oedd yn effeithio'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant, gan gynnwys lles a moral staff, y cymorth a oedd ar gael i fusnesau, ynghyd â staffio, a hyfforddiant a chymwysterau - yn amlinellu'r modd y teimlai'r sector nad oedd y cyfathrebiadau a dderbyniwyd ganddynt gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig bob amser yn glir, ac nad oeddynt yn teimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Yn y bôn, daeth yr adroddiad i'r casgliad *"cyfathrebwyd gyda'r sector yn aml, ond oherwydd tirwedd bythol-newidiol COVID-19 ni chlywyd bob un o'r negeseuon".*

Yn y bôn, dywedodd nifer o ddarparwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant a leolwyd yng Nghymru wrth ymchwilwyr eu bod wedi profi rhai problemau o safbwynt staffio a bod ganddynt bryderon am gynaliadwyedd.

10.1 Dangosodd ymchwil cenedlaethol, yr ymgymerwyd ag ef yn ystod y cyfnod o 2020 i ddechrau 2022, bod iechyd meddwl a llesiant: (a) perchnogion a (b) staff, ar bob lefel o fewn busnesau gofal plant, yn cael eu heffeithio gan yr heriau a grëwyd gan COVID-19.

Fel rhan o arolwg hydref 2021 gyda darparwyr gofal plant lleol Ynys Môn, gofynnodd yr awdurdod lleol a welodd ymatebwyr unrhyw enghreifftiau o broblemau iechyd meddwl yn gysylltiedig â COVID-19, gan gynnwys rhai yn ymwneud â straen a gorbryder ynghylch cynaliadwyedd (ar thema COVID)?

Dywedodd 39% o'r ymatebwyr a oedd yn cynrychioli darparwyr gofal plant (gwarchodwyr plant, perchnogion a rheolwyr fel rheol) eu bod wedi profi heriau a/neu orbryder iechyd meddwl yn bersonol.

Dywedodd 40% o'r ymatebwyr perthnasol y gwelwyd enghreifftiau o aelodau'r tîm yn profi heriau a/neu orbryder iechyd meddwl.

Roedd adborth gan gynrychiolwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol *yn cynnwys*:

DRAFFT

*“Byddai adnodd lle byddem yn gwybod y gallwn gael help wedi bod yn dda, ond roedd y Cyngor yn cynnig cefnogaeth dda iawn.”*

*“Cefais fynychu hyfforddiant meddwl a llesiant, ac roedd hyn yn ddefnyddiol”.*

*“Yn aml, mae gwarchod plant yn rhywbeth unig, a gallai cynlluniau cyfeillio fod wedi helpu”.*

10.2 Gwahoddwyd pob darparwr gofal plant i nodi sut y byddent yn dosbarthu'n fras sut yr oedd eu rhieni/teuluoedd yn teimlo o ran eu plentyn/plant yn mynychu/ailfynychu eu lleoliad, ynghlwm â COVID-19.

Dywedodd 98% o’r ymatebwyr: mae’n ymddangos bod y mwyafrif yn hapus erbyn hyn gyda’r 2% (yn unig) sydd ar ôl gan ddweud: mae'n rhaniad eithaf cyfartal rhwng y rhai sydd o blaid, a'r rhai sydd â phryderon parhaus.

10.3 Yn ogystal, amlygodd ymatebion Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth SASS Gorffennaf 2021:

Fod 96% o'r darparwyr gofal plant a ymatebodd wedi datgan eu bod wedi gorfod cau ar ryw adeg – hyd at y dyddiad hwnnw – o ganlyniad i COVID-19.


Dywedodd 11% o'r darparwyr gofal plant a ymatebodd eu bod wedi gweld achos(ion) positif o COVID-19 cyn mis Gorffennaf 2021, gyda 36% o ddarparwyr o'r fath yn dweud bod ganddynt o leiaf un aelod o staff a oedd wedi dal COVID-19 (hefyd, yn ogystal â’r (eu) plant).

10.4 Dywedodd 70% o'r holl ddarparwyr gofal plant nad oeddent, ym mis Gorffennaf 2021, yn gweithredu'n llawn o ganlyniad i COVID-19.

DRAFFT

10.5 Gofynnwyd i bob darparwr gofal plant a ymatebodd i arolwg hydref 2021 nodi a wnaethant unrhyw newidiadau contractiol gydag unrhyw rieni / gofalwyr o ganlyniad i COVID-19?

<u>Diagram 10 - Nifer yr achosion o newidiadau contractiol a wnaed gan ddarparwyr gofal plant Ynys Môn sy'n ymwneud â COVID-19</u>




10.6 Gofynnwyd i bob darparwr gofal plant a ymatebodd i arolwg hydref 2021 nodi a fyddent yn croesawu unrhyw gyngor neu gymorth pellach yn nhermau polisi / asesiad risg 'diogelu eich lleoliad' COVID-19, neu bolisi / protocol staff a rhieni. Dywedodd (dim ond) 6% y byddent - ac roedd y ceisiadau gan y darparwyr gofal plant hyn yn cynnwys:

*"Cyngor parhaus ynghylch ymgymryd ag asesiad risg".*

*"Os yw COVID-19 yn digwydd eto, cael rhestr wirio, o'r math dwi'n meddwl bod ysgolion yn ei derbyn?".*

DRAFT

## 11 Poblogaeth, Demograffeg a Phroffil Economaidd-gymdeithasol

11.1 Mae Tabl 32 yn amlinellu'r boblogaeth plant 0-14 oed sy'n cyd-fynd â phob LSOA yn ardal leol Ynys Môn, fel y rhagwelwyd gan Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2020 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar gyfer Wardiau yn 2020 ac ALl yn 2021 yng Nghymru.

Tabl 32 - Poblogaeth plant 0-14 yn LSOAs Ynys Môn

Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2020 ar gyfer Wardiau 2020 (SYG)

| Cod ac Enw'r LSOA | 0-12m | 1 oed | 2 oed | 3 oed | 4 oed | 5 oed | 6 oed | 7 oed | 8 oed | 9 oed | 10 oed | 11 oed | 12 oed | 13 oed | 14 oed | 15 oed | 16 oed | 17 oed | 18 oed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| W01000001 Aberffraw a Rhosneigr 1 | 5 | 9 | 11 | 10 | 12 | 11 | 8 | 6 | 8 | 10 | 4 | 5 | 3 | 2 | 9 | 5 | 13 | 8 | 15 |
| W01000002 Aberffraw a Rhosneigr 2 | 11 | 8 | 9 | 11 | 11 | 16 | 12 | 23 | 10 | 9 | 8 | 7 | 12 | 12 | 11 | 10 | 8 | 9 | 6 |
| W01000003 Porth Amlwch | 26 | 21 | 28 | 32 | 23 | 22 | 36 | 27 | 36 | 37 | 27 | 28 | 28 | 31 | 27 | 20 | 22 | 26 | 27 |
| W01000004 Amlwch Wledig | 11 | 10 | 13 | 10 | 12 | 11 | 13 | 8 | 8 | 13 | 8 | 17 | 13 | 15 | 8 | 12 | 12 | 13 | 13 |
| W01000005 Biwmares | 10 | 17 | 12 | 20 | 14 | 25 | 16 | 14 | 14 | 7 | 12 | 9 | 13 | 9 | 15 | 21 | 20 | 16 | 13 |
| W01000006 Bodffordd | 15 | 8 | 10 | 20 | 16 | 18 | 15 | 19 | 19 | 13 | 15 | 15 | 14 | 7 | 17 | 14 | 14 | 17 | 16 |
| W01000007 Bodorgan | 14 | 14 | 11 | 14 | 13 | 22 | 19 | 19 | 20 | 25 | 13 | 18 | 14 | 14 | 12 | 19 | 25 | 16 | 19 |
| W01000008 Braint | 7 | 7 | 7 | 8 | 9 | 8 | 22 | 10 | 25 | 24 | 14 | 22 | 14 | 13 | 13 | 19 | 14 | 12 | 17 |
| W01000009 Bryngwran | 12 | 21 | 26 | 21 | 31 | 24 | 28 | 26 | 30 | 27 | 27 | 22 | 23 | 23 | 19 | 20 | 18 | 23 | 25 |
| W01000010 Brynteg | 13 | 14 | 12 | 18 | 13 | 17 | 20 | 9 | 17 | 16 | 11 | 17 | 16 | 28 | 13 | 9 | 10 | 18 | 15 |
| W01000011 Cadnant | 5 | 4 | 6 | 9 | 6 | 6 | 5 | 11 | 2 | 5 | 7 | 5 | 11 | 5 | 6 | 12 | 7 | 13 | 5 |
| W01000012 Cefni | 10 | 11 | 18 | 19 | 14 | 18 | 30 | 17 | 28 | 20 | 26 | 23 | 29 | 17 | 26 | 23 | 21 | 18 | 13 |
| W01000013 Cwm Cadnant | 23 | 17 | 24 | 14 | 28 | 19 | 24 | 26 | 24 | 25 | 34 | 28 | 18 | 23 | 24 | 24 | 28 | 27 | 25 |
| W01000014 Cyngar | 25 | 25 | 26 | 29 | 27 | 30 | 33 | 31 | 29 | 29 | 29 | 22 | 26 | 28 | 14 | 16 | 28 | 19 | 22 |
| W01000015 Gwyngyll | 8 | 9 | 10 | 9 | 10 | 12 | 12 | 17 | 15 | 15 | 18 | 12 | 17 | 32 | 19 | 10 | 15 | 14 | 19 |
| W01000016 Tref Caergybi | 17 | 15 | 22 | 13 | 24 | 16 | 12 | 15 | 10 | 21 | 22 | 12 | 21 | 12 | 18 | 17 | 17 | 13 | 17 |
| W01000017 Kingsland | 8 | 10 | 21 | 20 | 22 | 21 | 23 | 29 | 28 | 30 | 31 | 25 | 26 | 29 | 27 | 16 | 15 | 20 | 16 |
| W01000018 Llanbadrig | 12 | 6 | 11 | 10 | 14 | 12 | 14 | 13 | 15 | 5 | 18 | 16 | 16 | 15 | 11 | 13 | 11 | 15 | 10 |
| W01000019 Llanbedrgoch | 6 | 5 | 9 | 16 | 10 | 4 | 1 | 5 | 2 | 3 | 9 | 12 | 9 | 8 | 10 | 10 | 10 | 10 | 11 |
| W01000020 Llanddyfnan | 15 | 8 | 11 | 15 | 5 | 7 | 12 | 13 | 14 | 13 | 12 | 10 | 19 | 10 | 13 | 13 | 11 | 15 | 14 |
| W01000021 Llaneilian | 12 | 21 | 23 | 15 | 29 | 23 | 26 | 25 | 29 | 29 | 16 | 19 | 16 | 20 | 11 | 15 | 11 | 15 | 15 |
| W01000022 Llanfaethlu | 8 | 6 | 12 | 8 | 9 | 15 | 9 | 22 | 9 | 20 | 14 | 20 | 22 | 18 | 20 | 16 | 16 | 19 | 17 |
| W01000023 Llanfair-yn-Neubwll 1 | 9 | 25 | 18 | 28 | 27 | 19 | 27 | 24 | 27 | 21 | 15 | 13 | 19 | 14 | 20 | 10 | 13 | 14 | 21 |
| W01000024 Llanfair-yn-Neubwll 2 | 18 | 22 | 28 | 21 | 32 | 17 | 25 | 28 | 15 | 22 | 31 | 22 | 25 | 18 | 17 | 20 | 14 | 8 | 5 |
| W01000025 Llanfihangel Ysgeifiog | 23 | 19 | 19 | 15 | 20 | 27 | 27 | 30 | 29 | 18 | 17 | 33 | 27 | 18 | 22 | 30 | 32 | 25 | 27 |
| W01000026 Llangoed | 7 | 4 | 8 | 7 | 8 | 4 | 10 | 6 | 13 | 13 | 15 | 10 | 13 | 11 | 14 | 8 | 11 | 8 | 6 |
| W01000027 Llanidan | 20 | 10 | 18 | 20 | 23 | 12 | 20 | 25 | 25 | 26 | 28 | 26 | 24 | 28 | 24 | 21 | 17 | 16 | 12 |

| Cod ac Enw'r LSOA | 0-12m | 1 oed | 2 oed | 3 oed | 4 oed | 5 oed | 6 oed | 7 oed | 8 oed | 9 oed | 10 oed | 11 oed | 12 oed | 13 oed | 14 oed | 15 oed | 16 oed | 17 oed | 18 oed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| W01000028 Llannerch-y-medd | 24 | 20 | 25 | 25 | 25 | 28 | 31 | 30 | 32 | 32 | 37 | 27 | 33 | 33 | 17 | 29 | 15 | 22 | 23 |
| W01000029 Ffordd Llundain | 12 | 21 | 16 | 19 | 18 | 26 | 16 | 28 | 32 | 27 | 14 | 36 | 26 | 18 | 34 | 16 | 22 | 18 | 13 |
| W01000030 Maeshyfryd | 34 | 22 | 30 | 27 | 30 | 29 | 31 | 29 | 32 | 38 | 35 | 40 | 28 | 27 | 35 | 18 | 27 | 20 | 23 |
| W01000031 Mechell | 4 | 16 | 6 | 15 | 15 | 12 | 16 | 15 | 14 | 18 | 13 | 9 | 22 | 12 | 13 | 18 | 13 | 14 | 20 |
| W01000032 Moelfre | 4 | 8 | 2 | 6 | 6 | 9 | 9 | 14 | 7 | 9 | 14 | 9 | 15 | 5 | 12 | 1 | 6 | 2 | 4 |
| W01000033 Morawelon | 21 | 15 | 25 | 22 | 25 | 22 | 17 | 30 | 22 | 21 | 25 | 32 | 25 | 20 | 19 | 18 | 22 | 21 | 22 |
| W01000034 Parc a'r Mynydd | 11 | 11 | 11 | 16 | 18 | 13 | 13 | 28 | 24 | 16 | 10 | 23 | 19 | 15 | 17 | 15 | 16 | 11 | 12 |
| W01000035 Pentraeth | 17 | 16 | 18 | 23 | 22 | 19 | 24 | 24 | 21 | 29 | 19 | 24 | 22 | 23 | 23 | 14 | 20 | 16 | 14 |
| W01000036 Porthyfelin 1 | 12 | 11 | 16 | 20 | 17 | 8 | 15 | 14 | 12 | 8 | 14 | 8 | 11 | 13 | 11 | 14 | 9 | 16 | 11 |
| W01000037 Porthyfelin 2 | 6 | 11 | 7 | 7 | 14 | 6 | 8 | 11 | 9 | 14 | 18 | 13 | 17 | 17 | 23 | 14 | 24 | 12 | 13 |
| W01000038 Rhosyr | 16 | 15 | 16 | 18 | 19 | 26 | 19 | 19 | 25 | 25 | 32 | 21 | 26 | 10 | 26 | 20 | 20 | 22 | 18 |
| W01000039 Trearddur 1 | 5 | 8 | 8 | 6 | 5 | 2 | 5 | 5 | 7 | 5 | 6 | 11 | 7 | 6 | 11 | 8 | 13 | 11 | 15 |
| W01000040 Trearddur 2 | 3 | 5 | 8 | 5 | 3 | 7 | 6 | 8 | 8 | 5 | 8 | 9 | 13 | 12 | 9 | 8 | 3 | 8 | 8 |
| W01000041 Tudur | 22 | 31 | 27 | 32 | 30 | 26 | 30 | 23 | 40 | 26 | 26 | 25 | 27 | 32 | 27 | 24 | 24 | 30 | 23 |
| W01000042 Tysilio | 20 | 21 | 27 | 25 | 23 | 19 | 25 | 27 | 21 | 21 | 39 | 21 | 21 | 32 | 20 | 17 | 29 | 23 | 20 |
| W01000043 Y Fali 1 | 8 | 11 | 14 | 16 | 12 | 14 | 15 | 19 | 11 | 18 | 10 | 18 | 16 | 9 | 17 | 7 | 16 | 13 | 11 |
| W01000044 Y Fali 2 | 7 | 5 | 7 | 5 | 5 | 3 | 8 | 11 | 10 | 15 | 7 | 5 | 8 | 9 | 8 | 12 | 14 | 6 | 8 |



Mae Tabl 33 yn dangos mai'r tair LSOA sydd â'r **lefelau uchaf o blant 0-4 oed o fewn y boblogaeth** yw:

1. Maeshyfryd
2. Tudur
3. Cyngar

Y tair LSOA sydd â'r **lefelau uchaf o blant 5-7 oed o fewn y boblogaeth** yw:

1. Cyngar
2. Llannerch-y-medd
3. Maeshyfryd

DRAFT

Y tair LSOA sydd â'r **lefelau uchaf o blant 8-11 oed o fewn y boblogaeth** yw:

1. Maeshyfryd
2. Porth Amlwch
3. Llannerch-y-medd

Yn olaf, y tair LSOA sydd â'r **lefelau uchaf o blant 12-14 oed o fewn y boblogaeth** yw:

1. Llannerch-y-medd
2. Porth Amlwch
3. Tudur



DRAFFT

11.2 Yn ogystal, mae Tabl 34 isod yn dangos, o safbwynt rhaglen Dechrau'n Deg, mai'r LSOAs sy'n cyfrif am y nifer uchaf o blant 2-3 oed sy'n byw ynddynt yw LSOA Porth Amlwch, a ddilynir wedyn gan LSOA Tudur o ran nifer.

<u>Tabl 34 - Y boblogaeth o blant 2-3 oed yn LSOAs Ynys Môn</u>
Ffynhonnell: SYG 2020

| LSOA | Poblogaeth o blant 2 oed | Poblogaeth o blant 3 oed | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| W01000001 Aberffraw a Rhosneigr 1 | 11 | 10 | 21 |
| W01000002 Aberffraw a Rhosneigr 2 | 9 | 11 | 20 |
| W01000003 Porth Amlwch | 28 | 32 | 60 |
| W01000004 Amlwch Wledig | 13 | 10 | 23 |
| W01000005 Biwmares | 12 | 20 | 32 |
| W01000006 Bodffordd | 10 | 20 | 30 |
| W01000007 Bodorgan | 11 | 14 | 25 |
| W01000008 Braint | 7 | 8 | 15 |
| W01000009 Bryngwran | 26 | 21 | 47 |
| W01000010 Brynteg | 12 | 18 | 30 |
| W01000011 Cadnant | 6 | 9 | 15 |
| W01000012 Cefni | 18 | 19 | 37 |
| W01000013 Cwm Cadnant | 24 | 14 | 38 |
| W01000014 Cyngar | 26 | 29 | 55 |
| W01000015 Gwyngyll | 10 | 9 | 19 |
| W01000016 Tref Caergybi | 22 | 13 | 35 |
| W01000017 Kingsland | 21 | 20 | 41 |
| W01000018 Llanbadrig | 11 | 10 | 21 |
| W01000019 Llanbedrgoch | 9 | 16 | 25 |
| W01000020 Llanddyfnan | 11 | 15 | 26 |
| W01000021 Llaneilian | 23 | 15 | 38 |

DRAFT

| LSOA | Poblogaeth o blant 2 oed | Poblogaeth o blant 3 oed | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| W01000022 Llanfaethlu | 12 | 8 | 20 |
| W01000023 Llanfair-yn-Neubwll 1 | 18 | 28 | 46 |
| W01000024 Llanfair-yn-Neubwll 2 | 28 | 21 | 49 |
| W01000025 Llanfihangel Ysgeifiog | 19 | 15 | 34 |
| W01000026 Llangoed | 8 | 7 | 15 |
| W01000027 Llanidan | 18 | 20 | 38 |
| W01000028 Llannerch-y-medd | 25 | 25 | 50 |
| W01000029 Ffordd Llundain | 16 | 19 | 35 |
| W01000030 Maeshyfryd | 30 | 27 | 57 |
| W01000031 Mechell | 6 | 15 | 21 |
| W01000032 Moelfre | 2 | 6 | 8 |
| W01000033 Morawelon | 25 | 22 | 47 |
| W01000034 Parc a'r Mynydd | 11 | 16 | 27 |
| W01000035 Pentraeth | 18 | 23 | 41 |
| W01000036 Porthyfelin 1 | 16 | 20 | 36 |
| W01000037 Porthyfelin 2 | 7 | 7 | 14 |
| W01000038 Rhosyr | 16 | 18 | 34 |
| W01000039 Trearddur 1 | 8 | 6 | 14 |
| W01000040 Trearddur 2 | 8 | 5 | 13 |
| W01000041 Tudur | 27 | 32 | 59 |
| W01000042 Tysilio | 27 | 25 | 52 |
| W01000043 Valley 1 | 14 | 16 | 30 |
| W01000044 Valley 2 | 7 | 5 | 12 |

DRAFT

11.2 **Adroddodd amcanestyniadau poblogaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018 y rhagwelir y bydd poblogaeth Ynys Môn yn** insert **yn ystod y cyfnod 2018-2028.**

Roedd Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdod Lleol SYG 2018 yn dangos bod gan Ynys Môn boblogaeth o 69,800 (34,400 o wrywod a 35,400 o fenywod) ar y pryd. Er bod poblogaeth yr ynys wedi gweld twf o tua 3.1% ers Cyfrifiad 2001, **mae amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru yn rhagweld, rhwng 2022-2039, y ceir *gostyngiad* cyffredinol net o bron i 2,000 o bobl neu 2.6% o boblogaeth yr ynys.**

Hefyd mae dogfen Llywodraeth Cymru yn 2018: *Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol i Gymru*, yn rhagweld *gostyngiad* o ran y boblogaeth: sef, yn yr achos hwn, gostyngiad o 0.4% rhwng y cyfnod 2018-2043.

11.3 Yn nhermau cyfraddau geni ar gyfer ar gyfer yr ardal leol, mae Tabl 38 yn manylu ar fetrigau pob un o wardiau'r ardaloedd ar gyfer y flwyddyn 2019 – h.y. plant a fydd (neu'n agos at fod) o fewn oedran rhaglen Dechrau'n Deg.

Tabl 35 - Cyfraddau genedigaethau Blwyddyn 2019 ar gyfer ardal leol Ynys Môn

Ffynhonnell: SYG 2020

| Enw'r Ward | Cyfradd geni/nifer 2019 |
|---|---|
| Aethwy | 40 |
| Bro Aberffraw | 26 |
| Bro Rhosyr | 43 |
| Caergybi | 81 |
| Canolbarth Môn | 103 |
| Llifon | 45 |
| Lligwy | 39 |
| Seiriol | 35 |
| Talybolion | 39 |
| Twrcelyn | 57 |
| Ynys Gybi | 49 |

Yn ôl Tabl 35, y ward â'r nifer uchaf o enedigaethau newydd cyn y pandemig oedd Canolbarth Môn, a ddilynwyd wedyn gan ward Caergybi.

DRAFFT

11.4 Mae Tabl 36 yn dangos mewnfudo ac allfudo ar gyfer yr ardal leol ar gyfer y cyfnod 2018-2020. Mae’r Tabl yn dangos bod y mewnlif, yn enwedig mewnlif rhyngwladol, yn uwch na’r all-lif o bobl. Roedd blynyddoedd blaenorol wedi dangos union yr un faint o achosion, ac mae cyfran y mewnlif o'i gymharu â’r all-lif wedi bod yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

Ffynhonnell: SYG 2019

| | Canol 2018 – Canol 2020 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | Amcangyfrif Pob. Canol 2019 = 70,043 | Ymfudo Rhyngwladol Hirdymor | | Ymfudo Mewnol (o fewn y Deyrnas Gyfunol) | |
| | | Mewnlif | All-lif | Mewnlif | All-lif |
| | | 116 | 53 | 2,517 | 2,293 |
| | Amcangyfrif Pob. Canol 2020 = 70,440 | Ymfudo Rhyngwladol Hirdymor | | Ymfudo Mewnol (o fewn y Deyrnas Gyfunol) | |
| | | Mewnlif | All-lif | Mewnlif | All-lif |
| | | 102 | 42 | 2,350 | 1,800 |

11.5 O ran ethnigrwydd, mae Tabl 37 yn dangos nifer y plant a oedd yn byw yn yr ardal yn 2019 a oedd o gefndiroedd penodol.

Tabl 37 - nifer y plant a’r bobl ifanc sy’n byw yn ardal leol Ynys Môn yn 2019 sydd o gefndiroedd ethnig penodol

Ffynhonnell: SYG 2019

| Oedran | Gwyn | Gwyn Prydeinig | Cymysg | Asiaidd | Du | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 0 | 573 | 562 | 12 | 3 | 1 | 5 |
| 1 | 658 | 645 | 13 | 3 | 1 | 5 |
| 2 | 689 | 675 | 14 | 4 | 1 | 6 |
| 3 | 718 | 703 | 14 | 4 | 1 | 5 |
| 4 | 669 | 656 | 13 | 3 | 1 | 6 |
| 5 | 757 | 741 | 15 | 4 | 1 | 6 |
| 6 | 806 | 790 | 16 | 4 | 1 | 6 |
| 7 | 802 | 785 | 16 | 4 | 1 | 6 |
| 8 | 794 | 777 | 16 | 4 | 1 | 3 |

DRAFT

| Oedran | Gwyn | Gwyn Prydeinig | Cymysg | Asiaidd | Du | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | 777 | 765 | 11 | 10 | 0 | 2 |
| 10 | 783 | 777 | 10 | 11 | 1 | 4 |
| 11 | 790 | 782 | 14 | 5 | 0 | 4 |
| 12 | 728 | 716 | 8 | 11 | 1 | 4 |
| 13 | 745 | 738 | 10 | 2 | 0 | 3 |
| 14 | 662 | 653 | 7 | 4 | 1 | 5 |

Yn nhermau ethnigrwydd pobl ifanc sy'n byw ar Ynys Môn, dengys Tabl 7 nifer y plant hyd at 14 oed a oedd yn byw yn yr ardal leol yn 2019 o gefndiroedd penodol. Mae'n dangos bod y mwyafrif o'r plant a phobl ifanc a oedd yn byw ar yr ynys yn Wyn Prydeinig. Fodd bynnag, ceir poblogaeth nodedig o blant a phobl ifanc sy'n cynrychioli ethnigrwydd a chefndiroedd eraill, ac mae hyn yn debygol o gynyddu yn ystod y cyfnod 2022-2025, gan gynnwys o ganlyniad i'r argyfwng ffoaduriaid cyfoes.



11.6 Mae gan Ynys Môn nifer gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg, gyda thua 63% o breswylwyr yn gallu siarad Cymraeg - sef y ganran uchaf ond un o blith awdurdodau lleol Cymru. Yn nhermau nifer y siaradwyr Cymraeg yn ardal leol Ynys Môn, mae ystorfa StatsCymru yn dangos, yn 2019, bod bron i 2:3 o boblogaeth Ynys Môn yn gallu siarad Cymraeg - Tabl 38:

Ffynhonnell: StatsCymru:

| Ardal | Pawb sy'n 3 oed a throsodd | Ydw, yn gallu siarad Cymraeg | Nac ydw, ddim yn gallu siarad Cymraeg | Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|
| Cymru | 3,022,900 | 892,200 | 2,128,700 | 29.5% |
| Ynys Môn | 67,500 | 42,600 | 24,700 | 63.3% |

Yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd gan Menter Iaith Môn yng ngwanwyn 2021, nodwyd bod 78% o bobl yr ynys a anwyd yng Nghymru yn gallu siarad yr iaith, gyda 11% arall yn gallu ei deall. Roedd y siaradwyr Cymraeg yn amrywio o 58.8% yng nghyffiniau Caergybi, i 90.4% yng nghanolbarth Ynys Môn.

DRAFFT

Fodd bynnag, dywed fod allfudiad siaradwyr Cymraeg iau, ynghyd â mewnfudiad pobl hŷn nad ydynt yn siarad Cymraeg, yn ‘Seisnigo’ ardaloedd ac yn effeithio cynaliadwyedd yr iaith. Roedd yr adroddiad yn amlinellu’r modd y caiff disgyblion ysgol Ynys Môn eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg y rhan fwyaf o’r amser (86.8%), ond dim ond 49.1% o’r plant oedd yn siarad Cymraeg yn rheolaidd adref. Daeth yr adroddiad i’r casgliad *“gan edrych ar y tueddiadau dros y 50 mlynedd diwethaf, mae cynnydd yn y boblogaeth yn arwain at ostyngiad yng nghanrannau siaradwyr Cymraeg”.*

11.7 Mae Tabl 39 yn dangos nifer yr achosion o blant ag ADY sy’n byw ar Ynys Môn.

Tabl 39 - Nifer yr achosion o blant ag ADY ar Ynys Môn yn 2020-2021 (cyn i’r Cod ADY ddod i rym ym mis Medi 2021)
Ffynhonnell: StatsCymru

| Lleoliad | Yr Holl Anghenion Addysgol Arbennig | | | | Yr Holl Anghenion Addysgol Arbennig/ADY |
|---|---|---|---|---|---|
| | Â datganiad | Cyfanswm: Anghenion Addysgol Arbennig ond heb Ddatganiad AAA | | Cyfanswm: Anghenion Addysgol Arbennig ond heb Ddatganiad AAA | |
| | | Gweithredu gan yr Ysgol | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | | |
| Cymru | 14,082 | 46,790 | 31,816 | 78,606 | 92,688 |
| Ynys Môn | 300 | 1,322 | 659 | 1,981 | 2,281 |

Mae Gwasanaeth Plant Arbenigol Ynys Môn yn dîm integredig gydag aelodau o’r Gwasanaethau Iechyd a’r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi’u lleoli o fewn eiddo’r awdurdod lleol. Mae’r tîm yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ADY 0-17 oed a’u teuluoedd sydd ag anghenion cymhleth lluosog na ellir eu diwallu gan wasanaethau cyffredinol neu rai a dargedir. Mae’r amrywiaeth o anghenion yn cynnwys plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu, namau corfforol, ynghyd â salwch cronig gydol oes/cyflyrau meddygol. Mae’r tîm yn cynnwys Gweithwyr Cymdeithasol, Nyrsys Anabledd Dysgu Pediatrig Cymunedol, Cymorthyddion Nyrsio, Seicoleg Glinigol Anabledd Dysgu Pediatrig, Therapydd Galwedigaethol, Cydlynydd Pontio, Swyddog Cynhwysiant a Lles, Rheolwr Gweithwyr Cefnogi’r Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd â Thîm o Weithwyr Cefnogi, Gweinyddwr y Gwasanaeth.

Ym mis Medi 2021, roedd y gwasanaeth yn gweithio gyda 194 o blant a phobl ifanc 0-18 oed. O’r rhain, roedd gan 116 anabledd dysgu, gan gynnwys y rheiny ag ASD, ADHD. Roedd plant eraill a oedd yn agored i’r gwasanaeth yn cynnwys 32 gyda namau gorfforol, a 22 gyda salwch cronig ac anghenion iechyd cymhleth.

DRAFT

11.8 Dengys Tabl 40 yr achosion o Blant sy'n Derbyn Gofal sy'n byw ar Ynys Môn yn 2021.

Tabl 40 - Nifer yr achosion o blant LAC sy'n byw ar Ynys Môn yn 2021
Ffynhonnell: StatsCymru

| Ardal | O dan 1 oed | 1-4 oed | 5-9 oed | 10-15 oed | 16-17 oed | 18 oed a throsodd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer ym Môn | 0 | 35 | 40 | 55 | 25 | 0 |

11.9 Roedd adroddiad 2016-2017: Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd yn adrodd fel a ganlyn:

- Yng nghyfrifiad 2011, roedd 65 o bobl ar Ynys Môn a oedd yn datgan eu bod yn Sipsiwn neu'n Deithwyr Gwyddelig o ran eu tarddiad ethnig. Roedd y cyfanswm hwn yn cynnwys pob grŵp oedran, felly roedd yn cynnwys plant.
- Ar ôl dadansoddi'r wybodaeth hon ymhellach, ar draws 40 ardal ward Ynys Môn, cafwyd fod y 65 wedi'u gwasgaru'n eang ar draws Ynys Môn, a dim ond un ardal ward oedd â mwy na 10 o bobl a oedd yn nodi eu bod yn Sipsiwn neu'n Deithwyr Gwyddelig yn y cyfrifiad.

11.10 Yn nhermau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019[13], roedd Ynys Môn yn un o 12 Awdurdod Lleol nad oedd ganddynt unrhyw ardaloedd bach/LSOAs o amddifadedd hirsefydlog (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir y Fflint, Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Bro Morgannwg, Torfaen, Casnewydd, a Sir Fynwy). Nid yw hyn yn golygu nad oes unrhyw ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd o fewn yr Awdurdodau Lleol hyn ar hyn o bryd.

Yn nhermau dangosydd yr amgylchedd ffisegol, nid oedd gan Ynys Môn unrhyw ardaloedd ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig. Yn nhermau'r dangosydd addysg, nid oedd gan Ynys Môn unrhyw ardaloedd ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Y LSOA o fewn Ynys Môn sydd yn amlwg yn cyfrif am y lefelau uchaf o anfantais gymharol yw ardal leol Tref Caergybi - gweler Tabl 41 dros y dudalen.

[13] https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-11/welsh-index-multiple-deprivation-2019-results-report-024.pdf





DRAFFT

Tabl 41 - Safleoedd ardaloedd LSOA Ynys Môn o ran dangosyddion amddifadedd cyffredinol (allan o 1,909 LSOA yng Nghymru)
Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019

| Cod LSOA | Enw'r LSOA | Safle WIMD 2019 (allan o 1,909) |
|---|---|---|
| W01000001 | Aberffraw a Rhosneigr 1 | 885 |
| W01000002 | Aberffraw a Rhosneigr 2 | 1,324 |
| W01000003 | Porth Amlwch | 550 |
| W01000004 | Amlwch Wledig | 1,100 |
| W01000005 | Biwmares | 1,065 |
| W01000006 | Bodffordd | 1,116 |
| W01000007 | Bodorgan | 1,036 |
| W01000008 | Braint | 1,820 |
| W01000009 | Bryngwran | 819 |
| W01000010 | Brynteg | 1,624 |
| W01000011 | Cadnant (Ynys Mon) | 1,377 |
| W01000012 | Cefni | 1,494 |
| W01000013 | Cwm Cadnant | 1,777 |
| W01000014 | Cyngar | 1,194 |
| W01000015 | Gwyngyll | 1,704 |
| W01000016 | Tref Caergybi | 168 |
| W01000017 | Kingsland | 486 |
| W01000018 | Llanbadrig | 1,145 |
| W01000019 | Llanbedrgoch | 1,233 |
| W01000020 | Llanddyfnan | 1,424 |
| W01000021 | Llaneilian | 1,044 |
| W01000022 | Llanfaethlu | 857 |
| W01000023 | Llanfair-yn-Neubwll 1 | 985 |

DRAFT

| Cod LSOA | Enw’r LSOA | Safle WIMD 2019 (allan o 1,909) |
|---|---|---|
| W01000024 | Llanfair-yn-Neubwll 2 | 1,050 |
| W01000025 | Llanfihangel Ysgeifiog | 1,300 |
| W01000026 | Llangoed | 946 |
| W01000027 | Llanidan | 954 |
| W01000028 | Llannerch-y-medd | 727 |
| W01000029 | Ffordd Llundain | 366 |
| W01000030 | Maeshyfryd | 353 |
| W01000031 | Mechell | 864 |
| W01000032 | Moelfre | 1,053 |
| W01000033 | Morawelon | 224 |
| W01000034 | Parc a'r Mynydd | 1,196 |
| W01000035 | Pentraeth | 1,087 |
| W01000036 | Porthyfelin 1 | 316 |
| W01000037 | Porthyfelin 2 | 974 |
| W01000038 | Rhosyr | 764 |
| W01000039 | Trearddur 1 | 1,409 |
| W01000040 | Trearddur 2 | 1,325 |
| W01000041 | Tudur | 308 |
| W01000042 | Tysilio | 1,442 |
| W01000043 | Y Fali 1 | 915 |
| W01000044 | Y Fali 2 | 1,716 |

DRAFFT

11.11 Yn nhermau cyfraddau cyflogaeth a diweithdra ar draws ardal leol Ynys Môn, ym Medi 2021, dosbarthwyd bod 73.6% o'r boblogaeth oedolion yn economaidd weithgar ac mewn cyflogaeth. Roedd hyn yn 2.8% yn is na'r cyfartaledd ar draws Cymru gyfan.
Hefyd, roedd data a gyhoeddwyd gan NOMIS, yn hydref 2021, yn dangos mai'r pum math o alwedigaeth yr oedd oedolion yn fwyaf tebygol o fod wedi'u cyflogi ynddynt oedd (yn nhrefn amlder):

1. Gwasanaethau Llety a Bwyd (3,500 o weithwyr)
2. Cyfanwerthu a Manwerth (3,000 o weithwyr)
3. Gweithgareddau o ran Iechyd Pobl a Gwasanaethau Cymdeithasol (2,500 o weithwyr)
4. Y Sector Gweithgynhyrchu (2,000 o weithwyr)
5. Addysg (1,500 o weithwyr)

Ar draws Cymru, cafwyd tuedd gynyddol o ran yr achosion o bobl sy'n gweithio shifftiau. Er enghraifft, cyhoeddodd TUC Cymru adroddiad ar ddiwedd 2019 a oedd yn amlygu: [14]

- Bod 17,000 yn fwy o weithwyr shifftiau nos yng Nghymru nag yn 2014
- Bod 165,000 o bobl yn gweithio shifftiau nos yng Nghymru yn rheolaidd – sef 13% o'r gweithlu
- Yn y DU, roedd gweithwyr gofal (432,000) yn cyfrif am y mwyafrif o weithwyr shifftiau nos, a ddilynwyd gan nyrsys a bydwragedd (232,000)
- Y proffesiwn mwyaf cyffredin wedyn o ran gweithwyr shifftiau nos oedd gyrwyr trafnidiaeth ffordd (208,000)
- Mae gan Gymru'r gyfran uchaf ond dau o weithwyr sy'n gweithio shifftiau nos, o gymharu â'r unfed rhanbarth ar ddeg arall yn y DU.

DRAFT

[14] https://www.tuc.org.uk/news/17000-more-night-workers-wales-over-last-five-years-tuc-analysis-shows

11.12 Mae data a gyhoeddwyd gan NOMIS yn hydref 2021, yn dangos mai'r cyflog wythnosol cyfartalog ar gyfer gweithiwr llawn amser sy'n byw yn yr ardal leol oedd £549.50, (sydd yn is), a gellir ei gyferbynnu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sy'n £562.80 yr wythnos.

Tabl 42 - Incymau blynyddol aelwydydd o ran teuluoedd mewn ardaloedd lleol penodol ar Ynys Môn
Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019

| Lleoliad ar Ynys Môn | Incwm Blynyddol Aelwydydd [£] |
|---|---|
| Caergybi | 25,700 |
| Amlwch a Llannerch-y-medd | 29,600 |
| Llangefni | 33,200 |
| Bodedern a Rhosneigr | 35,200 |
| Rhos-y-bol, Marian-glas a Moelfre | 35,900 |
| Niwbwrch | 36,000 |
| Llain-goch a'r Fali | 40,200 |
| Biwmares a Benllech | 41,300 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 45,500 |

11.13 Yn ogystal, adroddodd Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru yn 2018 bod yr ardal leol yn cyfrif am y ganran a ddaeth yn safle 11 yn y rhestr o ran plant a oedd yn byw mewn aelwydydd heb waith (o gymharu ag awdurdodau lleol eraill) – sef 17.8% o bob aelwyd.

11.14 Adroddodd Bwletin Ystadegau Llywodraeth Cymru yn 2018 bod 8.3% o aelwydydd ardal Ynys Môn (1,800) yn deuluoedd unig rieni. Roedd hyn yn 0.4% yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd - a daeth yn 8fed yn y rhestr o gymharu â phob awdurdod lleol yng Nghymru.

DRAFFT

11.15 Yn 2022, amlinellodd Cyngor Sir Ynys Môn strategaeth bum mlynedd i gyflawni 'her' o ran tai lleol. Amlinellodd y strategaeth bod yr Awdurdod Lleol yn targedu cynnydd o ran ei stoc dai cyngor o 176 o gartrefi dros y tair blynedd nesaf, hyd at 2025, a gan weithio gyda landlordiaid cymdeithasol, roedd yn bwriadu adeiladu 14 o dai ychwanegol.

Hefyd, mae Strategaeth Tai 2022-2027 yn amlinellu uchelgais ar gyfer darparu 321 o gartrefi newydd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n bartneriaid (sy'n cynnwys tai cymdeithasol, rent canolradd, cymorth prynu, rhentu i berchnogi, a gofal ychwanegol) ac ar gyfer dod â 439 o gartrefi gweigion yn ôl i ddefnydd.

Yn ogystal, caiff datblygiadau tai lleol a gymeradwywyd yn barhaus yn 2022, a feddiannir yn rhannol gan deuluoedd sy'n symud i fyw *ar* yr ynys - gan gynnwys safleoedd fel campws Coleg Menai yn Llangefni, ac ym mhentref y Fali (lle ceir cynllun ar gyfer 50 o gartrefi newydd er enghraifft).

DRAFFT

## 12 Yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a Chynlluniau Llesiant Lleol

12.1 Gellir gweld y Cynllun Llesiant Lleol byw ar gyfer yr ynys yn: https://www.llesiantgwyneddamon.org/Uploads/Pages/Documents/3-5-3-94-1-Gwynedd-and-Anglesey-Well-being-plan.pdf .

Cyhoeddwyd yr Asesiad Llesiant Lleol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn ym mis Mai 2017. Ar ôl ystyried y data a barnau pobl leol, daeth y Bwrdd i'r casgliad mai prif negeseuon yr asesiad oedd:

**1. Yr angen i gynnal ysbryd cymunedol iach**
2. Pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd naturiol
**3. Deall effaith newidiadau demograffeg**
**4. Gwarchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg**
5. Hybu defnydd adnoddau naturiol i wella iechyd a llesiant yn yr hirdymor
6. Gwella cysylltiadau trafnidiaeth i alluogi mynediad at wasanaethau a chyfleusterau
7. Yr angen am swyddi o safon uchel a chartrefi fforddiadwy i bobl leol
**8. Effaith tlodi ar lesiant**
**9. Sicrhau cyfle i bob plentyn lwyddo**

Mae'r cynllun yn amlinellu fel y *"mae diffyg cyrhaeddiad addysgol yn gallu cael effaith ar lesiant unigolion gydol eu hoes ac felly mae angen sicrhau fod pob disgybl yn cael y cyfle i lwyddo"* a *"bydd y Bwrdd yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi teuluoedd er mwyn ceisio sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Byddwn hefyd yn sicrhau bod gweledigaeth glir ymysg partneriaid allweddol i gyflawni'r canlyniadau gorau bosib i blant a phobl ifanc."*
Felly mae'r rheiny sy'n cynllunio ar gyfer darpariaeth o ran gofal plant a'r blynyddoedd cynnar o fewn yr awdurdod lleol a phartneriaid lleol yn ymwybodol bod Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2022 yn cynrychioli strategaeth arall - yn enwedig o ran ei ddadansoddiad o'r bylchau - o safbwynt helpu i annog cymunedau iach ar Ynys Môn.

Gellir nodi hefyd y disgrifiodd adroddiad Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn yn 2020-2021 y modd yr oedd is-grŵp plant yn archwilio'r thema o *gymorth cynnar i blant a theuluoedd o fewn cymunedau lleol,* a'i fod (ac mae'n dal i wneud yn 2022) yn gweithio gyda'r trydydd sector gyda'r nod o helpu teuluoedd i ailintegreiddio o fewn eu cymunedau ar ôl y cyfnodau clo, ynghyd â darparu cymorth i'r teuluoedd hynny yn gynnar.

DRAFFT

## 13 Dadansoddiad o'r Bylchau

Mae'r adran ganolog a ganlyn yn amlinellu'r bylchau o ran y ddarpariaeth o ofal plant a nodwyd gan Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Ynys Môn 2022, ac y darparwyd tystiolaeth ar eu cyfer. Mae pob un o'r bylchau a gynhwyswyd isod yn ymwneud â dosbarthiad penodol - h.y. un o'r canlynol:

Bylchau o safbwynt:

- yr **Amseroedd** y mae gofal plant ar gael, gan gynnwys yr angen am ofal plant hyblyg sy'n darparu ar gyfer patrymau defnydd afreolaidd drwy gydol y dydd, yr wythnos a'r flwyddyn
- y **Mathau** o ofal plant sydd ar gael
- **Oedran** y plant y mae gofal plant ar gael ar eu cyfer
- **Fforddiadwyedd** y gofal plant
- anghenion penodol plant ag **ADY**
- anghenion penodol ar gyfer darpariaeth gofal plant **Cyfrwng Cymraeg**
- **Lleoliad daearyddol** gofal plant mewn perthynas â'r boblogaeth, wardiau a dalgylchoedd ysgol

DRAFFT

## Yr amseroedd y mae gofal plant ar gael

1 Roedd 19% o’r rhieni/gofalwyr a ymatebodd i arolwg rhieni Hydref 2021 Llywodraeth Cymru, ynghylch p’un a oedd gofal plant yn rhwystr iddynt fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth neu hyfforddiant, yn nodi eu bod yn: *Tueddu i Gytuno*. Hefyd, roedd 26% o’r rhieni/gofalwyr a ymatebodd yn nodi hefyd eu bod yn: *Cytuno’n Gryf.*

**Dengys hyn bod 45% o’r rhieni/gofalwyr a ymatebodd yn credu – i raddau – bod gofal plant, ar ryw adeg yn ddiweddar, wedi bod yn rhwystr iddynt gael mynediad i gyflogaeth neu hyfforddiant.**

Yn ategol i’r adborth hwn, nododd 9% o’r rhieni/gofalwyr a ymatebodd bod problemau o ran gofal plant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi effeithio eu gallu i ‘gymryd swydd newydd’ – a dywedodd 7% o rieni/gofalwyr bod problemau o ran gofal plant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi effeithio eu gallu eu hunain neu eu partner i allu ‘cael mynediad i hyfforddiant’.

Felly, i raddau, o ran y sefyllfa ar yr ynys, gellir dod i’r casgliad bod y ddarpariaeth o ofal plant addas yn parhau i fod yn her i rai rhieni o safbwynt cefnogi eu cyflogadwyedd.



2 Tuedd a brofwyd droeon yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, a adroddwyd gan ddarparwyr a gwarchodwyr plant mewn lleoliadau, oedd bod rhai rhieni’n gofyn am fwy o hyblygrwydd, gan gynnwys hynny o ganlyniad i niferoedd uwch yn gweithio adref.

Ail duedd (gysylltiedig) a brofwyd droeon oedd y cafwyd cynnydd yn niferoedd y rhieni a oedd yn gofyn am oriau agor estynedig/hirach. Fodd bynnag, mewn ymateb i arolwg hydref 2021, dim ond 19% o’r darparwyr gofal plant mewn lleoliadau a ymatebodd oedd yn nodi bod ganddynt gynlluniau i ymestyn eu horiau agor. Mae’n amlwg bod bwlch amlwg (ond nid sylweddol) yn bodoli yn nhermau bod rhai rhieni sy’n gweithio, yn ddelfrydol, yn gofyn am oriau agor cynharach, ynghyd ag oriau cau hwyrach, ac nad ydynt yn gallu dod o hyd i ddarpariaeth o’r fath a chael mynediad iddi.

DRAFT

## Mathau o ofal plant sydd ar gael

3 Mewn perthynas â 2. uchod, dim ond 7.5% o'r darparwyr gofal plant mewn lleoliadau a ymatebodd oedd yn nodi bod ganddynt gynlluniau ar waith dros y 18 mis nesaf i 'ddiwallu anghenion gweithwyr shifftiau/y rheiny sy'n gweithio y tu allan i oriau swyddfa arferol yn well'.
Fodd bynnag, cafwyd cryn dipyn o adborth ansoddol o ganlyniad i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru a oedd (o bosibl o ganlyniad i COVID-19) yn dangos bod y niferoedd a oedd yn gofyn am weithio shifftiau a gweithio y tu allan i oriau 8yb-6yh traddodiadol yn cynyddu.

Mae'n bwysig nodi ei bod yn bosib iawn y bydd y sector gofal plant (yn ogystal â'r sector gofal plant cofrestredig ehangach) yn hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â'r angen hwn, o ystyried ei allu traddodiadol i fedru cynnig mwy o hyblygrwydd o safbwynt oriau agor – ac yn 2022, bod 45 o warchodwyr plant, o gymharu â 50 yn 2019 (fel yr adroddwyd yn niweddariad ADGP 2019).

4 Roedd 1 : 4 o bob lleoliad/grŵp a ymatebodd yn nodi eu bod wedi gweld aelodau o'u gweithlu yn gadael o ganlyniad i'r pandemig, a oedd yn cynrychioli thema sy'n dod yn amlwg ledled Cymru: bod cadw a recriwtio staff yn profi i fod yn broblem gynyddol. Yn wir, ar y llaw arall, o ganlyniad i ymgynghoriad Hydref 2021 â darparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar, gwelwyd fod y mwyafrif ohonynt, 60%, yn nodi nad oedd ganddynt unrhyw gynlluniau, ar ddiwedd 2021, i recriwtio unrhyw brentisiaid.

(Dylid nodi hefyd, o safbwynt problemau sy'n effeithio gweithlu gofal plant yr ynys, roedd tua 40% o holl gynrychiolwyr darparwyr gofal plant yr ymgynghorwyd â hwy yn hydref 2021, yn dweud eu bod eu hunain (gan gynnwys fel gwarchodwyr plant) neu aelodau o'u tîm/gweithlu/cymhorthydd, wedi profi anawsterau a phroblemau o ran iechyd meddwl yn ystod anterth y pandemig COVID-19, neu eu bod efallai'n parhau i brofi hynny. Roedd hyn fel arfer yn gysylltiedig â gorbryder o ran cynaliadwyedd parhaus eu busnes/bywoliaeth).

DRAFFT

## Oedran y plant y mae gofal plant ar gael ar eu cyfer

5 Ar ddechrau 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau i'w wneud yn haws i rieni a theuluoedd a chanddynt blant dwyflwydd oed gael mynediad i ddarpariaeth gofal plant cyffredinol a ariennir (h.y. yn y bôn, er mwyn ymestyn y rhaglen Dechrau'n Deg). I gwrdd â'r galw posib sydd i ddod am ddarpariaeth o'r fath, dylai Cyngor Sir Ynys Môn fod yn ymwybodol: 1. Bod 10% o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant wedi dweud bod ganddynt restr aros yn hydref 2021 - ar gyfer lleoedd i blant 2 oed yn y mwyafrif o achosion; 2. Ac mai tuedd a welwyd droeon, a nodwyd gan ddarparwyr gofal plant perthnasol, oedd cynnydd yn y galw am leoedd i blant 2 oed.

Felly, *efallai* bod bwlch o ran digonolrwydd lleoedd i blant 2 oed fel y bydd y gwaith o gyflwyno'r rhaglen gyffredinol (y mae'n rhaid cyfaddef ei bod yn raddol) i blant 2 oed ym mis Medi 2022.

Gellir tybio yn yr un modd hefyd efallai bod mwy o alw am leoedd 30 awr i blant 3 a 4 oed, o ganlyniad i ymestyn y cynnig gofal plant 30 awr.

6 Dywedodd bron i 50% o'r rhieni a ymatebodd i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru eu bod yn bwriadu cael mynediad i *ragor* o ofal plant mewn blynyddoedd i ddod – a gofal plant y tu allan i'r ysgol oedd hwn yn y mwyafrif o achosion. Yn wir, y ddau fath o ofal plant a amlygwyd amlaf gan rieni perthnasol oedd:

- Clwb ar ôl Ysgol – 20% o rieni perthnasol
- Clwb Cyn Ysgol/Brecwast – 17% o rieni perthnasol

Fodd bynnag, roedd nifer o rieni a ymatebodd i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru yn 2021 yn dweud yn gyson, dro ar ôl tro, fel yr oeddynt yn profi heriau ac anawsterau o ran cael mynediad i ofal cofleidiol ar sail gofal plant a oedd *fwyaf addas ar gyfer eu patrymau gweithio*. Felly, mae hyn yn awgrymu y gall bod tystiolaeth o fwlch o ran digonolrwydd neu ei fod yn debygol o dyfu, yn enwedig gan fod poblogaeth weithio Ynys Môn yn parhau i ddychwelyd i weithleoedd/swyddfeydd ffisegol, a'i bod yn parhau i fod angen amseroedd agor (gan gynnwys trwy glybiau brecwast) ac amseroedd cau (yn bennaf trwy glybiau ar ôl ysgol) addas o ran gofal plant y tu allan i'r ysgol.

DRAFFT

## Anghenion penodol o ran plant ag ADY

7 Roedd 5.5% o rieni/gofalwyr a ymatebodd i'r arolwg rhieni yn Hydref 2021 yn amlinellu bod ganddynt o leiaf un plentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sydd wedi a/neu heb eu diagnosio. Ymhlith yr adborth ansoddol o'r arolwg, cafwyd rhai rhieni yn amlinellu dro ar ôl tro eu heriau o ran canfod a/neu sicrhau gofal plant ffurfiol sy'n addas ac yn fforddiadwy. Er enghraifft, roedd yr adborth yn cynnwys:

*"Mae fy merch yn 'anabl' a 'does unman sy'n gallu diwallu ei hanghenion. Fedran ni ddim ei gadael ar ei phen ei hun, felly rydw i wedi gorfod rhoi'r gorau i fy ngwaith i ofalu amdani hi."*

*"***[Yn fy mhrofiad i]*** Mae o wirioneddol yn anodd dod o hyd i ofal plant ar gyfer plant oed uwchradd ag ADY."*

Yn ogystal, mewn ymateb i ymgynghoriad hydref 2021 â darparwyr gofal plant, roedd 68% o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar, a bron i 48% o warchodwyr plant cofrestredig, yn dweud bod COVID-19 wedi cael effaith ar ddatblygiad plant oedran blynyddoedd cynnar sy'n mynychu eu darpariaeth, gyda'r ymatebwyr hyn yn nodi'n aml fod lleferydd ac iaith plant wedi'u heffeithio mewn modd negyddol a/neu eu bod wedi gweld problemau o ran nad oedd rhai plant yn cymdeithasu â phlant eraill/eu bod wedi gweld mwy o achosion o bryder gwahanu.

Er bod 50% o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar yn dweud bod ganddynt gynlluniau ar waith i hybu'r ddarpariaeth ymhellach i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, dim ond 15% o warchodwyr plant a oedd yn dweud bod ganddynt gynlluniau o'r fath.

Gellir ystyried felly, fel y mae'r achosion o blant ag ADY yn parhau i gynyddu, bod angen niferoedd cyfatebol o ddarparwyr gofal plant sydd â'r gallu i ddarparu lleoedd addas a fforddiadwy i'r plant hyn, i liniaru'r posibilrwydd o fwlch o ran y digonolrwydd o ddarpariaeth ADY.

DRAFFT

## Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg

8 Yn galonogol, dywedodd 20% o'r holl ddarparwyr gofal plant yn Hydref 2021 bod ganddynt naill ai gynlluniau pendant ar waith i greu rhagor o leoedd cyfrwng Cymraeg lle gellir siarad Cymraeg, neu fod hyn yn rhywbeth y byddant efallai'n ei ystyried. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol angen parhau i fonitro'r niferoedd sy'n cyrchu lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg, o safbwynt uchelgais rhieni penodol. Hefyd, dylai'r awdurdod lleol fod yn ymwybodol o'r ffaith, pan fo rhieni/gofalwyr yn rhoi adborth ansoddol am y thema gofal plant cyfrwng Cymraeg, bod hyn yn cynnwys:

*"Rydw i wedi methu dod o hyd i warchodwr plant sy'n siarad Cymraeg"* – ac yn yr un modd:

"*'Does fawr ddim gwarchodwyr plant Cymraeg yng nghyffiniau Llanerchymedd"* – ac unwaith eto, yn yr un modd:

*"***[Yn fy mhrofiad i]** *mae yna ddiffyg gwarchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg, a hefyd mae'r clwb ar ôl ysgol yn cau yn rhy gynnar am 5.00yh. Dwi angen mynd i nôl fy mhlentyn yn hwyrach."*

*"Tydi'r ddarpariaeth iaith Gymraeg ddim yn dda yn ein hardal leol, sy'n bwysig i ni fel teulu sy'n siarad Cymraeg."*

*"'Does dim llawer o ddarparwyr Cymraeg. Doedd dim llawer o opsiynau yn fy ardal i."*

*"Mi fyddai'n dda cael gweld mwy o wybodaeth a chymorth i rieni sydd ddim yn siarad Cymraeg gael mynediad i ofal plant cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant oed meithrin. Rydyn ni'n defnyddio Cylch Meithrin a meithrinfa ddydd, ond roedd yn anodd penderfynu pa sesiynau fyddai fwyaf buddiol, ac wedyn trefnu meithrinfa ddydd o gwmpas hynny. Mi fyddai rhagor o ddarpariaeth o feithrinfeydd dydd dwyieithog neu gyfrwng Cymraeg yn help, neu fwy o gymorth ariannol i Gylchoedd allu bod ar agor yn hirach ac yn ystod gwyliau ysgol."*

DRAFFT

## Fforddiadwyedd gofal plant

9 Y rhwystr a welwyd fwyaf o ran cyrchu gofal plant ffurfiol, a amlygwyd gan rieni/gofalwyr a ymatebodd i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru, oedd bod cost gofal plant wedi'u hatal rhag cyrchu'r ddarpariaeth hon. Felly mae angen i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd **barhau i** gyfathrebu a dosbarthu gwybodaeth am fentrau gofal plant presennol a ariennir, ynghyd â *mentrau newydd* sydd i ddod, fel: (a) ymestyn y Cynnig Gofal Plant i rieni sydd mewn addysg a hyfforddiant, a rhieni sydd ar absenoldeb mabwysiadu, a: (b) y cynnig o ofal plant am ddim i bob plentyn dwyflwydd oed o fewn y tair blynedd nesaf, gan ystyried pa mor rhesymegol ydyw y gwnaiff y ddwy fenter hon fod o fudd i deuluoedd penodol.

Yn ogystal, dylai'r awdurdod lleol fod yn ymwybodol o'r ffaith y dywedodd 43% o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar a ymatebodd i ADGP hydref 2021 nad oeddynt yn cymryd unrhyw gamau i farchnata bodolaeth Gofal Plant Di-dreth.



## Lleoliad darpariaeth gofal plant, o safbwynt daearyddol

10 Mae Strategaeth Tai Ynys Môn 2022-2027 yn amlinellu uchelgais ar gyfer darparu 321 o gartrefi newydd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n bartneriaid, ac i ddod â 439 o gartrefi gweigion yn ôl i ddefnydd.

Yn ogystal, mae datblygiadau tai lleol wedi parhau i gael eu cymeradwyo yn 2022, a gaiff eu meddiannu, yn rhannol, gan deuluoedd sy'n symud i fyw *ar* yr ynys – gan gynnwys ar safleoedd fel campws Coleg Menai yn Llangefni, ynghyd â phentref y Fali (lle ceir cynlluniau, er enghraifft, i adeiladu 50 o dai newydd).

Yn y cyd-destun hwn, gellir nodi hefyd mai (dim ond) 15% o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar a nododd bod ganddynt gynlluniau i gynyddu nifer y lleoedd a gynigir ganddynt dros y ddwy flynedd nesaf. Gyda'i gilydd, roedd hyn yn golygu y byddai nifer uchelgeisiol o 107 o leoedd yn cael eu hystyried gan y darparwyr gofal plant perthnasol hyn, er y gellid priodoli 70 o'r lleoedd posibl hyn i ymateb gan un darparwr a leolir yn ward Canolbarth Môn.

DRAFT

DRAFFT



## 14 Crynodeb o Anghenion Nas Diwallwyd

Nid yw Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2022 Ynys Môn yn awgrymu bod ward neu LSOA neu ardal arbennig y mae'n gwbl glir neu'n amlwg ar hyn o bryd bod diffyg lleoedd gofal plant i rieni a gofalwyr sydd eu hangen – a 'does dim dwywaith y gellir priodoli hyn yn bennaf i'r gwydnwch trawiadol a ddangosodd sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yr ynys yn ystod yr heriau a ddaeth yn sgil y pandemig, yn enwedig yn ystod y cyfnod 2020-2021.
Fodd bynnag, dangosodd yr adran flaenorol ar y Dadansoddiad o'r Bylchau ei bod yn bosibl iawn y gallai fod nifer o faterion a wnaiff herio digonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant ar yr ynys dros y blynyddoedd i ddod - sy'n cynnwys, yn anad dim, yr hyn sy'n broblem amlwg: sef y gallu i recriwtio a/neu gadw gweithwyr proffesiynol â chymwysterau da. Fel y nodwyd yn yr ADGP hwn, mae hyn yn broblem dros Gymru gyfan, ac nid dim ond i Ynys Môn neu Ogledd Cymru. Fodd bynnag, gellir ystyried ei fod yn destun pryder arbennig i gynllunwyr gofal plant ar yr ynys oherwydd y ffaith ei bod i ryw raddau wedi'i hynysu'n ddaearyddol (ynghyd â'i natur wledig), ac nid yw mor ymarferol i'r gweithlu lleol symud yn yr un modd â hynny o fewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Thema sy'n gysylltiedig â'r mater hwn o ran recriwtio, a nodwyd gan yr ADGP hwn, ac y gellir, i ryw raddau, ei hystyried yn angen nas diwallwyd yw: bod rhai rhieni wedi adrodd eu bod yn profi anawsterau o ran cyrchu gofal plant addas trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n amlwg fod y rhieni hyn yn credu y gallai lefel yr hyfedredd yn y Gymraeg, o ran staff mewn lleoliadau, a gwarchodwyr plant, fod yn well, ac nid yw canfyddiad rhai darparwyr eu bod yn ddarparwyr cyfrwng Cymraeg o reidrwydd yn cyd-fynd â realiti'r sefyllfa. O ystyried bod Ynys Môn yn cyfrif am ganran gymharol uchel o'r siaradwyr Cymraeg (yn y Gogledd), gellir ystyried bod hyn yn ddiffyg y mae angen i weithwyr proffesiynol yn y sector gofal plant a'r blynyddoedd cynnar barhau i fod yn ymwybodol ohono - a rhoi blaenoriaeth i ganolbwyntio ar wella'r sefyllfa.

Mae'n amlwg fod rhai o'r rhieni hyn a gododd y mater hwn, fel rhan o arolwg rhieni Llywodraeth Cymru yn Hydref 2021, yn rheini sy'n gweithio - neu'n rhieni a oedd yn chwilio am gyfleoedd gwaith a/neu hyfforddiant. Dywedodd bron i 50% o'r holl ymatebwyr i'r arolwg bod diffyg gofal plant addas wedi effeithio eu gallu i gael cyflogaeth neu hyfforddiant - neu i barhau mewn rôl o'r fath. Mae hon yn ganran sylweddol, ac er bod fforddiadwyedd yn sicr o chwarae rhan, mae ffactorau eraill - fel diffyg gofal plant cyfrwng Cymraeg addas, ynghyd ag absenoldeb amseroedd cychwyn a gorffen cofleidiol addas - hefyd yn effeithio cyflogadwyedd ar yr ynys. Roedd ymatebion ansoddol i'r arolwg hefyd yn nodi bod rhai rhieni - yr oeddynt efallai'n gweithio adref yn ystod 2020 a 2021 ac a oedd yn dychwelyd yn raddol i'w swyddfa/lleoliad gwaith ffisegol - yn profi anawsterau o ran nad oedd clwb brecwast yn agor ar amser a oedd fwyaf addas iddynt - h.y. nid oedd yn agor yn ddigon cynnar, neu nad oedd clwb ar ôl ysgol (cofrestredig a/neu heb ei gofrestru) yn gorffen ar amser a oedd fwyaf addas iddynt - h.y. roedd yn cau/dod i ben yn rhy gynnar. Mae hon yn broblem y bydd yr awdurdod lleol yn parhau i fynd ati i'w monitro, gan gynnwys trwy ei ddiweddariad cyntaf o'r ADGP yn 2023.

Thema gysylltiedig arall, y gellid efallai ei hystyried fel man cychwyn angen nas diwallwyd, oedd bod nifer o rieni wedi rhoi gwybod fel rhan o'r arolwg eu bod yn gweithio oriau shift, y tu allan i'r diwrnod 8.00yb-6.00yh traddodiadol, ac nad oedd y gefnogaeth o ran y gofal plant yr oedd yn amlwg ei fod ar gael iddynt ar gael ar adegau perthnasol. Cydnabyddir bod ceisio cynyddu mynediad i ofal plant ffurfiol, y tu allan i oriau craidd 8yb-6yh yn ystod dyddiau'r wythnos, am fod yn heriol mewn gwirionedd - ac y bydd sector gofal plant yr ynys yn chwarae rôl hanfodol er mwyn gwireddu hyn. Fodd bynnag, cafwyd gostyngiad o 11% yn nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig a oedd yn gweithredu ar yr ynys yn ystod y cyfnod 2019-2022, a bod hon yn duedd y mae gan yr awdurdod lleol gynlluniau rhagweithiol i'w gwrthdroi, gan gynnwys trwy sesiynau allgymorth a gweithdai strwythuredig, a fydd yn dechrau yn ystod haf 2022.

Gan fynd yn ôl i heriau Cymru gyfan o ran recriwtio a chadw staff, mae'r awdurdod lleol yn teimlo'n frwdfrydig am ymestyn y Cynnig Gofal Plant, ynghyd â'r cynllun sydd i ddod o ran ehangu rhaglen Dechrau'n Deg, fel y mae'n cyflwyno gofal plant cyffredinol i blant dwyflwydd oed (yn raddol). Fodd bynnag, er mwyn sicrhau'r galw cynyddol posibl am leoedd gofal plant blynyddoedd cynnar a ddaw yn sgil y ddwy raglen estynedig, mae'r awdurdod lleol yn cydnabod y bydd angen gweithlu (o faint) angenrheidiol. Felly, mae'n cynllunio i barhau i weithio'n agos unwaith eto, mewn partneriaeth â Cwlwm Cymru a Coleg Menai Llangefni, i helpu i sicrhau y gall pobl ifanc sy'n byw ar yr ynys deimlo bod gyrfa mewn gofal plant yn cynrychioli proffesiwn, ac yn cynrychioli modd o gefnogi eu cymuned.

Yn olaf, mae un ystyriaeth yn parhau i ganolbwyntio ar thema fforddiadwyedd. Unwaith eto, y rhwystr a amlygwyd fwyaf gan rieni a ymatebodd i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru yn Hydref 2021 oedd fforddiadwyedd, ynghyd â chael trafferth talu ffioedd gofal plant. Croesawir y ffaith wrth gwrs bod darpariaeth gofal plant a ariennir yn dal i fod ar gael, ac yn cael ei hymestyn. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yr argyfwng costau byw presennol yn gwaethygu gallu teuluoedd i ystyried cael mynediad i ofal plant ffurfiol, ac mae hyn yn arwain yn ôl at bryderon o safbwynt cynaliadwyedd y sector.

DRAFT

## 15 Rhwystrau i Ddarpariaeth Gofal Plant

15.1 Gwahoddodd arolwg rhieni Llywodraeth Cymru 2021 ei chynulleidfa darged i roi adborth am unrhyw rwystrau yr oeddent wedi dod ar eu traws o ran cyrchu gofal plant *o'u dewis*. Crynhoir adborth cyfunol y rhieni/gofalwyr yn Nhabl 43 isod.

Tabl 43 - amlder y rhesymau a nodwyd ynghylch pam nad oedd rhiant/gofalwr yn cyrchu/derbyn cymorth gyda gofal plant yn hydref 2021

| Rhesymau/Rhwystrau | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd |
|---|---|
| Plentyn ar restr aros darparwr ac rydym yn aros i le ddod ar gael | <0.5% |
| Nid oes gofal plant o ansawdd digonol | <0.5% |
| Nid oes darpariaeth Gymraeg addas | 1% |
| Dim darpariaeth addas yn ein hiaith, nad yw'n Gymraeg nac yn Saesneg | <0.5% |
| Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg ar gyfer fy anghenion | 3% |
| Mae cost gofal plant yn rhy ddrud | 7.5% |
| Mae amseroedd gofal plant yn anaddas | 3% |
| Nid oes gofal plant ar gael sy'n addas ar gyfer oedran fy mhlentyn | 2% |
| Mae problem gyda thrafnidiaeth | 1% |
| Nid oes gofal plant yn lle mae ei hangen arnaf | 1% |
| Nid oes gofal plant a all ddarparu ar gyfer anghenion penodol fy mhlentyn | 0.5% |
| Dim ond ar sail ad hoc rydw i'n defnyddio gofal plant ac mae'n amhosib cynllunio | 2% |
| Arall | 1.5% |

Amlinellwyd dadansoddiad bras o Dabl 43 yn Adran 6 o'r ADGP hwn. Roedd yn nodi, pan amlygwyd rhwystr, mai, ar y mwyaf, dim ond tua 1:12 o rieni neu ofalwyr a'i nododd – a oedd yn ymwneud â'r ffaith, ym marn y rhieni hyn, bod cost gofal plant yn rhy ddrud (neu ei fod wedi bod). Mae gwaith craffu pellach ar y data meintiol a gynhyrchwyd gan arolwg rhieni Llywodraeth Cymru yn dangos:

DRAFT

Y tri rhwystr mwyaf cyffredin a adroddwyd gan rieni sy'n gweithio oedd (yn nhrefn amlder):

1. Mae cost gofal plant yn rhy ddrud (a nodwyd gan 8% o rieni perthnasol)
2. Mae amseroedd gofal plant yn anaddas (4%)
3. Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg ar gyfer fy anghenion (3%)

Y tri rhwystr mwyaf cyffredin a adroddwyd gan rieni a oedd yn amlwg yn chwilio am waith neu hyfforddiant oedd:

1. Mae amseroedd gofal plant yn anaddas (16%)
2. Nid oes gofal plant a all ddarparu ar gyfer anghenion penodol fy mhlentyn (16% o rieni perthnasol)
3. Mae cost gofal plant yn rhy ddrud (a nodwyd gan 8% o rieni perthnasol)

Yn olaf, y tri rhwystr mwyaf cyffredin a adroddwyd gan ofalwyr plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol oedd:

1. Mae cost gofal plant yn rhy ddrud (a nodwyd gan 22% o rieni perthnasol)
2. Nid oes gofal plant a all ddarparu ar gyfer anghenion penodol fy mhlentyn (10% o rieni perthnasol)
3. Cafwyd problemau gyda chludiant (a nodwyd gan 10% o rieni perthnasol)

DRAFFT

15.2 Roedd arolwg rhieni Llywodraeth Cymru hefyd yn gwahodd rhieni a gofalwyr i ddarparu adborth ansoddol am eu profiadau gofal plant, lefelau boddhad ac unrhyw rwystrau yr oeddent wedi'u profi, neu yn parhau i'w profi.

O ran thema rhwystrau i gyrchu gofal plant ffurfiol ym mis Hydref 2021 - y math mwyaf cyffredin o adborth oedd (geiriau i'r perwyl) *"Tydi opsiynau lleol o ran gofal plant y tu allan i'r ysgol ddim yn gweithio i mi."*

Roedd adborth penodol ar y thema hon - gan gynnwys amseroedd agor y math hwn o ddarpariaeth - yn Hydref 2021, *yn cynnwys:*

*"***[Yn fy mhrofiad i]** *'Does dim cyfleusterau gofal plant i blant oed uwchradd. Mae bob un o'r clybiau a redir gan y cyngor yn ystod y gwyliau yn darparu ar gyfer plant oedran cynradd, a ddim yn addas ar gyfer gweithwyr llawn amser neu weithwyr shifftiau. Mae llawer o'r clybiau wedi'u hanelu at blant rhieni sydd ar fudd-daliadau, nad oes angen gofal plant ar rai ohonyn nhw iddyn nhw gael gweithio. Dylid cael gofal plant a chlybiau sydd ar gael i blant oedran uwchradd, yn enwedig yn ystod gwyliau ysgol, pan fydd rhieni yn ei chael yn anodd gofalu am eu plant. O ran rhieni sy'n gweithio'n llawn amser/ar y rheng flaen, dydyn nhw ddim ond yn cael nifer benodol o oriau/diwrnodau o wyliau blynyddol y flwyddyn, sydd ddim yn darparu ar gyfer yr holl wyliau ysgol, hyd yn oed os mae'r ddau riant yn cymryd amser i ffwrdd bob yn ail. Mae'r gwyliau haf yn arbennig o anodd o ran plant oedran uwchradd, gan nad oes cyfleusterau ar adegau addas. Dwi'n gweithio shifftiau 12 awr, 8.00yb-8.00yh, a 'does unman yn darparu ar gyfer y math hwn o ofal plant i blant oedran uwchradd. Pan oedden nhw yn yr ysgol gynradd, roeddwn i'n gallu dod o hyd i ofal plant addas, ond pan aeth un i fyny i'r ysgol uwchradd, a'r llall yn dal i fod yn yr ysgol gynradd, 'doedd ddim modd iddyn nhw ddefnyddio'r gofal plant, a 'doedd gen i ddim ond darpariaeth ar gyfer y plentyn oed uwchradd."*

*"***[Yn fy marn i]** *'Does dim gofal plant/Clybiau Plant i blant 11 oed+ ar Ynys Môn/Gwynedd. Os oes clybiau, maen nhw'n rhedeg o 10yb-12yp neu ddim yn cynnig diwrnod llawn. Mae'r un peth yn bod o ran plant o dan 11 oed. Tydi amseroedd y clybiau ddim yn ddefnyddiol i rieni sy'n gweithio. Dwi'n gorfod defnyddio meithrinfa sy'n codi £35 y dydd ar gyfer bob plentyn. Mae gen i ferch sy'n epileptig, felly tydi o ddim yn bosib iddi fynd i bob man… Dwi'n lwcus fod fy ngŵr yn gweithio adref. Dwi ddim yn gwybod beth fyddai'n digwydd i fy mhlentyn 11 oed a fy mhlentyn 13 oed pe bai hwnnw ddim adref. Mae yna gymaint o blant ifanc sydd wedi cael eu gadael ar eu pennau eu hunain oherwydd 'does dim byd ar eu cyfer yn ystod gwyliau ysgol."*

*"Roedd fy ysgol wedi stopio cynnal ei chlwb ar ôl ysgol, felly 'da ni'n gorfod defnyddio'r clwb ar ôl ysgol yn y feithrinfa, sy'n dda iawn, ond yn ddrytach nag yr oedd un yr ysgol yn arfer bod. 'Does gennym ni ddim opsiwn am fod y ddau ohonom ni'n gweithio shifftiau. Mae'r feithrinfa yn codi'r plant o'r ysgol ac yn dod â'r plant i'w clwb ar ôl ysgol"* - ac yn yr un modd:





DRAFT

*"Mae'r ysgol wedi cau ei chlwb ar ôl ysgol, ac erbyn hyn rydyn ni'n gorfod defnyddio'r clwb ar ôl ysgol mewn meithrinfa. Mae'n bechod bod o ddim o fewn yr un safle â'r ysgol - ac mae o'n ddrytach."*

*"'Does dim lle yn y clwb ar ôl ysgol yn fy ysgol i."*

*"***[Yn fy mhrofiad i]** *Mae pob 'cyfleuster' gofal plant yn gorffen am 6.00yh. Dwi'n gweithio tan 6.00yh ym Mangor, sy'n hanner awr i ffwrdd o adref. Dwi ddim yn gallu defnyddio cyfleusterau gofal plant oherwydd eu bod nhw'n gorffen yn rhy gynnar i mi allu mynd i nôl fy mhlant mewn pryd, felly dwi'n dibynnu llawer ar fy nheulu a'm ffrindiau i'm helpu."*

Y math amlaf ond un o adborth a gafwyd oedd (geiriau i'r perwyl) *"mae yna ddiffyg o ran opsiynau gofal plant cyfrwng Cymraeg."* Roedd adborth penodol ar y thema hon, yn Hydref 2021, *yn cynnwys:*

*"'Doeddwn i'n methu dod o hyd i warchodwr plant sy'n siarad Cymraeg"* – ac yn yr un modd:

"*'Does fawr ddim o warchodwyr plant Cymraeg yng nghyffiniau Llanerchymedd"* – ac unwaith eto, yn yr un modd:

*"***[Yn fy mhrofiad i]** *mae yna ddiffyg gwarchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg, a hefyd mae'r clwb ar ôl ysgol yn cau yn rhy gynnar am 5.00yh. Dwi angen mynd i nôl fy mhlentyn yn hwyrach."*

*"Tydi'r ddarpariaeth iaith Gymraeg ddim yn dda yn ein hardal leol, sy'n bwysig i ni fel teulu sy'n siarad Cymraeg."*

*"Does dim llawer o ddarparwyr Cymraeg. 'Doedd dim llawer o opsiynau yn fy ardal i."*

*"Mi fyddai'n dda cael gweld mwy o wybodaeth a chymorth i rieni sydd ddim yn siarad Cymraeg er mwyn iddyn nhw gael mynediad i ofal plant cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant oed meithrin. Rydyn ni'n defnyddio Cylch Meithrin a meithrinfa ddydd, ond roedd yn anodd penderfynu pa sesiynau fyddai fwyaf buddiol, ac wedyn trefnu meithrinfa ddydd o gwmpas hynny. Mi fyddai rhagor o ddarpariaeth o feithrinfeydd dydd dwyieithog neu gyfrwng Cymraeg yn help, neu fwy o gymorth ariannol i Gylchoedd allu bod ar agor yn hirach ac yn ystod gwyliau ysgol."*

DRAFFT

O blith yr adborth a dderbyniwyd, y trydydd math mwyaf cyffredin oedd (geiriau i'r perwyl) *"mae cost gofal plant yn rhy ddrud."*

Roedd adborth penodol ar y thema hon, yn Hydref 2021, *yn cynnwys:*

*"Roedd dod o hyd i ofal plant Cymraeg da yn rhywbeth 'prin iawn', a dyma ni'n mynd i'r lle drytaf un yn y diwedd!"*

*"Yn syml, mae gofal plant yn rhy ddrud."*

*"Dwi ddim wedi edrych i mewn i ofal plant, gan na fedra i ei fforddio. 'Doeddwn i ddim yn gwybod bod yna help ar gael".*

*"Roedd cost gofal plant, o gymharu â faint roeddwn i'n ei ennill pan oeddwn i'n gweithio, yn chwerthinllyd".*

*"Mae gen i broblem barhaus. Dwi'n chwilio am waith ac yn trio ysgrifennu ceisiadau am swyddi gyda phlentyn 2 oed adref. 'Does dim darpariaeth gofal plant os ydych chi'n chwilio am waith, a dwi wedi stryglo gyda hynny. 'Does gen i ddim yr arian i dalu am ofal plant, ond dwi angen y gofal plant i allu treulio amser yn gwneud ceisiadau am swyddi. Mae'r sefyllfa'n debyg braidd i sefyllfa'r ŵy a'r iâr."*

*"Mae cyfleusterau rhai meithrinfeydd yn yr ardal* [sydd heb ei nodi] *yn wael, yn enwedig o ystyried y gost."*

*"Tydi o ddim yn gost effeithiol i ni dalu am ragor o ofal plant… mae'n rhatach, oherwydd gofal plant, i un ohonon ni weithio'n rhan-amser."*

O blith yr adborth a dderbyniwyd, y pedwerydd math mwyaf cyffredin oedd (geiriau i'r perwyl) *"Dwi'n cael problemau dod o hyd i ofal plant oherwydd fy oriau shifft".*

Roedd adborth penodol ar y thema hon, yn Hydref 2021, *yn cynnwys:*

*"Pan dwi'n gweithio shifftiau, tydi gofal plant ddim ar agor yn ddigon cynnar, neu'n ddigon hwyr."*

*"Dwi'n gweithio shifftiau, a tydi gofal plant ddim yn dechrau'n ddigon cynnar, ac mae fy mhartner yn gweithio o ddydd Llun i ddydd Gwener… felly pan mae'r ddau ohonon ni'n gweithio yn ystod y dydd, 'da ni'n gorfod dibynnu ar aelodau teulu, ac mae hyn yn medru bod yn anodd…"*

DRAFT

*“Dwi’n cael trafferth cael gofal plant ar gyfer yr oriau shifft dwi’n eu gweithio, gan fy mod i’n cychwyn yn gynnar neu’n gorffen yn hwyr. Mae’r amseroedd dwi’n gorffen yn amrywio hefyd.”*

*“Dwi ddim wedi mynd yn ôl i weithio fel Meddyg Teulu ers cael plant, gan fod yr oriau a ddarperir gan ‘wasanaethau’ gofal plant yn fy ardal i’n rhy fyr. Mae popeth yn gorffen am 5.30yh.”*

*“Dim pawb sy’n gweithio mewn swydd arferol o 9yb-5yh, neu sydd efo aelodau teulu sy’n gallu darparu gofal cofleidiol”.*

O blith yr adborth a dderbyniwyd, y pumed math mwyaf cyffredin oedd (geiriau i’r perwyl) *“Dwi wedi cael problemau hefo hygyrchedd.”*

Roedd adborth penodol ar y thema hon, yn Hydref 2021, *yn cynnwys:*

*“Dwi’n meddwl mai ychydig iawn o warchodwyr plant sydd ar yr ynys. Mae rhai ohonyn nhw wedi’u grwpio mewn pentrefi mwy neu mewn trefi sy’n bell o le dwi’n byw. ’Does neb yn agos i mi, felly mae rhaid mynd â fy merch at warchodwr plant a rhaid mynd i ysgol sy’n 25 munud i ffwrdd o le rydyn ni’n byw. Yn fy mhrofiad i - mae’r mwyafrif ohonyn nhw’n llawn.”*

*“’Doedd dim gofal plant ar gael pan adawodd fy mab Dechrau’n Deg. ’Does dim meithrinfa yn fy ysgol a ddim dewis arall, felly bydd rhaid i fy mab fod adref hyd nes y bydd o’n mynd i’r ysgol.”*

*“Yn fy marn i, mae yna ddiffyg darparwyr gofal plant. Ychydig iawn o leoedd ar ôl ysgol sydd ar gael yn lleol. Roedd rhaid i fy mab symud i ysgol arall er mwyn iddo fo gael mynediad i ofal ar ôl ysgol.”*

DRAFFT

## 16 Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu adborth a dderbyniwyd drwy'r ymatebion i'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) fis Gorffennaf 2021 gan ddarparwyr gofal plant yn yr ardal leol, ynghyd â chanlyniadau arolwg hydref 2021 gyda'r un rhanddeiliaid/darparwyr.

Mae'n canolbwyntio ar y canlynol: (a) gofal plant a gweithlu'r blynyddoedd cynnar yn yr ardal leol; (b) eu hanghenion hyfforddi canfyddedig, gan gynnwys y rhai sy'n cyd-fynd â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, ac sy'n canolbwyntio ar themâu gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer chwarae a dysgu, meithrin a llesiant, ymddygiad, cynnal a rheoli'r gwasanaeth, cyfle cyfartal ac amddiffyn plant.

16.1 Fel rhan o arolwg hydref 2021 gyda darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a lleoliadau gofal plant y tu allan i'r ysgol, gwahoddwyd cynrychiolwyr i roi adborth ar faint o staff oedd yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd?

- Nifer gyfartalog y gweithwyr amser llawn a gyflogir ar hyn o bryd gan leoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar oedd 4.
- Nifer gyfartalog y gweithwyr amser llawn a gyflogir ar hyn o bryd gan leoliadau gofal plant y tu allan i'r ysgol oedd 3.

- Nifer gyfartalog y gweithwyr rhan amser a gyflogir ar hyn o bryd gan leoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar oedd 3.
- Nifer gyfartalog y gweithwyr rhan amser a gyflogir ar hyn o bryd gan leoliadau gofal plant y tu allan i'r ysgol oedd 4.

DRAFFT

Mae Tabl 44 yn dangos nifer yr aelodau o'r gweithlu yn ardal leol Ynys Môn a oedd yn meddu ar gymwysterau arbennig, ym mhob un o'r tri phrif sector yn haf 2021

Ffynhonnell: SASS Gorffennaf 2021

| Math y Cymhwyster | Cyfanswm y nifer sy'n meddu ar y cymhwyster yn sector Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar | Cyfanswm y nifer sy'n meddu ar y cymhwyster yn y sector Gwarchod Plant | Cyfanswm y nifer sy'n meddu ar y cymhwyster yn y sector Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol |
|---|---|---|---|
| Cymhwyster Gofal Plant, Dysgu a Datblygu Lefel 2 | 60 | 2 | 2 |
| Cymhwyster Gofal Plant, Dysgu a Datblygu Lefel 3 | 166 | 21 | 6 |
| Cymhwyster Gofal Plant, Dysgu a Datblygu Lefel 5 | 70 | 3 | 1 |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Chwarae (L2APP) | 0 | 1 | 0 |
| Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae | 2 | 1 | 5 |
| Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae; Rhoi Egwyddorion ar Waith (P3) – sy'n cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma | 0 | 1 | 0 |
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Rheoli Cynllun Chwarae Gwyliau Ysgol | 1 | 0 | 0 |
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Pontio i Waith Chwarae o'r Blynyddoedd Cynnar | 17 | 1 | 5 |
| Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae | 9 | 0 | 1 |
| Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae | 2 | 1 | 0 |

DRAFFT

16.2 Gofynnodd arolwg gaeaf 2021 i ddarparwyr gofal plant mewn lleoliad am adborth ar sut yr oedd COVID-19 wedi effeithio ar recriwtio a chadw staff/gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys (fel y disgwylid) o ran eu lleoliad hwy eu hunain.

Nododd 25% o'r holl ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a'r darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol eu bod wedi gweld nifer o'u staff yn penderfynu gadael eu lleoliad yn ystod y 12 mis diwethaf, ***o ganlyniad uniongyrchol i COVID-19***.
Ar draws yr holl ymatebwyr perthnasol, roedd hyn yn gyfanswm o 29 aelod staff/gweithwyr gofal plant proffesiynol a oedd wedi gadael y proffesiwn yn amlwg o ganlyniad i COVID-19.

Roedd yr adborth a gafwyd gan ymatebwyr o ran y sectorau yr oeddent wedi 'colli staff' iddynt yn cynnwys:

(Yn fwyaf aml, geiriau i'r perwyl) *"I ddarparwr gofal plant arall yn y sector."*

*"I'r sector gofal oedolion hŷn."*

*"Roeddyn nhw wedi penderfynu rhoi'r gorau i weithio am y tro."*

*"Roedd yr aelod staff dan sylw wedi gadael i fynd i swydd mewn swyddfa."*

16.3 Roedd arolwg hydref 2021, gyda darpariaeth gofal plant blynyddoedd cynnar a lleoliadau/darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol, yn gwahodd ymatebwyr i nodi pa mor ymwybodol a datblygedig oedd eu lleoliad yn eu barn nhw o ran y rhaglen drawsnewid ADY, ynghyd â (y ffaith ei bod yn helpu gyda) chreu system unedig ar gyfer cefnogi dysgwyr rhwng 0 a 25 oed ag anghenion dysgu ychwanegol?

- Dywedodd 8% o ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar: eu bod wedi gwneud 0 cynnydd yn y maes hwn
- Dywedodd 33% o ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar: rydym ni wedi gwneud cynnydd rhagorol yn y maes hwn
- Dywedodd 58% o ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar: rydym ni'n gwneud cynnydd, ond mae gennym ni waith i'w wneud o hyd
- Dywedodd 3% o ddarparwr gofal plant y blynyddoedd cynnar: Dwi ddim yn gwybod beth ydy'r rhaglen trawsnewid ADY
- Dywedodd 0 o ddarparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol: eu bod wedi gwneud 0 cynnydd yn y maes hwn





DRAFFT

- Dywedodd 31% o ddarparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol: rydym ni wedi gwneud cynnydd rhagorol yn y maes hwn
- Dywedodd 69% o ddarparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol: rydym ni'n gwneud cynnydd, ond mae gennym ni waith i'w wneud o hyd
- Dywedodd 0 o ddarparwr gofal plant y tu allan i'r ysgol: Dwi ddim yn gwybod beth ydy'r rhaglen trawsnewid ADY

16.4 Ceisiodd arolwg hydref 2021 o ofal plant y blynyddoedd cynnar, lleoliadau/darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol a gwarchodwyr plant, ganfod o ble/pa ddarparwyr/sefydliadau yr oeddent wedi cyrchu a derbyn hyfforddiant ganddynt yn ystod y 3 blynedd diwethaf?

Y deg ffynhonnell a nodwyd amlaf oedd:

1. Mudiad Meithrin
2. High Speed Training: https://www.highspeedtraining.co.uk/
3. Hyfforddiant PACEY (Iechyd a Diogelwch) a nodwyd gan warchodwyr plant
4. Hyfforddiant Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
5. Hyfforddiant Dechrau'n Deg
6. Hyfforddiant Makaton
7. Y Brifysgol Agored
8. Clybiau Plant Cymru Kids Clubs
9. Hyfforddiant Arfon Dwyfor (ADT)
10. Hyfforddiant trwy Goleg Rhithwir

16.5 Hefyd, ar thema hyfforddiant, amlygodd ymatebion Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth SASS Gorffennaf 2021 fod:

- 7.5% of o ddarparwyr gofal plant (pob math) wedi dweud eu bod wedi cynnig/trefnu llai o hyfforddiant i'w staff o ganlyniad i COVID-19 (o'r ymatebwyr hyn, dywedodd pedwar bod diffyg staff cyflenwi wedi effeithio ar hyn hefyd).
- Dywedodd 0 darparwyr gofal plant eu bod wedi cynnig/trefnu *rhagor* o hyfforddiant i'w staff o ganlyniad i COVID-19.

Yn ogystal, gwahoddodd Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth SASS ddarparwyr gofal plant i ymateb i'r cwestiwn canlynol: *A oes gennych fynediad at yr hyfforddiant sydd ei angen arnoch ar hyn o bryd?* Dywedodd 79% o'r darparwyr gofal plant a ymatebodd: Oes.

DRAFFT

Yn olaf, fel rhan o broses Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth SASS, gofynnwyd i ddarparwyr gofal plant: *Ydych chi wedi gallu cael mynediad at hyfforddiant Rheoli Atal Heintiau (RhAH/IPC) penodol?* Yn yr ymatebion, nododd 64% o ddarparwyr gofal plant 'do', a nododd 36% 'naddo'.

16.6 Canfu arolwg hydref 2021, gyda darparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar a lleoliadau gofal plant y tu allan i'r ysgol, nifer y prentisiaid gyrfa gofal plant a oedd yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd ledled yr ardal.

Dywedodd 34% o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar a ymatebodd, ynghyd â darparwyr/lleoliadau gofal plant y tu allan i'r ysgol, eu bod yn cyflogi o leiaf un prentis yn eu lleoliad - a'r cyfanswm ar draws yr holl ddarpariaethau perthnasol oedd 25.
Dywedodd 6% o ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar a'r darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol a ymatebodd nad oeddent yn cyflogi unrhyw brentisiaid gofal plant ar hyn o bryd, ond ***eu bod*** yn bwriadu recriwtio i rôl(au) o'r fath yn y dyfodol agos. Dywedodd 60% o ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar a darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol a ymatebodd **nad oedd ganddynt unrhyw gynlluniau i recriwtio prentisiaid ar hyn o bryd**.

16.7 Fel rhan o arolwg hydref 2021 gyda darparwyr gofal plant, aethpwyd i'r afael â'r thema o ran bylchau mewn hyfforddiant.

Roedd 15% o'r lleoliadau/darparwyr gofal plant a ymatebodd – h.y. darparwyr gofal dydd llawn a darparwyr gofal sesiynol – yn ystyried bod bylchau o ran hyfforddiant/profiad o safbwynt eu lleoliad – ac, yn ôl eu hamlder, y rhai a nodwyd dro ar ôl tro oedd:

- Bwlch/bylchau'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru – a nodwyd gan 6 o ymatebwyr
- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf – a nodwyd gan 5 o ymatebwyr
- Hyfforddiant ar thema lleferydd ac iaith – a adroddwyd gan 3 o ymatebwyr

Cafwyd yr un ganran, sef 15%, o'r darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol a ymatebodd, yn ystyried bod bylchau o ran hyfforddiant/profiad o safbwynt eu lleoliad - a'r testun a nodwyd fwy nag unwaith oedd hyfforddiant Cymorth Cyntaf - a nodwyd gan 3 ymatebwr.

Roedd 28% o'r gwarchodwyr plant a ymatebodd yn ystyried bod ganddynt hwy, neu gymhorthydd, fwlch o ran eu hyfforddiant/profiad, gan nodi fwy nag unwaith:

- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf – a nodwyd gan 3 gwarchodwr plant
- Bwlch/bylchau'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru – a nodwyd gan 2 gwarchodwr plant




DRAFT

- Hyfforddiant ym maes y Blynyddoedd Cynnar, sy'n canolbwyntio ar blant o 3 mis i 3 oed – a nodwyd gan 2 warchodwr plant

16.8 Gwahoddwyd pob darparwr/lleoliad gofal plant i nodi p'un a oeddent yn trochi plant yn y Gymraeg wrth ddarparu eu cwricwlwm? Dywedodd 66% eu bod yn gwneud hynny.

Mae Tabl 45 yn nodi rhagor o fanylion o'r ymateb i SASS ym mis Gorffennaf 2021, o ran y modd yr oedd y Gymraeg yn cael ei chynnwys o safbwynt dynameg y lleoliadau Gofal Dydd Llawn a'r darparwyr Gofal Sesiynol a ymatebodd.

<u>Yr achosion o ymgorffori'r Gymraeg o fewn agweddau ar ddarpariaeth gofal plant yn y blynyddoedd cynnar ar Ynys Môn</u>




DRAFT

## 17 Atodiad 1 – Cynllun Gweithredu

| **Argymhelliad 1:** Mynediad i ofal plant, fforddiadwyedd a hyblygrwydd darpariaeth gofal plant |
|---|

| **Gweithredu** | **Swyddogion Cyfrifol Ynys Môn** | **Amserlen Allweddol** | **Canlyniadau Targed** | **Statws (UCHEL, CANOLIG, ISEL)** |
|---|---|---|---|---|
| Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio gyda phartneriaid yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant i gefnogi nifer y lleoedd cofrestredig sydd ar gael, a fydd yn cynnwys ymgysylltu â'r sector ynghylch dichonoldeb darpariaeth gofal plant hyblyg, ynghyd â'r rhwystrau o safbwynt hynny.<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol y parhau i weithio gyda phartneriaid yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant i sicrhau bod y sector yn hyderus i allu datblygu ei wasanaethau er mwyn darparu gofal | Cydlynydd Gofal Plant a Chwarae Dechrau'n Deg<br><br>Swyddog Strategol Gofal Plant a Chwarae | Mehefin 2022 ymlaen | Bod rhieni/gofalwyr yn cael mynediad i ofal plant sy'n gweithredu y tu hwnt i oriau cyfredol.<br><br>Y caiff nifer gyfredol y darparwyr ei chynnal, ynghyd â chefnogi rhagor o ddarparwyr i ddatblygu eu busnes, ac anogir darparwyr newydd, fel gwarchodwyr plant, i ddarparu dewis i rieni o ran gofal plant.<br><br>Mae nifer y darparwyr sy'n darparu lleoedd i blant 2 a 3 oed yn cyfateb i 80% o'r sector. | Canolig<br><br>Canolig<br><br>Uchel |

DRAFT

Tudalen 227

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| plant i blant 2 oed, ynghyd â pharhau i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant fel y caiff ei ail-ddylunio ar gyfer ei gyflwyno mewn ffurf newydd ar-lein. | | | | Uchel |
| Mae'r Awdurdod Lleol, ynghyd â'r holl sefydliadau ymbarél a darparwyr gofal plant yn darparu cymorth a gwybodaeth gyson i rieni / gofalwyr gael mynediad i ofal plant a gefnogir gan grant, neu a ddarperir â chymhorthdal fel Gofal Plant Di-dreth. | | | Cynnydd o ran nifer y rhieni/gofalwyr sy'n ymgeisio am ofal plant â chymhorthdal. | Uchel |
| | | | Mwy o rieni/gofalwyr yn adrodd bod gofal plant yn fwy fforddiadwy/nad yw'n rhwystr o safbwynt gwaith/hyfforddiant. | Canolig |
| Bydd yr Awdurdod Lleol a chyrff ymbarél yn cwmpasu'r bylchau yn y ddarpariaeth o ofal plant, yn enwedig o ran darpariaeth ar ôl ysgol neu yn ystod gwyliau ysgol, ac yn datblygu darpariaethau o'r fath ochr yn ochr â darparwyr | | | Caiff rhieni/gofalwyr fynediad i ofal plant trwy gydol y flwyddyn, o fewn pellter rhesymol i'w cartref neu weithle. | Uchel |
| | | | Cynnydd o ran y ddarpariaeth o ofal plant ar safleoedd ysgol. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| newydd neu rai presennol.<br>Bydd yr Awdurdod Lleol yn **ystyried bod lleoliad gofal plant yn elfen hanfodol fel rhan o'i Raglen Moderneiddio Ysgolion.** | | | Cynnydd yn nifer y lleoedd gofal plant yng Nghanolbarth Môn.<br><br>Cynnydd yn nifer y gwarchodwyr plant ledled y sir. | |

**Argymhelliad 2: Mae'r awdurdod lleol a chyrff ymbarél yn parhau i gefnogi darparwyr gofal plant** i fod o ansawdd uchel

| Gweithredu | Swyddogion Cyfrifol Ynys Môn | Amserlen Allweddol | Canlyniadau Targed | Statws (UCHEL, CANOLIG, ISEL) |
|---|---|---|---|---|
| Bydd yr Awdurdod Lleol a chyrff ymbarél yn parhau i roi cymaint o gefnogaeth ag y bo modd i'r ddarpariaeth o hyfforddiant i sicrhau lleoliadau gofal plant o ansawdd uched.<br><br>Bydd yr Awdurdod Lleol a chyrff ymbarél yn sicrhau bod darparwyr gofal plant yn cael gwybod am safonau Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn. | Cydlynydd Gofal Plant a Chwarae Dechrau'n Deg<br><br>Swyddog Strategol Gofal Plant a Chwarae | Mehefin 2022, parhaus | Cynnydd o ran presenoldeb mewn cyfleoedd hyfforddiant ar draws y sector gofal plant.<br><br>Lleoliadau gofal plant yn cael eu graddio'n dda gan AGC ac Estyn, neu'n dangos arferion sydd ymhlith y gorau yn y sector. | Canolig<br><br>Uchel |

DRAFT

**Argymhelliad 3:** Bydd yr Awdurdod Lleol a'i bartneriaid yn parhau i gefnogi'r ddarpariaeth o ofal plant i blant ag anghenion dysgu arbennig.

| Gweithredu | Swyddogion Cyfrifol Ynys Môn | Amserlen Allweddol | Canlyniadau Targed | Statws (UCHEL, CANOLIG, ISEL) |
|---|---|---|---|---|
| Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i sicrhau bod ei sector gofal plant blynyddoedd cynnar yn ymrwymo i'r rhaglen drawsnewid ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac yn cael cymorth i wneud hynny. | Cydlynydd Gofal Plant a Chwarae Dechrau'n Deg<br><br>Swyddog Strategol Gofal Plant a Chwarae | Mehefin 2022-Mawrth 2025 | Bydd y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yn gynhwysol ac yn hygyrch i bob plentyn.<br><br>Bydd darparwyr gofal plant yn hyderus o ran eu gallu i ddiwallu anghenion plentyn. | **UCHEL** |

**Argymhelliad 4:** Bydd yr Awdurdod Lleol a phartneriaid yn parhau i ddatblygu a chefnogi gofal plant cyfrwng Cymraeg.

| Gweithredu | Swyddogion Cyfrifol Ynys Môn | Amserlen Allweddol | Canlyniadau Targed | Statws (UCHEL, CANOLIG, ISEL) |
|---|---|---|---|---|
| Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'i bartneriaid yn y sector blynyddoedd cynnar a | Cydlynydd Gofal Plant a Chwarae Dechrau'n Deg<br><br>Swyddog Strategol Gofal Plant a Chwarae | Mehefin 2022-Mawrth 2025 | Cynnydd yn nifer y darparwyr gofal plant sy'n darparu trwy gyfrwng y Gymraeg. | **POB UN YN UCHEL** |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gofal plant i sicrhau bod pob rhiant/gofalwr a phlentyn yn cael mynediad i ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg.<br><br>Bydd yr Awdurdod Lleol a phartneriaid o fewn Cwlwm a'r Fenter Iaith yn cyfeirio staff a rhieni ymlaen i ddosbarthiadau Dysgu Cymraeg er mwyn hybu hyder y gweithlu i allu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. | | | Mae'r gweithlu'n hyderus o ran ei allu i ddarparu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Mae rhieni/gofalwyr yn adrodd bod digonedd o ofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael. | |

**Argymhelliad 5:** Bydd yr Awdurdod Lleol, partneriaid Cwlwm ac eraill yn cefnogi gofal plant fel gyrfa sy'n talu'n dda ac yn fawr ei pharch.

| Gweithredu | Swyddogion Cyfrifol Ynys Môn | Amserlen Allweddol | Canlyniadau Targed | Statws (UCHEL, CANOLIG, ISEL) |
|---|---|---|---|---|
| Adolygu'r ffioedd a godir ar draws y sector i alluogi adolygiad o'r cyflogau a delir ar draws y sector. | Cydlynydd Gofal Plant a Chwarae Dechrau'n Deg<br><br>Swyddog Strategol Gofal Plant a Chwarae | Mehefin 2022-Mawrth 2027 | Mae ffioedd gofal plant yn adlewyrchu anghenion y busnes ac yn cynnal y sector a'i staff i allu cynnig cyflogau sy'n cyfateb â phroffesiynau eraill ym | CANOLIG |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gweithio gyda'r sector gofal plant ar lefel ranbarthol i adolygu polisïau a gweithdrefnau o safbwynt recriwtio a chadw staff.<br><br>Adolygu'r llwybrau gyrfa sydd ar gael o lefel pobl ifanc i oedolion sydd eisoes yn gweithio yn y sector.<br>Hyrwyddo gofal plant a gwaith o fewn y sector fel gyrfa sy'n rhoi boddhad, sy'n adlewyrchu ymroddiad a chymwysterau gyda chyflog teg. | | | maes y blynyddoedd cynnar.<br><br>Wedi creu llwybrau gyrfaoedd, ynghyd â chynnydd yn y niferoedd sy'n dewis gweithio yn y sector, darpariaeth gynaliadwy o ran gofal plant.<br><br>Mae staff yn y sector yn hyderus o ran eu llwybrau gyrfa a'u cyfleoedd ac yn adrodd bod y tâl a'r amodau'n well. | |

DRAFT

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

**Datblygiad Tai Cyngor Newydd Stad Parc y Coed, Llangefni (Gwedd 4)**

**New Council Housing Development Stad Pac y Coed, Llangefni (Phase 4)**

| Paragraff(au) 12 ac 13<br>Paragraph(s) 12 and 13 | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Schedule 12A Local Government Act 1972 |
|---|---|
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd /<br><br>There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae disgwyliad am dryloywder mewn achosion yn ymwneud efo prosesau a phenderfyniadau'r Cyngor.<br><br>There is an expectation of transparency in respect of matters relating to the decision making process of the Council. | Y budd y cyhoedd wrth beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion am werth ariannol datblygiad o dai cyngor newydd. Wrth ddatgelu beth mae'r Cyngor yn ystyried ac yn fodlon dalu am dai newydd a gwerth ariannol posibl contract adeiladu tai mai'n bosibl y byddai hyn yn medru effeithio tendrau a ddychwelir am y gwaith a gallu'r Cyngor i negydu prisiau cystadleuol am waith adeiladu yn y dyfodol.<br><br>Byddai cyhoeddi'r wybodaeth yn gosod cynsail o ran faint mae'r cyngor yn fodlon dalu am waith adeiladu.<br><br>This report contains details regarding the value of a new housing development. Disclosing how much the Council is considering, and is willing to pay for new council houses and the possible value of a building contract could affect tenders returned for the work in the future and the Council's ability to negotiate competitive prices for building work.<br><br>Publishing this information would set a precedent as regards how much the Council is willing to pay for building work. |
| **Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.<br><br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. | |

Document is Restricted

This page is intentionally left blank